# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 25 Ionawr 2012
Wednesday, 25 January 2012

**Cynnwys**
**Contents**

3 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Questions to the Minister for Environment and Sustainable Development

24 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage

44 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog Rhif 11.21(iv): Benthyciadau Diwrnod Cyflog
Debate by Individual Members under Standing Order No. 11.21(iv): Pay-day Loans

69 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cyrhaeddiad Addysgol
Welsh Conservatives Debate: Educational Attainment

95 Dadl Plaid Cymru: Datblygu Cynaliadwy
Plaid Cymru Debate: Sustainable Development

115 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Prynhawn da. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
## Questions to the Minister for Environment and Sustainable Development

### Underground Coal Gasification

### Nwyeiddio Glo Tanddaerarol

***1. Suzy Davies:** What assessment has the Welsh Government made of the environmental impact of Underground Coal Gasification? OAQ(4)0072(ESD)*

***1. Suzy Davies:** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith amgylcheddol Nwyeiddio Glo Tanddaearol? OAQ(4)0072(ESD)*

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** Environmental assessments of underground coal gasification projects will be made on a project-by-project basis. The permitting and consenting process should ensure that the environment and communities are safeguarded.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Bydd asesiadau amgylcheddol yn cael eu cynnal ar bob prosiect Nwyeiddio Glo Tanddaearol unigol. Dylai'r broses drwyddedu a chaniatâd sicrhau bod yr amgylchedd a chymunedau'n cael eu diogelu.

**Suzy Davies:** You will be aware that there are plans to extract coal gas from beneath Swansea bay. Leaving aside the greenhouse gas implications, there is already evidence from the US that underground coal gasification can lead to groundwater contamination and land subsidence. So, that is something that you may need to consider on a case-by-case basis. Could you make a statement on any discussions that you may have had with the UK Government on the granting of licences?

**Suzy Davies:** Byddwch yn gwybod bod cynlluniau i gloddio nwy glo o dan fae Abertawe. Gan roi'r goblygiadau nwyon tŷ gwydr i'r neilltu, mae tystiolaeth eisoes o'r Unol Daleithiau sy'n dangos y gall nwyeiddio glo tanddaearol arwain at lygru dŵr daear ac ymsuddiant tir. Felly, mae hynny'n rhywbeth y mae'n bosibl y bydd angen i chi ei ystyried fesul achos. A allwch wneud datganiad ar unrhyw drafodaethau rydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar gyflwyno trwyddedau?

**John Griffiths:** I wish to make it clear to Members, as I have done on many occasions, that I am not able to comment on individual applications because they may come to me or go to other Welsh Ministers for decision. However, in general, I can say that we are in a position where this type of development is in its infancy and there is clearly a need to collect more evidence and information as to the benefits and impacts. I am happy to work with the UK Government and with other devolved administrations to take forward any necessary work.

**John Griffiths:** Rwyf am ei gwneud yn glir i'r Aelodau, fel yr wyf wedi'i wneud ar sawl achlysur, na allaf wneud sylwadau ar geisiadau unigol oherwydd gallant ddod ataf i neu fynd at Weinidogion eraill Cymru i wneud penderfyniad arnynt. Fodd bynnag, yn gyffredinol, gallaf ddweud ein bod mewn sefyllfa lle mae'r math hwn o ddatblygiad yn ei ddyddiau cynnar ac mae'n amlwg bod angen casglu mwy o dystiolaeth a gwybodaeth am y buddion a'r effeithiau. Rwy'n hapus i weithio gyda Llywodraeth y DU a chyda gweinyddiaethau datganoledig eraill i fwrw ymlaen ag unrhyw waith angenrheidiol.

**Julie James:** I welcome your statement on that. I too am concerned about the potential exploitation of this gas in Swansea bay. I understand entirely your point about individual applications and so on, but I would like some reassurance that we will not leap into the hands of any developer and that we will take not only environmental impact assessments and so on into account, but the general direction of travel for an asset such as Swansea bay, and ensure that we get the best from that asset for our city. Do you agree that we need to take a wider look at these issues and could you give me some reassurance that the Government is prepared to do that?

**Julie James:** Croesawaf eich datganiad ar hynny. Rwyf i hefyd yn pryderu ynghylch ecsbloetio potensial nwy ym mae Abertawe. Rwy’n deall eich pwynt yn llwyr am geisiadau unigol ac yn y blaen, ond hoffwn rywfaint o sicrwydd na fyddwn yn neidio i ddwylo unrhyw ddatblygwr ac y byddwn yn ystyried, nid yn unig asesiadau effaith amgylcheddol ac ati, ond hefyd cyfeiriad cyffredinol ased fel bae Abertawe, ac yn sicrhau ein bod yn cael y gorau o’r ased hwnnw ar gyfer ein dinas. A ydych yn cytuno bod angen inni fwrw golwg ehangach ar y materion hyn ac a allwch roi rhywfaint o sicrwydd i mi fod y Llywodraeth yn barod i wneud hynny?

**John Griffiths:** In general terms, I can say again that of course the Government takes all sorts of matters into account when looking at what is best in terms of development in Wales. However, on individual projects, the Environment Agency and others have responsibilities for consenting and permitting, and safeguards are in place.

**John Griffiths:** Yn gyffredinol, gallaf ddweud unwaith eto bod y Llywodraeth, wrth gwrs, yn ystyried pob math o faterion wrth edrych ar yr hyn sydd orau o ran datblygu yng Nghymru. Fodd bynnag, o ran prosiectau unigol, mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill gyfrifoldebau o ran cydsynio a chaniatáu, ac mae mesurau diogelwch ar waith.

**Bethan Jenkins:** Deallaf fod gan Lywodraeth Cymru, drwy arian cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop, fewnbwn i brosiect Seren a gydlynir gan Brifysgol Caerdydd wrth ymchwilio i’r sector penodol hwn. A allwch chi roi’r wybodaeth ddiweddaraf i ni am waith y prosiect hwnnw? A ydych yn hyderus fod y gwaith ymchwil yn ddigonol i ddatblygu polisi yn y maes hwn i gyd-fynd â’r hyn sy’n digwydd yn Abertawe ar hyn o bryd?

**Bethan Jenkins:** I am aware that the Welsh Government, through European regional development fund money, has an input into the Seren project, which is co-ordinated by Cardiff University as part of its research into this sector. Can you give us an update on the work of the Seren project? Are you confident that the research work is adequate in order to develop policy in this field that concords with what is happening in Swansea at present?

**John Griffiths:** Although this type of development has taken place in some parts of the world, it is in its infancy, certainly with regard to some projects. We are keen to have a developing evidence base, so I welcome research than can add to that base and we would want to share that with others in the UK and learn from work taking place outside Wales.

**John Griffiths:** Er bod y math hwn o ddatblygiad wedi digwydd mewn rhai rhannau o’r byd, y mae yn ei ddyddiau cynnar, yn sicr o ran rhai prosiectau. Rydym yn awyddus i gael sail dystiolaeth sy’n datblygu, felly rwy’n croesawu gwaith ymchwil a all ychwanegu at y sylfaen honno a byddem yn dymuno rhannu hynny ag eraill yn y DU a dysgu o’r gwaith sy’n digwydd y tu allan i Gymru.

**Peter Black:** You have already referred to the fact that this method of extracting gas is in its infancy and that you need to take account of developments around that.

**Peter Black:** Rydych eisoes wedi cyfeirio at y ffaith bod y dull hwn o dynnu nwy yn ei ddyddiau cynnar a bod angen ichi ystyried y datblygiadau sy’n gysylltiedig â hynny. Heb

Without discussing a particular application, do you not accept that, given that fact and given concerns about this process, a precautionary approach needs to be adopted by the Welsh Government in terms of granting licences and permissions? Do you agree that we need to step back and take a wider look at this before we proceed with granting such a permission?

drafod cais penodol, onid ydych yn derbyn, o ystyried y ffaith honno a phryderon am y broses hon, fod angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu ymagwedd ragofalus o ran cyflwyno trwyddedau a rhoi caniatâd? A ydych yn cytuno bod angen inni gymryd cam yn ôl a bwrw golwg ehangach ar hyn cyn inni roi caniatâd o'r fath?

**John Griffiths:** I would accept that it is new, as I said earlier, and there is a need, obviously, for that to be taken into account by those tasked with safeguarding the environment and communities. That will be the background to the various agencies exercising their responsibilities with regard to any particular project. However, it may be that we are in a similar position to that on shale gas in terms of this being a fairly new and innovative development. We see a particular approach as far as shale gas is concerned, which may be informative for this particular technology.

**John Griffiths:** Byddwn yn derbyn ei fod yn ddull newydd, fel y dywedais yn gynharach, ac, yn amlwg, mae angen i'r rhai sy'n gyfrifol am ddiogelu'r amgylchedd a chymunedau ystyried hynny. Dyna fydd y cefndir i'r gwahanol asiantaethau wrth iddynt arfer eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag unrhyw brosiect penodol. Fodd bynnag, efallai ein bod mewn sefyllfa debyg i'r sefyllfa mewn perthynas â siâl nwy o ran bod hwn yn ddatblygiad cymharol newydd ac arloesol. Rydym yn gweld dull arbennig yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â siâl nwy a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer y dechnoleg benodol hon.

**Bioamrywiaeth Dŵr Croyw**

**Freshwater Biodiversity**

***2. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella bioamrywiaeth dŵr croyw yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0084(ESD)*

***2. Jocelyn Davies:*** *Will the Minister make a statement on improving freshwater biodiversity in South Wales East. OAQ(4)0084(ESD)*

**John Griffiths:** There have been considerable improvements in freshwater biodiversity in the South Wales East area, reflecting improved water quality, the removal of barriers to fish migration and habitat restoration work. Water bodies in this area now support otters, brown trout and salmon.

**John Griffiths:** Cafwyd gwelliannau sylweddol o ran bioamrywiaeth dŵr croyw yn ardal Dwyrain De Cymru, sy'n adlewyrchu gwelliannau i ansawdd dŵr, y ffaith bod rhwystrau i fudo pysgod wedi'u dileu a gwaith adfer cynefinoedd. Mae'r dŵr yn yr ardal hon yn awr yn cefnogi dyfrgwn, brithyll brown ac eog.

**Jocelyn Davies:** I am sure that you, like me, welcome the increase in the wildlife of the freshwaters, particularly in the former industrial areas. However, there has been a growing number of incidents of crime against wildlife in freshwaters, which, in turn, will impact on the growth of the biodiversity in our rivers. Will you outline what discussions you have had with the police on this matter?

**Jocelyn Davies:** Rwy'n siŵr eich bod chi, fel myfi, yn croesawu'r cynnydd ym mywyd gwyllt y dyfroedd croyw, yn enwedig yn yr hen ardaloedd diwydiannol. Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o achosion o droseddau yn erbyn bywyd gwyllt mewn dyfroedd croyw, a fydd, yn eu tro, yn effeithio ar dwf bioamrywiaeth ein hafonydd. A wnewch chi amlinellu pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r heddlu ar y mater hwn?

**John Griffiths:** I have had no discussions with the police on the matter that Jocelyn

**John Griffiths:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r heddlu ar y mater y mae

Davies raises, but if the Member were to bring to my attention any particular incidents, I would be very happy to take them up and report back to her in due course.

Jocelyn Davies yn ei godi, ond pe bai'r Aelod yn tynnu fy sylw at unrhyw achosion arbennig, byddwn yn barod iawn i edrych arnynt ac i adrodd yn ôl iddi maes o law.

**William Graham:** You will be aware, Minister, that in England, PPS 25 has now been revised on two separate occasions. I ask you to consider, yet again, a revision of TAN 15 to protect the initiatives that are already taking place—which are greatly welcomed—and to further enhance the biodiversity of freshwater.

**William Graham:** Byddwch yn gwybod, Weinidog, fod PPS 25 wedi cael ei ddiwygio ar ddau achlysur gwahanol yn Lloegr. Gofynnaf ichi ystyried, unwaith eto, cynnal adolygiad o TAN 15 i warchod y mentrau sydd eisoes ar waith—sydd i'w croesawu'n fawr—ac i gyfoethogi bioamrywiaeth dŵr croyw ymhellach.

**John Griffiths:** We are always looking to take forward biodiversity in Wales. On Monday of next week, I will be launching our natural environment framework, and that, and many other developments, will further biodiversity policy. We are always reviewing 'Planning Policy Wales' in general, along with the technical advice notes, and there is a great deal of work ongoing, with opportunities to feed in various views.

**John Griffiths:** Rydym bob amser yn awyddus i gynyddu bioamrywiaeth yng Nghymru. Ddydd Llun yr wythnos nesaf, byddaf yn lansio ein fframwaith amgylchedd naturiol, a bydd hwnnw, a sawl datblygiad arall, yn hyrwyddo polisi bioamrywiaeth. Rydym yn adolygu 'Polisi Cynllunio Cymru' yn gyffredinol, ynghyd â'r nodiadau cyngor technegol, yn gyson ac mae llawer iawn o waith yn mynd rhagddo, gyda chyfleoedd amrywiol i fynegi barn.

**Cynlluniau Lliniaru Llifogydd**

**Flood Alleviation Schemes**

***3. Mick Antoniw:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu lefel buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn cynlluniau lliniaru llifogydd yn Ne Cymru. OAQ(4)0077(ESD)*

***3. Mick Antoniw:*** *Will the Minister outline the level of Welsh Government investment into flood alleviation schemes in South Wales. OAQ(4)0077(ESD)*

**John Griffiths:** The Welsh Government has allocated more than £38 million to support Environment Agency and local authority flood alleviation schemes in south Wales. The Welsh Government has also secured European regional development fund moneys, resulting in a further £8.7 million for schemes in south Wales.

**John Griffiths:** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu dros £38 miliwn i gefnogi cynlluniau lliniaru llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol yn ne Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sicrhau arian o gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop, sy'n golygu £8.7 miliwn ychwanegol ar gyfer cynlluniau yn ne Cymru.

**Mick Antoniw:** There are two very notable flood alleviation projects in the Pontypridd constituency; one is the Tylcha Ganol flood scheme in Tonyrefail and the other is the very major scheme in the Glyntaf Farm area of Rhydyfelin. Will you issue a statement on the progress that is being made with these projects and on the completion dates?

**Mick Antoniw:** Mae dau brosiect lliniaru llifogydd nodedig iawn yn etholaeth Pontypridd; un ohonynt yw'r cynllun llifogydd Tylcha Ganol yn Nhonyrefail a'r llall yw'r cynllun mawr iawn yn ardal Fferm Glyn-taf yn Rhydyfelin. A fyddwch yn cyhoeddi datganiad ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r prosiectau hyn a'r dyddiadau cwblhau?

**John Griffiths:** I am happy to undertake to do just that and I thank Mick Antoniw for the opportunity to do so. We have achieved considerable progress in addressing flood-risk issues in the Pontypridd constituency.

**John Griffiths:** Rwy'n hapus iawn i ymrwymo i wneud hynny ac rwy'n diolch i Mick Antoniw am y cyfle i wneud hynny. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â'r risg o lifogydd yn etholaeth Pontypridd.

**Paul Davies:** Discussions are ongoing about the way forward to improve sea defences at Abereiddy in my constituency—

**Paul Davies:** Mae trafodaethau'n parhau ynghylch y ffordd orau ymlaen er mwyn gwella amddiffynfeydd môr yn Abereiddi yn fy etholaeth i—

**The Presiding Officer:** We are talking about flood alleviation in south Wales—

**Y Llywydd:** Rydym yn sôn am leihau llifogydd yn ne Cymru—

**Paul Davies:** My constituency is in south Wales.

**Paul Davies:** Mae fy etholaeth i yn ne Cymru.

**The Presiding Officer:** Okay; that is south-west Wales—I am being very generous today.

**Y Llywydd:** Iawn; de-orllewin Cymru ydyw—rwy'n bod yn hael iawn heddiw.

**Paul Davies:** My understanding is that there is no statutory obligation for the local authority to carry out any improvements to the sea wall. Will the Minister tell us what the Welsh Government is doing to overcome an issue like this, and what action can the Welsh Government take to protect communities like this from flooding?

**Paul Davies:** Fy nealltwriaeth i yw nad oes unrhyw rwymedigaeth statudol ar yr awdurdod lleol i wneud unrhyw welliannau i'r morglawdd. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i oresgyn problemau fel hyn, a pha gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i ddiogelu cymunedau fel hyn rhag llifogydd?

**John Griffiths:** Towards the end of last year, we launched our flood-risk management strategy for Wales. That deals with the responsibilities of flood-risk authorities, which includes local authorities, the Environment Agency and others. There are responsibilities in place. We fund the Environment Agency and local authorities to carry out works. However, of course, funding is always limited, and it must be said that, for example, our Welsh Government programme is currently fully committed.

**John Griffiths:** Tuag at ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, lansiwyd ein strategaeth rheoli risg llifogydd i Gymru. Mae'n ymdrin â chyfrifoldebau awdurdodau risg lifogydd, sy'n cynnwys awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill. Mae cyfrifoldebau ar waith. Rydym yn rhoi cyllid i Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol er mwyn iddynt ymgymryd â'r gwaith. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae cyllid bob amser yn brin, a rhaid dweud, er enghraifft, fod rhaglen Llywodraeth Cymru wedi'i hymrwymo'n llwyr ar hyn o bryd.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, un o'r problemau dros y blynyddoedd o ran bygythiad llifogydd a'r gwaith o geisio atal llifogydd yw'r ffaith nad yw mapiau'r Llywodraeth yn cydredeg â mapiau Asiantaeth yr Amgylchedd. A allwch chi gadarnhau bod y broblem honno bellach wedi'i datrys a bod y mapiau nawr yn gyson?

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, one of the problems that has existed over the years regarding flood threats and the work on flood prevention is that Government maps have not always concurred with Environment Agency maps. Can you confirm that that problem has been resolved and that the maps are now consistent?

**John Griffiths:** As I understand it, the policy on, and indeed the understanding of, flood risk in Wales is fully aligned through the national strategy that I launched at the end of last year. Of course, the Environment Agency is a key partner in that.

**John Griffiths:** O'r hyn a ddeallaf, mae'r polisi ar y perygl o lifogydd yng Nghymru, ac yn wir y ddealltwriaeth ohono, wedi'i gysoni'n llawn drwy'r strategaeth genedlaethol a lansiwyd gennyf ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf. Wrth gwrs, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn bartner allweddol yn hynny.

### Ofgem

### Ofgem

***4. Vaughan Gething:*** *Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cynigion gan Ofgem i symleiddio tariffau ynni i ddefnyddwyr domestig. OAQ(4)0079(ESD)*

***4. Vaughan Gething:*** *What assessment has the Minister made of proposals by Ofgem to simplify energy tariffs for domestic consumers. OAQ(4)0079(ESD)*

**John Griffiths:** I welcome the proposals from Ofgem to increase consumer engagement in the retail energy market. Simplifying energy tariffs and making it easier for consumers to identify the best tariff for them are key factors to helping to reduce household fuel bills. We will be responding to the Ofgem consultation.

**John Griffiths:** Rwy'n croesawu'r cynigion gan Ofgem i gynyddu ymgysylltiad defnyddwyr yn y farchnad manwerthu ynni. Mae symleiddio tariffau ynni a'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddod o hyd i'r tariff gorau yn ffactorau allweddol ar gyfer helpu i ostwng biliau tanwydd cartref. Byddwn yn ymateb i ymgynghoriad Ofgem.

**Vaughan Gething:** Thank you for that answer, Minister. I am pleased to hear that the Welsh Government will respond to the consultation and I welcome the recommendations, as far as they go, to simplify tariffs. However, do you agree that there is a clear obligation on energy companies to not just simplify their tariffs, but provide more and achieve more in providing the best tariff possible for customers, particularly vulnerable families who may not be able to engage effectively with the energy market to find the best deal available?

**Vaughan Gething:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwy'n falch o glywed y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r ymgynghoriad ac rwy'n croesawu'r argymhellion, cyn belled ag y maent yn mynd, i symleiddio tariffau. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno bod cwmnïau ynni o dan rwymedigaeth glir, nid yn unig i symleiddio eu tariffau, ond hefyd i ddarparu a chyflawni mwy drwy ddarparu'r tariff gorau posibl i gwsmeriaid, yn enwedig teuluoedd sy'n agored i niwed nad ydynt efallai yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â'r farchnad ynni er mwyn dod o hyd i'r fargen orau?

**John Griffiths:** Obviously, it is a very difficult time for households in Wales, given the difficult economic times in which we live, the squeeze on disposable income and the rise in fuel prices, notwithstanding some recent announcements in the other direction. It is a key requirement that we understand who is most vulnerable and that we provide the help necessary. I am very keen to ensure that Ofgem does all it can to help the most vulnerable consumers so that they do not pay more than they need to for their energy.

**John Griffiths:** Yn amlwg, mae'n amser anodd iawn i deuluoedd yng Nghymru, o ystyried y cyfnod economaidd anodd hwn rydym yn byw ynddo, y wasgfa ar incwm gwario a'r cynnydd mewn prisiau tanwydd, er gwaethaf rhai cyhoeddiadau diweddar i'r gwrthwyneb. Mae'n ofyniad allweddol ein bod yn deall pwy sy'n fwyaf agored i niwed a'n bod yn darparu'r cymorth sydd ei angen. Rwy'n awyddus iawn i sicrhau bod Ofgem yn gwneud popeth o fewn ei allu i helpu'r defnyddwyr mwyaf agored i niwed fel nad ydynt yn talu mwy nag sydd ei angen am ynni.

**Mark Isherwood:** Ofgem's proposals should help consumers, particularly the most vulnerable customers who stand to gain most, to find the best energy deal. However, what further action can the Welsh Government take to address the problem of very low switch rates among Welsh consumers? I think that Ofgem said that, across the UK, almost 60% of people said that they had never switched providers and the number of less active customers is growing. However, we know that there is a particular issue with Wales having particularly low switch rates.

**Mark Isherwood:** Dylai cynigion Ofgem helpu defnyddwyr, yn enwedig y cwsmeriaid mwyaf agored i niwed a allai elwa fwyaf ar hyn, i ddod o hyd i'r fargen ynni orau. Fodd bynnag, pa gamau pellach y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem ynghylch y ffaith bod cyfraddau newid isel iawn ymysg defnyddwyr Cymru? Rwy'n credu i Ofgem ddweud bod 60% o bobl ledled y DU wedi dweud nad oeddent erioed wedi newid darparwr a bod nifer y cwsmeriaid llai gweithgar yn tyfu. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod problem benodol o ran bod cyfraddau newid arbennig o isel yng Nghymru.

**John Griffiths:** I was very pleased to launch the Big Energy Week this week here in Cardiff because it is very much about raising awareness of these issues and encouraging consumers to seek appropriate advice, switch providers and take other steps to ensure that their energy bills are lower than they would otherwise be. We have various partners involved in that initiative and we will continue to work with them. Consumer Focus Wales did some interesting work on the relative level of switching in Wales compared with other parts of the UK and some of the factors behind that, so we are very keen to work with all sorts of organisations and ensure that Nest, as our primary advice giver, effectively refers and signposts people so that available help is forthcoming.

**John Griffiths:** Roeddwn yn falch iawn o lansio'r Wythnos Ynni Fawr yr wythnos hon yng Nghaerdydd, gan ei bod yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o'r materion hyn ac annog defnyddwyr i geisio cyngor priodol, newid darparwyr a chymryd camau eraill er mwyn sicrhau bod eu biliau ynni'n is nag y byddent fel arall. Mae gennym bartneriaid amrywiol sy'n ymwneud â'r fenter honno a byddwn yn parhau i weithio gyda hwy. Gwnaeth Llais Defnyddwyr Cymru waith diddorol ar lefel gymharol newid darparwyr yng Nghymru o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU a rhai o'r ffactorau y tu ôl hynny, felly rydym yn awyddus iawn i weithio gyda phob math o fudiadau a sicrhau bod Nyth, fel ein prif gynghorydd, yn rhoi pobl ar y trywydd cywir fel eu bod yn cael y cymorth sydd ar gael iddynt.

**Jenny Rathbone:** It is fortunate that, so far, we have had quite a mild winter. This review is long overdue. The competitive market, such as it is, is really not working properly, so it is very important that people are clear that they need to switch in order to get a better price. Many consumer bodies are saying that the reforms do not go far enough because they simplify only the standard tariffs and because they do not help those who have gas and electricity from the same provider. Will the Government go further and press Ofgem to address that issue as well?

**Jenny Rathbone:** Mae'n ffodus ein bod wedi cael gaeaf eithaf mwyn, hyd yma. Rydym wedi bod yn aros yn hir am yr adolygiad hwn. Nid yw'r farchnad gystadleuol, fel y mae, yn gweithio'n iawn, felly mae'n bwysig iawn fod pobl yn deall bod angen iddynt newid darparwr i gael gwell pris. Mae nifer o gyrff defnyddwyr yn dweud nad yw'r diwygiadau yn mynd yn ddigon pell oherwydd maent yn symleiddio'r tariffau safonol yn unig ac nid ydynt yn helpu'r rhai hynny sy'n cael nwy a thrydan gan yr un darparwr. A fydd y Llywodraeth yn mynd ymhellach ac yn pwyso ar Ofgem i fynd i'r afael â'r mater hwnnw hefyd?

**John Griffiths:** I would be very pleased to press those matters with Ofgem. Indeed, I

**John Griffiths:** Byddwn yn falch iawn o godi'r materion hynny gydag Ofgem. Yn wir,

regularly meet with the energy companies, so I can raise many relevant points around these matters. It is also important that many of the organisations involved in addressing fuel poverty issues respond to the Ofgem consultation and make appropriate points.

rwy'n cyfarfod gyda'r cwmnïau ynni yn rheolaidd, felly gallaf godi nifer o bwyntiau perthnasol mewn perthynas â'r materion hyn. Mae hefyd yn bwysig bod nifer o'r sefydliadau sy'n ymwneud â mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn ymateb i ymgynghoriad Ofgem a gwneud pwyntiau priodol.

1.45 p.m.

**Leanne Wood:** Minister, the proposals by Ofgem to simplify energy tariffs are to be welcomed, but I agree with the Which? consumer group, which says that they do not go far enough. For example, the simpler energy tariff system proposed by Ofgem only covers one type of energy tariff, which is the standard one. That means that the energy companies' ploy of confusing customers with many different deals will continue, and it will be impossible for customers to compare everything properly. Given that many thousands of people in Wales are overpaying for their energy, will you agree to make representations so that the energy tariff system is made completely transparent during this Ofgem consultation on energy tariffs?

**Leanne Wood:** Weinidog, mae cynigion Ofgem i symleiddio tariffau ynni i'w croesawu, ond rwy'n cytuno â'r grŵp defnyddwyr, Which? sy'n dweud nad ydynt yn mynd yn ddigon pell. Er enghraifft, dim ond un math o dariff y mae'r system tariff ynni symlach a gynigiwyd gan Ofgem yn ymdrin ag ef, sef yr un safonol. Mae hynny'n golygu y bydd tacteg y cwmnïau ynni o ddrysu cwsmeriaid â llawer o wahanol fargeinion yn parhau, a bydd yn amhosibl i gwsmeriaid gymharu popeth yn iawn. O ystyried bod miloedd o bobl yng Nghymru yn gordalu am eu hynni, a wnewch chi gytuno i gyflwyno sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad hwn gan Ofgem ar dariffau ynni fel bod y system tariffau ynni yn cael ei gwneud yn un gwbl dryloyw?

**John Griffiths:** I would be very keen to ensure as much simplicity and understandability as possible, because that makes comparison much easier. We know from a recent report by Consumer Focus Wales, for example, that many people feel that it is difficult to know how best to compare prices and that they find thinking about these matters a lot of hassle—I think that that was the word used. It is really important that we have greater simplicity. I attended the all-party group on fuel poverty this morning and met the Fuel Poverty Coalition earlier this week and those points, as well as many others, were strongly expressed. I very much hope that we can take them up with various bodies, including Ofgem.

**John Griffiths:** Byddwn yn awyddus iawn i sicrhau cymaint o symlrwydd a dealltwriaeth â phosibl, oherwydd byddai hynny'n ei gwneud yn llawer haws i gymharu. Rydym yn gwybod o adroddiad diweddar gan Llais Defnyddwyr Cymru, er enghraifft, fod llawer o bobl yn teimlo ei bod yn anodd gwybod beth yw'r ffordd orau o gymharu prisiau a'u bod yn ystyried y materion hyn fel llawer o drafferth—rwy'n credu mai *hassle* oedd y gair a ddefnyddiwyd. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael mwy o symlrwydd. Mynychais gyfarfod o'r grŵp trawsbleidiol ar dlodi tanwydd y bore yma ac, yn gynharach yr wythnos hon, cefais gyfarfod â'r Gynghrair Tlodi Tanwydd, a chafodd y pwyntiau hynny, yn ogystal â llawer o rai eraill, eu mynegu'n gryf. Rwy'n gobeithio'n fawr y gallwn eu codi ag amryw o gyrff amrywiol, gan gynnwys Ofgem.

**Eluned Parrott:** Minister, you mentioned the report by Consumer Focus Wales that was launched last week. It found, among other things, a strong correlation between access to broadband and the willingness of people to

**Eluned Parrott:** Weinidog, gwnaethoch sôn am adroddiad gan Llais Defnyddwyr Cymru a lansiwyd yr wythnos diwethaf. Canfu'r adroddiad, ymhlith pethau eraill, gydberthynas gref rhwng mynediad at fand

switch suppliers to find the best deals. Obviously, in the long term, we hope that everyone will have decent access to broadband, but, in the meantime, what can the Welsh Government do to ensure that households that are not able to access price comparison and switching websites are able, nevertheless, to find good sources of independent advice?

eang a pharodrwydd pobl i newid cyflenwyr i ddod o hyd i'r fargen orau. Yn amlwg, yn yr hirdymor, rydym yn gobeithio y bydd pawb yn cael mynediad boddhaol at fand eang, ond, yn y cyfamser, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod aelwydydd nad ydynt yn gallu cael mynediad at wefannau cymharu prisiau a gwefannau newid cyflenwyr, er hynny, yn dod o hyd i ffynonellau da o gyngor annibynnol?

**John Griffiths:** Again, our Nest advice service is important, because it provides advice directly as well as referring people to others that can help with fuel poverty issues and much else besides, which addresses poverty effectively. As I said, I launched the Big Energy Week earlier this week, which is important in raising awareness and bringing together a range of organisations that can provide the sort of help to which you referred.

**John Griffiths:** Unwaith eto, mae gwasanaeth cyngor Nyth yn bwysig, oherwydd ei fod yn cynnig cyngor yn uniongyrchol yn ogystal â chyfeirio pobl at eraill a all helpu gyda materion tlodi tanwydd a llawer o bethau eraill, sy'n mynd i'r afael â thlodi yn effeithiol. Fel y dywedais, roeddwn yn lansio Wythnos Ynni Fawr yn gynharach yr wythnos hon, sy'n bwysig o ran codi ymwybyddiaeth a dwyn ynghyd amrywiaeth o sefydliadau a all ddarparu'r math o gymorth rydych yn cyfeirio ato.

**Julie Morgan:** As well as lacking access to broadband, people who do not switch also tend to be younger and on low incomes. The fact that Consumer Focus Wales found that they tend to be younger is probably a bit of a surprise. Do you think that the Ofgem recommendations will address that issue?

**Julie Morgan:** Yn ogystal â diffyg mynediad at fand eang, mae'r bobl nad ydynt yn newid hefyd yn tueddu i fod yn iau ac ar incwm isel. Mae'r ffaith bod Llais Defnyddwyr Cymru wedi canfod eu bod yn tueddu i fod yn iau yn dipyn o syndod, efallai. Ydych chi'n credu y bydd argymhellion Ofgem yn mynd i'r afael â'r mater hwnnw?

**John Griffiths:** Consumer Focus Wales has carried out some valuable work, some of which may be counterintuitive to some extent, as Julie Morgan mentioned. We would want to ensure that all of those points are addressed by Ofgem and, indeed, by others with a role to play.

**John Griffiths:** Mae Llais Defnyddwyr Cymru wedi cynnal gwaith ymchwil gwerthfawr, a gall peth ohono fod yn groes i'r disgwyl i ryw raddau, fel y soniodd Julie Morgan. Rydym am sicrhau bod pob un o'r pwyntiau hynny yn cael sylw gan Ofgem ac, yn wir, gan eraill sydd â rôl i'w chwarae.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***5. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Tor-faen yn 2012. OAQ(4)0082(ESD)*

***5. Lynne Neagle:*** *Will the Minister outline his priorities for Torfaen in 2012. OAQ(4)0082(ESD)*

**John Griffiths:** I am committed to fulfilling, across Wales, the commitments that are set out for my portfolio in the programme for government. These include putting sustainable development at the heart of government and integrating the way in which we manage and regulate our use of land, sea, air and water.

**John Griffiths:** Rwyf wedi ymrwymo i gyflawni, ar draws Cymru, yr ymrwymiadau a nodwyd ar gyfer fy mhortffolio yn y rhaglen lywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi lle canolog i ddatblygu cynaliadwy o fewn llywodraeth ac integreiddio'r ffordd rydym yn rheoli ac yn rheoleiddio ein defnydd o dir, môr, aer a dŵr.

**Lynne Neagle:** Are you aware of the Save the Children research that found that only 3% of families eligible for the UK Government's warm home discount scheme were benefitting from the scheme? That was mainly due to a massive failure on the part of energy companies to fund and promote the discount to their customers. In view of that, and the discussion that we have had in answer to Vaughan Gething's question, would you agree that that is scandalous behaviour by the energy companies? When you next meet them, will you make strong representations to them, as well as making representations to the UK Government? We also should not let it off the hook on this issue.

**Lynne Neagle:** A ydych yn ymwybodol o waith ymchwil Achub y Plant a ganfu mai dim ond 3% o'r teuluoedd sy'n gymwys am gynllun disgownt cartrefi cynnes Llywodraeth y DU sy'n elwa o'r cynllun? Roedd hynny'n bennaf oherwydd methiant enfawr ar ran cwmnïau ynni i ariannu a hyrwyddo'r disgownt i'w cwsmeriaid. O gofio hynny, a'r drafodaeth a gawsom yn dilyn cwestiwn Vaughan Gething, a fyddech yn cytuno bod hwn yn ymddygiad cywilyddus ar ran y cwmnïau ynni? Pan fyddwch yn eu cyfarfod nesaf, a wnewch chi fynegi'r sylwadau hyn yn gryf iddynt, yn ogystal â gwneud sylwadau i Lywodraeth y DU? Ni ddylem adael iddi esgeuluso ei chyfrifoldeb ar y mater hwn.

**John Griffiths:** I would be pleased to take up those concerns with the energy companies when we next meet. In fact, Save the Children raised these matters at the all-party group meeting this morning. There is much that could be done, particularly in working with the UK Government on the benefits system, so that benefitting from such discounts for those who really need that help is more automatic.

**John Griffiths:** Byddwn yn falch o godi'r pryderon hynny â'r cwmnïau ynni pan fyddwn yn cyfarfod nesaf. Yn wir, soniodd Achub y Plant am y materion hyn yng nghyfarfod y grŵp trawsbleidiol y bore yma. Mae llawer y gellir ei wneud, yn enwedig o ran gweithio gyda Llywodraeth y DU ar y system fudd-daliadau, fel bod y rhai sydd wir angen cymorth yn elwa'n awtomatig o ostyngiadau o'r fath.

**Mohammad Asghar:** Minister, there is a serious problem with fly-tipping in Torfaen. It has cost Torfaen County Borough Council over £18,500 to clean up 351 fly-tipping incidents in the area. Fly-tipping damages our environment, has a massive effect on the quality of life in our communities, and leads to more serious social problems. It is a real burden on taxpayers in terms of clean-up costs. Can the Minister elaborate on the waste strategy that he intends to enforce in 2012 to ensure that unacceptable behaviour, such as fly-tipping, does not occur in Torfaen and in Wales in general?

**Mohammad Asghar:** Weinidog, mae problem ddifrifol â thipio anghyfreithlon yn Nhor-faen. Mae wedi costio Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen dros £18,500 i lanhau 351 digwyddiad o dipio anghyfreithlon yn yr ardal. Mae tipio anghyfreithlon yn difrodi ein hamgylchedd, yn cael effaith enfawr ar ansawdd bywyd yn ein cymunedau, ac yn arwain at broblemau cymdeithasol mwy difrifol. Mae'n faich go iawn ar drethdalwyr o ran costau glanhau. A all y Gweinidog ymhelaethu ar y strategaeth gwastraff y mae'n bwriadu ei gorfodi yn 2012 i sicrhau nad yw ymddygiad annerbyniol, fel tipio anghyfreithlon, yn digwydd yn Nhor-faen nag yng Nghymru yn gyffredinol?

**John Griffiths:** I agree that fly-tipping is a significant problem in Wales. It is one of a range of environmental issues that very much impact on people's lives and which people, rightly, feel strongly about. You might call it one of the bread-and-butter environmental issues. Thankfully, we have made

**John Griffiths:** Rwy'n cytuno bod tipio anghyfreithlon yn broblem fawr yng Nghymru. Mae'n un o nifer o faterion amgylcheddol sy'n effeithio'n sylweddol ar fywydau pobl ac mae'n gwbl iawn fod pobl yn teimlo'n gryf yn eu cylch. Efallai y gallech ei alw'n un o'r materion bara menyn

considerable progress. Fly-tipping Action Wales has had considerable success, with funding from the Welsh Government, in helping with Environment Agency and local authority initiatives. There has been a reduction in the amount of fly-tipping and an increased number of prosecutions. So that effort is taking place across Wales, and we will continue to build on that work in Torfaen and elsewhere.

amgylcheddol. Diolch byth, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol. Mae Taclo Tipio Cymru wedi cael cryn lwyddiant, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, wrth helpu i gyflawni mentrau Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol. Bu gostyngiad yn nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a chafwyd nifer cynyddol o erlyniadau. Felly, mae'r ymdrech honno'n digwydd ledled Cymru, a byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith hwnnw yn Nhor-faen ac mewn mannau eraill.

**Jocelyn Davies:** Minister, I am sure that one of your priorities will be the protection of the vulnerable. I heard what you said earlier in response to questions on the energy companies. When you have those discussions about tariffs, would you also have discussions with those major energy companies that offer maintenance and installation services for central heating systems—I am sure that you all know who I am talking about—about fair practice? Recently, a family of an 87-year-old showed me an estimate from a major company for £1,300 for work that was carried out by a local, respected company for just £150.

**Jocelyn Davies:** Weinidog, rwy'n sicr mai un o'ch blaenoriaethau chi fydd amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Clywais yr hyn a ddywedoch yn gynharach mewn ymateb i gwestiynau ar y cwmnïau ynni. Pan gewch y trafodaethau hynny am dariffau, a wnewch chi hefyd gael trafodaethau â'r cwmnïau ynni mawr hynny sy'n cynnig gwasanaethau cynnal a chadw a gosod systemau gwres canolog—rwy'n siŵr eich bod i gyd yn gwybod at bwy rydw i'n cyfeirio—ynghylch arfer teg? Yn ddiweddar, dangosodd teulu rhywun 87 oed amcangyfrif i mi o £1,300 gan gwmni mawr am waith a wnaed gan gwmni lleol, ag enw da, am ddim ond £150.

**John Griffiths:** If Jocelyn Davies wishes to write to me with the details, I would be happy to take that matter up with the energy companies when we next meet. Consumer protection is in place and there are complaint mechanisms that could be used by that individual. I hope that those opportunities are pursued.

**John Griffiths:** Os yw Jocelyn Davies yn dymuno ysgrifennu ataf gyda'r manylion, byddwn yn hapus i godi'r mater hwnnw gyda'r cwmnïau ynni pan fyddwn yn cyfarfod nesaf. Mae system o ddiogelu defnyddwyr mewn grym ac mae yna ddulliau o gwyno y gallai'r unigolyn hwnnw eu defnyddio. Rwy'n gobeithio y bydd y cyfleoedd hynny'n cael eu defnyddio.

### Llyn Padarn

### Llyn Padarn

***6. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglyn â statws Llyn Padarn fel SoDdGA. OAQ(4)0085(ESD)*

***6. Alun Ffred Jones:*** *Will the Minister make a statement regarding the status of Llyn Padarn as an SSSI. OAQ(4)0085(ESD)*

**John Griffiths:** Mae Llyn Padarn, ger Llanberis, yn ardal o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys Asiantaeth Amgylchedd Cymru, er mwyn sicrhau bod nodweddion pwysig y safle, fel y torgoch, sy'n bysgodyn prin, yn destun mesurau cadwraeth priodol, yn unol â datganiad rheoli'r safle.

**John Griffiths:** Llyn Padarn near Llanberis is a site of special scientific interest. The Countryside Council for Wales is working with key partners, including the Environment Agency Wales, to ensure that the important features of the site, like the rare fish, the arctic charr, are subject to appropriate conservation measures, as required by the site management statement.

**Alun Ffred Jones:** Mae sefyllfa Llyn Padarn

**Alun Ffred Jones:** The situation in Llyn

wedi dirywio dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Cyfeirioch at y torgoch—mae'r sefyllfa bellach mor argyfyngus fel bod Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn symud wyau'r torgoch o'r llyn i lynnoedd arall. Mae'n amlwg nad oes ganddynt ffydd y bydd y pysgod yn gallu parhau yn y llyn, gan fod safon y dŵr wedi dirywio dros y blynyddoedd. Credaf fod hynny'n esgeulustod ar ran y ddau gorff hynny. Mae gennych gyfrifoldeb penodol yn y maes hwn i warchod yr amgylchedd. A fyddech yn barod i ddod i gyfarfod â nifer o bartneriaid sy'n poeni am y sefyllfa ac yn cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan y dirywiad hwnnw?

Padarn has deteriorated over the past 20 years. You mentioned the arctic charr—the situation is now so critical that the Environment Agency and the Countryside Council for Wales are moving arctic charr roe from the lake to other lakes. It is clear that they are not confident that the fish can survive in the lake, given that the water quality has deteriorated over the years. I think that that shows negligence on the part of those two bodies. You have a specific duty to protect the environment. Would you be willing to come to meet a number of partners that are concerned about the situation and are directly affected by that deterioration?

**John Griffiths:** I know that Alun Ffred Jones is a member of the local forum that is addressing those issues. The Countryside Council for Wales and other key partners, including the Environment Agency, have also been addressing those issues. I understand that significant work has been carried out over a number of years and that progress has been made. For example, I understand that the algal bloom that was a significant problem some two or three years ago has not reoccurred. I understand that there has been a lot of work and that some progress has been made. If there are ongoing issues, they must be addressed. I will certainly look at my diary to see whether it is possible to arrange a meeting.

**John Griffiths:** Rwy'n gwybod bod Alun Ffred Jones yn aelod o'r fforwm lleol sy'n mynd i'r afael â'r materion hynny. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru a phartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, hefyd wedi bod yn mynd i'r afael â'r materion hynny. Rwy'n deall bod gwaith sylweddol wedi ei wneud dros nifer o flynyddoedd a bod cynnydd wedi ei wneud. Er enghraifft, rwy'n deall nad yw'r yslafan algaidd a oedd yn broblem sylweddol rhyw ddwy neu dair blynedd yn ôl wedi dychwelyd. Rwy'n deall bod llawer o waith wedi'i wneud a bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud. Os oes materion parhaus, rhaid rhoi sylw iddynt. Byddaf yn sicr yn edrych yn fy nyddiadur i weld a yw'n bosibl trefnu cyfarfod.

**Antoinette Sandbach:** Given the difficulties that Welsh Water faces in dealing with waste water ingress, which one of the problems that cause pollution at Llyn Padarn, as well as the impracticality of sending sewage to an alternative destination, such as Caernarfon, for processing, can you confirm what assistance you have offered to Welsh Water to help it to prioritise funding on improving the Llanberis works and safeguarding the status of the arctic charr at the lake?

**Antoinette Sandbach:** O ystyried yr anawsterau y mae Dŵr Cymru yn eu hwynebu wrth ymdrin â dŵr gwastraff, sef un o'r problemau sy'n peri llygredd yn Llyn Padarn, yn ogystal ag anymarferoldeb anfon carthion i gyrchfan amgen, fel Caernarfon, ar gyfer prosesu, a allwch gadarnhau pa gymorth rydych wedi ei gynnig i Dŵr Cymru i'w helpu i flaenoriaethu cyllid er mwyn gwella gwaith Llanberis a diogelu statws y torgoch arctig yn y llyn?

**John Griffiths:** Dŵr Cymru has responsibilities in relation to the quality of water services, including sewerage, and has, in fact, carried out a number of works to deal with these specific issues. I know from my meetings with it that it takes that responsibility very seriously and that there

**John Griffiths:** Mae gan Dŵr Cymru gyfrifoldebau mewn perthynas ag ansawdd y gwasanaethau dŵr, gan gynnwys carthffosiaeth, ac, mewn gwirionedd, mae wedi cynnal llawer o waith i ymdrin â'r materion penodol hyn. Rwy'n gwybod o fy nghyfarfodydd â Dŵr Cymru ei fod yn

will be further investigation of these matters and further work in the future.

cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif ac y bydd ymchwiliad pellach i'r materion hyn a gwaith pellach yn cael ei wneud yn y dyfodol.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***7. Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf. OAQ(4)0078(ESD)*

***7. Paul Davies**: Will the Minister outline his priorities for the next 12 months. OAQ(4)0078(ESD)*

**John Griffiths:** I am committed to fulfilling the commitments that are set out for my portfolio in the programme for government. These include putting sustainable development at the heart of government and integrating the way in which we manage and regulate our use of land, sea, air and water.

**John Griffiths:** Rwyf wedi ymrwymo i gyflawni'r ymrwymiadau sydd wedi'u hamlinellu yn y rhaglen lywodraethu ar gyfer fy mhortffolio. Maent yn cynnwys gwneud datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o holl waith Llywodraeth Cymru ac integreiddio'r ffordd rydym yn rheoli ac yn rheoleiddio ein defnydd o'r tir, y môr, yr aer a dŵr.

**Paul Davies:** Thank you for that response, Minister. Last week, we debated the importance of planning to economic growth, which I am sure is a priority of yours. A church congregation in my constituency has been successful in obtaining planning permission to build a new church and community hall. However, in order to comply with your Government's policy, BRE has had to conduct a sustainability assessment, and I am told that it had no model in place to consider this type of application. As a result, the congregation has been charged some £2,700 as the first applicant of this type. Further such applicants, I am told, will not be charged. Will the Minister consider looking at this anomaly and does he agree that penalising the first applicant is unfair?

**Paul Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yr wythnos diwethaf, roeddem yn trafod pa mor bwysig yw cynllunio i dwf economaidd, sydd, rwyf yn sicr, yn flaenoriaeth ichi. Mae aelodau eglwys yn fy etholaeth i wedi bod yn llwyddiannus gyda chaniatâd cynllunio i adeiladu eglwys newydd a neuadd gymunedol. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio â pholisi eich Llywodraeth, mae'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu wedi gorfod cynnal asesiad cynaliadwyedd, ac rwyf ar ddeall nad oedd ganddo unrhyw fodel i ystyried y math hwn o gais. O ganlyniad, mae'r eglwys wedi cael anfoneb o tua £2,700 am fod yn ymgeisydd cyntaf o'r math hwn. Dywedwyd wrthyf na fydd y tâl hwn yn cael ei godi ar ymgeiswyr o'r fath yn y dyfodol. A wnaiff y Gweinidog ystyried edrych ar yr anghysondeb hwn, ac a yw'n cytuno bod cosbi'r ymgeisydd cyntaf yn annheg?

**John Griffiths:** I am willing to look at this matter, and, if the Member writes to me with the details, I will be pleased to respond. A lot of work is going on, as I have referred to in recent weeks, around the planning system in Wales, with a lot of opportunities to feed in views, including to the independent advisory group. I very much hope that those opportunities will be used.

**John Griffiths:** Rwy'n barod i edrych ar y mater hwn, ac, os yw'r Aelod yn ysgrifennu ataf gyda'r manylion, byddaf yn falch o ymateb. Mae llawer o waith yn mynd ymlaen, fel rwyf wedi cyfeirio ato yn ystod yr wythnosau diwethaf, mewn perthynas â'r system gynllunio yng Nghymru, gyda llawer o gyfleoedd i roi barn, gan gynnwys i'r grŵp cynghori annibynnol. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y cyfleoedd hynny'n cael eu defnyddio.

**Christine Chapman:** I know that the Welsh

**Christine Chapman:** Rwy'n gwybod bod

Government intends to bring forward legislation to promote a more sustainable attitude to our environment. As a priority, Minister, could you look at incorporating further work on the status of village greens into that? I am aware that there are several cases around Wales where communities have managed to secure this designation for a local green space, but there are implications if developers have outline planning permission. Can you clarify whether any work has been done on this by your officials?

Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i hyrwyddo agwedd fwy cynaliadwy at ein hamgylchedd. Fel blaenoriaeth, Weinidog, a fyddech yn edrych ar gynnwys gwaith pellach ar statws mannau gwyrdd mewn pentrefi yn hynny? Rwy'n ymwybodol o nifer o achosion o amgylch Cymru lle mae cymunedau wedi llwyddo i sicrhau'r dynodiad hwn ar gyfer man gwyrdd lleol, ond mae goblygiadau os bydd datblygwyr yn cael caniatâd cynllunio amlinellol. Allwch chi egluro a oes unrhyw waith wedi ei wneud ar hyn gan eich swyddogion?

**John Griffiths:** A great deal of work is going on at the moment around 'Planning Policy Wales' and technical advice notes, and, as I just mentioned, there will be ample opportunity to feed in views to the independent advisory group, which has issued a call for evidence, and as we take policy and legislation forward. Therefore, I would very much welcome Members, their constituents and all sorts of groups contributing to that process so that we can shape effectively the planning system in Wales for the future.

**John Griffiths:** Mae llawer iawn o waith yn mynd ymlaen ar hyn o bryd o ran 'Polisi Cynllunio Cymru' a nodiadau cyngor technegol, ac, fel y soniais gynnau, bydd digon o gyfle i roi barn i'r grŵp cynghori annibynnol, sydd wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth, ac wrth inni weithio ar bolisïau a deddfwriaeth. Felly, byddwn yn croesawu'n fawr iawn petai Aelodau, eu hetholwyr a phob math o grwpiau yn cyfrannu at y broses honno er mwyn inni lunio yn effeithiol y system gynllunio yng Nghymru ar gyfer y dyfodol.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Weinidog, rydych yn gwybod ein bod yn edrych ymlaen yn awchus at weld cyhoeddi'r ddogfen genedlaethol bwysig ynglŷn â'r amgylchedd naturiol ddydd Llun nesaf. A allwch ein sicrhau y bydd y ddogfen fframwaith amgylcheddol yn gosod y safon a'r cyfeiriad i holl weithgarwch y Llywodraeth a'i hasiantaethau ar ôl iddi gael ei chyhoeddi ac na fydd y weledigaeth yn y ddogfen yn cael ei glastwreiddio mewn deddfwriaeth a fydd yn dilyn?

**Lord Elis-Thomas:** Minister, you will know that we are looking forward with great anticipation to the publication of the nationally important document on the natural environment next Monday. Can you give us an assurance that the environmental framework document will set the standard and the direction for all the activities of the Government and its agencies once it has been published and that the vision contained within the document will not be diluted in any subsequent legislation?

**John Griffiths:** I thank Dafydd Elis-Thomas for those comments and offer assurance that that natural environment framework will be very much in accordance with our sustainable development principles. As we take forward legislation on sustainable development, it will be designed to apply to the devolved public sector in Wales as well as to the Welsh Government, so that the central organising principle of sustainable development, which we currently have by choice as a Welsh Government, will have legislative force. That will be for the devolved public sector and for

**John Griffiths:** Diolch i Dafydd Elis-Thomas am y sylwadau hynny ac am gynnig sicrwydd y bydd y fframwaith hwnnw ar gyfer yr amgylchedd naturiol yn cydymffurfio â'n hegwyddorion datblygu cynaliadwy. Wrth inni ddatblygu deddfwriaeth ar ddatblygu cynaliadwy, caiff ei gynllunio i fod yn gymwys i'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn ogystal ag i Lywodraeth Cymru, fel y bydd gan yr egwyddor ganolog honno o ddatblygu cynaliadwy, sydd gennym o ddewis fel Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, rym

us.

deddfwriaethol. Bydd hynny’n wir ar gyfer y sector cyhoeddus datganoledig ac i ni.

2.00 p.m.

**William Powell:** Minister, agri-environment schemes are a vital source of income and support for farm diversification. In addition, they are an important source of support for land management for wildlife. Given that you have responsibility for this area in Wales, what contribution do you envisage the Glastir scheme making towards delivering the European Union 2020 target of halting the loss of biodiversity, to ensure a future that is rich in wildlife? To that end, what discussions have you had with the Deputy Minister?

**William Powell:** Weinidog, mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ffynhonnell hanfodol o incwm a chefnogaeth i alluogi ffermydd i arallgyfeirio. Maent hefyd yn ffynhonnell bwysig o gefnogaeth i reoli tir ar gyfer bywyd gwyllt. O ystyried mai chi sydd â chyfrifoldeb dros y maes hwn yng Nghymru, pa gyfraniad rydych chi’n ei ragweld y bydd cynllun Glastir yn ei wneud tuag at gyflawni targed yr Undeb Ewropeaidd o atal colli bioamrywiaeth erbyn 2020, er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i fywyd gwyllt? I’r perwyl hwnnw, pa drafodaethau rydych wedi’u cael â’r Dirprwy Weinidog?

**John Griffiths:** I have had a number of discussions with Alun Davies on these matters. When you consider how much of Wales’s landmass is farmed, it is very important that we have effective environmental policies. Glastir can be very effective in taking agri-environment policy forward. That is crucial to biodiversity. I hope very much that the natural environment framework, which I am due to launch on Monday, will make clear the Welsh Government’s commitment to biodiversity.

**John Griffiths:** Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau ag Alun Davies ar y materion hyn. Pan fyddwch yn ystyried faint o dir Cymru sy’n cael ei ffermio, mae’n bwysig iawn bod gennym bolisïau amgylcheddol effeithiol. Gall Glastir fod yn effeithiol iawn yn datblygu polisïau amaeth-amgylcheddol. Mae hynny’n hanfodol i fioamrywiaeth. Rwy’n gobeithio’n fawr y bydd fframwaith yr amgylchedd naturiol, y byddaf yn ei lansio ddydd Llun, yn pwysleisio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fioamrywiaeth.

**Russell George:** Minister, one of the Government’s key priorities for this year is the independent advisory group’s review of the Welsh planning system, to be led by John Davies. One of the concerns in rural mid Wales is that there is no-one on the panel who really represents rural planning or understands particularly rural interests. You will probably point to Mike Webb’s membership of the panel, but are you confident that the Royal Society for the Protection of Birds can represent the voice of rural businesses—exactly the people who are in desperate need of an improved planning system?

**Russell George:** Weinidog, un o brif flaenoriaethau’r Llywodraeth eleni fydd adolygiad y grŵp cynghori annibynnol o system gynllunio Cymru o dan arweiniad John Davies. Un o bryderon pobl yng nghefn gwlad canolbarth Cymru yw nad oes neb ar y panel sy’n cynrychioli cynllunio gwledig mewn gwirionedd neu’n deall diddordebau gweldig yn arbennig. Mae’n debyg y byddwch yn cyfeirio at Mike Webb fel aelod o’r panel, ond a ydych chi’n hyderus y gall y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar gynrychioli llais busnesau cefn gwlad—sef yr union bobl sy’n daer i weld y system gynllunio’n gwella?

**John Griffiths:** The Member mentioned John Davies. He has a great deal of experience from Planning Inspectorate Wales, where he will have dealt with rural and urban planning issues of all types in varied circumstances. Taking the panel as a

**John Griffiths:** Soniodd yr Aelod am John Davies. Mae ganddo lawer o brofiad o Arolygiaeth Gynllunio Cymru, lle bu’n ymdrin â materion cynllunio gwledig a threfol o bob math mewn amgylchiadau amrywiol. O edrych ar y panel yn ei

whole—he mentioned one relevant member—there is a broad spread of experience and knowledge. Of course, the opportunity is to feed views into that independent advisory group, and I am sure that many who have concerns that are related to rural Wales will take that opportunity.

gyfanrwydd—soniodd am un aelod perthnasol—mae yna ystod eang o brofiad a gwybodaeth. Wrth gwrs, bydd cyfle i gyfrannu sylwadau i'r grŵp cynghori annibynnol, ac rwy'n siŵr y bydd llawer sydd â phryderon sy'n gysylltiedig â chefn gwlad Cymru am fanteisio ar y cyfle hwnnw.

**Russell George:** Thank you for that reply, but there is a danger that rural issues will be completely overlooked and not reflected in future legislation.

**Russell George:** Diolch am yr ateb hwnnw, ond mae perygl y bydd materion gwledig yn cael eu hanwybyddu'n llwyr ac na chânt eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.

My other concern is that of rural-proofing the new planning system. What we need from the new system is for it to be streamlined, transparent and consistent, whether that is in urban or rural Wales. Do you agree that speeding up the planning process should not create a two-tier system that fast-tracks urban applications and leaves more complex rural applications trailing behind?

Fy mhryder arall yw'r elfen o brawfesur y system gynllunio newydd o safbwynt wledig. Mae angen i'r system newydd fod yn syml, yn dryloyw ac yn gyson, boed hynny yn y Gymru drefol neu'r Gymru wledig. A ydych yn cytuno na ddylai cyflymu'r broses gynllunio greu system dwy haen a fydd yn cyflymu ceisiadau trefol ond yn gadael ceisiadau gwledig mwy cymhleth ar ei hôl hi?

**John Griffiths:** I think that it is very important that we have a fit-for-purpose planning system right across Wales, in urban and rural areas. The independent advisory group is looking at structure and delivery. I am confident that we will have an improved system as a result of its work.

**John Griffiths:** Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod gennym system gynllunio addas at y diben ledled Cymru, a hynny mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae'r grŵp cynghori annibynnol yn edrych ar strwythur a chyflawni. Rwy'n hyderus y bydd gennym system well o ganlyniad i'w waith.

**Kenneth Skates:** Minister, right across Wales there is tremendous demand for allotments. The Sustainability Committee of the last Assembly recommended the creation of a map of allotment land across the country. It also recommended the establishment of a Wales-wide standard for waiting lists for council allotments, along with moves to increase the supply of public and private land available for use as allotments. In Wrexham alone, more than 140 people are on the local authority waiting list. Will you update the Assembly on the efforts of the Welsh Government in conjunction with local authorities to address the shortage of allotments and to increase the supply of land by utilising areas and sites that are owned by public bodies?

**Kenneth Skates:** Weinidog, mae galw aruthrol am randiroedd ar hyd a lled Cymru. Argymhellodd Pwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad diwethaf y dylid creu map o dir rhandiroedd ledled y wlad. Mae hefyd yn argymell sefydlu safon Cymru-gyfan ar gyfer rhestrau aros am randiroedd cynghorau, ynghyd â symud i gynyddu'r cyflenwad o dir cyhoeddus a phreifat sydd ar gael i'w ddefnyddio fel rhandiroedd. Yn Wrecsam yn unig, mae dros 140 o bobl ar restr aros yr awdurdod lleol. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am ymdrechion Llywodraeth Cymru ar y cyd ag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r prinder rhandiroedd ac i gynyddu'r cyflenwad o dir drwy ddefnyddio ardaloedd a safleoedd sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus?

**John Griffiths:** We are very keen to work with local authorities and others to ensure

**John Griffiths:** Rydym yn awyddus iawn i weithio gydag awdurdodau lleol ac eraill i

that the demand for allotments is met. I think that the demand for allotments is a very good sign, as we see allotments, community farms and community gardens as playing an important role in improving local environments in Wales, particularly in urban settings. That is why, in the programme for government, we gave a commitment to taking forward policies to address this and to show that a sufficient amount of land for allotments is available. I very much hope that the environment Bill will legislate in that regard.

sicrhau bod y galw am randiroedd yn cael ei fodloni. Rwy’n credu bod y galw am randiroedd yn arwydd da iawn, wrth inni weld rhandiroedd, ffermydd cymunedol a gerddi cymunedol yn chwarae rhan bwysig wrth wella amgylcheddau lleol yng Nghymru, yn enwedig mewn lleoliadau trefol. Dyna pam, yn y rhaglen lywodraethu, rydym yn ymrwymo i gyflwyno polisïau newydd i roi sylw i hyn ac i ddangos bod digon o dir ar gael ar gyfer rhandiroedd. Rwy’n gobeithio’n fawr y bydd y Bil amgylchedd yn deddfu yn hynny o beth.

**The Presiding Officer:** I call Darren Millar to ask question 8.

**Y Llywydd:** Galwaf Darren Millar i ofyn cwestiwn 8.

**Darren Millar:** Thank you, Presiding Officer; I am glad that you recognise me today. [*Laughter.*]

**Darren Millar:** Diolch, Lywydd; rwy’n falch eich bod yn fy adnabod heddiw. [*Chwerthin.*]

**Rheoli’r Perygl o Lifogydd**

**Flood Risk Management**

**8. Darren Millar:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli’r perygl o lifogydd yng Nghymru. OAQ(4)0075(ESD)*

**8. Darren Millar:** *Will the Minister make a statement on flood risk management in Wales. OAQ(4)0075(ESD)*

**John Griffiths:** In November 2011, I published the national strategy for flood and coastal erosion risk management, setting out our objectives and priorities. The Welsh Government is investing over £40 million in flood and coastal erosion risk management in 2011-12, supplemented by around £6.8 million from the European regional development fund.

**John Griffiths:** Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddwyd strategaeth genedlaethol i Gymru ar reoli llifogydd ac erydu arfordirol sy’n amlinellu ein hamcanion a’n blaenoriaethau. Yn 2011-12, mae Llywodraeth Cymru’n buddsoddi dros £40 miliwn mewn rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol yn ogystal â thua £6.8 miliwn o gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop.

**Darren Millar:** Thank you for your response, Minister. I am pleased that the ‘Tidal Clwyd Flood Risk Management Strategy’ report was published recently by the Environment Agency. I welcome the findings in that report, which will give some confidence to the people of Towyn and Kinmel Bay in my constituency, in particular, that the Government will not abandon them to the waves. You will be aware that this year marks the twenty-second anniversary of the devastating floods in Towyn and Kinmel Bay. What is the Government planning to do to use the anniversary of these floods to raise flood awareness, not only in Towyn and Kinmel Bay, but throughout Wales?

**Darren Millar:** Diolch am eich ymateb, Weinidog. Rwy’n falch y cafodd adroddiad y ‘Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Clwyd Lanwol’ ei gyhoeddi’n ddiweddar gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Rwy’n croesawu canfyddiadau’r adroddiad hwnnw, a fydd yn rhoi rhywfaint o hyder i bobl Towyn a Bae Cinmel yn fy etholaeth i, yn arbennig na fydd y Llywodraeth yn gadael eu ffawd i’r tonnau. Byddwch yn ymwybodol bod 22 mlynedd wedi bod ers y llifogydd dinistriol yn Nhowyn a Bae Cinmel. Beth y mae’r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i ddefnyddio’r llifogydd hynny i godi ymwybyddiaeth o lifogydd, nid yn unig yn Nhowyn a Bae Cinmel, ond ledled Cymru?

**John Griffiths:** I thank Darren Millar for

**John Griffiths:** Diolch i Darren Millar am y

that supplementary question. It is instructive and informative to look back at the damage that that flooding caused and the havoc that it created for households, businesses and infrastructure. I think that it is a prime opportunity to raise awareness of risks, which is a key objective of the national strategy that we launched towards the end of last year. So, I am very happy to look at work that we can do to use that opportunity.

cwestiwn atodol hwnnw. Mae'n addysgiadol a defnyddiol i edrych yn ôl ar y difrod a achosodd y llifogydd hynny i gartrefi, busnesau a'r seilwaith. Rwy'n credu ei fod yn gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon, sy'n un o brif amcanion y strategaeth genedlaethol a lansiwyd tua diwedd y llynedd. Felly, rwy'n hapus iawn i edrych ar waith y gallwn ei wneud i fanteisio ar y cyfle hwnnw.

**Simon Thomas:** Weinidog, un o'r problemau sy'n wynebu nifer o gymunedau yn fy rhanbarth i, fel Dafen yn Llanelli, yw llifogydd ar wyneb y ffordd, sydd wedyn yn gallu cymysgu gyda llifogydd mewn carthffosiaeth gan adael eu hôl yng nghartrefi pobl mewn ffordd ddifrifol iawn. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod y gwahanol asiantaethau'n gweithio'n well gyda'i gilydd i sicrhau na fydd pobl yn wynebu'r problemau hyn? Ar hyn o bryd, mae gormod o fwrw bai ymysg y gwahanol asiantaethau.

**Simon Thomas:** Minister, one of the problems facing a number of communities in my region, such as Dafen in Llanelli, is that of surface water flooding, which can then add to sewer flooding and become a very serious issue in people's homes. What steps are you taking to ensure that the various agencies work better together so that people do not face these problems? At the moment, there is too much of a blame culture between the various agencies.

**John Griffiths:** Surface water flooding is a significant part of the flooding problems that we have in Wales. Sustainable surface drainage systems are being developed to a much greater extent now and there is also an understanding of how the natural environment can help more in terms of providing protection, avoiding too many hard surfaces and making sure that new developments, in particular, understand the risks and are appropriately built. I am happy to engage with the various agencies to ensure that they understand that the Welsh Government is concerned to see proper joint working and integration between these organisations. I will, on the back of what the Member has said, re-emphasise those points.

**John Griffiths:** Mae llifogydd dŵr wyneb yn rhan sylweddol o'r problemau llifogydd sydd gennym yng Nghymru. Mae systemau draenio dŵr wyneb cynaliadwy yn cael eu datblygu i raddau llawer mwy erbyn hyn ac mae yna hefyd ddealltwriaeth o sut y gall yr amgylchedd naturiol helpu mwy o ran amddiffyn, gan osgoi gormod o arwynebau caled a sicrhau yn arbennig bod datblygiadau newydd yn deall y peryglon ac yn cael eu hadeiladu'n briodol. Rwy'n hapus i ymgysylltu â'r gwahanol asiantaethau i sicrhau eu bod yn deall bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld cydweithio ac integreiddio ymysg y sefydliadau hyn. Yn dilyn yr hyn y mae'r Aelod wedi'i ddweud, byddaf yn ail-bwysleisio'r pwyntiau hynny.

**The Presiding Officer:** Question 9, OAQ(4)0083(ESD), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Cafodd cwestiwn 9, OAQ (4) 0083 (ADC), ei dynnu'n ôl.

### Allyriadau Diwydiannol

### Industrial Emissions

***10. Mark Isherwood:*** *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i archwilio effaith allyriadau diwydiannol ar yr amgylchedd. OAQ(4)0073(ESD)*

***10. Mark Isherwood:*** *What is the Welsh Government doing to examine the impact of industrial emissions on the environment. OAQ(4)0073(ESD)*

**John Griffiths:** The Welsh Government oversees the planning and environmental

**John Griffiths:** Mae Llywodraeth Cymru yn goruchwylio'r cyfundrefnau cynllunio a

permitting regimes, as well as more general environmental monitoring. We ensure that Public Health Wales and the Health Protection Agency work with the regulators, Environment Agency Wales and local authorities, to address any concerns relating to public health.

chaniatâd amgylcheddol, yn ogystal â chynnal gwaith monitro amgylcheddol mwy cyffredinol. Rydym yn sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Asiantaeth Diogelu Iechyd yn gweithio gyda'r rheoleiddwyr, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac awdurdodau lleol, i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

**Mark Isherwood:** Office for National Statistics data were published earlier this month showing that the ward with the highest death rate in England and Wales was in Bridgend. It also showed that three of the worst six wards for death rates in Wales were in Wrexham. The ONS said that circumstances such as proportion of people living with deprivation and environmental conditions can affect health outcomes, but these three wards were among the less deprived in Wrexham, being fifteenth, twentieth and twenty-fifth from the bottom. Therefore, what work could you consider, or will you propose, to ensure that the World Health Organization recommendation on disease mapping and risk assessment in public health decision making is brought into effect in Wales to monitor the impact of industrial emissions on the mapping of relevant health and mortality data?

**Mark Isherwood:** Cyhoeddwyd data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gynharach y mis hwn a oedd yn dangos mai Penybont-ar-Ogwr yw'r ward sydd â'r gyfradd farwolaethau uchaf yng Nghymru a Lloegr. Roedd hefyd yn dangos bod tair o'r chwe ward waethaf o ran cyfraddau marwolaeth yng Nghymru yn Wrecsam. Dywedodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y gall amgylchiadau fel cyfran y bobl sy'n byw mewn amddifadedd ac amodau amgylcheddol effeithio ar ganlyniadau iechyd, ond roedd y tair ward hon ymhlith y rhai llai difreintiedig yn Wrecsam, a hwythau'n bymthegfed, ugeinfed a phumed ar hugain o'r gwaelod. Felly, pa waith y gallwch chi ei ystyried, neu ei gynnig, er mwyn sicrhau bod argymhelliad Sefydliad Iechyd y Byd ar fapio clefydau ac asesu risg yn y broses o wneud penderfyniadau ar iechyd y cyhoedd yn dod i rym yng Nghymru er mwyn monitro effaith allyriadau diwydiannol ar fapio data perthnasol ar iechyd a marwolaethau?

**John Griffiths:** Of course, there are agencies tasked with protecting public health with regard to these matters, such as the Health Protection Agency and Environment Agency Wales, so safeguards are in place and will apply to any particular developments.

**John Griffiths:** Mae asiantaethau'n bodoli sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu iechyd y cyhoedd o ran y materion hyn, fel yr Asiantaeth Diogelu Iechyd ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, felly mae mesurau diogelwch mewn grym a byddant yn berthnasol i unrhyw ddatblygiadau penodol.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, mae problemau wedi bod ledled Cymru ynglŷn â gwastraff diwydiannol a lle yn union y dylid gwaredu'r gwastraff hwnnw. Mae adran arbennig o fewn Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am erlyn pobl sy'n gosod gwastraff mewn mannau anghywir, ond mae nifer o achosion llys wedi bod yn ddiweddar lle mae'r adran honno wedi methu wrth geisio erlyn pobl—yn wir, mae awgrymiadau bod rhai o'r erlyniadau wedi cael eu cyflwyno mewn modd a oedd yn adlewyrchu'n anffafriol iawn ar yr adran honno. A wnewch chi ymrwymo i wneud

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, there have been problems throughout Wales regarding industrial waste, and where exactly it should be disposed of. There is a dedicated department within the Environment Agency that is responsible for prosecuting people who dispose of waste in the wrong places, but there have been a number of court cases recently where this department has failed in attempting to prosecute people—in fact, there have been suggestions that some of these prosecutions have been presented in a way that reflected most unfavourably on that department. Could you give a commitment to

asesiad o'r adran honno ac o'r erlyniadau sydd wedi eu cynnal dros y tair blynedd diwethaf i weld pa mor effeithiol yw'r adran, a pha mor sicr y gallwch fod bod yr erlyniadau hyn yn cael eu cyflwyno yn y modd cywir?

undertake an assessment of that department and its prosecutions over the last three years to see how effective it has been, and how certain you can be that these prosecutions are presented in the correct manner?

**John Griffiths:** We have important waste objectives in Wales, and 'Towards Zero Waste' sets them out in the round. We obviously want to see proper enforcement of those that are creating waste problems, and if the Member was to write to me with details of the incidents that he mentions, I would be pleased to look at those with officials and get back to him with further information.

**John Griffiths:** Mae gennym amcanion gwastraff pwysig yng Nghymru, ac mae 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn eu nodi'n llawn. Rydym yn amlwg am weld gorfodi priodol o ran y rhai sy'n creu problemau gwastraff, ac os yw'r Aelod am ysgrifennu ataf gyda manylion y digwyddiadau y cyfeiriodd atynt, byddwn yn fodlon edrych arnynt gyda swyddogion a dod yn ôl ato gyda rhagor o wybodaeth.

**Clymog Japan**

**Japanese Knotweed**

***11. Mike Hedges:*** *Pa gyngor mae'r Gweinidog yn ei roi i awdurdodau lleol yng Nghymru i ddelio â phroblem Clymog Japan. OAQ(4)0074(ESD)*

***11. Mike Hedges:*** *What advice is the Minister giving to local authorities in Wales to deal with the problem of Japanese Knotweed. OAQ(4)0074(ESD)*

**John Griffiths:** The Welsh Government recently issued an updated publication on 'The Control of Japanese Knotweed in Construction and Landscape Contracts', to support local authorities, developers and contractors in managing this plant. Local authorities have access to the latest research and control advice through membership of the invasive non-native species working group.

**John Griffiths:** Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad o'r cyhoeddiad ar reoli clymog Japan mewn contractau adeiladu a thirwedd i gefnogi awdurdodau lleol, datblygwyr a chontractwyr i reoli'r planhigyn hwn. Mae gan awdurdodau lleol fynediad at y gwaith ymchwil a'r cyngor rheoli diweddaraf drwy eu haelodaeth o'r gweithgor ar rywogaethau ymledol anfrodorol.

**Mike Hedges:** I thank the Minister for his response. Swansea East is certainly a knotweed hotspot, and we have serious problems with that across a large part of the urban, former industrial area. In 2010, your predecessor brought in an insect from Japan that is a natural predator for Japanese knotweed, and it was released at a number of experimental sites. How successful has that been? Is that project going to be extended?

**Mike Hedges:** Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Mae Dwyrain Abertawe yn sicr yn un o'r ardaloedd gwaethaf o ran clymog, ac mae'r planhigyn yn achosi problemau difrifol ar hyd a lled rhan fawr o'r ardal drefol, gyn-ddiwydiannol. Yn 2010, daeth eich rhagflaenydd â phryfyn o Japan sy'n ysglyfaethwr naturiol o glymog Japan, a chafodd ei ryddhau mewn nifer o safleoedd arbrofol. Pa mor llwyddiannus fu hynny? A yw'r prosiect yn mynd i gael ei ymestyn?

**John Griffiths:** Indeed, a small sap-sucking insect that feeds exclusively on Japanese knotweed was released, and that was done on a trial basis at certain sites in both Wales and England. It is a little early to give any definitive information on the success of that project, but we will be closely evaluating it as

**John Griffiths:** Yn wir, cafodd pryfyn sugno sudd bychan sy'n bwydo ar glymog Japan yn unig ei ryddhau, a hynny fel prawf mewn safleoedd penodol yng Nghymru a Lloegr. Mae ychydig yn gynnar i roi unrhyw wybodaeth bendant am lwyddiant y prosiect, ond byddwn yn ei werthuso'n ofalus cyn

soon as meaningful information becomes available. We will learn the lessons from that evaluation and use them to further develop the programme.

gynted ag y bydd gwybodaeth ystyrlon ar gael. Byddwn yn dysgu gwersi o’r gwerthusiad hwnnw ac yn eu defnyddio i ddatblygu’r rhaglen ymhellach.

**Russell George:** Minister, thank you for your answer to Mike Hedges, to which I listened with interest. I welcome the guidance that the Government published last week on the control of Japanese knotweed. However, a significant contributory factor in the spread of knotweed is the illegal fly-tipping of garden waste. Many people see fly-tipping as old television sets and fridges, but my developing understanding of Japanese knotweed is that this is also a serious issue. What is the Welsh Government doing in conjunction with local authorities to tighten up on this form of fly-tipping? What stringent sanctions can be imposed on people caught fly-tipping Japanese knotweed?

**Russell George:** Weinidog, diolch am eich ateb i Mike Hedges; gwrandewais arno gyda diddordeb. Rwy’n croesawu’r arweiniad a gyhoeddodd y Llywodraeth yr wythnos diwethaf ar reoli clymog Japan. Fodd bynnag, un ffactor sy’n cyfrannu’n fawr at ledaeniad y planhigyn yw tipio gwastraff gerddi’n anghyfreithlon. Mae llawer o bobl yn ystyried tipio anghyfreithlon fel setiau teledu a hen oergelloedd, ond mae fy nealltwriaeth ddatblygol i o glymog Japan yn awgrymu bod hyn hefyd yn fater difrifol. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol i fynd i’r afael â’r math hwn o dipio anghyfreithlon? Pa gosbau llym y gellid eu gosod ar bobl sy’n cael eu dal yn tipio clymog Japan yn anghyfreithlon?

**John Griffiths:** As I mentioned earlier in answer to another question, we have made a great deal of progress here in Wales in terms of tackling fly-tipping in the round. Incidence has declined and prosecutions have increased. We funded the Environment Agency and local authorities to enable that progress, so I hope that, wherever fly-tipping is a problem, that funding and effort is effective in dealing with the problem.

**John Griffiths:** Fel y soniais yn gynharach wrth ateb cwestiwn arall, rydym wedi gwneud llawer iawn o gynnydd yma yng Nghymru o ran mynd i’r afael â’r holl broblem o dipio anghyfreithlon. Mae nifer y digwyddiadau wedi lleihau a nifer yr erlyniadau wedi cynyddu. Rydym wedi rhoi cyllid i Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol i alluogi’r cynnydd hwnnw, felly rwy’n gobeithio, lle bynnag mae tipio anghyfreithlon yn broblem, bod arian ac ymdrech yn effeithiol wrth ymdrin â’r broblem.

2.15 p.m.

**Jocelyn Davies:** Are you aware that a growing number of mortgage companies will not offer a mortgage on a house if there is knotweed in the vicinity of the property? That makes those homes unsellable. I do not think that those people can be waiting for your aphids to land there. I guess that people want to know when we will be able to eradicate this terrible blight.

**Jocelyn Davies:** A ydych yn ymwybodol na fydd nifer gynyddol o gwmnïau morgais yn cynnig morgais ar dŷ os oes clymog yng nghyffiniau’r eiddo? Mae hyn yn gwneud y cartrefi hynny’n amhosibl i’w gwerthu. Nid wyf yn credu y gall y bobl hynny aros i’ch pryf glas lanio yno. Credaf fod pobl eisiau gwybod pryd y byddwn yn gallu cael gwared ar y malltod ofnadwy hwn.

**John Griffiths:** As with many issues, I do not think that there are immediate and easy solutions. Of course, it is ultimately the responsibility of the landowner to deal with Japanese knotweed on their property. Having

**John Griffiths:** Fel gyda llawer o faterion, nid wyf yn credu bod atebion uniongyrchol a hawdd. Wrth gwrs, yn y pen draw, cyfrifoldeb perchennog y tir yw ymdrin â chlymog Japan ar ei eiddo. Wedi dweud

said that, I know that the Royal Institution of Chartered Surveyors is interested in the matters that Jocelyn Davies has raised. It is providing information to mortgage applicants and lenders on issues surrounding Japanese knotweed for both commercial and domestic properties.

hynny, gwn fod gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig ddiddordeb yn y materion y mae Jocelyn Davies wedi'u codi. Mae'n darparu gwybodaeth i ymgeiswyr a benthycwyr morgeisi ar faterion yn ymwneud â chlymog Japan ar gyfer eiddo masnachol a domestig.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
## Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage

### Darlledu Sianeli Cymraeg yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

### Broadcasting Welsh-language Channels in North-east Wales

***1. Aled Roberts****: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â darlledu sianeli Cymraeg yng ngogledd ddwyrain Cymru. OAQ(4)0075(HRH)W*

***1. Aled Roberts:*** *Will the Minister make a statement regarding broadcasting Welsh-language channels in North-East Wales. OAQ(4)0075(HRH)W*

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** The Welsh Government will stand up for maintaining full services in both Welsh and English on television and radio throughout Wales, including for viewers and listeners in north-east Wales.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud safiad dros gynnal gwasanaethau llawn yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y teledu a radio ledled Cymru, gan gynnwys i wylwyr a gwrandawyr yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

**Aled Roberts:** Weinidog, mae nifer o drigolion o ardal Wrecsam wedi cysylltu â mi gan eu bod wedi colli gwasanaeth BBC Cymru, ITV Wales ac S4C. Mae Ofcom a Digital UK wedi dweud mai problem gyda throsglwyddyddion yn Lloegr ydyw gan fod y rheini yn gryfach na'r trosglwyddyddion a adeiladwyd yng Nghymru yn ystod yr 1970au. Yr unig gyngor maent wedi ei roi yw y dylai'r trigolion hyn wario rhyw £150 yr un ar gyfarpar Freesat. A ydych yn fodlon gyda'r esboniad hwnnw a beth y gallwch chi ei wneud i ddelio â'r broblem sydd wedi codi ers i'r gyfundrefn fynd yn ddigidol?

**Aled Roberts:** Minister, a number of residents from the Wrexham area have contacted me because they have lost their ability to access BBC Wales, ITV Wales and S4C. Ofcom and Digital UK have said that the problem is caused by transmitters in England being much stronger than the transmitters that were built in Wales during the 1970s. The only advice they have given is that these residents should spend about £150 each on Freesat equipment. Are you satisfied with that explanation and what can you do to deal with the problem that has arisen since the digital switchover?

**Huw Lewis:** I thank the Member for that question. I echo his concern. My understanding is that there have been two changes to local transmitters associated with the switchover in England, which may have caused some viewers in north-east Wales to lose services. We have to remember that broadcasting is not devolved to the Welsh Government, but my officials have been in contact with Digital UK and Ofcom to discover what is responsible for this. The digital roll-out is being managed as a UK-

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Ategaf ei bryder. Fy nealltwriaeth i yw y bu dau newid i drosglwyddyddion lleol sy'n gysylltiedig â'r newid yn Lloegr, a allai fod wedi golygu bod rhai gwylwyr yng ngogledd-ddwyrain Cymru wedi colli gwasanaethau. Mae'n rhaid inni gofio nad yw darlledu wedi ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru, ond bu fy swyddogion mewn cysylltiad â Digital UK ac Ofcom i ganfod pwy sy'n gyfrifol am hyn. Mae'r broses o gyflwyno gwasanaethau digidol yn cael ei

wide project by Digital UK. It is for it to manage it well, in my view. Terrestrial television coverage is planned and regulated by Ofcom. If the Member is willing to write to me regarding the details of his constituents who are facing these concerns, I would be more than happy to echo his concerns to both Digital UK and Ofcom.

rheoli fel prosiect ledled y DU gan Digital UK, a'r cwmni hwn sy'n gyfrifol am ei reoli'n dda, yn fy marn i. Ofcom sy'n cynllunio ac yn rheoleiddio darllediadau teledu daearol. Os yw'r Aelod yn barod i ysgrifennu ataf gyda'r manylion am ei etholwyr sy'n wynebu pryderon hyn, byddwn yn fwy na pharod i ailadrodd ei bryderon i Digital UK ac Ofcom.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, in the three counties of north-east Wales, namely Denbighshire, Flintshire and Wrexham, there are around 90,000 Welsh speakers. Encouragingly, the 2001 census statistics showed that nearly 60% of those aged between five and 15 were able to speak Welsh. I am sure that everyone will join me in hoping that the 2011 census shows a continuation in that trend. Since young people are among the most technologically savvy and enthusiastic users of media such as television, will the Minister assure the people of north-east Wales, and north Wales as a whole, that his Government will do everything that it can to safeguard and promote broadcasting through the medium of Welsh in a way that appeals to all age groups?

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, yn nhair sir gogledd-ddwyrain Cymru, sef sir Ddinbych, sir y Fflint a Wrecsam, mae tua 90,000 o siaradwyr Cymraeg. Mae'n galonogol bod ystadegau cyfrifiad 2001 yn dangos bod bron i 60% o'r rheini rhwng pump a 15 oed yn gallu siarad Cymraeg. Rwy'n sicr y bydd pawb yn ymuno â mi i obeithio y bydd cyfrifiad 2011 yn dangos parhad yn y duedd honno. Gan fod pobl ifanc ymhlith y defnyddwyr sydd â'r wybodaeth fwyaf am dechnoleg ac sydd fwyaf brwdfrydig mewn perthynas â chyfryngau fel teledu, a wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd i bobl gogledd-ddwyrain Cymru, a gogledd Cymru yn gyffredinol, y bydd ei Lywodraeth yn gwneud popeth y gall ei wneud i ddiogelu a hyrwyddo darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ffordd sy'n apelio at bob grŵp oedran?

**Huw Lewis:** Of course. I think that there would be unity and consensus in the Chamber and beyond in terms of the concerns that you have raised.

**Huw Lewis:** Wrth gwrs. Rwy'n credu y byddai undod a chonsensws yn y Siambr a thu hwnt o ran y pryderon a godwyd gennych.

**Llyr Huws Gruffydd:** Un pwynt a godwyd yn gryf iawn gyda fi adeg Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam y llynedd oedd bod nifer o westai, yn enwedig y gwestai mawr rhyngwladol, yn dewis peidio—er eu bod yn gallu—tiwnio eu setiau teledu i sianeli Cymreig a Chymraeg. A wnewch chi annog y Llywodraeth i ysgrifennu at rai o'r prif gwmnïau cenedlaethol hyn i'w hannog i sicrhau bod y fath ddarpariaeth ar gael gan ei bod yn cyfrannu at hunaniaeth a brand Cymru a welir gan bobl sy'n dewis ymweld â ni yng Nghymru?

**Llyr Huws Gruffydd:** One point raised very strongly with me at the National Eisteddfod in Wrexham last year was that many hotels, especially large international hotels, choose not to—although they are able to—tune their television sets to Welsh channels and channels broadcasting in Welsh. Will you urge the Government to write to some of these major national companies to encourage them to ensure that such provision is available because it contributes to the Wales brand and the Welsh identity seen by people who choose to visit Wales?

**Huw Lewis:** I would be happy if the Member would write to me with details of which particular hotel chains he is concerned about, in order to look at how the Government might respond. It is an enormous pity that,

**Huw Lewis:** Byddwn yn hapus pe byddai'r Aelod yn ysgrifennu ataf gyda'r manylion am y cadwyni gwestai arbennig y mae'n pryderu amdanynt, er mwyn imi edrych ar sut y gallai'r Llywodraeth ymateb. Mae'n drueni

sometimes, people in some walks of life do not see the tremendously attractive possibilities for tourism as regards exposure to the Welsh language for tourism visitors, and how they would see that as a unique experience in terms of their visit to Wales.

mawr nad yw pobl o rai mathau o gefndiroedd weithiau'n gweld y posibiliadau hynod o ddeniadol i dwristiaeth yn sgîl darparu cyfleoedd i ymwelwyr ymgysylltu â'r iaith Gymraeg, a sut y byddent yn gweld hynny fel profiad unigryw o ran eu hymweliad â Chymru.

**Eiddo Gwag**

**Empty Properties**

***2. Simon Thomas***: *Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddod ag eiddo gwag yn ôl i'r farchnad rhent neu i'w gwerthu. OAQ(4)0085(HRH)*

***2. Simon Thomas***: *What steps is the Minister taking to bring empty properties back on to the rental market or for selling. OAQ(4)0085(HRH)*

**Huw Lewis:** We have recently secured an additional £5 million to fund a co-ordinated national scheme of action to bring empty properties back into use for sale and rent. The scheme will be launched in April and will be delivered on a regional basis.

**Huw Lewis:** Rydym wedi sicrhau £5 miliwn yn ychwanegol yn ddiweddar i ariannu cynllun gweithredu cenedlaethol cydlynol i wneud defnydd o eiddo gwag drwy ei werthu neu ei rentu. Bydd y cynllun yn cael ei lansio ym mis Ebrill a bydd yn cael ei gyflwyno ar sail ranbarthol.

**Simon Thomas:** Yr wyf yn croesawu'r cynllun arbennig hwn. A fydd y cynllun yn caniatáu rhwydwaith cenedlaethol—mae enghreifftiau da yn rhanbarthol, megis ym Mhowys—i helpu landlordiaid drwy gynnig grantiau neu fenthyciadau di-log i wella eu heiddo er mwyn eu gwerthu neu eu rhentu, a chronni hynny yn ôl o'r system drwy'r rhent a godir gan landlordiaid preifat? Mae modd creu cylch yn y fan hon a fyddai o fudd i landlordiaid a thenantiaid preifat.

**Simon Thomas:** I welcome this scheme. Will the scheme enable the creation of a national network—there are good examples in certain regions, such as in Powys—to help landlords by offering grants or interest-free loans to improve their properties so that they can be sold or rented, and accrue that back from the system through the rents charged by private landlords? We could create a virtual circle that would benefit private landlords and tenants.

**Huw Lewis:** To clarify, my officials are currently working with the WLGA and local authorities to finalise the way in which the initiative will work and to set meaningful targets. Targets will be part of the launch of this initiative in April. The initiative will be based on the no-use empty model that was developed by Kent County Council. Local authorities will work collaboratively on the footprint basis of six regional working areas. The loans will be for empty properties on an interest-free basis to bring those properties back into use for sale or rent. When the loans are repaid, the funding will be recycled to further assist other persons. It is envisaged that the initiative will be a rolling and sustained programme, complemented by funding from the resources of authorities or from other sectors. We will evaluate the programme after the first three years of the

**Huw Lewis:** I egluro, mae fy swyddogion wrthi'n gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol i benderfynu sut y bydd y fenter yn gweithio ac i osod targedau ystyrlon. Bydd targedau yn rhan o lansiad y fenter hon ym mis Ebrill. Bydd y fenter yn seiliedig ar y model eiddo gwag, neu *no-use empty* a ddatblygwyd gan Gyngor Caint. Bydd awdurdodau lleol yn gweithio ar y cyd ar sail ôl-troed y chwe maes gwaith rhanbarthol. Bydd y benthyciadau ar gyfer eiddo gwag ar sail ddi-log er mwyn gwneud defnydd o'r eiddo hwnnw drwy ei werthu neu ei rentu. Pan fydd y benthyciadau'n cael eu had-dalu, bydd yr arian yn cael ei ailgylchu ymhellach i gynorthwyo pobl eraill. Rhagwelir y bydd y fenter yn rhaglen dreigl a pharhaus, ac fe'i hategir gan arian o adnoddau awdurdodau neu sectorau eraill. Byddwn yn gwerthuso'r

initiative.

rhaglen ar ôl tair blynedd gyntaf y fenter.

**Mark Isherwood:** We welcomed your announcement in November that you were taking this step forward. How do you propose to build upon the good practice in Denbighshire County Council, which your Government's figures identify as being the top provider of affordable housing in Wales? Denbighshire has said that the key in terms of empty homes is to understand why the property is empty and to work closely with the owner to bring it back into use, using enforcement powers as a last resort.

**Mark Isherwood:** Gwnaethom groesawu eich cyhoeddiad ym mis Tachwedd eich bod yn cymryd y cam hwn ymlaen. Sut ydych chi'n bwriadu adeiladu ar arfer da Cyngor Sir Ddinbych, y mae ffigurau eich Llywodraeth yn nodi fel y darparwr mwyaf o dai fforddiadwy yng Nghymru? Mae sir Ddinbych wedi dweud mai'r pwynt allweddol o ran cartrefi gwag yw deall pam y mae'r eiddo yn wag a gweithio'n agos â'r perchennog i wneud defnydd ohono, gan ddefnyddio pwerau gorfodi fel y dewis olaf.

**Huw Lewis:** I am aware of the examples of good practice in Denbighshire, as there are in Carmarthenshire, Wrexham and Caerphilly. Part of the reasoning behind moving to a regional basis for the delivery of this programme is to allow those local authorities that have pushed this agenda forward under their own steam over the last months and years to take a lead within that region, and to disseminate their good practice among other local authority members of that regional working area.

**Huw Lewis:** Rwyf yn ymwybodol o enghreifftiau o arfer da yn sir Ddinbych, fel sydd yn sir Gaerfyrddin, Wrecsam a Chaerffili. Rhan o'r rheswm y tu ôl symud i sail ranbarthol ar gyfer cyflwyno'r rhaglen hon yw er mwyn caniatáu i'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi datblygu'r agenda hon ar eu liwt eu hunain dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf gymryd yr awenau o fewn y rhanbarth hwnnw, ac i ledaenu eu harferion da ymhlith aelodau o awdurdodau lleol eraill yr ardal waith ranbarthol honno.

**Mark Isherwood:** A network of empty homes officers is being established in north Wales, but the question referred specifically to bringing empty properties back onto the rental market or for selling. In Denbighshire's case, the requirement is that the property would go on the social housing rental list for a minimum of five years. Therefore, how do you respond to the suggestion in the PricewaterhouseCoopers report that housing associations should be allowed to use empty properties to generate additional capital by making them available, among other things, for intermediate rent at above social rent levels but below market rent?

**Mark Isherwood:** Mae rhwydwaith o swyddogion tai gwag yn cael ei sefydlu yng ngogledd Cymru, ond roedd y cwestiwn yn cyfeirio'n benodol at roi eiddo gwag yn ôl ar y farchnad rhentu neu at werthu'r eiddo hwnnw. Yn achos sir Ddinbych, y gofyniad yw y byddai'r eiddo yn mynd ar y rhestr rhentu tai cymdeithasol am o leiaf bum mlynedd. Felly, sut ydych chi'n ymateb i'r awgrym yn adroddiad PricewaterhouseCoopers y dylai cymdeithasau tai gael yr hawl i ddefnyddio eiddo gwag i gynhyrchu cyfalaf ychwanegol drwy sicrhau eu bod ar gael, ymhlith pethau eraill, ar gyfer rhent canolradd ar lefel uwch na lefelau rhent cymdeithasol ond ar lefel is na rhent y farchnad?

**Huw Lewis:** We will learn from the scheme as it rolls out, as this is the first time that this kind of initiative has been undertaken on a national level. I am willing to learn lessons about how registered social landlords can become partners alongside private owners and local authorities in getting these properties back into use. If we can do that for social rent or for intermediate rent, that is

**Huw Lewis:** Byddwn yn dysgu o'r cynllun wrth iddo gael ei gyflwyno, gan mai dyma'r tro cyntaf i'r math hwn o fenter gael ei gyflwyno ar lefel genedlaethol. Rwyf yn barod i ddysgu gwersi ynghylch sut y gall landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddod yn bartneriaid ochr yn ochr â pherchnogion preifat ac awdurdodau lleol o ran gwneud defnydd o'r tai hyn. Os gallwn wneud hynny

even better. Openings for that to happen should be explored and exploited. As I said, I am willing to keep at the forefront of my mind that what really matters here is that we get these properties back into use, because, as they are, they are a tremendous wasted resource.

ar gyfer rhent cymdeithasol neu rent canolradd, bydd hynny hyd yn oed yn well. Dylid manteisio ar gyfleoedd i wneud hynny a'u harchwilio. Fel y dywedais, rwyf yn barod i gadw mewn cof mai'r hyn sy'n bwysig yn hyn o beth yw ein bod yn defnyddio'r tai hyn oherwydd ar hyn o bryd maent yn adnodd gwych sy'n cael ei wastraffu.

**The Presiding Officer:** I call now on the Plaid Cymru spokesperson—no, I beg your pardon, the Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

**Y Llywydd:** Galwaf yn awr ar lefarydd Plaid Cymru—na, maddeuwch i mi, llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Peter Black.

**Peter Black:** Thank you, Presiding Officer. You got my name right, anyway.

**Peter Black:** Diolch ichi, Lywydd. Rydych wedi cael fy enw i'n iawn beth bynnag.

Minister, although this recyclable loan scheme is important and I very much support the initiative, it is important that we do not lose sight of the need for a wider approach to this issue, rather than just putting our faith in one scheme. You have outlined to other questioners that you are trying to spread best practice and trying to engage with housing associations, and I understand that. Are you proposing to bring all of these initiatives together into a single Welsh Government policy document in order to drive this initiative forward across Wales?

Weinidog, er bod y cynllun benthyca i ailgylchu tai yn bwysig ac rwy'n cefnogi'r fenter yn fawr, mae'n bwysig nad ydym yn colli golwg ar yr angen am ymagwedd ehangach at y mater hwn, yn hytrach na dim ond rhoi ein ffydd mewn un cynllun. Rydych wedi amlinellu i'r Aelodau eraill sydd wedi gofyn cwestiynau y ffaith eich bod yn ceisio lledaenu arfer gorau ac ymgysylltu â chymdeithasau tai, ac rwyf yn deall hynny. A ydych yn bwriadu dod â'r holl fentrau hyn at ei gilydd mewn un ddogfen bolisi gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu'r fenter hon ledled Cymru?

**Huw Lewis:** These are early days. We will see how the initial stages of this programme develop. Some local authorities out there will have to go through quite a steep learning curve in order to make this operational on the ground. I hear what you are saying in terms of a wider approach. This should be only one weapon in the armoury, particularly for local authorities, when it comes to dealing with empty properties. What is more important is something that Mark Isherwood mentioned and which I should have recognised: ongoing and determined dialogue with owners is perhaps more important than anything the Government can do in terms of financial incentives in this context.

**Huw Lewis:** Mae'r rhain yn ddyddiau cynnar. Byddwn yn gweld sut y bydd camau cychwynnol y rhaglen hon yn datblygu. Bydd yn rhaid i rai awdurdodau lleol ddysgu llawer mewn amser byr er mwyn gweithredu hyn ar lawr gwlad. Rwy'n clywed yr hyn rydych yn ei ddweud o ran cael ymagwedd ehangach. Dim ond un o'r dulliau y dylid ei ddefnyddio yw hwn, yn enwedig gan awdurdodau lleol, wrth ymdrin ag eiddo gwag. Yr hyn sy'n bwysicach yw rhywbeth y soniodd Mark Isherwood amdano ac y dylwn fod wedi ei gydnabod: mae deialog barhaus a phenderfynol â pherchnogion o bosibl yn bwysicach nag unrhyw beth y gall y Llywodraeth ei wneud o ran cymhellion ariannol yn y cyd-destun hwn.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. I absolutely agree with the point that Mark Isherwood made and that you reiterated. The key issue for many local

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwy'n cytuno'n llwyr â'r pwynt a wnaeth Mark Isherwood ac y gwnaethoch chi ei ailadrodd. Y prif fater i nifer o awdurdodau

authorities is that they no longer have an empty homes officer dedicated to engaging with owners in an attempt to bring those properties back into use. How are you encouraging local authorities that no longer have such an officer to revisit that decision, in order to get that dialogue under way?

lleol yw nad oes ganddynt swyddog tai gwag bellach wedi'i neilltuo i ymgysylltu â pherchnogion er mwyn ceisio gwneud defnydd o'r eiddo hwnnw. Sut rydych yn annog awdurdodau lleol nad oes ganddynt swyddog o'r fath bellach i ailedrych ar y penderfyniad hwnnw er mwyn dechrau'r drafodaeth honno?

**Huw Lewis:** It will be for local authorities, within their regional working groups, to organise their activity on the ground. I hope that the appearance of the £5 million recyclable fund will act as a powerful incentive to ensure that every local authority, whether working jointly with another local authority or alone, will realise the importance of having active empty homes officers on their turf.

**Huw Lewis:** Mater i'r awdurdodau lleol, o fewn eu gweithgorau rhanbarthol, yw trefnu eu gweithgaredd ar lawr gwlad. Rwy'n gobeithio y bydd y £5 miliwn hwn yn y gronfa ar gyfer ailgylchu tai yn gweithredu fel cymhelliant pwerus i sicrhau bod pob awdurdod lleol, boed yn gweithio ar y cyd ag awdurdod lleol arall neu ar ei ben ei hun, yn sylweddoli pa mor bwysig yw cael swyddogion tai gwag yn gweithio yn eu hardal.

**Treftadaeth Cymru**

**Welsh Heritage**

***3. Suzy Davies:*** *Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo treftadaeth Cymru yn ystod 2012. OAQ(4)0074(HRH)*

***3. Suzy Davies:*** *What plans does the Welsh Government have to promote Welsh heritage in 2012. OAQ(4)0074(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for South Wales West for that question. Our programme for government outlines our commitment to support and promote Welsh heritage events and attractions throughout Wales and abroad. We aim to promote a sense of ownership and pride in Welsh heritage. An example of this would be the redevelopment of St Fagans National History Museum.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Orllewin De Cymru am y cwestiwn hwnnw. Mae ein rhaglen lywodraethu'n amlinellu ein hymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo digwyddiadau treftadaeth Cymru ac atyniadau ledled Cymru a thramor. Ein nod yw hyrwyddo ymdeimlad o berchnogaeth a balchder yn nhreftadaeth Cymru. Un enghraifft o hyn fyddai'r cynllun i ailddatblygu Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan.

**Suzy Davies:** Thank you for that answer, Minister. As you may know, the City and County of Swansea council has undertaken a very bold and proactive advertising campaign on the London Underground, the purpose of which is to persuade football fans from the south-east of England who are coming to Swansea City matches to stay longer or perhaps to come back and enjoy the landscape and built heritage at another time. Have you had any conversations with the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science in relation to bold and proactive advertising campaigns for Welsh heritage, aimed at visitors coming to the south-east because of the Olympics?

**Suzy Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch, mae cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi cynnal ymgyrch hysbysebu beiddgar a rhagweithiol iawn ar reilffordd danddaearol Llundain. Diben yr ymgyrch yw perswadio cefnogwyr pêl-droed o dde-ddwyrain Lloegr sy'n dod i gemau clwb pêl-droed Abertawe i aros yn hwy neu efallai i ddychwelyd a mwynhau'r dirwedd a'r dreftadaeth adeiledig ar adeg arall. A ydych wedi cael unrhyw sgyrsiau â'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth mewn perthynas ag ymgyrchoedd hysbysebu beiddgar a rhagweithiol ar gyfer treftadaeth Cymru, sydd wedi'u hanelu at ymwelwyr sy'n dod i'r de-

ddwyrain oherwydd y Gemau Olympaidd?

**Huw Lewis:** I must confess that I was not aware of the London Underground initiative by the City and County of Swansea council. I will ensure that I take a look the next time I am in the metropolis. In terms of specific examination of heritage connections with tourism, that is an ongoing conversation. I would have to write to the Member with details of anything that is specifically linked to advertising and the Olympics. We are all aware that advertising surrounding the Olympics and its events is very tightly controlled. I would have to investigate the developments that are under way in that context.

**Huw Lewis:** Mae'n rhaid imi gyfaddef nad oeddwn yn ymwybodol o fenter cyngor Dinas a Sir Abertawe ar reilffordd danddaearol Llundain. Byddaf yn sicrhau fy mod yn edrych y tro nesaf y byddaf yn y brifddinas. O ran archwilio cysylltiadau treftadaeth â thwristiaeth yn benodol, mae honno'n sgwrs barhaus. Byddai'n rhaid imi ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion unrhyw beth sy'n cysylltu'n benodol â hysbysebu a'r Gemau Olympaidd. Rydym oll yn ymwybodol bod hysbysebu ynghylch y Gemau Olympaidd a'u digwyddiadau wedi'i reoli'n llym. Byddai'n rhaid imi ymchwilio i'r datblygiadau sydd ar y gweill yn y cyd-destun hwnnw.

**Bethan Jenkins:** Weinidog, ym maniffesto Plaid Cymru ar gyfer yr etholiad a gynhaliwyd ym mis Mai, rhoesom gysyniad gerbron yr etholwyr ynghylch sut i ddenu pobl i Gymru, yn yr un modd ag y gwnaeth yr Alban yn 2009 gyda Homecoming Scotland. Bydd y cysyniad hwn yn ennyn pobl i ddathlu Cymru fel cenedl ac yn ennyn pobl o wledydd eraill sydd â theuluoedd o Gymru i ddod yn ôl i Gymru i ddathlu hynny. A yw'r Llywodraeth wedi ystyried mabwysiadu syniadau creadigol Plaid Cymru er mwyn ceisio denu pobl yn ôl i Gymru?

**Bethan Jenkins:** Minister, in the Plaid Cymru manifesto for last May's elections, we put forward a concept to the electorate as to how to promote visits to Wales, just as Scotland did in 2009 with Homecoming Scotland. This concept would encourage people to celebrate Wales as a nation and encourage people from other nations who have roots here in Wales to visit in order to celebrate those roots. Has the Government considered adopting the creative ideas put forward by Plaid Cymru in order to encourage people to return to Wales?

2.30 p.m.

**Huw Lewis:** Of course, the Plaid Cymru manifesto is on my bedside table and I refer to it at regular intervals as insomnia strikes. [*Laughter.*] However, a good idea is a good idea and I do not wish to pooh-pooh any good ideas. The Scottish initiative was interesting and had mixed reviews in terms of attracting the Scottish diaspora and its descendants to pay a visit to Scotland.

**Huw Lewis:** Wrth gwrs, rwy'n cadw maniffesto Plaid Cymru wrth ochr fy ngwely ac rwy'n cyfeirio ato'n rheolaidd pan fyddaf yn methu cysgu. [*Chwerthin.*] Fodd bynnag, syniad da yw syniad da ac nid wyf yn dymuno bychanu unrhyw syniadau da. Roedd y fenter yn yr Alban yn ddiddorol a chafodd adolygiadau cymysg o ran denu Albanwyr alltud a'u disgynyddion i ymweld â'r Alban.

I am interested, with regard to my portfolio, in pursuing the modern enthusiasm for genealogy and how people with Welsh ancestral links might be encouraged, perhaps through web-based initiatives, not just to investigate their Welsh ancestry but to celebrate it and perhaps visit those parts of Wales with which they have a family connection. That conversation is ongoing. There will be initiatives throughout this Assembly, which I hope will underscore the

Mae gennyf ddiddordeb, o ran fy mhortffolio, mewn mynd ar drywydd y brwdfrydedd modern dros hel achau a sut y gallai pobl sydd â chysylltiadau teuluol Cymreig gael eu hannog, efallai drwy fentrau ar-lein, nid yn unig i ymchwilio i'w llinach Gymreig, ond hefyd i'w dathlu ac efallai i ymweld â'r rhannau o Gymru y mae ganddynt gysylltiad teuluol â hwy. Mae'r sgwrs hwnnw'n parhau. Bydd mentrau drwy gydol y Cynulliad hwn, ac rwy'n gobeithio y byddant yn tanlinellu pa

importance of recognising that many people with a Welsh connection could be a part of the celebration of Welsh heritage while not necessarily being resident in Wales.

mor bwysig yw cydnabod y gallai nifer o bobl sydd â chysylltiad Cymreig fod yn rhan o ddathlu treftadaeth Cymru, er nad ydynt o reidrwydd yn byw yng Nghymru.

**Bethan Jenkins:** Yr wyf yn falch o glywed bod maniffesto Plaid Cymru mor agos atoch pob awr o'r dydd. Hoffwn symud ymlaen at fater mwy lleol. Fel y gwyddoch, mae canmlwyddiant genedigaeth Dylan Thomas mewn cwpl o flynyddoedd. Deallaf fod trefniadau wedi cychwyn o dan arweinyddiaeth Alun Ffred Jones pan oedd yn y Llywodraeth. Mae'n bositif iawn eich bod yn parhau gyda'r cynlluniau a ddechreuwyd gan Blaid Cymru. Fodd bynnag, mae problemau yn lleol o ran pwy fydd yn arwain Canolfan Dylan Thomas yn y dyfodol. Gwyddom fod Prifysgol Cymru ar ei newydd wedd i fod i gymryd drosodd y gwaith o reoli'r ganolfan ond nid ydym yn siŵr am hyn eto. A allwch hwyluso'r trafodaethau rhwng Cyngor Sir Abertawe a Phrifysgol Cymru ar ei newydd wedd er mwyn sicrhau, pan fydd y dathliadau yn digwydd yng Nghymru, bydd y ganolfan yn chwarae rhan flaenllaw yn y dathliadau hynny?

**Bethan Jenkins:** I am pleased to hear that you keep Plaid Cymru's manifesto close to hand at all times. I want to move on to a more local issue. As you know, it is the centenary of Dylan Thomas's birth in a few years' time. I understand that arrangements were begun under the leadership of Alun Ffred Jones when he was in Government. It is very positive that you are continuing with the plans initiated by Plaid Cymru. However, there are problems locally with regard to who will lead the Dylan Thomas Centre in the future. We know that the University of Wales in its new guise was to take over the work of managing the centre, but we are not sure about this as yet. Can you facilitate negotiations between Swansea council and the University of Wales in its new guise to ensure that when these celebrations take place in Wales, the centre will play a prominent role in those celebrations?

**Huw Lewis:** The centenary of Dylan Thomas's birth should be viewed as a major anniversary, not just for Swansea but for the whole of Wales. There are parts of Wales that have a particular link with a part of the poet's life and which feel particularly proprietorial about it, and that is all for the good. Responsibility for the centre is a matter for Swansea University and the local authority to discuss. The Welsh Government will take a lead in the national co-ordination of the celebration of the centenary of Dylan Thomas's birth. I hope that the anniversary will concentrate the minds of all partners to ensure that we get the best possible showcase for someone who may be called Wales's national poet, because this reflects upon all of us on the international stage and I hope that all partners will come to the table with goodwill.

**Huw Lewis:** Dylid ysytried canmlwyddiant genedigaeth Dylan Thomas yn ddathliad pwysig, nid yn unig i Abertawe ond i Gymru gyfan. Mae rhannau o Gymru sydd â chysylltiad arbennig â rhan o fywyd y bardd ac sy'n teimlo perchnogaeth arbennig drosto, ac mae hynny'n beth da. Mae cyfrifoldeb dros y ganolfan yn fater i Brifysgol Abertawe a'r awdurdod lleol i'w drafod. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd yr awenau o ran cydlynu dathliadau canmlwyddiant genedigaeth Dylan Thomas ar lefel genedlaethol. Rwy'n gobeithio y bydd y canmlwyddiant yn cael ei ystyried gan yr holl bartneriaid er mwyn sicrhau ein bod yn arddangos yr unigolyn y gellid ei alw'n fardd cenedlaethol Cymru yn y ffordd orau bosibl, gan fod hyn yn adlewyrchu ar bob un ohonom ar y llwyfan rhyngwladol ac rwy'n gobeithio y bydd yr holl bartneriaid yn trafod y mater gydag ewyllys da.

**Chwaraeon**

**Sport**

***4. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â lefelau cyfranogiad*

***4. Alun Ffred Jones:*** *Will the Minister make a statement regarding the level of*

*mewn chwaraeon. OAQ(4)0084(HRH)*

*participation in sport. OAQ(4)0084(HRH)*

**Huw Lewis:** The Welsh Government believes in providing opportunities for participation in sport, especially for our young people, as highlighted in our programme for government. Working with Sport Wales and other partners we will continue to drive forward the actions contained within the 'Creating an Active Wales' action plan to increase participation in sport.

**Huw Lewis:** Mae Llywodraeth Cymru yn credu mewn darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig i'n pobl ifanc, fel yr amlygwyd yn ein rhaglen lywodraethu. Drwy weithio gyda Chwaraeon Cymru a phartneriaid eraill, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r camau gweithredu a nodir yn 'Creu Cymru Egnïol', y cynllun gweithredu i gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon.

**Alun Ffred Jones:** Roedd gobeithion wedi eu mynegi gan Weinidogion y Llywodraeth yn San Steffan ar y pryd y byddai'r Gemau Olympaidd yn cynyddu nifer y rhai a fyddai'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Nid yw hynny wedi digwydd ar raddfa genedlaethol. Fodd bynnag, un cynllun blaengar yng Nghymru gyda Chwaraeon Cymru oedd denu rhagor o hyfforddwyr i helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon. Pa mor llwyddiannus a fu'r cynllun hwnnw o ran denu hyfforddwyr newydd ac o ran cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon?

**Alun Ffred Jones:** Hopes were expressed by Government Ministers in Westminster at the time that the Olympic Games would increase the number of people participating in sport. That has not happened on a national level. However, one innovative scheme in Wales with Sport Wales was to attract more coaches to help children and young people to participate in sport. How successful was that scheme in terms of attracting new coaches and increasing the number of people participating in sport?

**Huw Lewis:** Thank you for that question. You are right to be concerned about how we translate the interest in London 2012 into participation in sport in Britain and in Wales. Sport Wales aims to translate that interest into participation. The ultimate goal is for sporting activity to become a natural part of people's lives following on from these experiences. Sport Wales is working with local authorities in planning sports events for young people leading up to London 2012. Conwy, Flintshire, Denbighshire, Gwynedd and Anglesey all have events planned to coincide with the Olympics as part of their sporting programmes. It is also the case that we need to roll out the red carpet for the 19 international Olympic teams, I believe, that will be hosted here in Wales and embedded in our communities. I think that the contact between those teams and young people in particular in those communities will have a fantastic effect in inspiring young people to take part in sport.

**Huw Lewis:** Diolch am y cwestiwn hwnnw. Rydych yn iawn i fod yn bryderus ynghylch sut y byddwn yn defnyddio'r diddordeb yn Llundain 2012 i gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ym Mhrydain ac yng Nghymru. Mae Chwaraeon Cymru yn anelu at ddefnyddio'r diddordeb hwnnw i gynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan. Y nod yn y pen draw yw i weithgaredd chwaraeon fod yn rhan naturiol o fywydau pobl yn sgîl y profiadau hyn. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gynllunio digwyddiadau chwaraeon i bobl ifanc yn y cyfnod cyn Llundain 2012. Mae digwyddiadau wedi'u cynllunio yng Nghonwy, sir y Fflint, sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn i gyd-fynd â'r Gemau Olympaidd fel rhan o'u rhaglenni chwaraeon. Mae hefyd yn wir fod angen inni roi croeso brwd i'r 19 o dimau Olympaidd rhyngwladol, rwy'n credu, a fydd yn aros yma yng Nghymru ac yn cael eu lleoli yn ein cymunedau. Rwy'n credu y bydd y cyswllt rhwng y timau a phobl ifanc yn y cymunedau hynny yn benodol yn cael effaith arbennig, gan ysbrydoli pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Coaches play a fundamental part in improving and maintaining levels of participation in sport. Last year, my understanding is that, through the auspices of Sport Wales, over 16,000 coaches in Wales, and over 5,800 sports leaders, received training. Sport Wales deserves to be paid a compliment for that astonishing throughput of contact with the people who actually deliver on the ground.

Mae hyfforddwyr yn chwarae rhan hanfodol mewn gwella a chynnal y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Y llynedd, fy nealltwriaeth i yw bod dros 16,000 o hyfforddwyr yng Nghymru, a thros 5,800 o arweinwyr chwaraeon, wedi cael hyfforddiant drwy nawdd Chwaraeon Cymru,. Mae Chwaraeon Cymru yn haeddu canmoliaeth am ei lefel ryfeddol o gyswllt â'r bobl sy'n gweithredu ar lawr gwlad.

**Julie Morgan:** Will the Minister join me in congratulating Cardiff City Football Club on its magnificent win in the Carling Cup last night after a very tense evening? Does he agree that such high-profile events are very important in encouraging young people to take part in sport, and in combatting the dangers of childhood obesity, which is one of the big health dangers of the future?

**Julie Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i longyfarch Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd am ei lwyddiant godidog yn y Cwpan Carling neithiwr ar ôl noson gyffrous iawn? A yw'n cytuno bod y math hwn o ddigwyddiadau proffil uchel yn bwysig iawn o ran annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon, a brwydro yn erbyn peryglon gordewdra ymhlith plant, sy'n un o beryglon iechyd mawr y dyfodol?

**Huw Lewis:** I thank the Member for Cardiff North for that question. I echo that good feeling that we all have regarding Cardiff city's fantastic result last night, although I would add that the close proximity of a dedicated Cardiff city supporter within my household, who got rather carried away, led to the young people within my household being woken up and complaining to that Cardiff city supporter that they had school in the morning and could they please pipe down, in so many words. [*Laughter.*]

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am y cwestiwn hwnnw. Ategaf ein bod ni i gyd yn teimlo'n dda ynghylch canlyniad gwych dinas Caerdydd neithiwr. Fodd bynnag, byddwn yn ychwanegu y gwnaeth presenoldeb cefnogwr selog clwb dinas Caerdydd yn fy nghartref, a wnaeth golli rhywfaint ar ei hun, arwain at y bobl ifanc yn y tŷ i gael eu dihuno ac i gwyno wrth y cefnogwr dinas Caerdydd fod ganddynt ysgol yn y bore, ac a allai'r cefnogwr fod yn ddistaw, fel petai. [*Chwerthin.*]

The Welsh Government believes in increasing opportunities for participation in sport, as I have said, especially for the young. Working with Sport Wales and other key partners, we will continue to drive forward the actions contained within 'Creating an Active Wales', our action plan to promote and increase participation in sport. In connection with football in particular, it is very encouraging to see the Football Association of Wales's latest annual report and the enormous increase of 30% in the take-up of football by women and girls. That is fantastic.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu mewn cynyddu cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon, fel y dywedais, yn enwedig i'r ifanc. Drwy weithio gyda Chwaraeon Cymru a phartneriaid allweddol eraill, byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu a nodir yn 'Creu Cymru Egnïol', ein cynllun gweithredu i hybu a chynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. O safbwynt pêl-droed yn arbennig, mae'n galonogol iawn gweld adroddiad blynyddol diweddaraf Cymdeithas Bêl-droed Cymru a'r cynnydd enfawr o 30% yn nifer y menywod a merched sy'n chwarae pêl-droed. Mae hynny'n beth gwych.

**Mohammad Asghar:** I am very pleased to hear your answers to Alun Ffred and Julie.

**Mohammad Asghar:** Rwy'n falch iawn o glywed eich atebion i Alun Ffred a Julie. Yn

According to Estyn, major events create interest and demand in locally-organised sport and physical activities and raise the profile of minority sports. How will the Welsh Government work with the stakeholders to try to achieve that important goal in the sport sector?

ôl Estyn, mae digwyddiadau mawr yn creu diddordeb mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol a drefnir yn lleol a galw amdanynt ac yn codi proffil chwaraeon lleiafrifol. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid i geisio cyrraedd y nod pwysig hwnnw yn y sector chwaraeon?

**Huw Lewis:** I believe that the Member was asking about minority sports. It is very important that we do not concentrate all our energies on football, rugby, cricket and hockey-the major sports, if you like. There are all kinds of ways in which people can become active, and not all of them would necessarily be labeled as sport. I am concerned that activity should be the goal for many of us; not all of us can aspire to the heights of athleticism of the Cardiff city squad. I am working closely with the Deputy Minister for children and other colleagues on our manifesto commitment to a life chances fund for children and young people across Wales, which may impact upon the prospects of children and young people in accessing training and equipment when they are attracted to minority sporting activity in particular. Announcements on the life chances fund will follow later in this Assembly.

**Huw Lewis:** Rwy'n credu bod yr Aelod yn gofyn am chwaraeon lleiafrifol. Mae'n bwysig iawn nad ydym yn canolbwyntio ein holl egni ar bêl-droed, rygbi, criced a hoci—y chwaraeon mawr, fel petai. Mae pob math o ffyrdd y gall pobl ddod yn weithgar, ac ni fyddai pob un ohonynt o reidrwydd yn cael eu labelu fel chwaraeon. Dylai bod yn weithgar fod yn nod i nifer ohonom; ni all pob un ohonom anelu at lefel athletiaeth uchel tîm dinas Caerdydd. Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Dirprwy Weinidog dros blant a chydweithwyr eraill ar ein hymrwymiad maniffesto i sefydlu cronfa cyfleoedd bywyd ar gyfer plant a phobl ifanc ledled Cymru, a allai effeithio ar ragolygon plant a phobl ifanc o ran cael mynediad at hyfforddiant ac offer, yn enwedig os bydd ganddynt ddiddordeb mewn chwaraeon lleiafrifol. Bydd cyhoeddiadau ar y gronfa cyfleoedd bywyd yn cael eu gwneud yn nes ymlaen yn y Cynulliad hwn.

### Capeli Hanesyddol

### Historical Chapels

***5. Mike Hedges:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw wedi cael unrhyw gyfle i gwrdd ag enwadau eglwysi Cymru i drafod ffordd ymlaen ar gyfer diogelu capeli hanesyddol yng Nghymru. OAQ(4)0076(HRH)*

***5. Mike Hedges:*** *Will the Minister provide an update on whether or not he has had any opportunity to meet with Welsh church denominations to discuss a way forward in preserving historical chapels in Wales. OAQ(4)0076(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for Swansea East for his ongoing concern about this important issue. A meeting was arranged with representatives of the Welsh church denominations and scheduled for 13 October 2011 but, unfortunately, the meeting was postponed at their request. I am keen to meet representatives of the Welsh church denominations and hope that we can rearrange that meeting soon. However, the Archbishop of Wales and I have held a constructive meeting, and, arising from that, cross-denominational work has been planned.

**Huw Lewis:** Rwy'n diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Abertawe am ei bryder parhaus ynghylch y mater pwysig hwn. Trefnwyd cyfarfod gyda chynrychiolwyr o enwadau eglwysig Cymru a bwriadwyd ei gynnal ar 13 Hydref 2011 ond, yn anffodus, cafodd y cyfarfod ei ohirio ar eu cais hwy. Rwy'n awyddus i gwrdd â chynrychiolwyr o enwadau eglwysig Cymru ac yn gobeithio y gallwn aildrefnu'r cyfarfod cyn bo hir. Fodd bynnag, rwyf i ac Archesgob Cymru wedi cynnal cyfarfod adeiladol, ac, yn deillio o hynny, trefnwyd gwaith traws-enwadol.

**Mike Hedges:** I stress to the Minister that arranging a meeting and securing a way forward is urgent. As Peter Black outlined yesterday, Libanus chapel in Cwmbwrla was burned to the ground recently, and there are a number of chapels in disrepair. Will the Minister try to rearrange that meeting with the Welsh church denominations as a matter of urgency?

**Mike Hedges:** Pwysleisiaf i'r Gweinidog fod trefnu cyfarfod a sicrhau'r ffordd ymlaen yn bwysig iawn. Fel yr amlinellodd Peter Black ddoe, llosgwyd capel Libanus yng Nghwmbwrla i'r llawr yn ddiweddar, ac mae nifer o gapeli mewn cyflwr gwael. A wnaiff y Gweinidog geisio aildrefnu'r cyfarfod hwnnw gydag enwadau eglwysig Cymru fel mater o frys?

**Huw Lewis:** I assure the Member that that is already underway. The reason why the leader of that group from the Welsh denominations could not attend was quite understandable; it was a pressing family matter. The meeting will be rearranged. As I say, the discussions that I had with the Archbishop of Wales were constructive. We have agreed that my officials and representatives of all the Christian churches, under the heading of Cytûn, will work together regularly to hammer out an agenda on how we can realise the assets of the ecclesiastical built heritage that we have inherited in our generation and how they can be best put back into use and adapted. That is with the hard-headed realisation, which I think that all of us understand, that we will not succeed always and everywhere. However, I think that it is time for national recognition of the importance and urgency of this issue.

**Huw Lewis:** Gallaf sicrhau'r Aelod fod hynny eisoes ar y gweill. Roedd y rheswm pam na allai arweinydd y grŵp hwnnw o enwadau Cymru fod yn bresennol yn ddealladwy; roedd yn fater teuluol pwysig. Bydd y cyfarfod yn cael ei aildrefnu. Fel y dywedais, mae'r trafodaethau rwyf wedi'u cael gydag Archesgob Cymru yn adeiladol. Rydym wedi cytuno y bydd fy swyddogion a chynrychiolwyr o'r holl eglwysi Cristnogol, o dan bennawd Cytûn, yn gweithio gyda'i gilydd yn rheolaidd i lunio agenda ar sut y gallwn ddefnyddio asedau'r dreftadaeth adeiledig eglwysig a etifeddwyd gan ein cenhedlaeth ni, a dod o hyd i'r ffordd gorau o wneud hynny a'u haddasu. Hynny yw, gan sylweddoli mai'r gwir yw na fyddwn yn llwyddo bob amser ac ym mhob man, ac rwy'n credu bod pob un ohonom yn deall hynny. Fodd bynnag, credaf ei bod yn bryd bod cydnabyddiaeth genedlaethol o bwysigrwydd a brys y mater hwn.

**Darren Millar:** Minister, I am sure that the churches and chapels in Colwyn Bay will be full this weekend to celebrate the 9-0 victory over Blaenau Ffestiniog in the match last night. Will you congratulate Capel—the Welsh chapels heritage society—on its work in protecting the historic chapels of Wales, which, of course, can provide a huge draw for tourists in the country? You will be aware that there have been problems in some areas with metal thefts from churches and chapels. Can you tell me what action you are taking, as a Minister, to work with the police and other agencies to support the denominations and the church networks to protect their premises against such thefts in the future?

**Darren Millar:** Weinidog, rwy'n siŵr y bydd yr eglwysi a'r capeli ym Mae Colwyn yn llawn y penwythnos hwn i ddathlu'r fuddugoliaeth 9-0 dros Flaenau Ffestiniog yn y gêm neithiwr. A wnewch chi longyfarch Capel—cymdeithas treftadaeth capeli Cymru—ar ei waith o amddiffyn capeli hanesyddol Cymru, a all, wrth gwrs, fod yn atyniad enfawr i dwristiaid yn y wlad? Byddwch yn gwybod y cafwyd problemau mewn rhai ardaloedd gyda metel yn cael ei ddwyn o eglwysi a chapeli. A allwch ddweud wrthyf pa gamau rydych yn eu cymryd, fel Gweinidog, i weithio gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill i gefnogi'r enwadau a'r rhwydweithiau eglwysig i ddiogelu eu hadeiladau yn erbyn achosion o ddwyn o'r fath yn y dyfodol?

**Huw Lewis:** I hesitate to congratulate Colwyn Bay on its stupendous success against Blaenau Ffestiniog; my Auntie Katie

**Huw Lewis:** Rwy'n petruso rhag llongyfarch Bae Colwyn ar ei lwyddiant aruthrol yn erbyn Blaenau Ffestiniog; bydd fy Modryb

in Blaenau Ffestiniog will be most concerned about that kind of level of defeat. [*Laughter*.] With regard to Capel and other organisations that are involved in channelling the fantastic work of motivated congregations to realise the community mission of their church and chapel and to make best use of their buildings, there are many examples of selfless and dedicated work in Wales. Only recently, I was at the opening of the Hanbury Road Baptist Chapel, now a library/chapel, in Bargoed. If it were not for the efforts of the local congregation that fantastic conversion to community use would never have got off the ground in the first place. It is a fantastic example of government, at local and national level, taking the ideas of that congregation seriously and following them through to a fantastic conclusion. We need to understand that the people who care most, quite often, are the congregation.

Katie ym Mlaenau Ffestiniog yn pryderu'n fawr am iddynt gael eu trechu i'r fath raddau. [*Chwerthin.*] O ran Capel a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â sianelu gwaith gwych cynulleidfaoedd brwdfrydig er mwyn gwireddu cenhadaeth gymunedol eu heglwysi a'u capeli ac i wneud y defnydd gorau o'u hadeiladau, ceir nifer o enghreifftiau o waith anhunanol ac ymroddedig yng Nghymru. Yn ddiweddar, roeddwn yn nigwyddiad agor capel Bedyddwyr Ffordd Hanbury, sydd bellach yn llyfrgell/capel, ym Margod. Oni bai am ymdrechion y gynulleidfa leol, ni fyddai'r gwaith ardderchog i'w drosi at ddefnydd y gymuned wedi dechrau yn y lle cyntaf. Mae'n enghraifft wych o lywodraeth, ar lefel leol a chenedlaethol, yn cymryd syniadau'r gynulleidfa o ddifrif ac yn eu gwireddu, gan arwain at ganlyniad gwych. Mae angen inni ddeall mai'r bobl sy'n gofalu fwyaf, yn aml, yw'r gynulleidfa.

Lead and metal theft is a matter of great concern and was on the agenda for my meeting with the Archbishop of Wales. We will be taking forward discussions, in joint working between the Cytûn property group and my officials, on how we can address this issue, among other issues.

Mae dwyn plwm a metel yn fater o bryder mawr ac roedd ar yr agenda ar gyfer fy nghyfarfod gydag Archesgob Cymru. Byddwn yn cynnal trafodaethau, drwy weithio ar y cyd rhwng grŵp eiddo Cytûn a'm swyddogion, ar sut y gallwn fynd i'r afael â'r mater hwn, ymhlith materion eraill.

2.45 p.m.

**Lindsay Whittle:** I should say that I am the secretary of the friends of Groeswen chapel in Caerphilly. Some of these buildings really are part of our precious inheritance. I think that we should value them far more than we do. We drive by them without a second glance sometimes. It is very sad. Minister, will you instigate a national open day for chapels in particular? I was thinking that it should perhaps be in 2014—the only date that I could correlate with anything—that being 110 years following the great Welsh revival. There should be a national open day for all of these chapels, and, hey, let us invite every other denomination to have an open day as well so that we can all visit these buildings and, as Darren Millar said, so that tourists can visit them as well. One very progressive local authority in my region—I will not say which [*Laughter*.]—has done this and it was extremely successful. Members of those congregations were very proud to show off their places of worship. It

**Lindsay Whittle:** Dylwn ddweud fy mod yn ysgrifennydd cyfeillion capel y Groeswen yng Nghaerffili. Mae rhai o'r adeiladau hyn yn rhan o'n hetifeddiaeth werthfawr. Rwy'n credu y dylem eu gwerthfawrogi'n llawer mwy nag yr ydym yn ei wneud. Rydym yn gyrru heibio iddynt heb edrych ddwywaith arnynt. Mae'n drist iawn. Weinidog, a wnewch chi sefydlu diwrnod agored cenedlaethol i gapeli yn benodol? Roeddwn yn meddwl y gallai hyn fod yn 2014—yr unig ddyddiad y gallwn feddwl amdano sydd ag unrhyw arwyddocad—gan y bydd hynny 110 o flynyddoedd ar ôl y diwygiad mawr yng Nghymru. Dylid cael diwrnod agored cenedlaethol ar gyfer pob un o'r capeli hyn, a gadewch i ni wahodd pob enwad arall i gael diwrnod agored hefyd fel y gall pawb ohonom ymweld â'r adeiladau hyn ac, fel y dywedodd Darren Millar, fel y gall ymelwyr ymweld â hwy hefyd. Mae un awdurdod lleol blaengar iawn yn fy rhanbarth i—nid wyf am ddweud pa un [*Chwerthin.*]—wedi gwneud

would be a great idea, Minister. You could make a name for yourself up above—who knows? [*Laughter*.]

hyn ac roedd yn hynod o lwyddiannus. Roedd aelodau o'r capeli hyn yn falch iawn o ddangos eu haddoldai. Byddai'n syniad gwych, Weinidog. Pwy a ŵyr—efallai y gallech wneud enw i chi eich hun yn y nefoedd. [*Chwerthin*.]

**Huw Lewis:** Oh dear, I might be making a name for myself here as it is. [*Laughter*.] I thank the Member for that question and I take his very serious point. There is a point in time approaching when we will need to push the realisation of what we could lose in terms of this aspect of Wales's built heritage, which is unique to us, in many ways, if we allow things to just drift over the next few years. I am interested in all ideas as we formulate a national approach towards this. I am very interested in the idea of opening up these buildings. There is the Open Doors initiative, of course, which Cadw and the Civic Trust work on annually. If the Member is willing to write to me about his experiences in a progressive local authority area, I would be very happy to take a look at how these could be consolidated and spread as best practice.

**Huw Lewis:** O diar, efallai fy mod yn gwneud enw i mi fy hun fan hyn fel ag y mae. [*Chwerthin*.] Diolchaf i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw ac rwy'n derbyn ei bwynt difrifol. Mae cyfnod mewn amser yn agosáu pryd y bydd angen i ni wneud i bobl sylweddoli'r hyn y gallem ei golli o ran yr agwedd hon ar dreftadaeth adeiledig Cymru, sy'n unigryw i ni, mewn sawl ffordd, pe baem yn caniatáu i bethau lusgo dros y blynyddoedd nesaf. Mae gennyf ddiddordeb mewn pob mathau o syniadau wrth i ni lunio dull cenedlaethol o fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae gennyf ddiddordeb mawr yn y syniad o agor yr adeiladau hyn. Mae yna fenter Drysau Agored, wrth gwrs, y mae Cadw a'r Ymddiriedolaeth Ddinesig yn gweithio arni bob blwyddyn. Pe bai'r Aelod yn fodlon ysgrifennu ataf am ei brofiadau mewn awdurdod lleol blaengar, byddwn yn hapus iawn i edrych ar sut y gallai'r rhain gael eu cyfuno a'u lledaenu fel arfer gorau.

**Eluned Parrott:** Minister, in the Butetown area of Cardiff in my region, the Bethel Baptist chapel is another chapel under threat of demolition to make way for another apartment complex. Although the building is not listed, it is an iconic part of that townscape, and local residents are really concerned that, if the demolition takes place, it will further erode the character and heritage of Cardiff docks. Once it is gone, it is gone forever and we cannot do anything to bring it back. What might you be able to do to ensure that, when the planning rules are being reviewed, the heritage of our townscapes is better protected and preserved for future generations?

**Eluned Parrott:** Weinidog, yn ardal Butetown yng Nghaerdydd yn fy rhanbarth i, mae capel Bethel y Bedyddwyr yn gapel arall sydd o dan fygythiad o gael ei ddymchwel er mwyn gwneud lle i fwy fyth o fflatiau. Er nad yw'r adeilad yn un rhestredig, mae'n rhan eiconig o'r treflun, ac mae trigolion lleol yn bryderus iawn, os bydd y gwaith dymchwel yn digwydd, y bydd yn erydu ymhellach gymeriad a threftadaeth dociau Caerdydd. Unwaith y bydd wedi mynd, bydd wedi mynd am byth ac nid oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i ddod ag ef yn ei ôl. Beth allech chi ei wneud er mwyn sicrhau, pan fydd y rheolau cynllunio yn cael eu hadolygu, y caiff treftadaeth ein trefluniau ei diogelu'n well a'i cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?

**Huw Lewis:** Now, in the run-up to the heritage Bill, which I signalled yesterday would be introduced in 2014, is the time for ideas such as this to be explored. I am aware of the concerns of many Members, me included, across the Chamber about the local

**Huw Lewis:** Y cyfnod hwn sy'n arwain at y Bil treftadaeth a gaiff ei gyflwyno yn 2014, fel y soniais ddoe, yw'r amser i syniadau fel hyn gael eu gwyntyllu. Rwy'n ymwybodol o bryderon nifer o Aelodau, minnau yn eu plith, ar draws y Siambr am bwysigrwydd

importance of buildings that may or may not be listed in the formal sense and how those buildings, which may be seen as being of great value to a local community in terms of their heritage, are best protected and future uses secured for them. The door is open for ideas in the run-up to that Bill.

lleol adeiladau, rhai sydd wedi'u rhestru yn yr ystyr ffurfiol neu beidio, ac o'r ffordd orau o ddiogelu'r adeiladau hynny, sydd â gwerth mawr i gymuned leol o ran ei threftadaeth, ac o sicrhau defnydd iddynt yn y dyfodol. Mae'r drws yn agored i syniadau yn y cyfnod sy'n arwain at y Bil.

**Rebecca Evans:** Historic churches in Wales are nationally important assets managed by local people. The Church in Wales owns 1,400 places of worship, just under 1,000 of which are listed buildings. They also account for 29% all of Wales's grade I listed buildings. Following from your answer to a previous question, Minister, will you join me in paying tribute to the hard work and dedication of congregations up and down Wales in managing these historic assets?

**Rebecca Evans:** Mae eglwysi hanesyddol yng Nghymru yn asedau pwysig cenedlaethol a reolir gan bobl leol. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn berchen ar 1,400 o fannau addoli, y mae ychydig yn llai na 1,000 ohonynt yn adeiladau rhestredig. Maent hefyd yn cyfrif am 29% o holl adeiladau rhestredig gradd I Cymru. Yn dilyn eich ateb i gwestiwn blaenorol, Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i dalu teyrnged i waith caled ac ymroddiad cynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru wrth reoli'r asedau hanesyddol hyn?

**Huw Lewis:** I thank the Member for Mid and West Wales for that point. As I mentioned earlier, I met the Archbishop of Wales earlier this month. Practically the first point the archbishop raised and the first that I readily recognised during that meeting was the importance of recognising the commitment of congregations across Wales to supporting those buildings as bricks and mortar and to maintaining a community aspect to the future of those buildings. We also recognised the extraordinary generosity of spirit that people demonstrate because they are very fond—'fond' is too weak a word sometimes—of these unique aspects of our heritage. They have a commitment to opening those doors and finding a future for the building that includes others beyond their congregation.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru am y pwynt hwnnw. Fel y soniais yn gynharach, cefais gyfarfod ag Archesgob Cymru yn gynharach y mis hwn. Y pwynt cyntaf a gododd yr Archesgob, fwy neu lai, a'r pwynt cyntaf i mi ei gydnabod yn barod yn ystod y cyfarfod hwnnw, oedd pwysigrwydd cydnabod ymrwymiad cynulleidfaoedd ledled Cymru i gefnogi'r adeiladau hynny fel brics a morter ac i gynnal elfen gymunedol yr adeiladau hynny yn y dyfodol. Rydym hefyd yn cydnabod yr haelioni rhyfeddol y mae pobl yn ei ddangos oherwydd eu bod yn hoff iawn—mae 'hoff iawn' yn eiriau rhy wan weithiau—o'r agweddau unigryw hyn ar ein treftadaeth. Maent wedi ymrwymo i agor y drysau hynny a dod o hyd i ddyfodol i'r adeilad sy'n cynnwys pobl eraill tu hwnt i'w cynulleidfa hwy.

### Sain Ffagan

### St Fagans

***6. Mark Drakeford:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i ddatblygu Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan yn y dyfodol. OAQ(4)0080(HRH)*

***6. Mark Drakeford:*** *Will the Minister make a statement on plans for future development of the St Fagans National History Museum. OAQ(4)0080(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for Cardiff West for the question. The St Fagans redevelopment will boost the Welsh economy both during the construction phase and through increased tourism. It will ensure that the museum maintains its place at the heart of

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Orllewin Caerdydd am y cwestiwn. Bydd ailddatblygiad Sain Ffagan yn hwb i economi Cymru yn ystod y cyfnod adeiladu a thrwy gynyddu twristiaeth. Bydd yn sicrhau bod yr amgueddfa yn cadw ei lle wrth galon bywyd

Wales's cultural life, while being upgraded to tell many more stories and offer much-improved visitor facilities.

diwylliannol Cymru, tra ei bod yn cael ei huwchraddio fel y gall adrodd llawer mwy o straeon a chynnig cyfleusterau gwell i ymwelwyr.

**Mark Drakeford:** Thank you for that update. The National History Museum is a jewel in the crown in Cardiff West, and people who live locally are great supporters of it. You will be aware that, in the redevelopment process, and with the greater numbers of visitors that we hope to attract, there will be issues to do with traffic and parking—management of that sort. I would be grateful for any assurance that you can give that those issues are being taken fully into account as these plans are developed.

**Mark Drakeford:** Diolch am y wybodaeth ddiweddaraf honno. Mae Amgueddfa Werin Cymru yn drysor yng nghoron Gorllewin Caerdydd, ac mae trigolion lleol yn gefnogol iawn iddi. Byddwch yn ymwybodol, yn y broses ailddatblygu, a chyda'r nifer gynyddol o ymwelwyr yr ydym yn gobeithio eu denu, y bydd materion yn codi sy'n ymwneud â thraffig a pharcio—materion rheoli o'r math hwnnw. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw sicrwydd y gallwch ei roi bod y materion hynny'n cael eu hystyried yn llawn wrth i'r cynlluniau hyn gael eu datblygu.

**Huw Lewis:** I thank Mark Drakeford for his legitimate concerns. The plans surroundings the expansion and improvement of facilities at St Fagans are the biggest plans in terms of capital development across the museum sector anywhere in the UK. As part of that, we anticipate that visitor numbers to what is already the most popular visitor attraction in Wales—it was *Which*? magazine's best place to visit in the UK in 2011, incidentally—will grow to around 1 million per annum. As part of that, Amgueddfa Cymru and I are keen to promote efficient, sustainable transport solutions for the expanded visitor numbers that we anticipate. We will be developing a comprehensive travel strategy in consultation with key partners, which include the local community council as well as Cardiff Council. That includes a commitment to increased bus and cycle provision, to investigate rail and bus links, and to minimise the impact of car traffic on the local community.

**Huw Lewis:** Diolch i Mark Drakeford am ei bryderon dilys. Y cynlluniau i ehangu a gwella cyfleusterau yn Sain Ffagan yw'r cynlluniau datblygu cyfalaf mwyaf mewn unrhyw le yn y sector amgueddfeydd yn y DU. Fel rhan o hynny, rydym yn rhagweld y bydd nifer yr ymwelwyr i rywle sydd eisoes yn atyniad ymwelwyr mwyaf poblogaidd Cymru—gyda llaw, yn ôl cylchgrawn Which?, dyma oedd y lle gorau i ymweld ag ef yn y DU yn 2011—yn cynyddu i tua 1 filiwn y flwyddyn. Fel rhan o hynny, mae Amgueddfa Cymru a minnau yn awyddus i hybu datrysiadau trafnidiaeth effeithlon a chynaliadwy ar gyfer y niferoedd cynyddol o ymwelwyr yr ydym yn eu rhagweld. Byddwn yn datblygu strategaeth deithio gynhwysfawr mewn ymgynghoriad â'r prif bartneriaid, sy'n cynnwys y cyngor cymuned lleol a Chyngor Caerdydd. Mae hynny'n cynnwys ymrwymiad i ragor o ddarpariaeth ar gyfer bysiau a beicio, i ymchwilio i gysylltiadau rheilffyrdd a bysiau, ac i leihau effaith traffig ceir ar y gymuned leol.

**Andrew R.T. Davies:** I, too, welcome the developments at St Fagans museum. In the South Wales Central area, there is a wide range of activities and attractions, such as Dyffryn Gardens, which is in the process of being taken over by the National Trust, and Dare Valley Country Park at the top end of South Wales Central region. It is important that these heritage parks and museums are linked up to offer a true tourism experience for people from outside south Wales, so that

**Andrew R.T. Davies**: Rwyf innau hefyd yn croesawu'r datblygiadau yn Sain Ffagan. Yn ardal Canol De Cymru, mae amrywiaeth eang o weithgareddau ac atyniadau, fel Gerddi Dyffryn, sydd yn y broses o gael eu cymryd drosodd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn ogystal â Pharc Gwledig Cwm Dâr ym mhen uchaf rhanbarth Canol De Cymru. Mae'n bwysig bod y parciau treftadaeth a'r amgueddfeydd hyn yn cael eu cysylltu gyda'i gilydd fel eu bod yn cynnig

they spend longer than just one or two days in this area and that we build a successful tourism industry. What discussions are you having with your colleague the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, Edwina Hart, so that your officials and the attraction organisers can be confident that all aspects are covered and that, in their promotion, the attractions are used to their best advantage?

profiad twristiaeth gwirioneddol i bobl o'r tu allan i dde Cymru, fel bod yr ymwelwyr hynny'n treulio mwy na rhyw ddiwrnod neu ddau yn unig yn yr ardal hon a'n bod yn adeiladu diwydiant twristiaeth llwyddiannus. Pa drafodaethau ydych chi'n eu cael gyda'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, Edwina Hart, fel y gall eich swyddogion a threfnwyr yr atyniadau fod yn hyderus bod pob agwedd yn cael ei chynnwys ac, wrth eu hyrwyddo, bod yr atyniadau yn cael eu defnyddio i'r eithaf?

**Huw Lewis:** Of course, those discussions go on daily. Andrew R.T. Davies is quite right to point to the importance of linking up visitor attractions across regions of Wales to ensure that first-time visitors, who are often quite surprised at the quality of an attraction like St Fagans, are encouraged to investigate what else is out there and what south Wales, in this instance, has to offer. We have come a long way. Our web-based work on tourism and how visitor attractions—I am concerned, of course, with the heritage-based attractions—communicate the links between them with wider audiences. For instance, our heritage trail, which now includes the Edwardian castles, is clearly linked to visitors on the web. There is encouragement to move between them and not to just visit them in isolation, so that people explore the story of that piece of Wales's built heritage. Those are examples of best practice that we need to continually build upon.

**Huw Lewis:** Mae'r trafodaethau hynny'n digwydd o ddydd i ddydd. Mae Andrew R.T. Davies yn hollol iawn i gyfeirio at bwysigrwydd cysylltu atyniadau ymwelwyr ledled rhanbarthau Cymru gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod ymwelwyr tro cyntaf, sy'n aml yn synnu at safon atyniad megis Sain Ffagan, yn cael eu hannog i ymchwilio beth arall sydd i'w weld a beth sydd gan de Cymru, yn yr achos hwn, i'w gynnig. Rydym wedi dod yn bell. Mae ein gwaith ar dwristiaeth ar y we a sut mae atyniadau ymwelwyr—rwy'n poeni, wrth gwrs, am yr atyniadau treftadaeth—yn hyrywddo'r cysylltiadau rhyngddynt â chynulleidfaoedd ehangach. Er enghraifft, mae ein llwybr treftadaeth, sydd bellach yn cynnwys y cestyll Edwardaidd, wedi'i gysylltu'n glir i ymwelwyr ar y we. Mae anogaeth i symud o'r naill i'r llall ac nid i ymweld ag atyniadau unigol yn unig, fel bod pobl yn edrych ar hanes y darn hwnnw o dreftadaeth adeiledig Cymru. Mae'r rhain yn enghreifftiau o arfer gorau y mae angen inni barhau i adeiladu arnynt.

**The Presiding Officer:** I call Alun Ffred Jones, who will come back to St Fagans, I hope.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Alun Ffred Jones, a fydd yn dychwelyd at Sain Ffagan, gobeithio.

**Alun Ffred Jones:** Yn bendant. Diolch am y sylwadau hynny. Rwy'n siŵr bod Mark Drakeford yn sylweddoli bod Sain Ffagan yn drysor cenedlaethol yn ogystal â bod yn drysor i bobl Gorllewin Caerdydd. Croesawaf eich sylwadau ynglŷn â'r datblygiadau, a ysbrydolwyd gan ŵr o'r canolbarth, Iorwerth Peate. Mae'r amgueddfa wedi gwneud cais am arian treftadaeth ar gyfer y cynlluniau hyn, ond mae angen arian ychwanegol o du'r Llywodraeth. A allwch ein sicrhau y bydd y Llywodraeth yng Nghaerdydd yn rhoi'r

**Alun Ffred Jones:** Certainly. Thank you for those comments. I am sure that Mark Drakeford knows that St Fagans is a national treasure as well as being a treasure for the people of Cardiff West. I welcome your comments about the developments, which were inspired by a gentleman from mid Wales, Iorwerth Peate. The museum has applied for heritage money for these plans, but also needs money from the Government. Can you assure us that the Government in Cardiff will provide the financial support that

gefnogaeth ariannol angenrheidiol er mwyn cwblhau'r gwaith ar y cynllun ysbrydoledig yn llwyddiannus?

is needed in order to successfully complete the work on these inspired plans?

**Huw Lewis:** Absolutely, yes. If the heritage lottery bid—which will be decided upon in April, I believe—is successful, then the scheme in total will amount to nearly £25 million in capital investment. The Welsh Government will commit around £7 million to make that happen. Following on from Alun Ffred's work as my predecessor, the commitment of capital allocation for St Fagans remains undimmed.

**Huw Lewis:** Gallaf, heb os. Os bydd y cais am arian treftadaeth y loteri—a gaiff ei benderfynu arno ym mis Ebrill—yn llwyddiannus, bydd y cynllun yn golygu cyfanswm o bron i £25 miliwn mewn buddsoddiad cyfalaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo tua £7 miliwn i sicrhau bod hynny'n digwydd. Yn dilyn ymlaen o waith Alun Ffred fel fy rhagflaenydd, mae'r ymrwymiad i'r dyraniad cyfalaf i Sain Ffagan cyn gryfed ag erioed.

### Budd-Daliadau Tai

### Housing Benefits

***7. Vaughan Gething:*** *Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith newidiadau'r DU i fudd-daliadau tai ar unigolion a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. OAQ(4)0082(HRH)*

***7. Vaughan Gething:*** *What assessment has the Minister made of the impact that UK changes in housing benefits are having on individuals and public services in Wales. OAQ(4)0082(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for Cardiff South and Penarth for touching upon this very important issue. I have contributed £120,000 towards a research programme in three pilot programme areas across Wales to consider the social and demographic impacts of the April 2011 and January 2012 housing benefit changes. That is in addition to the financial impact assessments undertaken by Department for Work and Pensions.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth am gyfeirio at y mater pwysig iawn hwn. Rwyf wedi cyfrannu £120,000 at raglen ymchwil mewn tair ardal brawf ledled Cymru i ystyried effeithiau cymdeithasol a demograffig y newidiadau i'r budd-daliadau tai a wnaed ym mis Ebrill 2011 a mis Ionawr 2012. Mae hynny yn ychwanegol at yr asesiadau effaith ariannol a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**Vaughan Gething:** Minister, thank you for that answer. I am pleased to hear that you are proactively taking steps to assess the impact in Wales. I am sure that you have heard the breadth and depth of opinion in the research conducted that the UK Government's changes to housing benefits will increase homelessness and inequality. Research by the Chartered Institute for Housing estimates that over 30,000 homes in Wales will be put out of the reach of people on housing benefits. In the discussions that you are having, can you confirm what involvement you have with local authorities and housing and homelessness agencies in Wales in terms of how they expect to deal with the increased pressure upon them and their resources?

**Vaughan Gething:** Weinidog, diolch i chi am yr ateb hwnnw. Rwy'n falch o glywed eich bod yn cymryd camau rhagweithiol i asesu'r effaith yng Nghymru. Rwy'n siŵr eich bod wedi clywed dyfnder y farn yn y gwaith ymchwil a wnaed y bydd newidiadau Llywodraeth y DU i'r budd-daliadau tai yn cynyddu digartrefedd ac anghydraddoldeb. Mae gwaith ymchwil gan y Sefydliad Tai Siartredig yn amcangyfrif y bydd dros 30,000 o gartrefi yng Nghymru yn mynd tu hwnt i gyrraedd pobl sy'n cael budd-daliadau tai. Yn y trafodaethau yr ydych yn eu cael, a allwch gadarnhau pa waith ydych yn ei wneud ag awdurdodau lleol ac asiantaethau tai a digartrefedd yng Nghymru o ran sut y maent yn disgwyl y byddant yn ymdrin â'r pwysau cynyddol arnynt hwy a'u hadnoddau?

**Huw Lewis:** That research will include those

**Huw Lewis:** Bydd y gwaith ymchwil

organisations. You are right to point to the CIH Cymru report of 6 January. Although it is broad-brush research, it points to a truly terrifying number of 30,000 homes being knocked out of the reach of people on housing benefits, at least half of whom are in employment. Those hard-working people will have those particular homes knocked out of their reach. How that is meant to assist families in this difficult economic period, I cannot understand. The changes brought in by the UK Government are a point of constant discussion between me, the WLGA and others.

hwnnw'n cynnwys y sefydliadau hynny. Rydych chi'n iawn i dynnu sylw at adroddiad CIH Cymru o 6 Ionawr. Er mai gwaith ymchwil bras ydyw, mae'n cyfeirio at nifer gwirioneddol frawychus o 30,000 o gartrefi a fydd yn mynd tu hwnt i gyrraedd pobl sy'n cael budd-daliadau tai, y mae o leiaf hanner ohonynt mewn gwaith. Bydd y bobl weithgar hynny yn gweld y tai penodol hynny yn mynd allan o'u cyrraedd. Ni allaf ddeall sut gall hynny gynorthwyo teuluoedd yn y cyfnod economaidd anodd hwn. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn bwnc sy'n cael ei drafod yn gyson rhyngof fi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill.

**Angela Burns:** Minister, as you will be aware, there are approximately 6,000 households in the UK where the occupiers are on six-figure salaries—a proportion of those are in Wales—and where they are still benefitting from subsidised social rent. People like that are preventing households in genuine need from getting a decent roof over their heads. Do you agree that that is not acceptable? Are you consulting on the recent housing strategy, in which the Government proposed to curb the practice of people earning £100,000 and still living in a local authority house, such as Bob Crow, the union leader?

**Angela Burns:** Weinidog, fel y byddwch yn ymwybodol, mae tua 6,000 o gartrefi yn y DU lle mae'r deiliaid ar gyflogau chwe ffigur—ac mae cyfran o'r rheini yng Nghymru—ac sy'n dal i elwa ar gymhorthdal rhent cymdeithasol. Mae pobl fel hynny yn atal teuluoedd sydd mewn angen gwirioneddol rhag cael to boddhaol uwch eu pen. A ydych yn cytuno nad yw hynny'n dderbyniol? A ydych yn ymgynghori ar y strategaeth tai ddiweddar, lle y cynigiodd y Llywodraeth atal yr arfer o bobl sy'n ennill £100,000 rhag byw mewn tŷ sy'n eiddo i awdurdod lleol, megis Bob Crow, yr arweinydd undeb?

**Huw Lewis:** It is usually a comfort to know that that kind of ideological parlour game, the charade that we are seeing today, is usually performed by the UK Government. Usually, we escape that sort of nonsense in this Chamber. We are dealing with thousands, perhaps hundreds of thousands, of hard-working Welsh families that will be pushed into a situation of precariousness with regard to the affordability of their own homes because of the actions of this Tory-Lib Dem coalition UK Government. I will not be distracted by *Daily Mail* tittle-tattle about statistical exceptions and people in extraordinarily rare circumstances that holds those examples up as drivers of a policy that is essentially socially unjust.

**Huw Lewis:** Mae fel arfer yn gysur bod y math hwn o gêm ideolegol a'r sioe rydym yn ei gweld heddiw yn cael ei pherfformio fel arfer gan Lywodraeth y DU. Fel arfer, rydym yn osgoi'r math hwnnw o lol yn y Siambr hon. Rydym yn sôn am filoedd, neu gannoedd o filoedd, efallai, o deuluoedd gweithgar yng Nghymru a fydd yn cael eu gwthio i sefyllfa ansicr iawn o ran fforddiadwyedd eu cartrefi eu hunain oherwydd y camau a gymerwyd gan Lywodraeth glymblaid y DU rhwng y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Ni fyddaf yn canolbwyntio ar gleber y *Daily Mail* am eithriadau ystadegol a phobl o dan amgylchiadau hynod o brin sy'n mynnu bod yr enghreifftiau hynny'n ysgogi polisi sydd, yn ei hanfod, yn gymdeithasol anghyfiawn.

3.00 p.m.

**Leanne Wood:** Minister, I agree with the

**Leanne Wood:** Weinidog, rwy'n cytuno â'r

sentiment that you have just expressed. The Westminster coalition's slashing of housing benefit—a principle that, incidentally, has been backed by your Labour Party colleague Liam Byrne—has wide-ranging consequences for people in this country. Have you and your department made an assessment of what the impact would be if there were to be a mass dispersal of people from London and other expensive cities or districts to cheaper rental areas such as Wales, as has been predicted? What impact would such a movement have upon our infrastructure, our public services and the availability of homes, in particular—we have already heard about concerns about rising homelessness? How will you plan for potential population changes?

hyn yr ydych newydd ei fynegi. Mae i'r hyn y mae'r glymblaid yn San Steffan wedi'i wneud drwy gwtogi'r budd-dal tai—egwyddor, gyda llaw, a gefnogwyd gan Liam Byrne, eich cyd-Aelod yn y Blaid Lafur—oblygiadau pellgyrhaeddol i bobl yn y wlad hon. A ydych chi a'ch adran wedi asesu beth fyddai'r effaith pe bai nifer fawr o bobl yn symud o Lundain a dinasoedd neu ardaloedd drud eraill i ardaloedd rhent rhatach fel Cymru, fel y rhagwelir? Beth fyddai'r effaith ar ein seilwaith, ein gwasanaethau cyhoeddus a'r tai a fyddai ar gael, yn benodol—rydym wedi clywed yn barod am bryderon am ddigartrefedd yn codi? Sut y byddwch yn cynllunio ar gyfer newidiadau posibl yn y boblogaeth?

**Huw Lewis:** I can tell the Member that it is very difficult to plan. I have committed that £120,000, as I said, to research the situation here—[*Interruption.*]

**Huw Lewis:** Gallaf ddweud wrth yr Aelod ei bod yn anodd iawn cynllunio ar gyfer hyn. Rwyf wedi neilltuo £120,000, fel y dywedais, i ymchwilio i'r sefyllfa yma—[*Torri ar draws.*]

**The Presiding Officer:** Order. I tell the Conservative Members that this was a question generated by one of their party members; it would be helpful if they listened to the entire response.

**Y Llywydd:** Trefn. Rwyf am ddweud wrth yr Aelodau Ceidwadol fod hwn yn gwestiwn a ofynnwyd gan un o aelodau eu plaid; byddai'n ddefnyddiol pe baent yn gwrando ar yr ateb cyfan.

**Huw Lewis:** It is very difficult to plan precisely what effect there might be, because there are imponderables here, for instance, there is the article of faith the UK Government continually trots out that these changes will mean that landlords will drop rents and the market will adjust. There is absolutely no evidence of that happening thus far. Landlords are not daft, and there is no early evidence that landlords anywhere in the UK are willing to simply adjust the market in order to take account of what UK Government Ministers are up to. After all, what are they up to? They are letting go of what has been a cross-party consensus for decades on mixed communities in terms of forms of tenure and of realising that we should not ghettoise people on low incomes, because we all know that where that has happened in the past, perhaps through bad planning, the ghettoisation of the least well off has led to social problems, the expense of which dwarf any savings that this UK Government could hope for by manipulating

**Huw Lewis:** Mae'n anodd iawn rhagweld yn union beth fyddai'r effaith, oherwydd ceir rhai pethau anfesuradwy. Er enghraifft, mae'r gredo y mae Llywodraeth y DU yn ei chodi'n barhaus y bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd landlordiaid yn gostwng rhenti a bydd y farchnad yn addasu. Ni chafwyd dim tystiolaeth bod hynny'n digwydd hyd yma. Nid yw landlordiaid yn hurt, ac nid oes tystiolaeth gynnar bod landlordiaid yn unman yn y DU yn barod i addasu'r farchnad er mwyn ystyried yr hyn y mae Gweinidogion Llywodraeth y DU yn ei wneud. Wedi'r cyfan, beth y maent yn ei wneud? Maent yn cefnu ar yr hyn sydd wedi bod yn gonsensws trawsbleidiol ers degawdau ynghylch cymunedau cymysg o ran y mathau o ddeiliadaeth a sylweddoli na ddylem orfodi pobl ar incwm isel i getoau, oherwydd ein bod i gyd yn gwybod pan fo hynny wedi digwydd yn y gorffennol, efallai drwy gynllunio gwael, fod gosod y bobl leiaf llewyrchus mewn getoau wedi arwain at broblemau cymdeithasol, a bod cost hynny'n

housing benefit.

fwy o lawer nag unrhyw arbedion y gallai Llywodraeth y DU obeithio amdanynt o ganlyniad i addasu budd-dal tai.

**Kenneth Skates:** One of the concerns brought up with me recently has been the number of failed tenancy agreements experienced by care leavers within the first year of leaving the care system. A Consumer Focus report recently highlighted that when they leave care, they often lack the basic practical skills to secure their entitlement to housing benefit and struggle with issues such as basic tenancy rights. What work are you doing to examine how we can provide better all-round support for care leavers living in independent housing and ensure that we build in special flexibility to their situation so that they can fulfil their tenancy agreements and achieve stability in their young lives?

**Kenneth Skates:** Un o’r pryderon y soniwyd amdanynt wrthyf yn ddiweddar oedd nifer y cytundebau tenantiaeth aflwyddiannus a brofir gan bobl sy’n gadael gofal o fewn blwyddyn wedi iddynt adael y system ofal. Roedd adroddiad diweddar gan Llais Defnyddwyr yn tynnu sylw at y ffaith, pan fyddant yn gadael gofal, nad oes ganddynt yn aml y sgiliau ymarferol sylfaenol i sicrhau eu hawl i fudd-dal tai a’u bod yn cael trafferth gyda materion megis hawliau tenantiaeth sylfaenol. Pa waith yr ydych yn ei wneud i ganfod sut y gallwn ddarparu gwell cefnogaeth gyffredinol i’r rhai sy’n gadael gofal ac sy’n byw mewn tai annibynnol a sicrhau ein bod yn cynnwys hyblygrwydd arbennig yn eu sefyllfa fel y gallant gyflawni eu cytundebau tenantiaeth a chael sefydlogrwydd yn eu bywydau ifanc?

**Huw Lewis:** I thank Ken Skates for once again emphasising this very important issue for us all. I fully support the work that both Ken Skates and Gwenda Thomas are taking forward for the benefit of care leavers across Wales. Our shared aim is to safeguard the needs of care leavers and, if we work together, which I commit to doing as Minister for housing, we can improve their future prospects in terms of independent living, tenancy support, and education and employment opportunities.

**Huw Lewis:** Diolch, Ken Skates, am bwysleisio unwaith eto fater sy’n bwysig iawn inni i gyd. Rwy’n llwyr gefnogi’r gwaith y mae Ken Skates a Gwenda Thomas yn ymgymryd ag ef er lles y rhai sy’n gadael gofal ledled Cymru. Yr un yw ein nod, sef diogelu anghenion y rhai sy’n gadael gofal ac, os byddwn yn gweithio gyda’n gilydd—ac rwy’n ymrwymo i wneud hynny fel y Gweinidog dros dai—gallwn wella eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol o ran byw’n annibynnol, cynlluniau cefnogi tenantiaeth, a chyfleoedd addysg a chyflogaeth.

## Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog Rhif 11.21(iv)
## Debate by Individual Members under Standing Order No. 11.21(iv)

### Benthyciadau Diwrnod Cyflog
### Pay-day Loans

*Cynnig NDM4864 Simon Thomas, Mark Drakeford, Mark Isherwood, Aled Roberts*

*Motion NDM4864 Simon Thomas, Mark Drakeford, Mark Isherwood, Aled Roberts*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn nodi:*

*1. Notes:*

*a) y doreth o gwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog sydd ar waith yng Nghymru;*

*a) the proliferation of pay day loan companies operating in Wales;*

*b) y cyfraddau llog eithriadol o uchel mae nifer o gwmnïau o'r fath yn eu codi ar eu cwsmeriaid;*

*b) the extremely high rates of interest many such companies charge their customers;*

*c) ei bod yn haws cael gafael ar fenthyciadau o'r fath drwy ffonau deallus a'r rhyngrwyd; a*

*c) the increasing ease of access to such loans through smartphones and the internet; and*

*d) y potensial i fenthyca o'r fath greu dyledion difrifol ymysg ein cymunedau tlotaf a sugno arian allan ohonynt.*

*d) the potential for such lending to create severe debt amongst our poorest communities and to suck money out of them.*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd cymaint ag y bo modd i gynnig dewisiadau hyfyw eraill yn lle cwmnïau o'r fath er mwyn tynnu sylw dinasyddion at gost go iawn y benthyciadau a gynigir.*

*2. Calls on the Welsh Government, local authorities and the third sector to work together as much as possible to offer viable alternatives to such companies and to alert citizens to the real cost of the loans offered.*

**Simon Thomas:** Cynigiaf y cynnig yn fy enw i ac enwau Mark Drakeford, Mark Isherwood ac Aled Roberts, a chydag enwau Keith Davies, Mick Antoniw, Angela Burns, Peter Black, Mike Hedges, Antoinette Sandbach, David Rees, Darren Millar, Suzy Davies, Nick Ramsay, Julie James, William Powell, Jenny Rathbone, Bethan Jenkins, Llyr Huws Gruffydd, Vaughan Gething, Lindsay Whittle, Rhodri Glyn Thomas, Alun Ffred Jones, Leanne Wood a Rebecca Evans yn ei gefnogi.

**Simon Thomas:** I move the motion in my name and the names of Mark Drakeford, Mark Isherwood and Aled Roberts, and with the names of Keith Davies, Mick Antoniw, Angela Burns, Peter Black, Mike Hedges, Antoinette Sandbach, David Rees, Darren Millar, Suzy Davies, Nick Ramsay, Julie James, William Powell, Jenny Rathbone, Bethan Jenkins, Llyr Huws Gruffydd, Vaughan Gething, Lindsay Whittle, Rhodri Glyn Thomas, Alun Ffred Jones, Leanne Wood and Rebecca Evans in support.

Dechreuaf drwy ddiolch i'r Cynulliad am yr hawl i gynnig y cynnig hwn heddiw a diolch yn arbennig i Mark Drakeford, Mark Isherwood ac Aled Roberts am fod yn gyd-noddwyr i'r cynnig, ac i bob Aelod arall o bob plaid sydd wedi cefnogi'r cynnig sydd ger ein bron heddiw.

I will start by thanking the Assembly for the opportunity to move this motion today and I particularly thank Mark Drakeford, Mark Isherwood and Aled Roberts for co-sponsoring the motion, and every other Member from all parties who have supported the motion before us today.

Mae gennym felly gyfle i drafod clefyd sydd yn lledu drwy ein cymunedau ar hyn o bryd ac yn sugno arian a gwerth allan o'n cymunedau tlotaf, sef y pla o fenthyg arian a gwerthu benthyciadau arian i'n dinasyddion mwyaf bregus a hynny heb ddigon o reolaeth na gofal.

We have an opportunity today to discuss a plague that is spreading through our communities and taking money and value from our poorest communities, namely the plague of moneylending and selling loans to our most vulnerable citizens, and doing so without adequate regulation or care.

Yn y blynyddoedd diwethaf, gwelsom dwf aruthrol yn nifer y cwmnïau sy'n targedu pobl sy'n brin o arian ar ddiwedd y mis neu ar adegau drud y flwyddyn, megis y Nadolig, pen-blwyddi ac amser talu biliau. Mae nifer o'r cwmnïau hyn wedi dod yn enwau cyfarwydd iawn i ni, megis Wonga a

In recent years, we have seen a huge growth in the number of companies that target people who are short of money at the end of the month or at expensive times of the year, such as Christmas, birthdays, and when the bills arrive. Many of these companies have become well known to us, such as Wonga

QuickQuid, oherwydd eu hysbysebion teledu di-rif yn ystod y dydd. Mae chwilio ar-lein hefyd yn dangos bod nifer y cwmnïau hyn yn blodeuo, gydag ugeiniau ohonynt bellach yn cynnig benthyciadau dros dro ar-lein neu drwy *apps* ffonau deallus ac ati.

and QuickQuid, because of their numerous television advertisements during the day. Online searches also show that the number of these companies is growing at pace, with dozens offering short-term loans online or via smartphone apps and so on.

Daeth yr arferion marchnata hyn, fel yn achos llawer o bethau hynod atyniadol a handi, ond peryglus—megis Ben & Jerry's a byrgyrs—o Ogledd America. Mae rheolaeth dros y cwmnïau yn yr Unol Daleithiau yn amrywio o dalaith i dalaith, ond mae'n wir dweud nad ydym ym Mhrydain wedi ymbaratoi digon drwy newid ein rheolau er mwyn delio â pheryglon rhai o'r cwmnïau hyn a'u harferion.

These marketing practices, as is true of other attractive and useful, yet dangerous, things—such as Ben & Jerry's ice cream and burger chains—came from North America. Regulation of such companies in the United States varies from one state to another, but the fact of the matter is that, in Britain, we have not prepared adequately for these companies by amending our rules in order to deal with some of the dangers they pose.

Yn y ddadl heddiw, rwy'n gobeithio y bydd cyfle i ni ddangos yn y Senedd pa mor ddansierus y mae'r twf ym menthyciadau diwrnod pae yn gallu bod, a pha gamau y gallwn ni eu cymryd i leddfu ar eu sgîl-effeithiau gwaethaf ac i gynnig opsiynau amgen go iawn i'n dinasyddion y mae arnynt angen benthyg arian dros dro.

I hope that today's debate will afford us the opportunity to demonstrate in the Senedd how dangerous the growth in pay-day loans can be, along with the steps that we can take in order to alleviate their worst side-effects and offer real alternatives to citizens who need short-term loans.

The background to all this is, of course, the economy. With many parts of the UK in recession, 45% of the British population say they struggle to make it to pay day, and according to research by the Association of Business Recovery Professionals, 3.5 million UK citizens think they may take out a pay day loan in the next six months. Today, research published by Aviva has found that unsecured personal debt in the UK has risen 48% in one year, which equates to nearly £8,000 per household.

Y cefndir i hyn i gyd, wrth gwrs, yw'r economi. Gyda sawl rhan o'r DU mewn dirwasgiad, mae 45% o boblogaeth y DU yn dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd para tan eu diwrnod cyflog, ac yn ôl ymchwil gan Gymdeithas Gweithwyr Proffesiynol Adfer Busnesau, mae 3.5 miliwn o ddinasyddion y Deyrnas Unedig yn credu ei bod yn bosibl y byddant yn cymryd benthyciad diwrnod cyflog dros y chwe mis nesaf. Heddiw, cyhoeddwyd ymchwil gan Aviva sy'n nodi bod dyled bersonol heb ei gwarantu yn y DU wedi codi 48% mewn un flwyddyn, sy'n cyfateb i bron £8,000 y cartref.

To give one example alone from Wales, in the past year, Powys Citizens Advice Bureau negotiated nearly £9 million-worth of debt on behalf of clients. A third of this—£2.7 million—was unsecured personal loans. These are the worried people that the pay-day loan companies prey upon, often with predatory marketing and misleading advertising. In this context, many succumb to the seductive lure of pay-day loans, which are heavily marketed at those at home during the day or are heavy users of social media. The reality, however, is harsh. Some have

A rhoi un enghraifft yn unig o Gymru, yn y flwyddyn ddiwethaf, negododd Canolfan Cyngor ar Bopeth Powys werth bron £9 miliwn o ddyled ar ran cleientiaid. Roedd traean y swm hwn—£2.7 miliwn—yn fenthyciadau personol heb eu gwarantu. Dyma'r bobl bryderus y mae'r cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog yn eu targedu, yn aml drwy farchnata rheibus a hysbysebu camarweiniol. Yn y cyd-destun hwn, mae llawer yn ildio i demtasiwn ddeniadol benthyciadau diwrnod cyflog, sy'n cael eu marchnata'n helaeth at y rhai sydd gartref yn

described the interest rates charged by some of these companies as legal loan sharking.

ystod y dydd neu sy'n defnyddio llawer ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r realiti, fodd bynnag, yn llym. Mae rhai wedi disgrifio'r cyfraddau llog a godir gan rai o'r cwmnïau hyn fel usuriaeth gyfreithiol.

I checked last night, to see what I could get. Wonga were prepared to give me £400 in 20 minutes at an APR of 4,214%. If I was a returning borrower to Wonga, I could get £1,000 in 10 minutes. QuickQuid was prepared to give me money for a return of 1,734% APR-it was easy to click through the QuickQuid pages without seeing the APR, because it was right at the bottom, so that you have to scroll down every page to see it.

Edrychais neithiwr i weld beth y gallwn ei gael. Roedd Wonga yn barod i roi £400 i mi mewn 20 munud ar gyfradd ganrannol flynyddol o 4,214%. Pe bawn yn fenthyciwr oedd yn dychwelyd at Wonga, gallwn gael £1,000 mewn 10 munud. Roedd QuickQuid yn barod i roi arian imi ar gyfradd ganrannol flynyddol o 1,734%—roedd yn hawdd clicio drwy dudalennau QuickQuid heb weld y gyfradd ganrannol flynyddol, oherwydd ei bod ar y gwaelod, felly byddai'n rhaid ichi sgrolio i lawr ar hyd pob tudalen i'w gweld.

Payday Loans enticed me in with this little story:

Roedd Payday Loans yn fy nenu â'r stori fach hon:

'David needed to borrow £180 until he next got paid. He applied online and got his money in an hour. David repaid this loan when he got paid 28 days later at a total cost of £225.'

Roedd angen i David fenthyca £180 hyd nes iddo gael ei dalu nesaf. Gwnaeth gais ar-lein a chafodd ei arian mewn awr. Talodd David y benthyciad hwn yn ôl pan gafodd ei dalu 28 diwrnod yn ddiweddarach. Cyfanswm y gost oedd £225.

Some people may be prepared to risk paying £45 in interest to get £180. What that does not tell you, however, is that the APR on that is 1,737%.

Efallai fod rhai pobl yn barod i fentro talu £45 o log i gael £180. Yr hyn nad yw'n ei ddweud wrthych, fodd bynnag, yw mai'r gyfradd ganrannol flynyddol ar y benthyciad yw 1,737%.

Particularly concerning to me is the normalisation of these lending practices throughout society. We have Wonga sponsoring Blackpool Football Club. We have Wonga sponsoring a fringe meeting at the Lib Dem conference. Perhaps the Tories should get Wonga to sponsor their Llandudno conference. [*Laughter.*] I do not mean this as a particular attack on any party; I am making a point about the normalisation of these companies in the way we do business, which I feel is extremely damaging. Some would say that this is just the free market meeting a need. I disagree; I think that this level of usury is a sin. It is the exploitation of those who have little or no choice. Even for those who do not agree with me on this, I note that David Cameron himself has said that markets should not just be free, but be fair. Ed Miliband has railed against 'predatory

Achos pryder mawr i mi yw bod yr arferion benthyca hyn wedi'u normaleiddio drwy gymdeithas . Gwelwn Wonga yn noddi clwb pêl-droed Blackpool. Gwelwn Wonga yn noddi cyfarfod ymylol yng nghynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol. Efallai y dylai'r Torïaid gael Wonga i noddi eu cynhadledd yn Llandudno. [*Chwerthin.*] Nid wyf yn ymosod ar unrhyw blaid yn arbennig; gwneud pwynt yr wyf am normaleiddio'r cwmnïau hyn yn y ffordd yr ydym yn gwneud busnes, ac rwy'n teimlo bod hynny'n hynod niweidiol. Byddai rhai'n dweud mai'r cwbl sy'n digwydd yw bod y farchnad rydd yn bodloni angen . Rwy'n anghytuno; rwy'n credu bod y lefel hon o usuriaeth yn bechod. Mae'n manteisio ar y rhai nad oes ganddynt lawer o ddewis neu ddim dewis o gwbl. Hyd yn oed o ran y rhai nad ydynt yn cytuno â mi ynghylch hyn, sylwaf fod David Cameron ei hun wedi

capitalism', of which I think these pay-day loan companies are a prime example. Even the *Financial Times* calls this a 'relatively unchecked market' and estimates its worth at £2 billion a year, rising within the next two years to £3.5 billion.

dweud nid yn unig y dylai marchnadoedd fod yn rhydd; dylent fod yn deg hefyd. Mae Ed Miliband wedi dadlau yn erbyn cyfalafiaeth reibus, ac rwy'n credu bod y cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog hyn yn enghraifft wych o hynny. Mae hyd yn oed y *Financial Times* yn galw hyn yn farchnad sy'n cael rhwydd hynt i gryn raddau ac yn amcangyfrif bod hyn yn werth £2 biliwn y flwyddyn, gan godi o fewn y ddwy flynedd nesaf i £3.5 biliwn.

So, are the pay-day loan companies' business practices fair? Some of them may not be even legal. The EU is concerned that the consumer credit directive is perhaps not being followed on the fringes of internet lending and has asked the member states' financial authorities to investigate. Was it fair of Wonga to target students on its website? The advice was withdrawn, but students have a union to protect them. Who protects the most vulnerable in our communities, who are facing a gas bill and have access to a smartphone but no access to a bank lender? Adverts concentrate on the quickness and simplicity of the lending; the amount paid back is talked about in terms of £20 or £30. It is hard for the consumer to make a choice based on the real interest rates. The quick turnaround on these websites suggests that no proper check can be made of the ability of people to make repayments. Citizens Advice told me of a west-Wales man, unemployed and a drug user, who got an online loan for £650. The debt grew to £1,500 with interest running at £8 a day. There is no way that that borrower had been properly assessed by the pay-day loan company. We know, from the history of the last three or four years, where sub-prime lending and borrowing can lead.

Felly, a yw arferion busnes y cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog yn deg? Efallai nad yw rhai ohonynt hyd yn oed yn gyfreithlon. Mae'r UE yn pryderu efallai nad yw'r gyfarwyddeb credyd defnyddwyr yn cael ei dilyn ar gyrion benthyca ar y rhyngrwyd ac mae wedi gofyn i awdurdodau ariannol yr aelod-wladwriaethau ymchwilio i hynny. A oedd yn deg bod Wonga yn targedu myfyrwyr ar ei wefan? Cafodd y cyngor ei dynnu'n ôl, ond mae gan fyfyrwyr undeb i'w hamddiffyn. Pwy sy'n amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau pan fyddant yn wynebu bil nwy, ac er bod ganddynt ffonau deallus ni allant gael benthyciad gan fanc? Mae'r hysbysebion yn canolbwyntio ar ba mor gyflym a syml yw'r broses fenthyca, a sonnir am y swm a delir yn ôl yn nhermau £20 neu £30. Mae'n anodd i'r defnyddiwr wneud dewis ar sail y cyfraddau llog go iawn. Mae'r trosiant cyflym ar y gwefannau hyn yn awgrymu na ellir ymgymryd â gwaith gwirio priodol ynghylch gallu pobl i wneud ad-daliadau. Dywedodd Cyngor ar Bopeth wrthyf am ddyn o orllewin Cymru, a oedd yn ddi-waith ac yn defnyddio cyffuriau ac a gafodd fenthyciad ar-lein o £650. Tyfodd y ddyled i £1,500 gyda llog o £8 y diwrnod. Yn ddiamheuol nid oedd y benthyciwr hwnnw wedi'i asesu'n briodol gan y cwmni benthyciadau diwrnod cyflog. Rydym yn gwybod, ar sail hanes y tair neu bedair blynedd diwethaf, lle y gall rhoi benthyg eilaidd a chael benthyg ein harwain.

So, what can we do? I am not suggesting for a moment that such lenders should be banned. There is a role for pay-day lending. However, some practices seem unfair; rolling over debts, extending debts, using bank deductions and allowing individuals to take out several pay-day loans at once. The average is three and a half pay-day loans; the

Felly, beth y gallwn ei wneud? Nid wyf yn awgrymu am eiliad y dylai benthycwyr o'r fath gael eu gwahardd. Mae rôl ar gyfer benthyca diwrnod cyflog. Fodd bynnag, mae rhai arferion yn ymddangos yn annheg; trosglwyddo dyledion ymlaen, ymestyn dyledion, defnyddio didyniadau banc a chaniatáu i unigolion gymryd sawl

half does not make sense, but it is an average, you understand. I also believe there should be a cap on excessive interest rates that may be charged, as happens in several US states and throughout the Commonwealth. New South Wales state, named after Wales, has an APR cap of 48%. I am not suggesting that that should be the cap, but that is a way in which we could deal with this. In Wales, we can do things ourselves, together with the voluntary sector, local authorities and the Welsh Government.

benthyciad diwrnod cyflog ar unwaith. Y cyfartaledd yw tri benthyciad diwrnod cyflog a hanner; nid yw'r hanner yn gwneud synnwyr, ond cyfartaledd ydyw. Rwyf hefyd yn credu y dylid gosod terfyn ar gyfraddau llog gormodol y gellir eu codi, fel sy'n digwydd mewn amryw o daleithiau'r Unol Daleithiau ac ar draws y Gymanwlad. Mae gan dalaith De Cymru Newydd, a enwyd ar ôl Cymru, derfyn cyfradd ganrannol flynyddol o 48%. Nid wyf yn awgrymu mai dyna ddylai'r terfyn fod, ond mae'n ffordd y gallem ddelio â hyn. Yng Nghymru, gallwn wneud pethau ein hunain, ynghyd â'r sector gwirfoddol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

I am sure that some Members will want to talk about credit unions. I want to concentrate on one particular company at the moment, which is Moneyline Cymru, a personal lending company providing loans to disadvantaged people. It was established with the help of 16 housing associations in south-east Wales. To date, Moneyline Cymru has completed over 7,500 loans, which are rated at 45.52%, rather than the lowest available pay-day loan from a company like Provident, which is around 270%. That is without going to the really high-rate loans from companies like Wonga and QuickQuid. Moneyline Cymru also encourages people to save at the same time as they are taking out loans, and works in a similar way to credit unions in that respect. I would hope that we will see a plethora of growth and support for alternative lending methods such as Moneyline Cymru and credit unions over the next few years. That is what our most disadvantaged communities and individuals deserve, but there is also a real benefit to our economy in this. The difference between the loans given by Moneyline Cymru and those charged at the lowest rate by Provident is £2 million. Moneyline Cymru has saved communities in the areas where it works £2 million. If everyone in Wales were to take out a more providential and more sustainable loan, imagine the savings and the amount of money available in our poorest economies that is not going into the pockets and down the throats of companies like Wonga. I hope, therefore, that this debate will enable Members to voice their concerns and to urge Government to work as much as possible

Rwy'n siŵr y bydd rhai Aelodau am siarad am undebau credyd. Rwyf am ganolbwyntio ar un cwmni penodol ar hyn o bryd, sef Moneyline Cymru, cwmni sy'n darparu benthyciadau personol i bobl o dan anfantais. Fe'i sefydlwyd gyda chymorth 16 o gymdeithasau tai yn ne-ddwyrain Cymru. Hyd yma, mae Moneyline Cymru wedi cwblhau dros 7,500 o fenthyciadau, gyda chyfradd o 45.52%, yn hytrach na'r benthyciad diwrnod cyflog isaf sydd ar gael gan gwmni fel Provident, sef tua 270%. Mae hynny heb sôn am y benthyciadau cyfradd uchel iawn gan gwmnïau fel Wonga a QuickQuid. Mae Moneyline Cymru hefyd yn annog pobl i arbed ar yr un pryd ag y maent yn cymryd benthyciadau, ac mae'n gweithio mewn ffordd debyg i undebau credyd yn hynny o beth. Gobeithio y byddwn yn gweld peth wmbredd o dwf a chefnogaeth ar gyfer dulliau benthyca amgen megis Moneyline Cymru ac undebau credyd dros y blynyddoedd nesaf. Dyna y mae ein cymunedau a'n hunigolion mwyaf difreintiedig yn ei haeddu, ond mae hefyd yn golygu budd gwirioneddol i'n heconomi. Y gwahaniaeth rhwng y benthyciadau a roddir gan Moneyline Cymru a'r benthyciadau cyfradd isaf gan Provident yw £2 filiwn. Mae Moneyline Cymru wedi arbed £2 filiwn i gymunedau yn yr ardaloedd lle y mae'n gweithio. Pe bai pawb yng Nghymru yn cymryd benthyciad mwy darbodus a chynaliadwy, dychmygwch yr arbedion a faint o arian a fyddai ar gael yn ein heconomïau tlotaf na fyddai'n mynd i bocedi ac i lawr gyddfau cwmnïau fel Wonga. Gobeithio, felly, y bydd y ddadl hon yn

with the voluntary sector and others in Wales to spread financial inclusion and to ensure that there are real alternatives for the poorest in our society.

galluogi Aelodau i leisio'u pryderon ac i annog y Llywodraeth i weithio cymaint â phosibl gyda'r sector gwirfoddol ac eraill yng Nghymru i ledaenu cynhwysiant ariannol a sicrhau bod dewisiadau amgen go iawn ar gyfer y bobl dlotaf yn ein cymdeithas.

**Mark Isherwood:** The pay-day loan market has grown rapidly in recent years. Advice agencies are dealing with more pay-day loan debt and it is too easy for people to access the short-term benefits of pay-day loans. Recent research from the Association of Business Recovery Professionals, which has been referred to, showed that, of the people sampled who had taken a pay-day loan, 60% regretted the decision and 48% believed that the loan had made their financial situation worse. Only 13% believed that their pay-day loan had had a positive impact on their finances. Therefore, we have to be smarter in getting across the long-term implications and encourage people to make time to fully understand the terms and conditions before making their decision. Action is required to curb loan companies that lend on the premise that the person borrowing will not be able to pay back on the due date and which then charge extortionate sums of money for late, overdue and other payments, and to curb loan companies whose model is to lend multiple loans to householders on very low incomes where the cumulative weekly repayment can be anything from 10% to 90% of their gross, and, in some cases, net, incomes.

**Mark Isherwood:** Mae'r farchnad benthyciadau diwrnod cyflog wedi tyfu'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf. Mae asiantaethau cynghori yn ymdrin â mwy o ddyled benthyciadau diwrnod cyflog ac mae'n rhy hawdd i bobl gael mynediad at fanteision tymor byr benthyciadau diwrnod cyflog. Roedd ymchwil yn ddiweddar gan Gymdeithas Gweithwyr Proffesiynol Adfer Busnesau, y cyfeiriwyd ati eisoes, yn dangos, ymhlith y bobl a oedd yn rhan o'r sampl a oedd wedi cymryd benthyciad diwrnod cyflog, fod 60% yn difaru iddynt benderfynu gwneud hynny a bod 48% yn credu bod y benthyciad wedi gwneud eu sefyllfa ariannol yn waeth. Dim ond 13% oedd yn credu bod eu benthyciad diwrnod cyflog wedi cael effaith gadarnhaol ar eu cyllid. Felly, rhaid inni fod yn fwy craff wrth gyfleu'r goblygiadau tymor hir ac annog pobl i neilltuo amser i ddysgu am y telerau a'r amodau yn llawn cyn gwneud eu penderfyniad. Mae angen gweithredu i atal cwmnïau benthyca sy'n benthyca ar sail y ffaith na fydd y sawl sy'n benthyca yn gallu ad-dalu ar y dyddiad priodol ac sydd wedyn yn codi symiau gormodol o arian ar gyfer taliadau hwyr a thaliadau eraill, ac i atal cwmnïau benthyca sy'n dilyn model o roi benthyciadau lluosog i ddeiliaid tai ar incwm isel iawn, lle y gall yr ad-daliad wythnosol cronnus fod yn unrhyw beth rhwng 10% a 90% o'u hincwm gros, ac, mewn rhai achosion, eu hincwm net.

3.15 p.m.

The UK Government has set up the Money Advice Service, offering free independent information to all. I welcome the approach that it is taking to make money advice much more user-friendly—to make it personal and practical and available right there when you need it, either online, on the phone, or face to face. As Consumer Focus says, it would be useful for mainstream financial services firms to consider how they could offer loans for smaller sums of money, and to be clearer

Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol, sy'n cynnig gwybodaeth annibynnol am ddim i bawb. Rwy'n croesawu'r ffordd y mae'n ceisio sicrhau bod cyngor ariannol ar gael yn haws i'r defnyddiwr—ei fod yn bersonol ac ymarferol ac yn rhywbeth sydd ar gael yno pan fyddwch ei angen, naill ai ar-lein, dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb. Fel y dywed Llais Defnyddwyr, byddai'n ddefnyddiol i gwmnïau gwasanaethau prif

about the charging structures of their overdrafts. In this context, banks should also take a far more professional and personal approach to the cash-flow needs of their customers.

ffrwd ariannol ystyried sut y gallant gynnig benthyciadau am symiau bach o arian, ac i fod yn gliriach am strwythurau codi tâl eu gorddrafftiau. Yn y cyd-destun hwn, dylai'r banciau hefyd fabwysiadu ymagwedd llawer mwy proffesiynol a phersonol mewn perthynas ag anghenion llif arian parod eu cwsmeriaid.

Between April 2009 and March 2010 citizens advice bureaux in England and Wales advised 2.1 million clients on 7.1 million problems, which was an 18% annual increase. Over 60 per cent of their work concerned debt and benefits, which was an increase of 22%. Bureaux in England and Wales dealt with 9,500 new debt problems every working day, and this work continues to show substantial increases. Citizens Advice reports a fourfold increase in the number of people with pay-day loans coming to bureaux for debt advice, and a sixfold increase in pay-day loans as a percentage of all unsecured loan debts. That evidence suggests that people in long-term financial difficulty are more likely to take out a pay-day loan to try to deal with their problems, and yet the pay-day loan industry remains inadequately regulated. Bureaux have seen financially vulnerable consumers unprotected from a variety of unfair practices carried out by pay-day lenders, and lost in a system that offers little protection and inadequate access to affordable credit. As Save the Children says:

Rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2010, rhoddodd swyddfeydd Cyngor ar Bopeth yng Nghymru a Lloegr gyngor i 2.1 miliwn o gleientiaid ar 7.1 miliwn o broblemau, sef cynnydd blynyddol o 18%. Roedd dros 60% o'u gwaith yn ymwneud â dyledion a budd-daliadau, a oedd yn gynnydd o 22%. Gwnaeth y swyddfeydd yng Nghymru a Lloegr ymdrin â 9,500 o broblemau dyledion newydd bob diwrnod gwaith, ac mae'r gwaith hwn yn parhau i ddangos cynnydd sylweddol. Mae Cyngor ar Bopeth yn dweud bod nifer y bobl â benthyciadau diwrnod cyflog sy'n dod atynt am gyngor bedair gwaith yn uwch a bod nifer y benthyciadau diwrnod cyflog fel canran o'r holl ddyledion benthyciadau anwarantedig chwe gwaith yn uwch. Mae'r dystiolaeth honno'n awgrymu bod pobl mewn anawsterau ariannol hirdymor yn fwy tebygol o gael benthyciad diwrnod cyflog i geisio ymdrin â'u problemau, ac eto nid yw'r diwydiant benthyciadau diwrnod cyflog yn cael ei reoleiddio'n ddigonol o hyd. Mae Cyngor ar Bopeth wedi gweld defnyddwyr sy'n agored i niwed yn ariannol yn ddiamddiffyn yn wyneb arferion annheg benthycwyr diwrnod cyflog, ac sydd ar goll mewn system sy'n cynnig ychydig o amddiffyniad a mynediad annigonol at gredyd fforddiadwy. Fel y dywed Achub y Plant:

'Households with a low or variable income often have a poor or non-existent credit history and are therefore unable to access reasonably priced credit from mainstream lenders'.

Mae cartrefi gydag incwm isel neu amrywiol yn aml â hanes credyd gwael neu ddim hanes credyd o gwbl ac felly'n methu â chael mynediad at gredyd am bris rhesymol gan fenthycwyr prif ffrwd.

Often the only option available is a loan from commercial lenders, which charge high interest rates on goods, with a mark-up on retail prices. The annual percentage rate charged by commercial lenders can vary from 50% to 1,000%, compared with the less than 30% charged by a mainstream lender. A basic household cooker can cost a family without

Yn aml, yr unig opsiwn sydd ar gael yw benthyciad gan fenthycwyr masnachol, sy'n codi cyfraddau llog uchel ar nwyddau, ac am bris uwch na phrisiau manwerthu. Gall y gyfradd ganrannol flynyddol a godir gan fenthycwyr masnachol amrywio o 50% i 1,000%, o gymharu â llai na 30% a godir gan fenthyciwr prif ffrwd. Gall popty sylfaenol i'r

access to low-interest credit £669, more than two and a half times the cost of the same cooker bought outright.

cartref gostio £669 i deulu sydd heb fynediad at gredyd cost-isel, sy’n fwy na dwywaith a hanner y gost o dalu am yr un popty ag un taliad.

Moneyline Cymru has been mentioned, and it is working with Community Housing Cymru, Citizens Advice and the Wales housing debt helpline to help tenants to access money and debt advice. Moneyline Cymru, as we heard, is a social enterprise part-funded by 16 housing associations that provides money, advice and credit to disadvantaged people with thin or negative credit files who are usually denied finance by mainstream outlets such as banks or credit unions. It reports increasing lending volumes and, importantly, that almost 100% of new customers open a savings account.

Soniwyd am Moneyline Cymru, sy’n gweithio gyda Cartrefi Cymunedol Cymru, Cyngor ar Bopeth a llinell gymorth dyledion tai Cymru i helpu tenantiaid i gael mynediad at gyngor ar arian a dyledion. Fel y clywsom, mae Moneyline Cymru yn fenter gymdeithasol a ariennir yn rhannol gan 16 o gymdeithasau tai sy’n darparu arian, cyngor a chredyd i bobl difreintiedig sydd â ffeiliau credyd tenau neu negyddol ac sydd fel arfer yn cael eu gwrthod gan gwmnïau ariannol prif ffrwd fel banciau neu undebau credyd. Mae’n dweud bod cynnydd wedi bod yn yr arian y mae’n ei fenthcya ac, yn bwysig, bod bron i 100% o gwsmeriaid newydd yn agor cyfrif cynilo.

The Welsh Government must maximise the freedoms delivered by the changes to the Credit Unions Act 1979 that came into force this month, described by the Association of British Credit Unions as a

‘major breakthrough in the delivery of credit union services to communities around Britain’.

Mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud y defnydd gorau o’r rhyddid a ddarperir gan y newidiadau i Ddeddf Undebau Credyd 1979 a ddaeth i rym y mis hwn, ac a ddisgrifir gan Gymdeithas Undebau Credyd Prydain fel

llwyddiant mawr o ran darparu gwasanaethau undeb credyd i gymunedau ledled Prydain.

Credit unions are now free to extend their reach and work with organisations such as housing providers, community groups, employers, social enterprises and charities to bring financial services to new groups of people. Let us alert people to the true cost of pay-day loans and ensure that they are offered viable alternatives.

Gall undebau credyd erbyn hyn ehangu eu cyrhaeddiad a gweithio gyda sefydliadau fel darparwyr tai, grwpiau cymunedol, cyflogwyr, mentrau cymdeithasol ac elusennau i ddod â gwasanaethau ariannol i grwpiau newydd o bobl. Gadewch inni rybuddio pobl ynglŷn â gwir gost benthyciadau diwrnod cyflog a sicrhau bod dewisiadau amgen hyfyw yn cael eu cynnig iddynt.

**Aled Roberts:** As Mark Isherwood and Simon Thomas have already mentioned, the provision of pay-day loans is a growing industry in the UK, and Citizens Advice has outlined that there has been a fourfold increase in its work related to such loans in the last quarter, compared to what it was dealing with some two years ago. What is clear, in the context of the whole discussion of the regulation of the financial sector, is that what may have worked 10 years ago is no longer fit for purpose. In 2009, there were

**Aled Roberts:** Fel mae Mark Isherwood a Simon Thomas wedi sôn eisoes, mae darparu benthyciadau diwrnod cyflog yn cynyddu yn y DU, ac mae Cyngor ar Bopeth wedi amlinellu y bu pedair gwaith cymaint o gynnydd yn ei waith mewn perthynas â benthyciadau o’r fath yn y chwarter diwethaf, o’i gymharu â’r hyn yr oedd yn ymdrin â hwy tua dwy flynedd yn ôl. Yr hyn sy’n amlwg, yng nghyd-destun yr holl drafodaeth o reoleiddio’r sector ariannol, yw bod yr hyn a allai fod wedi gweithio 10 mlynedd yn ôl

1.2 million people taking out over £4.1 million in pay-day loans, and the total value to the industry was £1.2 billion. It is interesting that pay-day loans now make up around 20% of the total amount lent in the UK to personal consumers.

bellach yn anaddas at y diben. Yn 2009, roedd 1.2 miliwn o bobl yn benthyca dros £4.1 miliwn mewn benthyciadau diwrnod cyflog, a chyfanswm gwerth hynny i'r diwydiant yn £1.2 biliwn. Mae'n ddiddorol bod benthyciadau diwrnod cyflog erbyn hyn yn cyfrif am tua 20% o'r cyfanswm a fenthycir i ddefnyddwyr personol yn y DU.

The difficulty that we have is that borrowing has been so freely available during the last decade that there are now people who have become used to the idea of spending more than they earn on a regular basis. What is also clear is that, after the credit crunch, the more regular forms of obtaining credit have diminished. That means that many who might previously have looked to banks and finance companies for loans now need to look to some of the companies that Simon Thomas referred to.

Yr anhawster sydd gennym yw bod benthyca wedi bod mor hawdd yn ystod y degawd diwethaf fel bod yna bellach bobl sydd wedi dod i arfer â'r syniad o wario mwy nag y maent yn ei ennill yn rheolaidd. Yr hyn sydd hefyd yn glir yw, ar ôl y wasgfa gredyd, fod y ffyrdd mwy rheolaidd o gael credyd wedi lleihau. Mae hynny'n golygu bod llawer a fyddai yn y gorffennol wedi mynd at fanciau a chwmnïau cyllid am fenthyciadau erbyn hyn yn gorfod mynd at rai o'r cwmnïau yr oedd Simon Thomas yn cyfeirio atynt.

It is also quite clear that the advertising campaigns in the UK are, at best, misleading. Increasingly, large numbers of people are using pay-day loans to pay down other debts, such as credit card bills or even mortgage repayments in many cases. A recent survey commissioned by Shelter, conducted by YouGov, found that one in seven people are now using some form of credit to help to pay down other debts. Other countries have responded much more urgently to the rogue actions of the pay-day loan market. For example, in the United States, pay-day loans are now illegal in 13 states, while other states impose maximum levels of interest, so pay-day loans in most states cannot exceed, for example, 36% APR.

Mae hefyd yn eithaf clir bod yr ymgyrchoedd hysbysebu yn y DU, ar y gorau, yn gamarweiniol. Yn gynyddol, mae nifer fawr o bobl yn defnyddio benthyciadau diwrnod cyflog i dalu am ddyledion eraill, fel biliau cardiau credyd neu hyd yn oed ad-daliadau morgais mewn llawer o achosion. Canfu arolwg diweddar a gomisiynwyd gan Shelter, ac a gynhaliwyd gan YouGov, fod un o bob saith o bobl bellach yn defnyddio rhyw fath o gredyd i helpu i dalu am ddyledion eraill. Mae rhai gwledydd wedi ymateb gyda llawer mwy o frys i weithredoedd twyllodrus y farchnad benthyciadau diwrnod cyflog. Er enghraifft, yn yr Unol Daleithiau, mae benthyciadau diwrnod cyflog bellach yn anghyfreithlon mewn 13 o daleithiau, tra bod taleithiau eraill wedi pennu uchafswm llog, felly ni all benthyciadau diwrnod cyflog yn y rhan fwyaf o daleithiau fod yn fwy na, er enghraifft, 36% APR.

Another option that we could consider is the Bill that is being proposed by Labour MP Stella Creasy in Westminster, which would see the adoption of maximum charges. Therefore, rather than having maximum interest rates, as has been pursued in the US, there would be a maximum charge, which would include all fees. From my experience, the difficulty that we had when we considered the extension of the Moneyline Cymru scheme in Wrexham was that the

Dewis arall y gallem ei ystyried yw'r Bil sydd wedi'i gynnig yn San Steffan gan Stella Creasy, yr Aelod Seneddol Llafur, a fyddai'n mabwysiadu uchafswm o ran codi tâl. Felly, yn hytrach na chael uchafwsm o ran cyfraddau llog, fel sy'n digwydd yn yr Unol Daleithiau, byddai uchafswm ffi, a fyddai'n cynnwys yr holl ffioedd. O fy mhrofiad i, yr anhawster a gawswom wrth ystyried ehangu cynllun Moneyline Cymru yn Wrecsam oedd bod y ddadl wleidyddol efallai heb gadw i

political debate had perhaps not kept pace with developments in the financial sector. It was very well for us as councillors to sit in the council chamber and question whether Moneyline Cymru was itself adopting interest rates that were too high at 30% APR or so, comparing it, perhaps, to the 6% or 7% APR that most of us could obtain through high-street lenders, but the reality was that we were not comparing like with like. The people who would need to go to a loan provider like Moneyline Cymru would otherwise, at best, go to Provident, which offers interest rates of 200% APR or, at worst, would go to Wonga and other such lenders, which are currently charging, as we have heard, in excess of 4,000% APR.

fyny â datblygiadau yn y sector ariannol. Roedd yn hawdd iawn i ni fel cynghorwyr eistedd yn siambr y cyngor a chwestiynu a oedd Moneyline Cymru ei hun yn mabwysiadu cyfraddau llog a oedd yn rhy uchel, sef tua 30% APR, gan gymharu hynny, efallai, â'r 6% neu 7% APR y gallai'r rhan fwyaf ohonom ei gael gan fenthycwyr y stryd fawr, ond y gwir oedd nad oeddem yn cymharu tebyg â thebyg. Byddai'r bobl a fyddai angen benthyciad gan rywun fel Moneyline Cymru fel arall, ar y gorau, yn mynd at Provident, sy'n cynnig cyfraddau llog o 200% APR neu, ar y gwaethaf, at Wonga a benthycwyr eraill o'r fath, sydd ar hyn o bryd yn codi mwy na 4000% APR.

Therefore, we need to have a more mature debate in Wales and we need to be more direct as local authority representatives when we are given the opportunity to look at the extension of the Moneyline Cymru scheme. It is also clear that another option, which we need to promote more readily—I should perhaps declare an interest here as a member of the Wrexham credit union—is the extension of credit union facilities in Wales. Sadly, we lag behind other European nations as far as credit unions are concerned. In Ireland, for example, there is much more extensive use of credit unions. However, in discussions that I have had this week with some credit unions, they have made it clear that there are currently difficulties with regard to the implementation of the growth fund at a UK level, which means that they are finding it increasingly difficult to move into the pay-day loan market.

Felly, mae angen inni gael trafodaeth fwy aeddfed yng Nghymru, ac mae angen inni fod yn fwy uniongyrchol fel cynrychiolwyr awdurdodau lleol pan fyddwn yn cael y cyfle i edrych ar ehangu cynllun Moneyline Cymru. Mae hefyd yn glir bod dewis arall, y mae angen inni fod yn fwy parod i'w hyrwyddo—dylwn ddatgan diddordeb yma, efallai, fel aelod o undeb credyd Wrecsam—sef ehangu cyfleusterau undebau credyd yng Nghymru. Yn anffodus, rydym yn llusgo y tu ôl i wledydd Ewropeaidd eraill, o safbwynt undebau credyd. Yn Iwerddon, er enghraifft, gwneir defnydd llawer mwy helaeth o undebau credyd. Fodd bynnag, mewn trafodaethau r wyf wedi eu cael yr wythnos hon â rhai undebau credyd, pwysleisiwyd bod anawsterau ar hyn o bryd o ran gweithredu'r gronfa dwf ar lefel y Deyrnas Unedig, sy'n golygu eu bod yn ei chael yn gynyddol anodd i symud i'r farchnad benthyciadau diwrnod cyflog.

This is a situation that unites us across the Chamber. We are all aware of people who are preyed upon by these financial companies. We must all do what we can to alert consumers to the dangers of high interest pay-day loans and, more importantly, ask our Government to do this and to promote credit unions as a viable alternative.

Mae hon yn sefyllfa sy'n ein huno ar draws y Siambr. Rydym oll yn ymwybodol o bobl sy'n cael eu targedu'n annheg gan gwmnïau ariannol. Rhaid i bob un ohonom wneud yr hyn a allwn i roi gwybod i ddefnyddwyr am y peryglon sy'n gysylltiedig â benthyciadau diwrnod cyflog llog uchel ac, yn bwysicach, gofyn i'n Llywodraeth wneud hyn ac i hyrwyddo undebau credyd fel dewis amgen ymarferol.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposers of the motion have now all spoken, but quite a few more Members want to speak.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae holl gynigwyr y cynnig wedi siarad erbyn hyn, ond mae mwy o Aelodau yn dymuno siarad. Credaf y gallaf

I can probably fit in most of those who wish to speak, but I would be grateful if Members could be succinct, and, in particular, if some could take only three or four minutes.

roi amser i'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n dymuno siarad, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallai Aelodau fod yn gryno, ac, yn arbennig, pe bai rhai ond yn cymryd tri neu bedwar munud.

**Vaughan Gething:** I am very pleased to speak in support of today's motion, having previously presented a short debate on a very similar subject. I will not go into great detail about everything that has been done, but it is interesting and important to reiterate that regulation of this end of the credit industry is not unusual. It takes place in 35 states in the US, in eight Canadian provinces and in 14 European Union countries. The simple fact is that our Government, at a UK level, could regulate this end of the industry if it had the will to do so.

**Vaughan Gething:** Rwy'n falch iawn o gael siarad o blaid cynnig heddiw, ar ôl cyflwyno dadl fer ar bwnc tebyg iawn yn ddiweddar. Ni fyddaf yn mynd i fanylder mawr am bopeth sydd wedi ei wneud, ond mae'n ddiddorol ac yn bwysig ailadrodd nad yw rheoleiddio'r diwydiant credyd yn anarferol. Mae'n digwydd mewn 35 o daleithiau yn yr Unol Daleithiau, mewn wyth talaith yng Nghanada ac mewn 14 o wledydd yr Undeb Ewropeaidd. Y ffaith syml yw y gallai ein Llywodraeth, ar lefel y DU, reoleiddio'r ochr hon o'r diwydiant pe bai ganddi'r ewyllys i wneud hynny.

The Bill being promoted by Stella Creasy has generated a significant amount of debate about regulation of this end of the industry. It is unlikely to become law, because the current Government does not agree with the regulation of this end of the industry. It certainly does not agree that the level of interest should be regulated. I have made it quite clear on previous occasions that I do not agree with that; I think that there is a very practical and ethical case to regulate this end of the market. However, one of the most problematic areas for us is around how we promote alternative sources of accessible and affordable credit. We have already heard about credit unions and Moneyline Cymru, and I agree with what Simon Thomas said about Moneyline Cymru and encouraging people to save. However, that still does not deal with the point about access. In the short debate that I presented, the point that I made to the responding Minister was that we should look at how we promote and advertise the availability of loans from credit unions and alternative sources of sustainable credit. Part of the reason why legal loan sharks, as I refer to them, are much more successful and commonplace is because of the way in which they advertise, because they are aggressive, and because you can get money easily from them. It is still much more difficult to get money from a credit union or from Moneyline Cymru. If we are not able to address that, we will still have significant problems with our most vulnerable

Mae'r Bil y mae Stella Creasy yn ei hyrwyddo wedi creu cryn dipyn o drafodaeth am reoleiddio'r pen hwn o'r diwydiant. Mae'n annhebygol o ddod yn gyfraith, oherwydd nad yw'r Llywodraeth bresennol yn cytuno â rheoleiddio'r pen hwn o'r diwydiant. Yn sicr, nid yw'n cytuno y dylai lefel y llog gael ei rheoleiddio. Rwyf wedi ei gwneud yn gwbl glir ar achlysuron blaenorol nad wyf yn cytuno â hynny; rwy'n credu bod yna achos ymarferol a moesegol i reoleiddio'r pen hwn o'r farchnad. Fodd bynnag, un o'r meysydd mwyaf ansicr i ni yw sut rydym yn hyrwyddo ffynonellau eraill o gredyd hygyrch a fforddiadwy. Rydym eisoes wedi clywed am undebau credyd a Moneyline Cymru, ac rwy'n cytuno â'r hyn a ddywedodd Simon Thomas ynglŷn â Moneyline Cymru ac annog pobl i gynilo. Fodd bynnag, nid yw hynny chwaith yn ymdrin â'r pwynt ynglŷn â mynediad. Yn y ddadl fer a gyflwynais, y pwynt a godais â'r Gweinidog a oedd yn ymateb oedd y dylem edrych ar y modd rydym yn hyrwyddo ac yn hysbysebu argaeledd benthyciadau gan undebau credyd a ffynonellau eraill o gredyd cynaliadwy. Rhan o'r rheswm pam mae siarcod benthyca cyfreithiol, fel rwy'n cyfeirio atynt, yn llawer mwy llwyddiannus a chyffredin yw oherwydd y ffordd y maent yn hysbysebu, oherwydd eu bod yn ymosodol, ac oherwydd y gallwch gael arian yn hawdd ganddynt. Mae'n parhau i fod yn llawer mwy anodd cael arian gan undeb credyd neu o Moneyline Cymru. Os nad ydym yn gallu

communities being preyed upon by these types of lenders.

mynd i'r afael â hynny, byddwn yn parhau i gael problemau sylweddol yn ein cymunedau mwyaf agored i niwed a'r ffordd y mae'r mathau hyn o fenthycwyr yn manteisio arnynt.

That is why I have called in the past, and do so again today, for us to look to alternative ways to promote that credit, such as through a trusted brand. If there was greater access and a greater tie-in through the post office network, for example, that is a trusted brand to which people can go and get ready access. We see money shops and different lenders, such as doorstep lenders, that go out to meet people and are proactive in contacting people, but credit unions are not able to do that. For instance, the Cardiff and Vale Credit Union is based in County Hall in Cardiff. If you are in St Mellons, Rumney, or even here in Butetown, and are looking to borrow money, you are unlikely to pitch up to County Hall and ask to see the credit union. Therefore, while I agree with pretty much everything that has been said by other speakers, I think that the key issue is promoting access to alternative sources of credit, and finding somewhere on the high street for alternative sources of credit to exist.

Dyna pam  wyf wedi galw yn y gorffennol, ac yn gwneud hynny eto heddiw, inni edrych ar ffyrdd eraill o hyrwyddo credyd, er enghraifft, drwy frand y gellir ymddiried ynddo. Pe bai mwy o fynediad a chyswllt cryfach â rhwydwaith swyddfa'r post, er enghraifft, mae hwnnw'n frand y gall pobl ymddiried ynddo a chael mynediad rhwydd ato. Rydym yn gweld siopau arian a benthycwyr gwahanol, fel benthycwyr carreg drws, sy'n mynd allan i gwrdd â phobl ac sy'n rhagweithiol wrth gysylltu â phobl, ond nid yw undebau credyd yn gallu gwneud hynny. Er enghraifft, mae Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro wedi'i leoli yn Neuadd y Sir, Caerdydd. Os ydych yn Llaneirwg, Tredelerch, neu hyd yn oed yma yn Butetown, ac yn bwriadu benthyg arian, mae'n annhebygol yr ewch draw i Neuadd y Sir a gofyn am gael gweld yr undeb credyd. Felly, er fy mod yn cytuno â phopeth sydd wedi cael ei ddweud gan siaradwyr eraill, rwy'n credu mai'r prif fater yw hyrwyddo mynediad at ffynonellau eraill o gredyd, a dod o hyd i rywle ar y stryd fawr ar gyfer ffynonellau eraill o gredyd.

**Bethan Jenkins:** I will pick up on something that my colleague, Simon Thomas, mentioned earlier, and look at how pay-day style loans are threatening to spread to other sections of society, particularly to students.

**Bethan Jenkins:** Rwyf am sôn am rhywbeth y gwnaeth Simon Thomas ei grybwyll yn gynharach, ac edrych ar sut y mae benthyciadau diwrnod cyflog yn bygwth lledaenu i rannau eraill o'r gymdeithas, yn arbennig i fyfyrwyr.

'Hooked on credit' is the phrase that the media uses to describe society's ongoing reliance on borrowed money. We all know how we have reached this point: it is because wage levels have stagnated over the last 30 years, thereby concentrating more wealth in the hands of a small group of super-rich, who turn that wealth into assets, thus giving the lie to the free market trickle-down theory. Those assets have included personal debt. As the economic historian Louis Hyman puts it, this has led to a situation where they will not pay you the money to do a job, but they will lend it to you so that you can afford to live.

'Yn gaeth i gredyd' yw'r ymadrodd y mae'r cyfryngau yn ei ddefnyddio i ddisgrifio dibyniaeth barhaus ein cymdeithas ar arian a fenthycir. Rydym oll yn gwybod sut rydym wedi cyrraedd y pwynt hwn: oherwydd bod lefelau cyflog wedi aros yn eu hunfan dros y 30 mlynedd diwethaf, gan ganolbwyntio mwy o gyfoeth yn nwylo grŵp bach o bobl gyfoethog iawn, sy'n troi'r cyfoeth hwnnw'n asedau, gan ddangos felly mai rhith yw damcaniaeth y farchnad rydd fod cyfoeth yn rhaeadru i lawr. Mae'r asedau hynny wedi cynnwys dyled bersonol. Fel y dywed yr hanesydd economaidd Louis Hyman, mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle na fyddant yn

talu arian ichi am wneud swydd, ond yn ei fenthyca ichi fel y gallwch fforddio byw.

Facing such global economic tides is a daunting prospect. It is easy for us to say that we do not have the powers in Wales, but, in a sense, we do. We have the powers to build a world-class education system that can lead to the diversified, high-skill economy that all of us in the Chamber want to see. That would also mean higher wages. We can create such a workforce, in which, theoretically—optimistically or idealistically, some will say—there is no need for debt in the future.

Mae wynebu'r fath lanw economaidd byd-eang yn frawychus. Mae'n hawdd inni ddweud nad oes gennym y pwerau yng Nghymru, ond, mewn un ystyr, mae gennym bwerau. Mae gennym y pwerau i greu system addysg o'r radd flaenaf a all arwain at yr economi amrywiol, uchel ei sgiliau y mae pob un ohonom yn y Siambr am ei gweld. Byddai hynny hefyd yn golygu cyflogau uwch. Gallwn greu gweithlu o'r fath, lle, mewn egwyddor—yn optimistaidd neu'n ddelfrydyddol, byddai rhai yn dweud—nad oes angen am ddyled yn y dyfodol.

That is why I get so angry when I hear about companies such as Wonga attempting to target students. Make no mistake about it—it is targeting; it is a deliberate attempt to saddle young people with more and more debt in such a way that they may never make a meaningful contribution to our economy, because any spare money that they have will go towards paying off their debt. We cannot expect young people who are relatively inexperienced with money and whose primary focus is on their education to manage these kinds of loans so that they do not end up paying the full 4,000% APR that this kind of borrowing can demand.

Dyna pam rwy'n mynd mor flin pan fyddaf yn clywed am gwmnïau fel Wonga yn ceisio targedu myfyrwyr. Does dim dwywaith amdani—targedu ydyw; mae'n ymgais fwriadol i roi mwy a mwy o faich dyled ar bobl ifanc, a hynny yn y fath fodd fel na allant fyth wneud cyfraniad ystyrlon i'n heconomi, gan y bydd unrhyw arian dros ben sydd ganddynt yn mynd i dalu am eu dyled. Ni allwn ddisgwyl i bobl ifanc sy'n gymharol ddibrofiad ag arian ac sy'n canolbwyntio'n bennaf ar eu haddysg i reoli'r mathau hyn o fenthyciadau fel eu bod, yn y diwedd, yn gorfod talu'r 4,000% APR llawn y gall y math hwn o fenthyca olygu.

We all know how up against it students are. We were brought up in a culture in which debt was seen as okay and it is in our bloodstream now. It was tough enough before the multi-millionaire Lord Brown gave universities carte blanche to move us closer to a system of education for those who can afford it and the marketization of our higher education system. It is even harder now that significantly more students are borrowing from alternative lenders on top of loans from the Student Loans Company.

Mae pob un ohonom yn gwybod pa mor dynn yw hi ar fyfyrwyr. Cawsom ein magu mewn diwylliant lle roedd dyled yn cael ei hystyried yn dderbyniol ac, erbyn hyn, mae yn ein gwaed. Roedd yn ddigon anodd cyn i'r Arglwydd Brown, yr aml-filiwnydd, roi rhyddid llwyr i brifysgolion symud yn nes at system o addysg ar gyfer y rhai sy'n gallu ei fforddio a dod ag elfen o'r farchnad i fyd addysg uwch. Mae hyd yn oed yn fwy anoddh erbyn hyn, a llawer mwy o fyfyrwyr yn benthyca gan fenthycwyr eraill ar ben benthyciadau gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

3.30 p.m.

The UK Government should be looking seriously into the further pressure that is being piled onto students. It can only be seen as some sort of ideological zeal on the part of these companies to ensure that students and

Dylai Llywodraeth y DU edrych o ddifrif ar y pwysau ychwanegol sy'n cael ei bentyrru ar fyfyrwyr. Gellir ond gweld hynny fel rhyw fath o awch ideolegol ar ran y cwmnïau hyn i sicrhau y bydd myfyrwyr a phobl eraill sy'n

other vulnerable people will be paying for their loans for the rest of their lives. I sincerely hope that Ministers will come away from this debate in agreement with the cross-party opposition to pay-day loans and that they will make the case, very strongly, to the UK Government that lenders should be barred from offering this type of Wonga.com-style loans not only to students but to others in our society. They should look for alternatives so that we can ensure that everyone in Wales is secure in their financial backing. Being educated from a young age in school is key. For example, it would have been more useful for me to have been educated about mortgages and finances that about pi.

agored i niwed yn talu am eu benthyciadau am weddill eu bywydau. Rwy'n mawr obeithio y bydd Gweinidogion, ar ôl y ddadl hon, yn cytuno â'r gwrthwynebiad trawsbleidiol i fenthyciadau diwrnod cyflog ac y byddant yn gwneud yr achos, yn gryf iawn, i Lywodraeth y DU y dylai benthycwyr gael eu gwahardd rhag cynnig y math hwn o fenthyciadau, fel y rhai a gynigir gan Wonga.com, nid yn unig i fyfyrwyr, ond i eraill yn ein cymdeithas. Dylent chwilio am ddewisiadau eraill, fel y gallwn sicrhau bod gan bawb yng Nghymru gefnogaeth ariannol gadarn. Mae addysg o oedran ifanc yn yr ysgol yn hollbwysig. Er enghraifft, byddai wedi bod yn fwy defnyddiol i mi gael fy addysgu am forgeisi a chyllid nag am pi.

**David Rees:** You mentioned young people having difficulties handling money and you also mentioned educating young people, so do you agree that the Neath Port Talbot credit union, which is supported by the local authority, is being innovative in setting up credit unions in schools to encourage and show people how to save and handle money from an early age?

**David Rees:** Gwnaethoch sôn am bobl ifanc yn cael anawsterau wrth drin arian a gwnaethoch hefyd grybwyll addysgu pobl ifanc, felly a ydych yn cytuno bod undeb credyd Castell-nedd Port Talbot, a gefnogir gan yr awdurdod lleol, yn arloesi wrth sefydlu undebau credyd mewn ysgolion i annog a dangos pobl i gynilo a thrin arian o oedran ifanc?

**Bethan Jenkins:** I have heard that pi is also important. I do acknowledge that, but it would have been useful for us to have had more education in life skills when we were in school. I agree that the Neath Port Talbot credit union, which I have visited on many occasions, has done sterling work in schools in our area and I hope that other local authorities and areas will look to do the same.

**Bethan Jenkins:** Rwyf wedi clywed bod pi hefyd yn bwysig. Rwy'n cydnabod hynny, ond byddai wedi bod yn ddefnyddiol inni gael mwy o addysg mewn sgiliau bywyd pan oeddem yn yr ysgol. Rwy'n cytuno bod undeb credyd Castell-nedd Port Talbot, yr wyf wedi ymweld â hi ar sawl achlysur, wedi gwneud gwaith rhagorol mewn ysgolion yn ein hardal, ac rwy'n gobeithio y bydd awdurdodau lleol ac ardaloedd eraill yn ystyried gwneud yr un peth.

**Julie James:** I wanted to add a couple of small points to this important debate. Of course I agree with everyone who has spoken today about the appalling rates of interest that we hear about. I know because I have a student with absolutely no income living in my household. She has been targeted for such loans on the basis of having no income; she has no means of paying them back yet they are offering her instant money at rates of approaching 5,000% APR, which is absolutely outrageous.

**Julie James:** Roeddwn am ychwanegu ychydig o fân bwyntiau at y ddadl bwysig hon. Wrth gwrs, rwy'n cytuno â phawb sydd wedi siarad heddiw am y cyfraddau llog echrydus rydym yn clywed amdanynt. Rwy'n gwybod hyn, am fod gen i fyfyriwr yn byw gartref nad oes ganddi ddim incwm o gwbl. Mae hi wedi cael ei thargedu ar gyfer benthyciadau o'r fath ar y sail nad oes ganddi incwm; nid oes ganddi unrhyw ffordd o dalu'r benthyciadau yn ôl, ond maent yn cynnig arian iddi ar gyfraddau o bron i 5000% APR, sy'n gwbl warthus.

I would also remind everyone of the original

Rwyf hefyd yn atgoffa pawb o ddiffiniad

definition of 'usuary', namely the charging not only of a high rate of interest, but of interest on interest. Therefore, in Simon Thomas's example, not only would that person pay £45 because they did not pay the loan back, but the next time, they would pay that rate of interest on the rolled-up amount and then again after that and after that. The scary thing is the acceleration of that debt into hundreds and hundreds of pounds within only weeks of that loan being taken out. Therefore, regulation in that area is definitely called for and is called for very quickly regardless of what you think about a free-market economy. It is important that we recognise that.

gwreiddiol 'usuriaeth', sef nid yn unig codi llog ar gyfradd uchel, ond codi llog ar log. Felly, yn enghraifft Simon Thomas, nid yn unig fyddai'r person hwnnw yn talu £45 am nad oeddent wedi ad-dalu'r benthyciad, ond y tro nesaf, bydd yn talu'r gyfradd llog hwnnw ar y swm a gronnwyd, ac eto ar ôl hynny, ac ar ôl hynny. Y peth brawychus yw'r modd y mae'r ddyled honno yn cynyddu i gannoedd ar gannoedd o bunnoedd o fewn wythnosau ar ôl cael y benthyciad hwnnw. Felly, yn bendant, mae angen rheoleiddio yn y maes hwnnw yn gyflym iawn, waeth beth yw eich barn am economi marchnad rydd. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod hynny.

Something could be done about the cute advertising, such as the knitting grannies who are delighted to offer you Wonga.com loans at a rate of goodness knows what in order to make your life happier by the contemplation of knitting grannies—why that should be, I do not know. I would like to see regulation on a sliding cap. I know that there is regulation across various jurisdictions and we have heard about some of them here today, such as putting a cap on APR. However, what is to stop you saying that you must not charge more than x per cent above the bank's lending rate, for example? Even if that were 100% or 200%, it would still be much better than where we are now, and it would allow a slide on which the market could operate. So, again, that is a simple thing to do.

Gellid gwneud rhywbeth ynghylch yr hysbysebu cyfrwys, fel y neiniau sy'n gwau ac sy'n falch iawn o gynnig benthyciadau Wonga.com ar gyfradd uchel iawn er mwyn gwneud eich bywyd yn hapusach wrth ichi feddwl am neiniau'n gwau—ni wn pam ddylai hynny fod. Hoffwn weld rheoleiddio ar ffurf cap symudol. Rwy'n gwybod bod rheoleiddio mewn nifer o awdurdodaethau ac rydym wedi clywed am rai ohonynt heddiw, fel rhoi cap ar APR. Fodd bynnag, beth sy'n eich rhwystro rhag dweud na ddylech godi mwy na x y cant yn uwch na chyfradd benthyg y banc, er enghraifft? Hyd yn oed pe bai'r gyfradd honno 100% neu 200%, byddai'n dal yn llawer gwell na'r sefyllfa ar hyn o bryd, a byddai'n caniatáu i'r farchnad weithredu ar raddfa symudol. Felly, unwaith eto, mae hynny'n beth hawdd i'w wneud.

I accept Bethan's point about attacking poverty at its root and we entirely agree with that, but in the meantime, the other problem is getting debt advice to people who did not learn those life skills in school and do not have enough income because of the situation in which they find themselves. I remind Members of the debate that we had a little while ago about the legal aid proposals that are currently on the table and the withdrawal of legal aid from a large number of people in such circumstances. That, again, is an appalling proposition, which we should all be well aware of. I would like to ask the Government to do as much as it possibly can to ensure that that sort of debt advice remains available to people in our most impoverished communities, so that if they do get into this

Rwy'n derbyn pwynt Bethan ynghylch ymosod ar dlodi yn ei wraidd ac rydym yn cytuno â hynny'n llwyr, ond yn y cyfamser, y broblem arall yw rhoi cyngor ar ddyled i bobl na ddysgodd y sgiliau bywyd hynny yn yr ysgol ac nad oes ganddynt ddigon o incwm oherwydd eu sefyllfa. Rwy'n atgoffa'r Aelodau o'r ddadl a gawsom beth amser yn ôl am y cynigion arfaethedig ynghylch cymorth cyfreithiol a thynnu cymorth cyfreithiol yn ôl oddi wrth nifer fawr o bobl sydd mewn amgylchiadau o'r fath. Mae hynny, unwaith eto, yn gynnig ofnadwy, y dylem i gyd fod yn ymwybodol iawn ohono. Hoffwn ofyn i'r Llywodraeth wneud cymaint ag y gall er mwyn sicrhau bod y math hwnnw o gyngor ar ddyledion yn parhau i fod ar gael i bobl yn ein cymunedau mwyaf tlawd, felly

position—

**Simon Thomas:** I thank you for allowing a brief intervention. I agree with you on legal aid, but there are currently a number of projects to consider, such as the one that is supported in Cardiff by the Fresh Ideals community interest company. It works directly with young people on the very issues that Bethan mentioned, such as giving them information about how to work out APR, how to avoid loan sharks and so forth. So, there is work that the Government can support there.

**Julie James:** I absolutely agree with that. I was going to say that advice should be offered in a range of areas and not only on debt once you have reached that point. However, and this is my last point, we must remember that it is important to get people advice once they are in debt because of the inexorable slide from the legal loan sharks—and that is what they are—to the illegal ones. Once you are in a mess with Wonga.com, the next place to turn if you cannot get to your credit union and so on is to the illegal lenders, and you are then in real difficulty. We all have constituents who are already there. I urge the Government to do as much as it can to get this advice to people, and I urge the UK Government to do as much as it can to regulate this without fail.

**Antoinette Sandbach:** I, too, am happy to support this motion and welcome the opportunity to draw attention to the problems surrounding access to credit by low-income customers. Credit unions can play a very useful role in reducing the dependence on sources of credit such as pay-day loans, which carry APRs of several thousand per cent, as was mentioned in Vaughan Gething's short debate on 7 December. I and many other Welsh Conservatives, are happy to work cross-party on issues like this. I certainly would agree with a cap on interest rates, whether it is on a sliding scale or at a definitive fixed point. I heard what Vaughan Gething said today about the role of credit unions, and there has been a recent change in the law. On 8 January this year, the UK

os ydynt yn cyrraedd y sefyllfa hon—

**Simon Thomas:** Diolch am ganiatáu ymyriad byr. Rwy'n cytuno â chi ynghylch cymorth cyfreithiol, ond ar hyn o bryd mae nifer o brosiectau i'w hystyried, fel yr un a gefnogir yng Nghaerdydd gan y cwmni buddiannau cymunedol, Fresh Ideals. Mae'n gweithio'n uniongyrchol â phobl ifanc ar y materion y soniodd Bethan amdanynt, fel rhoi gwybodaeth am sut i gyfrifo APR, sut i osgoi siarcod benthyg ac yn y blaen. Felly, gall y Llywodraeth gefnogi'r gwaith hwnnw.

**Julie James:** Rwy'n cytuno'n llwyr â hynny. Roeddwn yn mynd i ddweud y dylid cynnig cyngor mewn ystod o feysydd ac nid yn unig ar ddyled unwaith y byddwch wedi cyrraedd y pwynt hwnnw. Fodd bynnag, a hwn yw fy mhwynt olaf, rhaid inni gofio ei bod yn bwysig rhoi cyngor i bobl pan fyddant mewn dyled oherwydd y symud anochel o siarcod benthyg cyfreithlon—dyna beth ydynt—i'r rhai anghyfreithlon. Unwaith rydych mewn llanast â Wonga.com, y lle nesaf i droi, os na allwch gyrraedd eich undeb credyd ac yn y blaen, yw'r benthycwyr anghyfreithlon, ac wedyn rydych yn wynebu anawsterau gwirioneddol. Mae gan bob un ohonom etholwyr sydd eisoes yn y sefyllfa honno. Rwy'n annog y Llywodraeth i wneud cymaint ag y gall i roi'r cyngor hwn i bobl ac rwy'n annog Llywodraeth y DU i wneud cymaint ag y gall i reoleiddio hyn yn ddi-ffael.

**Antoinette Sandbach:** Rwyf innau hefyd yn falch o gefnogi'r cynnig hwn ac rwy'n croesawu'r cyfle i dynnu sylw at y problemau sy'n ymwneud â chwsmeriaid sydd ag incwm isel yn cael gafael ar gredyd. Gall undebau credyd chwarae rôl ddefnyddiol iawn wrth leihau'r ddibyniaeth ar ffynonellau credyd fel benthyciadau diwrnod cyflog, sydd ag APR o sawl mil y cant, fel y soniwyd amdani yn nadl fer Vaughan Gething ar 7 Rhagfyr. Rwyf i, a llawer o Geidwadwyr Cymreig eraill, yn falch o weithio mewn modd trawsbleidiol ar faterion fel hyn. Yn sicr, rwy'n cytuno â'r syniad o roi cap ar gyfraddau llog, p'un a yw hynny ar raddfa symudol neu ar bwynt sefydlog wedi'i ddiffinio. Clywais yr hyn a ddywedodd Vaughan Gething heddiw am rôl yr undebau

Government introduced a legislative reform Order that allows credit unions to greatly expand their activities, and I hope that the Minister will be working with credit unions to encourage them to make use of the new opportunities that are now available to them.

credyd, ac mae'r gyfraith wedi newid yn ddiweddar. Ar 8 Ionawr eleni, cyflwynodd Llywodraeth y DU Orchymyn diwygio deddfwriaethol sy'n caniatáu i undebau credyd ehangu eu gweithgareddau yn fawr, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn gweithio gydag undebau credyd i'w hannog i wneud defnydd o'r cyfleoedd newydd sydd bellach ar gael iddynt.

Again, third sector organisations have a very important role to play in improving financial education. The Gingerbread charity worked with a number of other organisations to hold a day event in Flintshire on financial inclusion for lone parents, and an education session on APR and what that meant, was part of that day. It is so important; many people do not understand what APR means and what the reality of it is. As I said to the Minister in the last debate, Pennysmart is a community interest company based in Flintshire, which works across Wales and the north-west of England to provide money advice sessions and training for debt advisers. It can also provide free training for some organisations, particularly those in the third sector, on signposting people to the finance available through credit unions, for example. The north Wales credit union already has a good presence, with six branches in the major towns, and I would welcome any assistance that the Welsh Labour Government can provide to increase the profile and public awareness of both the north Wales credit union and other credit unions, so that Welsh consumers are fully aware of avenues of affordable credit, as opposed to these unaffordable pay-day loans. People are left to resort to these pay-day loans and that has, as we have already heard, dire consequences.

Unwaith eto, mae gan sefydliadau trydydd sector rôl bwysig iawn i'w chwarae wrth wella addysg ariannol. Bu'r elusen Gingerbread yn gweithio gyda nifer o sefydliadau eraill i gynnal digwyddiad diwrnod yn Sir y Fflint ar gynhwysiant ariannol ar gyfer rhieni sengl, ac roedd sesiwn addysg ar APR a'r hyn yr oedd yn ei olygu yn rhan o'r diwrnod hwnnw. Mae hi mor bwysig; nid yw llawer o bobl yn deall beth mae APR yn ei olygu a beth yw'r realiti. Fel y dywedais wrth y Gweinidog yn y ddadl ddiwethaf, mae Pennysmart yn gwmni buddiannau cymunedol wedi'i leoli yn Sir y Fflint, sy'n gweithio ledled Cymru a gogledd-orllewin Lloegr i ddarparu sesiynau cyngor ariannol a hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr dyled. Gall hefyd ddarparu hyfforddiant am ddim i rai sefydliadau, yn enwedig y rheini yn y trydydd sector, ar gyfeirio pobl at y cyllid sydd ar gael drwy undebau credyd, er enghraifft. Mae gan undeb credyd gogledd Cymru bresenoldeb da yn barod, gyda chwech o ganghennau yn y prif drefi, a byddwn yn croesawu unrhyw gymorth y gall Llywodraeth Lafur Cymru ei ddarparu i gynyddu proffil ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o undeb credyd gogledd Cymru ac undebau credyd eraill, fel bod defnyddwyr yng Nghymru yn gwbl ymwybodol o lwybrau tuag at gael credyd fforddiadwy, yn hytrach na defnyddio'r benthyciadau diwrnod cyflog hyn na allant eu fforddio. Mae pobl yn gorfod troi at y benthyciadau diwrnod cyflog hyn ac mae gan hynny, fel rydym wedi clywed eisoes, ganlyniadau enbyd.

**Joyce Watson:** We have all seen the advertisements on television for the pay-day loan companies. Like Julie James, I was appalled to see friendly grannies telling people that it was okay to take out these loans. It disturbs me because there is an underlying message here that you are being

**Joyce Watson:** Rydym i gyd wedi gweld yr hysbysebion ar y teledu ar gyfer y cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog. Fel Julie James, cefais fy arswydo o weld neiniau cyfeillgar yn dweud wrth bobl ei bod yn iawn i gael y benthyciadau hyn. Mae'n fy ysgytio, oherwydd mae neges sylfaenol yma eich bod

done a favour and that this is an excellent service for individuals who are asset-rich and cash-poor. That fact came home to me most recently when I was walking down the high street of Haverfordwest and spied a new pawnbroker's shop opening, which was also offering pay-day loans. I am not suggesting for one minute—they will know who they are now that they have heard what I have said—that they are doing anything illegal.

yn cael ffafr a bod hyn yn wasanaeth ardderchog ar gyfer unigolion sy'n gyfoethog o ran asedau ac yn dlawd o ran arian. Sylwais ar y ffaith honno yn ddiweddar iawn pan oeddwn yn cerdded ar hyd stryd fawr Hwlffordd; gwelais siop wystlo newydd yn agor, a oedd hefyd yn cynnig benthyciadau diwrnod cyflog. Nid wyf yn awgrymu am funud—byddant yn gwybod pwy ydynt nawr eu bod wedi clywed yr hyn rwyf wedi'i ddweud—eu bod yn gwneud dim byd anghyfreithlon.

That is the bottom line here: what is happening is absolutely legal, but what we are saying is that it is not morally right. It is not right for the people who find themselves in this situation, and who cannot pay the money back. It is not right that we have people getting themselves into that situation without realising the cumulative effect of that debt. It is not right that people take out a £20-a-week loan or £5-a-week loan without realising that that loan is going to go on and on and on, because they lack any understanding whatsoever of the basic information that they would have needed to make that decision in the first place. The plea that I make here today is twofold: first, that we push forward and try to legislate; and secondly, that we include education in this field at the very beginning of a child's education, so that they grow up understanding how to manage money.

Dyma ddiwedd y gân: mae'r hyn sy'n digwydd yn gwbl gyfreithiol, ond yr hyn rydym yn ei ddweud yw nad yw'n foesol deg. Nid yw'n deg ar y bobl sydd yn y sefyllfa hon ac na allant ad-dalu'r arian. Nid yw'n deg bod pobl yn cyrraedd y sefyllfa honno heb sylweddoli effaith gronnus y ddyled. Nid yw'n deg bod pobl yn cael benthyciad am £20 neu £5 bob wythnos heb sylweddoli y bydd y benthyciad hwnnw yn mynd ymlaen ac ymlaen, gan nad oes ganddynt ddim dealltwriaeth o gwbl o'r wybodaeth sylfaenol y byddent wedi'i hangen i wneud y penderfyniad hwnnw yn y lle cyntaf. Mae'r ple rwyf yn ei wneud yma heddiw yn un deublyg: yn gyntaf, ein bod yn symud ymlaen ac yn ceisio deddfu; ac yn ail, ein bod yn cynnwys addysg yn y maes hwn ar ddechrau addysg y plentyn, fel eu bod yn tyfu i ddeall sut i reoli arian.

**Nick Ramsay:** In his opening remarks, Simon Thomas made some excellent and clear points that many Assembly Members here today clearly agree with. I refer in particular to the part of his speech that addressed the seductive nature of some of these pay-day loan companies, and his description of how easy it was for him to obtain £400 from Wonga.com last night. I was listening to that and thinking, 'That is great.' Part of our minds is tempted by the ease with which we can get cash, particularly when we need it. If I felt like that, I can understand how many people can get into a serious spiral of debt, particularly some of the more vulnerable people in society. There is clearly something very wrong with the pay-day loan culture, which is why there has been so much cross-party support for the motion that Simon Thomas has brought before us

**Nick Ramsay:** Yn ei sylwadau agoriadol, gwnaeth Simon Thomas rai pwyntiau ardderchog a chlir y mae llawer o Aelodau'r Cynulliad yma heddiw yn sicr yn cytuno â hwy. Cyfeiriaf yn benodol at y rhan o'i araith a oedd yn trafod natur atyniadol rhai o'r cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog hyn, ac at ei ddisgrifiad o ba mor hawdd oedd iddo gael £400 ar wefan Wonga.com neithiwr. Roeddwn yn gwrando ar hynny ac yn meddwl, 'Mae hynny'n wych.' Mae rhan o'n meddyliau'n cael ei demtio gan ba mor hawdd y gallwn gael arian, yn enwedig pan fyddwn ei angen. Os oeddwn yn teimlo fel hynny, gallaf ddeall sut y gall nifer o bobl fod mewn dyled ddifrifol sy'n cynyddu'n raddol, yn enwedig rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'n amlwg bod rhywbeth o'i le ar y diwylliant benthyciadau diwrnod cyflog, a dyna pam y bu cymaint o

today.

gefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer y cynnig y mae Simon Thomas wedi'i gyflwyno heddiw.

I would like to add one note of caution. I have heard a lot of people talking about the problems that we face, but there have been fewer solutions proposed, aside from bringing in different capping levels. That is work that needs to be done, but it does not detract from the fact that something certainly does need to be done. Anything that the Welsh Government can do to progress this issue would be very welcome.

Hoffwn ychwanegu un nodyn o rybudd. Rwyf wedi clywed nifer o bobl yn siarad am y problemau sy'n ein hwynebu, ond mae llai o atebion wedi'u cynnig, ar wahân i gyflwyno lefelau capio. Mae hynny'n waith sydd angen ei wneud, ond nid yw'n lleihau'r angen i wneud rhywbeth. Byddai unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i symud y mater hwn yn ei flaen yn cael ei groesawu'n fawr.

I believe that education has to be part of this. This is not just a question of putting rules in place to say that people cannot do this, because, based on past experience, we know that that does not work. Also, as has been said, if people are not accessing pay-day loans, there is a danger that they would be pushed to use other types of moneylending, which is something that we certainly would not want to see. Therefore, education is clearly part of the solution, and I am not referring to Bethan Jenkins's experience of pi during her education, which she cited earlier. I mean that we need to have proper and extensive education on money matters at school. A questionnaire was distributed among AMs a couple of days ago about our experience of sex education at school and how it could have been improved. I can certainly remember having some sex education at school—I can see Keith Davies raising his eyebrows at that—but I cannot remember one minute of discussion about credit cards. However, the moment that I left school, the first things that confronted me were credit card companies trying to give me credit cards. At that time, I had no understanding of what a difficult problem that could be, and of how I could end up in a bad situation. Therefore, I am happy to support this motion, though I believe that we need more solutions in addition to stating the problems.

Rwyf o'r farn bod yn rhaid i addysg fod yn rhan o hyn. Nid dim ond mater o osod rheolau i ddweud na all pobl wneud hyn yw hyn, oherwydd, ar sail profiad, rydym yn gwybod nad yw hynny'n gweithio. Hefyd, fel y dywedwyd eisoes, os na fydd pobl yn cael benthyciadau diwrnod cyflog, mae perygl y byddent yn cael eu cymell i ddefnyddio mathau eraill o fenthyca, sydd yn sicr yn rhywbeth na fyddem am ei weld. Felly, mae addysg yn amlwg yn rhan o'r ateb, ac nid wyf yn cyfeirio at brofiad Bethan Jenkins o pi yn ystod ei haddysg, y soniodd amdano yn gynharach. Credaf fod angen inni gael addysg briodol a helaeth am faterion ariannol yn yr ysgol. Dosbarthwyd holiadur ymysg Aelodau'r Cynulliad ychydig o ddiwrnodau'n ôl am ein profiad o addysg rhyw yn yr ysgol a sut y gallai fod wedi cael ei wella. Yn sicr, gallaf gofio cael rhywfaint o addysg rhyw yn yr ysgol—gallaf weld Keith Davies yn codi ei aeliau—ond ni allaf gofio un munud o drafodaeth am gardiau credyd. Fodd bynnag, ar ôl gadael yr ysgol, y pethau cyntaf imi eu hwynebu oedd cwmnïau cardiau credyd yn ceisio rhoi cardiau credyd imi. Ar y pryd, nid oeddwn yn deall y gallai hynny peri problemau difrifol ac y gallwn fod mewn sefyllfa wael yn y pen draw. Felly, rwy'n falch o gefnogi'r cynnig hwn, er fy mod yn credu bod angen mwy o atebion, yn ogystal â nodi'r problemau.

**The Deputy Presiding Officer:** I thank all Members for their co-operation; I have been able to call on everyone to speak. I now call on the Minister for Local Government and Communities, Carl Sargeant.

**Y Dirprwy Lywydd:** Diolch i'r holl Aelodau am eu cydweithrediad; rwyf wedi gallu galw ar bawb i siarad. Rwyf nawr yn galw ar Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.

**The Minister for Local Government and**

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a**

**Communities (Carl Sargeant):** I thank Members for their contributions today to this very important debate. As I said in the December debate on pay-day loans, regulation of interest rates rests with the UK Government. While the Welsh Government has no direct influence on this, it is an issue of concern to everyone in the Chamber, as reflected by the cross-party support that we see today.

**Chymunedau (Carl Sargeant):** Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau at y ddadl bwysig hon heddiw. Fel y dywedais yn y ddadl ar fenthyciadau diwrnod cyflog ym mis Rhagfyr, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am reoleiddio cyfraddau llog. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru ddylanwad uniongyrchol dros hyn, mae pawb yn y Siambr yn pryderu am hyn, fel yr adlewyrchir gan y gefnogaeth drawsbleidiol a welwn heddiw.

Too frequently in our constituencies, we see how people are struggling to make ends meet. Pay-day products may seem like the answer, but they often lead to debt and despair. Many Members have made reference to that today. We must ensure that people know that there are more affordable options available—some might call these more ethical options, as one Member mentioned earlier.

Yn rhy aml yn ein hetholaethau, rydym yn gweld sut mae pobl yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Efallai ei bod yn ymddangos mai benthyciadau diwrnod cyflog yw'r ateb, ond maent yn aml yn arwain at ddyled ac anobaith. Mae nifer o Aelodau wedi cyfeirio at hynny heddiw. Rhaid inni sicrhau bod pobl yn gwybod bod dewisiadau mwy fforddiadwy ar gael—efallai y bydd rhai yn galw'r rhain yn ddewisiadau mwy moesegol, fel y nodwyd gan un Aelod yn gynharach.

3.45 p.m.

I am proud of our record in supporting credit unions in Wales to build their capacity to help people who are unable to access mainstream financial services from other providers, and who, otherwise, could be subject to exploitation from legal lenders with high interest rates, which Members have made reference to today. Universal credit union coverage has been achieved across Wales's 22 authorities. Building the capacity of the credit union network to tackle poverty and financial exclusion is the next objective. In addition to the £1 million capital investment awarded to credit unions in February 2010, more than £4.75 million was committed to the access to financial products through credit unions project, which runs until September 2013.

Rwy'n falch o'n record o ran cefnogi undebau credyd yng Nghymru i feithrin eu gallu i helpu pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau ariannol prif ffrwd gan ddarparwyr eraill, ac a allai, fel arall, fod yn agored i'w hecsbloetio gan fenthycwyr cyfreithiol sy'n codi cyfraddau llog uchel, y mae Aelodau wedi cyfeirio atynt heddiw. Mae undebau credyd i'w cael yn 22 awdurdod lleol Cymru. Yr amcan nesaf yw adeiladu ar gapasiti'r rhwydwaith undeb credyd i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu ariannol. Yn ychwanegol at y buddsoddiad cyfalaf o £1 miliwn a ddyfarnwyd i undebau credyd ym mis Chwefror 2010, mae mwy na £4.75 miliwn wedi ei ymrwymo drwy'r prosiect mynediad at gynnyrch ariannol drwy undebau credyd, sy'n rhedeg tan fis Medi 2013.

We must build on our success in the past two years in the way we promote credit unions. I have listened carefully to the contributions made by Members today. We are supporting credit unions to work together. We are developing a national television campaign that will start in February and run for a month during daytime programmes. We estimate that 2.4 million viewers will see the

Rhaid inni adeiladu ar ein llwyddiant yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn y ffordd rydym yn hyrwyddo undebau credyd. Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar y cyfraniadau a wnaed gan Aelodau heddiw. Rydym yn cefnogi undebau credyd i weithio gyda'i gilydd. Rydym yn gweithio ar ymgyrch deledu genedlaethol a fydd yn dechrau ym mis Chwefror ac a fydd yn cael ei darlledu am fis

campaign. We will also improve the recognition of credit unions in local and regional press across Wales. Membership of credit unions includes junior savers, and I know that Members have made reference to the importance of early intervention and encouraging young people to save. That has increased to more than 55,000 savers in Wales. Since April 2009, credit unions have helped more than 9,000 financially excluded adults access financial services, saving them from high-cost lenders. By focusing on what we are able to achieve within the devolved context, we have taken steps with some of our key partners to help people in financial difficulties.

rhwng rhaglenni yn ystod y dydd. Rydym yn amcangyfrif y bydd 2.4 miliwn o wylwyr yn gweld yr ymgyrch. Byddwn hefyd yn codi ymwybyddiaeth o undebau credyd yn y wasg leol a rhanbarthol ledled Cymru. Mae aelodau undebau credyd yn cynnwys cynilwyr iau, ac rwy'n gwybod bod Aelodau wedi cyfeirio at bwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac annog pobl ifanc i gynilo. Mae hynny wedi cynyddu i fwy na 55,000 o gynilwyr yng Nghymru. Ers mis Ebrill 2009, mae undebau credyd wedi helpu mwy na 9,000 o oedolion sydd wedi'u hallgáu'n ariannol i gael gafael ar wasanaethau ariannol, gan eu harbed rhag benthycwyr cost uchel. Drwy ganolbwyntio ar yr hyn yr ydym yn gallu ei gyflawni o fewn cyd-destun datganoledig, rydym wedi cymryd camau gyda rhai o'n prif bartneriaid i helpu pobl mewn trafferthion ariannol.

I have recently approved a significant amount of funding for Citizens Advice Cymru. From now until March 2015, this will enable and support the Adviceline Cymru telephone helpline service to advise people on claiming benefits to which they are entitled. This delivers on our programme for government commitment to support the third sector, to advise people who have debt problems and help people manage their finances. It also addresses our priority to help mitigate the impacts of changes in the benefits system proposed by the UK Government. The Minister for finance and I recently agreed on the need to carry out a full-scale review of advisory services, in light of the unprecedented changes we face as a result of welfare reform and legal aid changes. My officials are defining the review's remit and identifying the resource to carry it out. I will report back to Members about the conclusion of that review.

Yn ddiweddar, rwyf wedi cymeradwyo swm sylweddol o arian i Cyngor ar Bopeth Cymru. Rhwng nawr a mis Mawrth 2015, bydd hyn yn galluogi a chefnogi gwasanaeth Llinell Gyngor Cymru i gynghori pobl ar fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae hyn yn cyflawni ein hymrwymiad yn y rhaglen lywodraethu i gefnogi'r trydydd sector, i gynghori pobl sydd â phroblemau dyledion ac i helpu pobl i reoli eu harian. Mae hefyd yn mynd i'r afael â'n blaenoriaeth i helpu i liniaru ar effeithiau newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i'r system fudd-daliadau. Yn ddiweddar, cytunodd y Gweinidog cyllid a minnau ar yr angen i gynnal adolygiad llawn o'r gwasanaethau cynghori, yng ngoleuni'r newidiadau digynsail yr ydym yn eu hwynebu o ganlyniad i ddiwygio lles a'r newidiadau i'r system cymorth cyfreithiol. Mae fy swyddogion wrthi'n diffinio cylch gwaith yr adolygiad a nodi'r adnoddau i wneud y gwaith. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Aelodau am gasgliadau'r adolygiad hwnnw.

In April 2011, the Welsh Government agreed funding to support the all-Wales scheme to help people struggling to keep their homes warm. The £100 million Nest scheme, which operates over a five-year period, is managed by British Gas, and, with the Energy Saving Trust, it aims to help 15,000 households each year.

Ym mis Ebrill 2011, cytunodd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r cynllun Cymru gyfan i helpu pobl sy'n ei chael yn anodd i gadw eu cartrefi'n gynnes. Mae cynllun pum mlynedd Nyth, sydd werth £100 miliwn, yn cael ei reoli gan Nwy Prydain, ac, ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, mae'n gobeithio helpu 15,000 o gartrefi y flwyddyn.

To counteract the threat of exploitation by predatory lenders—and we have heard in the Chamber again today about the devastating effect that can have on a family or individuals in terms of illegal money lending—we will continue to work in partnership with credit unions and the all-Wales illegal money lending unit to combat illegal lending and ensure support and referral for victims of this exploitation in the financial sector.

Er mwyn atal y bygythiad o gamfanteisio gan fenthycwyr diegwyddor—ac rydym wedi clywed yn y Siambr eto heddiw am yr effaith ddinistriol y gall hynny ei chael ar deulu neu unigolion o ran benthyca arian anghyfreithlon—byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag undebau credyd ac uned benthyca arian anghyfreithlon Cymru i fynd i'r afael â benthyca anghyfreithlon ac i sicrhau cefnogaeth ac atgyfeirio i'r rhai sy'n dioddef o ganlyniad i'r ecsbloetio hwn yn y sector ariannol.

**Simon Thomas:** I am grateful to the Minister for giving way. Does he agree that some of the points raised in the debate, including those by Vaughan Gething about getting access to alternative financial models being as easy as, say, Wonga.com, are important? Moneyline Cymru, of course, is considering how to open a contact centre so that people can phone rather than call in to shops to get these better rates of pay-day loans. Is the Government able to at least encourage and work with housing associations in the best way possible to roll out such a service throughout Wales?

**Simon Thomas:** Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio. A yw'n cytuno â rhai o'r pwyntiau a godwyd yn y ddadl, gan gynnwys y rheini gan Vaughan Gething, y dylai mynediad at fodelau ariannu eraill fod mor hawdd â, dyweder, Wonga.com? Mae Moneyline Cymru, wrth gwrs, yn ystyried agor canolfan gyswllt fel y gall pobl ffonio yn hytrach na galw mewn i siopau i gael y cyfraddau gwell hyn ar gyfer benthyciadau diwrnod cyflog. A yw'r Llywodraeth yn gallu o leiaf annog a gweithio gyda chymdeithasau tai yn y ffordd orau bosibl i gyflwyno gwasanaeth o'r fath ledled Cymru?

**Carl Sargeant:** Huw Lewis and I have met the organisation that the Member refers to and we understand the client group that it supports. I recognise that it works between the high lenders and the credit unions. The high-risk loans that it delivers means that there is a higher rate of return. Of course, I am keen to ensure that access across Wales is easy because people will take the easy route, whether it is via the internet, as you mentioned, or otherwise. Something we can explore with other organisations, including credit unions, is how people can easily access funding when they need it. I am happy to work further on this.

**Carl Sargeant:** Mae Huw Lewis a minnau wedi cyfarfod â'r sefydliad y mae'r Aelod yn cyfeirio ato ac mae gennym ddealltwriaeth o'r grŵp cleient y mae'n rhoi cymorth iddo. Rwy'n cydnabod bod y sefydliad hwn yn gweithio yn y maes rhwng y benthycwyr llog uchel a'r undebau credyd. Mae'r benthyciadau risg uchel y mae'n eu darparu yn golygu bod yr enillion hefyd yn uwch. Wrth gwrs, rwy'n awyddus i sicrhau mynediad hawdd ledled Cymru oherwydd hwn yw'r llwybr y bydd pobl yn ei gymryd, boed hynny drwy'r rhyngrwyd, fel y gwnaethoch chi sôn, neu fel arall. Un peth y gallwn weithio arno â sefydliadau eraill, gan gynnwys undebau credyd, yw sut y gall pobl gael mynediad hawdd at gyllid pan fydd ei angen arnynt. Rwy'n hapus i wneud rhagor o waith ar hyn.

Being excluded from mainstream financial services means that those who can least afford to do so will end up paying more for their basic needs, including the cost of energy as they cannot benefit from cheaper tariffs available to those by paying by direct debit, for example. They are not attractive to

Mae cael eich eithrio o wasanaethau ariannol prif ffrwd yn golygu mai'r bobl a all fforddio gwneud hynny leiaf yw'r rhai sy'n talu mwy yn y diwedd am eu hanghenion sylfaenol, gan gynnwys costau ynni oherwydd na allant elwa o dariffau rhatach sydd ar gael i'r rhai sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol, er

mainstream lenders as a result of their credit ratings so those lenders do not support their financial opportunities. Introducing a cap to combat this issue—and I know that Members referred to the fact that this is not new and is used across the globe—is an interesting proposal. It is based around UK legislation. I would certainly be happy to explore that further with the UK Ministers to get their thoughts on how that could be developed and the benefits of doing it. However, there are complexities with regard to a cap in the first place and questions about whether people would continue to use that system or whether they would be pushed into accessing other financial models. A great deal more debate is needed around that proposal. However, I am not averse to it. I support the principles that Members have raised today and I will take the issue up with the UK Government.

enghraifft. Nid ydynt yn atyniadol i fenthycwyr prif ffrwd o ganlyniad i’w statws credyd, felly nid yw’r benthycwyr hynny’n cefnogi eu cyfleoedd ariannol. Mae cyflwyno cap i fynd i’r afael â’r mater hwn—ac rwy’n gwybod bod Aelodau wedi cyfeirio at y ffaith nad rhywbeth newydd yw hyn a’i fod yn cael ei ddefnyddio ledled y byd—yn awgrym diddorol. Mae’n seiliedig ar ddeddfwriaeth y DU. Yn sicr, rwy’n fodlon archwilio hynny ymhellach gyda Gweinidogion y DU i ganfod eu barn am sut y gellid ei ddatblygu ac archwilio manteision gwneud hynny. Fodd bynnag, mae cymhlethdodau o ran capio a chwestiynau ynghylch a fyddai pobl yn parhau i ddefnyddio’r system honno neu a fyddent yn cael eu gwthio i gael mynediad at fodelau ariannol eraill. Mae angen mwy o drafodaeth ynghylch y cynnig hwnnw. Fodd bynnag, nid wyf yn gwrthwynebu hynny. Rwy’n cefnogi’r egwyddorion y mae Aelodau wedi’u codi heddiw, a byddaf yn codi’r mater â Llywodraeth y DU.

This has been a really useful debate for understanding the consequences of illegal moneylending and legal moneylending with high interest rates. Members across all parties have had a debate that is certainly worthy of further discussion with colleagues in Westminster to see what we can resolve for our constituents in Wales.

Mae hon wedi bod yn ddadl wirioneddol ddefnyddiol er mwyn deall goblygiadau benthyca arian anghyfreithlon a benthyca arian cyfreithlon gyda chyfraddau llog uchel. Mae Aelodau’r holl bleidiau wedi cael dadl sy’n sicr yn haeddu trafodaeth bellach â chydweithwyr yn San Steffan i weld beth allwn ei wneud i ddatrys hyn i’n hetholwyr yng Nghymru.

**Mark Drakeford:** Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl brynhawn yma. Mae’r cyfraniadau o bob rhan o’r Siambr wedi adlewyrchu pwysigrwydd y pwnc.

**Mark Drakeford:** I thank everyone who has contributed to today’s important debate. The contributions from all parts of the Chamber reflected the importance of this issue.

I hope that Members will forgive me if, given the number of people who have spoken in the debate, rather than trying to reply to the individual points raised, I attempt to highlight three common themes that I think have come from all sides of the Chamber and been raised regularly in our discussion. The first thing that has come through powerfully this afternoon is the predatory nature of pay-day loans—the way that they exploit the most vulnerable at points in their lives when they are most desperate and least likely to be able to seek proper advice. We have heard powerful evidence this afternoon of the impact this has on the lives of individuals and families.

Rwy’n gobeithio y bydd yr Aelodau’n maddau i mi os, o ystyried nifer y bobl sydd wedi siarad yn y ddadl, yn hytrach na cheisio ymateb i’r pwyntiau unigol a godwyd, fy mod yn ceisio tynnu sylw at dair thema gyffredin rwy’n credu iddynt ddod o bob ochr o’r Siambr ac sydd wedi’u codi yn rheolaidd yn ein trafodaeth. Y pwynt cyntaf sydd wedi dod drosodd yn gryf yn y ddadl y prynhawn yma yw natur reibus benthyciadau diwrnod cyflog—y modd y maent yn manteisio ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed ar adegau yn eu bywyd pan fyddant yn teimlo fwyaf anobeithiol a lleiaf tebygol o allu ceisio cyngor priodol. Rydym wedi clywed tystiolaeth rymus y prynhawn yma

o'r effaith y caiff hyn ar fywydau unigolion a theuluoedd.

Secondly, this afternoon, we have looked beyond the symptoms of pay-day loans to look at their causes as well. There is the declining share of national income that goes to workers, the impact of unemployment and the failure of regulation to meet the challenges that pay-day loans companies create. Thirdly, and probably most importantly of all, we have also heard across the Chamber this afternoon of some practical solutions that could be applied, either by learning from actions taken elsewhere or by promoting and supporting alternatives already on the ground here in Wales. This debate will have done something useful if it simply raises awareness of the issue. However, it will do more if your votes support the motion's call for the Welsh Government, with its key partners, to promote alternatives and publicise the real costs of pay-day loans.

Yn ail, y prynhawn yma, rydym wedi edrych y tu hwnt i symptomau benthyciadau diwrnod cyflog ac edrych ar yr hyn sy'n eu hachosi. Gellir sôn am y gyfran is o incwm cenedlaethol sy'n mynd i weithwyr, effaith diweithdra a methiant rheoliadau i gwrdd â'r heriau y mae cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog yn eu creu. Yn drydydd, ac yn ôl pob tebyg yn bwysicaf oll, rydym wedi clywed hefyd ar draws y Siambr y prynhawn yma am rai atebion ymarferol y gellid eu cymhwyso, naill ai drwy ddysgu o gamau sydd wedi'u cymryd mewn mannau eraill neu trwy hyrwyddo a chefnogi dewisiadau sydd eisoes ar gael yma yng Nghymru. Bydd y ddadl hon wedi gwneud rhywbeth defnyddiol pe bai ond yn codi ymwybyddiaeth o'r mater. Fodd bynnag, bydd yn cyflawni mwy fyth pe byddech yn pleidleisio dros yr alwad sydd yn y cynnig i Lywodraeth Cymru, gyda'i phrif bartneriaid, hyrywddo dewisiadau amgen a rhoi cyhoeddusrwydd i wir gostau benthyciadau diwrnod cyflog.

I want to emphasise two examples of what that could mean in practice. Today, in Westminster, the future of the social fund is being debated. By far the greater part of the huge increase in the demand for crisis loans, which has almost overwhelmed the fund in recent years, has been driven by people left with nothing to live on while waiting for their first pay cheque to arrive. Carl Sargeant, as the Minister responsible, has issued a consultation paper on the future of the social fund should some of its responsibilities come to Wales. I really hope that Members will have the chance to look at that consultation paper. I am grateful to the Minister for issuing it. It has some very interesting and important suggestions to make about the way in which a reformed and revised social fund in Wales might be able to provide financial advice to people who otherwise fall into the clutches of pay-day loan companies. There is a genuine chance to make a difference in Wales, and I hope that we will be able to grasp it.

Rwyf am bwysleisio dwy enghraifft o'r hyn y gallai hynny ei olygu yn ymarferol. Heddiw, yn San Steffan, mae dyfodol y gronfa gymdeithasol yn cael ei thrafod. Y rheswm pennaf o bell ffordd am y cynnydd enfawr yn y galw am fenthyciadau brys, sydd wedi bron â llethu'r gronfa yn y blynyddoedd diwethaf, yw bod pobl wedi'u gadael heb ddim i fyw arno wrth aros i'r siec am eu cyflog cyntaf gyrraedd. Mae Carl Sargeant, fel y Gweinidog cyfrifol, wedi cyhoeddi papur ymgynghori ar ddyfodol y gronfa gymdeithasol petai rhai o'i chyfrifoldebau yn dod i Gymru. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd Aelodau'n cael cyfle i edrych ar y papur ymgynghori. Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei gyhoeddi. Mae ynddo rai awgrymiadau diddorol a phwysig iawn am y ffordd y gallai cronfa gymdeithasol ddiwygiedig yng Nghymru roi cyngor ariannol i bobl a allai fel arall ddisgyn i grafangau cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog. Mae yma gyfle gwirioneddol i wneud gwahaniaeth yng Nghymru, ac rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu manteisio arno.

To emphasise what the Minister said, 13 February will see the launch of the first ever

I bwysleisio'r hyn a ddywedodd y Gweinidog, ar 13 Chwefror, bydd lansiad yr

television advertising campaign by credit unions in Wales. It will run for a month. It will go head to head with pay-day loan companies at the time of day when they use advertising to promote their pernicious products. I really hope that Members will get to see those adverts, and I hope that you will be able to ensure that they are seen by those who need them the most. I hope that you will mention them in your newsletters, and I hope that you will get the publicised in your local newspapers. Credit unions have been consistently supported across the Chamber; now we can all do a little more to add to their success and help achieve the objects of this motion.

ymgyrch hysbysebu teledu gyntaf erioed gan undebau credyd yng Nghymru. Bydd yn para am fis. Caiff yr hysbysebion eu darlledu ar yr un adeg o'r dydd â hysbysebion cwmnïau benthyca diwrnod cyflog i hyrwyddo eu cynnyrch niweidiol hwy. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd Aelodau'n gweld yr hysbysebion hynny, ac y byddwch yn gallu sicrhau eu bod yn cael eu gweld gan y rhai sydd eu hangen fwyaf. Rwy'n gobeithio y byddwch yn eu crybwyll yn eich cylchlythyrau, ac y byddwch yn cael cyhoeddusrwydd yn eich papurau newydd lleol. Mae undebau credyd wedi cael cefnogaeth gyson ar draws y Siambr; yn awr gall pob un ohonom wneud ychydig mwy i ychwanegu at eu llwyddiant a'u helpu i gyflawni amcanion y cynnig hwn.

Today, however, you have one more immediate thing that you can do in voting for the motion. It will send a powerful message of support to those who already provide alternatives to pay-day loans throughout Wales, and, at the same time, it will send an equally powerful statement of the Assembly's concern at the exploitation of those who are least able to withstand it. Please support this motion.

Heddiw, fodd bynnag, mae gennych un peth arall mwy uniongyrchol y gallwch ei wneud, sef pleidleisio dros y cynnig. Bydd yn anfon neges bwerus o gefnogaeth i'r rhai sydd eisoes yn darparu dewisiadau amgen i fenthyciadau diwrnod cyflog ledled Cymru, ac, ar yr un pryd, bydd yn anfon datganiad yr un mor bwerus o bryder y Cynulliad am yr ecsbloetio hwn o'r rhai sydd lleiaf abl i'w wrthsefyll. Os gwelwch yn dda, cefnogwch y cynnig hwn.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. The proposal is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Cyrhaeddiad Addysgol
### Educational Attainment

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Jocelyn Davies, gwelliant 3 yn enw Jane Hutt, a gwelliannau 4 a 5 yn enw Peter Black.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments I and 2 in the name of Jocelyn Davies, amendment 3 in the name of Jane Hutt, and amendments 4 and 5 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4899 William Graham*

*Motion NDM4899 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn cydnabod ei bod yn rhaid canolbwyntio ar gefnogi ac ymestyn disgyblion o bob gallu er mwyn gwella cyrhaeddiad a safonau addysgol ar draws Cymru;*

*2. Yn gresynu nad yw gallu nifer o ddisgyblion galluog a thalentog yn cael ei herio ddigon yn ysgolion Cymru; a*

*3: Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r graddau gorau yng Nghymru fel mater o frys.*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Recognises that to improve educational standards and attainment across Wales, there must be a focus on supporting and stretching pupils of all abilities;*

*2. Regrets that the capabilities of many able and talented pupils are not challenged enough in Welsh schools; and*

*3. Calls on the Welsh Government to address, as a matter of urgency, the decline in the number of pupils achieving top grades in Wales.*

**Angela Burns:** I move the motion.

The Welsh Conservatives have brought forward today's debate because we believe that stretching the best and the brightest of our children will not only enhance their lives, but will help to secure a more prosperous future for Wales. We are proposing that the National Assembly recognises that, to improve educational standards and attainment across Wales, there must be a focus on stretching pupils of all abilities. I cannot believe that any of the parties present could quarrel with that assertion. Rather than setting the bar at average, we should be asking that all excel, and, therefore, by stretching our most able and talented pupils, we must also support those who are underachieving or are disengaged to raise their aspirations.

We are also asking that the National Assembly regrets that the capabilities of many able and talented pupils are not challenged enough in Welsh schools. I am surprised that Plaid Cymru has tabled an amendment to delete this point, and I believe that it is being too hasty in this matter. I will draw your attention to the report compiled by Estyn in July last year regarding the support that able and talented children receive in our primary schools. It is more than a mixed bag. Examples of best practice are far outweighed by the examples of indifferent practice. I use the term 'indifferent' advisedly. Supporting able and talented pupils requires intervention, bespoke programmes and clear initiatives. According to Estyn, in the majority of

**Angela Burns:** Cynigiaf y cynnig.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cyflwyno'r ddadl heddiw am ein bod yn credu y bydd ymestyn y gorau a'r disgleiriaf o'n plant nid yn unig yn gwella eu bywydau, ond yn helpu i sicrhau dyfodol mwy llewyrchus i Gymru. Rydym yn cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod, er mwyn gwella safonau addysgol a chyrhaeddiad ledled Cymru, bod angen canolbwyntio ar ymestyn disgyblion o bob gallu. Ni allaf gredu y gallai unrhyw un o'r pleidiau eraill anghytuno â'r honiad hwnnw. Yn hytrach na bodloni ar fod â gallu canolig, dylem fynnu bod pawb yn rhagori, ac, felly, drwy ymestyn ein disgyblion mwyaf galluog a thalentog, mae'n rhaid inni hefyd gefnogi'r rhai sy'n tangyflawni neu sydd wedi'u hymddieithrio i godi eu dyheadau.

Rydym hefyd yn gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol resynu nad yw galluoedd y disgyblion galluog a thalentog yn cael eu herio ddigon yn ysgolion Cymru. Rwy'n synnu bod Plaid Cymru wedi cyflwyno gwelliant i ddileu'r pwynt hwn, ac rwy'n credu ei bod wedi bod yn rhy fyrbwyll yn y mater hwn. Hoffwn dynnu eich sylw at adroddiad a luniwyd gan Estyn ym mis Gorffennaf y llynedd ynghylch y gefnogaeth y mae plant galluog a thalentog yn ei chael yn ein hysgolion cynradd. Mae'n gymysgedd fawr o ymatebion. Mae'r enghreifftiau o arfer gorau yn cael eu gorbwyso'n fawr gan yr enghreifftiau o arfer gweddol. Rwy'n defnyddio'r term 'gweddol' yn ofalus. Mae cefnogi disgyblion mwy galluog a thalentog

primary schools, not only are the more able and talented pupils not identified and supported, but the teachers in those schools do not have the expertise to identify and then support those pupils.

yn gofyn am ymyrraeth, rhaglenni pwrpasol a mentrau clir. Yn ôl Estyn, yn y mwyafrif o ysgolion cynradd, mae'r disgyblion mwy galluog a dawnus nid yn unig yn methu â chael eu hadnabod a'u cefnogi, nid oes gan yr athrawon yn yr ysgolion hynny yr arbenigedd chwaith i nodi ac yna cefnogi'r disgyblion hynny.

The picture in secondary schools appears to be quite varied. The more talented and motivated children are often able to achieve support in a particular field through a dedicated subject teacher, but their progress, all too often, remains uncharted. The 2010 'Innovation in key stage 3' document states that only a few secondary schools identify more able and talented pupils through data received from their partner primary schools, resulting in low teacher expectations and poor provision to extend the learning experiences of these pupils as they begin key stage 3.

Mae'r sefyllfa mewn ysgolion uwchradd yn ymddangos yn eithaf amrywiol. Mae'r plant mwy talentog a brwdfrydig yn aml yn gallu cael cefnogaeth mewn maes arbennig drwy athro pwnc ymroddgar, ond mae eu cynnydd, yn rhy aml, yn parhau i fod yn anhysbys. Mae dogfen 'Arloesedd yng nghyfnod allweddol 3' 2010 yn nodi mai dim ond ychydig o ysgolion uwchradd sy'n adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog trwy ddata a gafwyd gan eu hysgolion cynradd partner, gan arwain at ddisgwyliadau isel ymysg athrawon a darpariaeth wael i ehangu'r profiadau dysgu i'r disgyblion hyn wrth iddynt ddechrau cyfnod allweddol 3.

The latest figures from StatsWales show that fixed-term exclusions more than triple from year 6, the last year in primary school, to year 7 in the first year of secondary school, as pupils struggle to cope with the transition. Some of those pupils are among the brightest and most able, but their social skills and emotional maturity cannot cope with the transition.

Mae ffigurau diweddaraf StatsCymru yn dangos bod gwaharddiadau cyfnod penodol yn cynyddu fwy na thair gwaith rhwng blwyddyn 6, sef y flwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd, a blwyddyn 7, sef y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd, wrth i ddisgyblion ei chael hi'n anodd ymdopi â'r pontio. Mae rhai o'r disgyblion hynny ymysg y mwyaf disglair a galluog, ond ni all eu sgiliau cymdeithasol a'u haeddfedrwydd emosiynol ymdopi â'r pontio.

4.00 p.m.

Estyn states that the quality of transition between schools is a significant factor in the long-term success of pupils. Estyn goes on to say that that is particularly the case for those who are more able and talented, because they provide an even greater challenge for the receiving school. Where transition systems are poor and the receiving school starts afresh with each new pupil, the more able tend to suffer the most. The work is too easy for them and the secondary school teachers' expectations are not high enough. That leads to frustration and negative attitudes towards school that can lead to a disengagement from learning. That is one of the many cogent

Mae Estyn yn datgan bod ansawdd y broses bontio rhwng ysgolion yn ffactor pwysig o ran llwyddiant tymor hir y disgyblion. Â Estyn ymlaen i ddweud bod hynny'n arbennig o wir am y rhai sy'n fwy galluog a thalentog, oherwydd eu bod yn cyflwyno her hyd yn oed yn fwy ar gyfer yr ysgol sy'n eu derbyn. Pan fo'r systemau trosglwyddo yn wael a bo'r ysgol sy'n derbyn yn dechrau o'r newydd gyda phob disgybl newydd, mae'r rhai mwy galluog yn tueddu i ddioddef fwyaf. Mae'r gwaith yn rhy hawdd iddynt ac nid yw disgwyliadau'r athrawon ysgolion uwchradd yn ddigon uchel. Mae hynny'n arwain at rwystredigaeth ac agweddau

reasons why the Welsh Conservatives have called for a middle phase in education to encompass eight to 13-year-olds, because a significant number of children struggle during that time in their lives.

negyddol tuag at ysgol a all arwain at ymddieithrio o ddysgu. Dyna un o’r nifer o resymau argyhoeddiadol pam mae’r Ceidwadwyr Cymreig wedi galw am gyfnod canol mewn addysg er mwyn cynnwys disgyblion wyth i 13 oed, gan fod nifer sylweddol o blant yn cael trafferth yn ystod y cyfnod hwnnw yn eu bywydau.

Thankfully, only around 2,000 pupils end up being permanently excluded. However, each of those exclusions marks 2,000 instances of where we have got it wrong. Rescuing those children subsequently is incredibly difficult. The final reason why I cannot accept the deletion of point 2 of the motion is that currently almost no local authorities use data to monitor the progress of the most able and talented pupils, and there is very little evidence of best practice being shared among the education community. School improvement officers seldom discuss how to measure and stretch the most able and talented pupils when they visit schools. Educational psychologists are not involved either. I regret that the capabilities of many able and talented pupils are not challenged enough in Wales, and I do not see any evidence to support the deletion of that point. It is a vital point, because the evidence is that some 20% of Welsh children would fall into the able and talented category. Therefore, some 20% of children require enriched or extended opportunities to develop their abilities or talents in one or more areas.

Diolch byth, dim ond tua 2,000 o ddisgyblion sy’n cael eu gwahardd yn barhaol yn y pen draw. Fodd bynnag, mae pob un o’r gwaharddiadau hynny’n dynodi 2,000 o enghreifftiau o le rydym wedi methu. Mae achub plant ar ôl hynny yn hynod anodd. Y rheswm olaf pam na allaf dderbyn y gwelliant sy’n dileu pwynt 2 y cynnig yw’r ffaith nad oes braidd dim awdurdodau lleol yn defnyddio data i fonitro cynnydd y disgyblion mwyaf galluog a thalentog, ac ychydig iawn o dystiolaeth a geir o rannu arfer gorau yn y gymuned addysg. Anaml fydd swyddogion gwella ysgolion yn trafod sut i fesur a herio’r disgyblion mwyaf galluog a thalentog pan fyddant yn ymweld ag ysgolion. Nid yw seicolegwyr addysgol yn cael eu cynnwys yn y broses chwaith. Rwyf yn gresynu wrth y ffaith nad yw galluoedd llawer o ddisgyblion galluog a thalentog yn cael eu herio’n ddigonol yng Nghymru, ac nid wyf yn gweld unrhyw dystiolaeth i gefnogi’r ddadl dros ddileu’r pwynt hwnnw. Mae’n bwynt hanfodol, gan fod y dystiolaeth yn nodi y byddai tua 20% o blant Cymru yn disgyn i’r categori galluog a thalentog. Felly, yn achos tua 20% o blant, mae angen cyfleoedd wedi’u cyfoethogi neu wedi’u hymestyn arnynt i ddatblygu eu galluoedd neu ddoniau mewn un neu fwy o feysydd.

Both Estyn and the Government identify these children as individuals who require greater support in learning. They are pupils who are more able across the national curriculum and who should be capable of achieving above the expected level in the end-of-key-stage teacher assessments. They also include those pupils who show ability or who are particularly talented in one or more specific areas, such as music, drama, art or sport. I will give you two quick examples.

Mae Estyn a’r Llywodraeth yn adnabod y plant hyn fel unigolion sydd angen mwy o gefnogaeth wrth ddysgu. Maent yn ddisgyblion sy’n fwy galluog ar draws y cwricwlwm cenedlaethol ac a ddylai fod yn gallu cyflawni’n uwch na’r lefel ddisgwyliedig yn yr asesiadau athrawon ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Maent hefyd yn cynnwys y disgyblion hynny sy’n dangos gallu neu sydd yn arbennig o ddawnus mewn un neu fwy o feysydd penodol, megis cerddoriaeth, drama, celf neu chwaraeon. Rhoddaf ddwy enghraifft ichi yn gyflym.

Ysgol Dyffryn Taf in Whitland won the

Enillodd Ysgol Dyffryn Taf yn Hendy-gwyn

outstanding team of the year award in the Pearson teaching awards 2011, which is a UK national award, and its amazing sports programme identifies the talented. Two of its alumni, Mike Phillips and Jonathan Davies, are in the Welsh rugby team, and the school was nominated by a successful Scarlets player who is also a former student, Dan Newton. Greenhill School in Tenby has an outstanding school orchestra that was joint winner of the 2009 Music for Youth competition. It has appeared in the Music for Youth finals many times, has won the national Urdd competition, and has regularly produced a finalist in the Texaco Young Musician of Wales competition. These are children who are truly gifted musically and who are inspired by an electric teacher and supported by the school and parents.

wobr tîm rhagorol y flwyddyn yng ngwobrau addysgu Pearson ar gyfer 2011, sef gwobr genedlaethol y DU, ac mae ei rhaglen chwaraeon anhygoel yn canfod y disgyblion talentog. Mae dau o gyn-fyfyrwyr yr ysgol, sef Mike Phillips a Jonathan Davies, yn nhîm rygbi Cymru, ac enwebwyd yr ysgol gan Dan Newton, chwaraewr Scarlets llwyddiannus sydd hefyd yn gyn-fyfyriwr. Mae gan Ysgol Greenhill yn Ninbych y Pysgod gerddorfa ysgol ragorol a oedd yn gyd-enillydd o'r gystadleuaeth Music for Youth yn 2009. Mae wedi ymddangos yn rownd derfynol Music for Youth ar sawl achlysur, wedi ennill yn Eisteddfod yr Urdd, ac wedi llwyddo i gael ei chynrychioli yn rownd derfynol cystadleuaeth cerddor ifanc Cymru cwmni Texaco yn rheolaidd. Mae'r rhain yn blant sy'n wirioneddol ddawnus yn gerddorol ac sydd wedi eu hysbrydoli gan athro egnïol ac wedi'u cefnogi gan yr ysgol a'u rhieni.

Therefore, there is that extraordinary talent lurking in Welsh schools and we need to extract it, nurture it and let it blossom. That is why I cannot support Plaid Cymru's amendment 1 either. I understand the principle behind that amendment, but I fear that adopting that focus would lead the Government to target only those children and the great majority would again be left to plod along as best they can. In contrast, stretching and supporting the 20% of pupils who are talented throughout Wales would reap huge benefits for every child in education. Evidence shows that the teaching and learning strategies that have the most positive impact on the more able pupils also improve standards within the school for pupils of all abilities. Given that the teachers in those schools expect their most able pupils to achieve the best that they can, they also challenge all pupils to reach the highest standards.

Felly, mae dawn anhygoel yn cuddio yn ysgolion Cymru ac mae angen inni gael gafael arni, ei meithrin a gadael iddi flodeuo. Dyna pam na allaf gefnogi gwelliant 1 Plaid Cymru chwaith. Rwyf yn deall yr egwyddor y tu ôl i'r gwelliant, ond rwyf yn ofni y byddai mabwysiadu'r pwyslais hwnnw yn arwain at sefyllfa lle na fyddai'r Llywodraeth ond yn targedu'r plant hynny ac y byddai'r mwyafrif helaeth yn cael eu gadael i lafurio hyd eithaf eu gallu. Ar y llaw arall, byddai ymestyn a chefnogi'r 20% o'r disgyblion sy'n dalentog ledled Cymru'n arwain at fanteision enfawr ar gyfer pob plentyn mewn addysg. Mae tystiolaeth yn dangos bod y strategaethau addysgu a dysgu sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar y disgyblion mwy galluog hefyd yn gwella safonau o fewn yr ysgol ar gyfer disgyblion o bob gallu. O ystyried bod yr athrawon yn yr ysgolion hynny yn disgwyl i'w disgyblion mwyaf galluog gyflawni'r gorau y gallant, maent hefyd yn herio pob disgybl i gyrraedd y safonau uchaf.

Children from disadvantaged backgrounds should receive specific support to overcome barriers to learning, including nurture groups and guidance for their families. A clearly defined and well-implemented policy is needed. The current programme is poorly implemented in many schools. It is also poorly monitored and tracked by local

Dylai plant o gefndiroedd difreintiedig gael cymorth penodol i oresgyn rhwystrau i ddysgu, gan gynnwys grwpiau meithrin ac arweiniad ar gyfer eu teuluoedd. Mae angen polisi sydd wedi'i ddiffinio'n glir a'i weithredu'n effeithiol. Mae'r rhaglen gyfredol yn cael ei gweithredu'n wael mewn llawer o ysgolion. Mae hefyd yn cael ei

authorities and the Welsh Government. It is not achieving its objectives. More training, time and tracking would enable all talented and able children to benefit, and would enhance the calibre of all our students and raise their prospects in further and higher education.

monitro a'i holrhain yn wael gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Nid yw'n cyflawni ei hamcanion. Byddai mwy o hyfforddiant, amser ac olrhain yn galluogi pob plentyn talentog a galluog i gael budd, a byddai'n codi safon ein holl fyfyrwyr ac yn gwella eu rhagolygon mewn addysg bellach ac uwch.

I believe amendment 3 to be inaccurate and I ask you to look at the evidence. Amendment 4 is another paean to the Liberal Democrats in supporting a woolly and ineffective Welsh Government budget. Finally, with regard to amendment 5, we do need to keep track of where we are through international comparators. The disingenuous reasons given for discarding the monitoring of spending per pupil in Wales are unworthy even of this administration.

Rwyf yn credu bod gwelliant 3 yn anghywir a gofynnaf ichi edrych ar y dystiolaeth. Mae gwelliant 4 yn folawd arall i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gefnogi cyllideb aneffeithiol ac amwys Llywodraeth Cymru. Yn olaf, o ran gwelliant 5, mae angen inni gadw cofnod o'n sefyllfa drwy gymaryddion rhyngwladol. Roedd y rhesymau annidwyll a roddwyd am waredu ar y broses o fonitro gwariant fesul disgybl yng Nghymru yn annheilwng o hyd yn oed y weinyddiaeth hon.

Finally, we should reflect that stretching our most able and talented pupils serves not only them, but us too. High-quality learning is strongly linked with higher earnings, lower chances of becoming unemployed, better health and reduced crime. It enhances productivity, drives economies and underpins culture. Whether they will be a scientist or an artist, a captain of industry or a self-employed businessperson, working in the public sector, private sector or voluntary sector, a team player or individualist, the development of the strengths of that 20% of children who are able and talented pupils and a concomitant rise in learning, achievements and aspirations throughout our schools, benefits the individual, our society and our economy. I commend this motion to the Chamber.

Yn olaf, dylem ystyried bod herio ein disgyblion mwyaf galluog a dawnus nid yn unig yn eu gwasanaethu hwy, ond mae'n ein gwasanaethu ni hefyd. Mae dysgu o ansawdd uchel wedi'i gysylltu'n gryf ag enillion uwch, llai o siawns o fod yn ddi-waith, gwell iechyd a llai o droseddu. Mae'n gwella cynhyrchiant, yn sbarduno economïau ac yn sail i ddiwylliant. Pa un ai a fyddant yn wyddonydd neu'n artist, yn gapten diwydiant neu'n berson busnes hunangyflogedig, yn gweithio yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r sector gwirfoddol, yn chwaraewr tîm neu'n gweithio fel unigolyn, mae datblygu cryfderau'r 20% o blant sy'n ddisgyblion galluog a thalentog, a chynnydd cydredol mewn dysgu, cyflawniadau a dyheadau ar draws ein hysgolion, yn arwain at fudd i'r unigolyn, ein cymdeithas a'n heconomi. Rwyf yn cymeradwyo'r cynnig hwn i'r Siambr.

*Gwelliant 1 Jocelyn Davies*

*Amendment 1 Jocelyn Davies*

*Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:*

*Insert at end of point 1:*

*', gan ddechrau yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig'.*

*'starting in our most deprived communities'.*

*Gwelliant 2 Jocelyn Davies*

*Amendment 2 Jocelyn Davies*

*Dileu pwynt 2.*

Delete point 2.

**Simon Thomas:** Cynigiaf welliannau 1 a 2

**Simon Thomas:** I move amendments 1 and 2

yn enw Jocelyn Davies.

in the name of Jocelyn Davies.

Dechreuaf fy nghyfraniad drwy ddweud fy mod i a Phlaid Cymru yn cefnogi'n fras yr hyn a ddywedwyd gan lefarydd y Ceidwadwyr wrth agor y ddadl hon; dim ond rhywfaint o hidlo gwybed rydym am ei wneud ynghylch rhai agweddau ar y cynnig. Dyna pam rydym wedi cynnig y ddau welliant hyn. Rwyf braidd yn siomedig nad yw'r Ceidwadwyr yn gallu derbyn gwelliant 1 o leiaf. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod y plant a phobl ifanc hynny sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn profi rhagwahaniaeth ddwywaith. Hynny yw, os ydych yn blentyn talentog ac abl iawn, fel yr amlinellir yng nghynnig y Ceidwadwyr, a hefyd yn byw mewn ardal ddifreintiedig, mae dwywaith cymaint o rwystrau yn eich erbyn. Mae digon o dystiolaeth gan Estyn ac o'r system fandio i ddangos bod hynny'n wir. Felly, rwy'n awgrymu yng ngwelliant 1 bod yn rhaid inni gychwynnid gorffen, wrth gwrs, ond cychwyn o leiaf-drwy flaenoriaethu'r gwaith mae'r Ceidwadwyr wedi ei amlinellu yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Dyna'r esboniad dros gynnig gwelliant 1.

I begin my contribution by saying that I and Plaid Cymru broadly support what was said by the Conservative spokesperson in opening this debate; we just have a few qualms with some aspects of the motion. That is why we have proposed these two amendments. I am a little disappointed that the Conservatives are unable to support amendment 1 at the least. It is important that we recognise that children and young people living in our most deprived communities are being discriminated against twice. That is to say, if you are a talented and able pupil, as outlined in the Conservative motion, and also live in a deprived area, you are facing twice as many barriers. There is plenty of evidence from Estyn and from the banding system to demonstrate that that is the case. Therefore, I suggest in amendment 1 that we must start—not finalise, of course, but at least start—to prioritise the work that the Conservatives have outlined in our most deprived communities. That explains the first amendment.

Rwy'n deall pam nad yw gwelliant 2 wrth fodd y Ceidwadwyr, gan ei fod yn tynnu craidd y ddadl o'u cynnig heddiw. Fodd bynnag, rwyf innau hefyd wedi edrych ar adroddiad Estyn ynglŷn â chefnogi disgyblion mwy abl a thalentog ac nid wyf yn meddwl ei fod yn cyfiawnhau cynnig y Ceidwadwyr. Rwy'n dweud hynny am ddau reswm. Yn gyntaf oll, rwy'n meddwl bod 'gresynu' yn anfon y neges anghywir at yr athrawon sydd yn ceisio estyn y disgyblion mwyaf talentog. Rwyf hefyd yn credu nad oes digon o dystiolaeth yn yr adroddiad i ddweud nad yw herio yn digwydd mewn ysgolion, ond mae'n wir i ddweud bod yr adroddiad yn cydnabod bod lle i wella. Byddwn felly wedi hoffi gweld cynnig y Ceidwadwyr wedi ei eirio'n fwy gofalus. Os ydym yn cefnogi'r cynnig fel y mae, rydym mewn perygl o anfon neges anffodus at rai athrawon ac at rai disgyblion sydd yn gweithio o fewn y cyd-destun presennol.

I understand why the Conservatives would not support amendment 2, as it removes the meat of their motion. However, I too have looked at the Estyn report on supporting more talented and able pupils and I do not think that that justifies what is proposed in the Conservative motion. I say that for two reasons. First, I think that to use the word 'regret' sends the wrong message to our teachers and those who are trying to stretch our most talented pupils. I also think that there is inadequate evidence in the report to say that that challenge does not happen in our schools, but it is true to say that the report recognises that there is room for improvement. I would therefore have liked to have seen the Conservative motion worded a little more carefully. If we support the motion as it stands, we are in danger of sending an unfortunate message to some teachers and some pupils who are working in this context at the moment.

**Angela Burns:** I accept that there are many different reports out there, not just Estyn's, but they all point to the same few things: that the best practice that exists is excellent, but it

**Angela Burns:** Rwyf yn derbyn bod yna nifer o adroddiadau gwahanol, ac nid dim ond un Estyn, ond maent i gyd yn cyfeirio at yr un pethau: bod yr arfer gorau sy'n bodoli

is too little, and that most schools, both secondary and primary, are not achieving a proper programme. However, above all, do you not accept that there is almost no monitoring of the data that exist by any of the local authorities or the Government and so to make the assertions that you have is almost impossible and you have to take the empirical evidence that is described in the reports?

yn ardderchog, ond nad yw'n ddigon, ac nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion—uwchradd a chynradd—yn cyflawni rhaglen briodol. Fodd bynnag, yn anad dim, onid ydych yn derbyn nad oes braidd dim monitro o'r data sy'n bodoli gan unrhyw un o'r awdurdodau lleol neu'r Llywodraeth ac, felly, ei bod bron yn amhosibl gwneud yr honiadau rydych wedi'u gwneud, a bod yn rhaid ichi gymryd y dystiolaeth empirig a ddisgrifir yn yr adroddiadau?

**Simon Thomas:** I accept that latter point, and I would suggest to you that it means that the empirical evidence that you seek to support your motion is also not there.

**Simon Thomas:** Rwyf yn derbyn y pwynt olaf, a byddwn yn awgrymu ichi fod hynny'n golygu nad yw'r dystiolaeth empirig sydd ei angen i gefnogi'ch cynnig yno chwaith.

Y gwir amdani yw nad ydym yn gwybod digon o'r cychwyn i'r diwedd ar draws y rhychwant o ddisgyblion a thrwy gydol taith yr unigolyn drwy'r ysgol i brofi neu wrthbrofi hyn. Fodd bynnag, rwy'n awgrymu y byddai cefnogi'r cynnig yn anfon neges anffodus.

The truth is that we do not know enough from start to finish across the range of pupils and their journey through our schools to prove or disprove that. However, I would suggest that supporting this motion would send an unfortunate message.

Hoffwn ddweud ychydig mwy ynglŷn â phrif ddadl y Ceidwadwyr yma ar estyn a chefnogi'r disgyblion mwyaf talentog. Rydym i gyd yn dibynnu, i raddau, ar adroddiad Estyn, sy'n ei gwneud yn glir bod y pethau sy'n helpu'r disgyblion mwyaf talentog, fel gwella arweiniad yn yr ysgol, gwella safon ac ansawdd addysgu, a monitro cyrhaeddiad y disgyblion, fel y dywedodd Angela Burns, yn bethau a ddylai ddigwydd ar draws yr ysgol, er mwyn pob disgybl. Mae Estyn yn dweud yn glir yn ei adroddiad bod hynny'n help i bob plentyn, ac nid y rhai talentog yn unig. Dyna pam nad wyf yn hollol siŵr pam ein bod yn defnyddio hyn i ffocysu cymaint ar y rhai mwyaf talentog.

I would like to say a little more about the main case put forward by the Conservatives on supporting and challenging the most talented pupils. We are all dependent, to a certain extent, on the Estyn report, which makes it clear that the things that help the most talented pupils, such as improved school leadership, improving the quality and standard of teaching, and monitoring pupils' achievement, as Angela Burns said, are things that should happen across the board for all pupils. Estyn clearly says in the report that that helps all pupils, and not just the most talented. That is why I am not quite sure why we are using this to focus so much on the most talented.

Mae adroddiadau eraill gan Estyn sy'n dweud, yn y cyd-destun hwn, mai'r plant sy'n dod o'r cefndir mwyaf difreintiedig sydd dan yr anfantais fwyaf. Dyna yw byrdwn ein gwelliant 1. Rwy'n derbyn bod gan y Ceidwadwyr bwynt teg wrth gynnig y ddadl hon, ac rwy'n croesawu'r ffaith bod gennym gyfle i drafod estyn ein disgyblion mwyaf talentog, ond y flaenoriaeth yn y cyd-destun hwn yw ffocysu ar y plant mwyaf difreintiedig o'n cymunedau mwyaf difreintiedig.

Other Estyn reports also say, in this context, that it is the children from the most deprived backgrounds who suffer the greatest disadvantage. That is the reasoning behind our amendment 1. I accept that the Conservatives are making a fair point in moving this motion, and I welcome the opportunity to discuss how we stretch our most talented pupils, but the priority in this context is to focus on our most deprived pupils from our most deprived communities.

*Gwelliant 3 Jane Hutt*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Yn croesawu'r cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r graddau uchaf mewn arholiadau TGAU yng Nghymru er 1999.*

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Cynigiaf welliant 3 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 4 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn croesawu'r £20 miliwn ychwanegol o fuddsoddiad ar gyfer y Gronfa Amddifadedd Disgyblion y cytunwyd arno yng nghyllideb derfynol mis Rhagfyr ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut y bydd yn monitro'r gronfa i sicrhau y bydd yn cael ei defnyddio i wella safonau addysgol.*

*Gwelliant 5 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod data am 'Wariant a Gyllidebwyd gan Awdurdodau Lleol ar gyfer Ysgolion: Cymhariaeth Cymru/Lloegr' yn parhau i fod ar gael er mwyn sicrhau bod modd monitro gwariant i wella safonau addysgol.*

**Aled Roberts:** I move amendments 4 and 5 in the name of Peter Black.

Clearly, amendment 4 refers to the agreement reached between Welsh Labour and ourselves with regard to the budget for this year and the implementation of the pupil premium—or the pupil deprivation grant, depending on—

**Simon Thomas:** Does he call it a pupil premium?

**Aled Roberts:** I am sure that the Minister does not; it is referred to in budget terms as the pupil deprivation grant.

*Amendment 3 Jane Hutt*

*Delete point 3 and replace with:*

*Welcomes the increase in the number of pupils achieving top grades in GCSEs in Wales since 1999.*

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I move amendment 3 in the name of Jane Hutt.

*Amendment 4 Peter Black*

*Add new point at end of motion:*

*Welcomes the additional £20 million investment for the Pupil Deprivation Fund agreed in December's final budget and calls on the Welsh Government to identify how it will monitor the fund to ensure that it is used to improve educational standards.*

*Amendment 5 Peter Black*

*Add new point at end of motion:*

*Calls on the government to ensure that data on 'Local Authority Budgeted Expenditure on Schools: Wales/England Comparison' continue to be made available in order to ensure that spending can be monitored to improve educational standards.*

**Aled Roberts:** Cynigiaf welliannau 4 a 5 yn enw Peter Black.

Yn amlwg, mae gwelliant 4 yn cyfeirio at y cytundeb a wnaed rhwng Llafur Cymru a'm mhlaid i o ran y gyllideb ar gyfer y flwyddyn hon a gweithredu'r premiwm disgyblion—neu'r grant amddifadedd disgyblion, yn dibynnu ar—

**Simon Thomas:** A yw'n ei alw'n premiwm disgyblion?

**Aled Roberts:** Rwyf yn siŵr nad yw'r Gweinidog yn ei alw'n hynny; o safbwynt y gyllideb, cyfeirir ato fel grant amddifadedd disgyblion.

For what it is worth, referring to the comments that Simon Thomas made, we believe that the pupil deprivation grant will target resources at the most deprived pupils. We recognise that many reports show that those pupils are at a disadvantage. I am disappointed that Angela Burns looks upon that as a woolly and ineffective policy, given that it will give some £690,000 to her constituency in the form of increased education spending.

Os yw o ryw werth, gan gyfeirio at y sylwadau a wnaeth Simon Thomas, credwn y bydd y grant amddifadedd disgyblion yn targedu adnoddau at y disgyblion mwyaf difreintiedig. Rydym yn cydnabod bod llawer o adroddiadau'n dangos bod y disgyblion hynny o dan anfantais. Rwyf yn siomedig bod Angela Burns yn edrych ar hwn fel polisi niwlog ac aneffeithiol, o gofio y bydd yn rhoi tua £690,000 i'w hetholaeth drwy gynnydd mewn gwariant ar addysg.

**Simon Thomas:** Before the Member reads out every *Focus* leaflet that has been distributed in Wales, I very much hope that his intentions for this pupil deprivation grant are proved correct. Does this mean that the Liberal Democrats will be supporting the Welsh Government's budgets for the next four years to ensure that the grant continues in the next four years?

**Simon Thomas:** Cyn i'r Aelod ddarllen pob taflen *Focus* sydd wedi cael ei dosbarthu yng Nghymru, rwyf yn gobeithio'n fawr y bydd yn cael ei brofi'n gywir o ran ei fwriadau ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion. A yw hyn yn golygu y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi cyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer y pedair blynedd nesaf er mwyn sicrhau bod y grant yn parhau dros y pedair blynedd nesaf?

**Aled Roberts:** No, it does not. It is a matter for discussion between the party leader and First Minister in due course, supported by the Minister for Finance and Leader of the House.

**Aled Roberts:** Nac ydy. Mae'n fater i'w drafod gan arweinydd y blaid a Phrif Weinidog Cymru maes o law, gyda chefnogaeth y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ.

That point does raise an issue, because we will need to see how schools will use that pupil deprivation grant to address some of the issues mentioned in the reports. I am sure that we will hear from the Minister about how expenditure will be monitored, because it is clear from the experience in England that it is not as easy as throwing money at the situation. How that money is used is most important. A whole series of measures have been adopted by schools in England with very different success rates and outcomes. In fact, a report from the Sutton Trust says that probably the most important issue will be how the money is spent in future.

Mae hynny'n codi pwynt, oherwydd bydd angen inni weld sut y bydd ysgolion yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion i fynd i'r afael â rhai o'r materion a grybwyllir yn yr adroddiadau. Rwyf yn siŵr y byddwn yn clywed gan y Gweinidog am sut y bydd gwariant yn cael ei fonitro, gan ei bod yn glir o'r profiad yn Lloegr nad yw mor hawdd â thaflu arian at y sefyllfa. Y ffordd y mae'r arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio yw'r peth pwysicaf. Mae cyfres gyfan o fesurau wedi'i mabwysiadu gan ysgolion yn Lloegr, gyda chyfraddau llwyddiant a chanlyniadau gwahanol iawn. Yn wir, mae adroddiad gan Ymddiriedolaeth Sutton yn dweud ei bod yn debyg mai'r mater pwysicaf fydd sut y bydd yr arian yn cael ei wario yn y dyfodol.

We think that targeting this funding will bring about an improvement in educational attainment, as well as in fixed-term exclusions and absenteeism levels, which are proving resistant to improvement in Wales.

Rydym yn credu y bydd targedu'r cyllid hwn yn sicrhau gwelliant mewn cyrhaeddiad addysgol, yn ogystal ag mewn gwaharddiadau tymor penodol a lefelau absenoldeb, sy'n gwrthsefyll ymdrechion i'w gwella yng Nghymru.

With regard to amendment 5, we think that

O ran gwelliant 5, rydym yn gresynu wrth y

the announcement made last week on doing away with the comparative data for England and Wales is regrettable. The explanation given at the time is at odds with that given by the First Minister yesterday, when he indicated that the decision was taken by the UK Government. I accept that, in the statistical bulletin last year, reference was made to the fact that the roll-out of academies made it difficult to compare data, but I hope that the Minister will enter into discussions with—

cyhoeddiad a wnaed yr wythnos diwethaf am gael gwared ar y data cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r esboniad a roddwyd ar y pryd yn groes i'r esboniad a roddwyd gan y Prif Weinidog ddoe, pan awgrymodd mai Llywodraeth y DU a gymerodd y penderfyniad. Rwyf yn derbyn y cyfeiriwyd yn y bwletin ystadegol y llynedd at y ffaith bod y broses o gyflwyno academïau yn ei gwneud yn anodd cymharu data, ond rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn cynnal trafodaethau â—

4.15 p.m.

**Leighton Andrews:** We need to be clear that his party at a UK level has endorsed the programme of the UK coalition Government with regard to academies, which means removing millions of pounds from the moneys that are spent by local authorities in England. That is what makes it so difficult to make the comparison. Let us make it clear: this is a decision not by the Welsh Government, but by the statistics service and the chief statistician. Of course, the chief statistician's office is constitutionally independent from the Welsh Ministers under UK legislation.

**Leighton Andrews:** Mae angen inni fod yn glir bod ei blaid ef ar lefel y DU wedi cymeradwyo rhaglen Llywodraeth glymblaid y DU o ran academïau, sy'n golygu tynnu miliynau o bunnoedd o'r arian sy'n cael ei wario gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Dyna sy'n gwneud cymharu mor anodd. Gadewch inni wneud hyn yn glir: nid penderfyniad gan Lywodraeth Cymru yw hyn, ond un a wnaethpwyd gan y gwasanaeth ystadegau a'r prif ystadegydd. Wrth gwrs, mae swyddfa'r prif ystadegydd yn annibynnol yn gyfansoddiadol ar Weinidogion Cymru o dan ddeddfwriaeth y DU.

**Aled Roberts:** I accept that point, but it would be interesting to know what discussions there have been between the Welsh Government and UK Ministers of education with regard to trying to reconcile the difficulties around the availability of comparative data. One of the issues is that, as I understand it, the chief statistician was dependent on discussions between the Minister for local government and the Department for Communities and Local Government in London, which meant that some of that information was difficult.

**Aled Roberts:** Rwyf yn derbyn y pwynt hwnnw, ond byddai'n ddiddorol cael gwybod pa drafodaethau a fu rhwng Llywodraeth Cymru a Gweinidogion addysg y DU o ran ceisio datrys yr anawsterau ynghylch argaeledd data cymharol. Rwyf yn deall mai un o'r materion oedd bod y prif ystadegydd yn dibynnu ar drafodaethau rhwng y Gweinidog dros lywodraeth leol a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Llundain, a oedd yn golygu bod rhywfaint o'r wybodaeth honno yn anodd.

To return to the main tenor of this debate, we need to up our game. I accept that the Minister is trying to do that with many of the announcements that he has made recently. However, if we compare the performance in Wales as far as A and A* grades are concerned in the statistical information that was released this morning, although we can welcome, as the Government does, the improvement in higher grades in Wales over the course of the last 9 years, we have to

Gan ddychwelyd at brif thema'r ddadl, mae angen inni weithio hyd yn oed yn galetach. Rwyf yn derbyn bod y Gweinidog yn ceisio gwneud hynny gyda llawer o'i gyhoeddiadau diweddar. Fodd bynnag, os ydym yn cymharu'r perfformiad yng Nghymru o safbwynt graddau A ac A* yn y wybodaeth ystadegol a gyhoeddwyd y bore yma, er y gallwn groesawu, fel y gwna'r Llywodraeth, y gwelliant mewn perthynas â graddau uwch yng Nghymru dros y 9 mlynedd diwethaf,

accept—I would hope that there is no degree of complacency entering into the argument here—that our comparative performance again this year has deteriorated compared with England.

rhaid inni dderbyn—a byddwn yn gobeithio nad oes unrhyw elfen o laesu dwylo yn codi yn y ddadl hon—bod ein perfformiad cymharol unwaith eto wedi gwaethygu eleni o’i gymharu â Lloegr.

To deal with Angela Burns’s point, I do not accept that individual authorities are not tracking pupil performance. The difficulty is that, due to the stressing of A to C grades, they tend to concentrate their efforts on improving D to C grades, rather than on improving the whole of the cohort as far as their individual performance is concerned.

Gan droi at bwynt Angela Burns, nid wyf yn derbyn nad yw awdurdodau unigol yn olrhain perfformiad disgyblion. Yr anhawster, o ganlyniad i’r pwyslais a roddir ar raddau A i C, yw eu bod yn tueddu i ganolbwyntio eu hymdrechion ar wella graddau D i C, yn hytrach nag ar wella’r cohort i gyd o ran eu perfformiad fel unigolion.

**Paul Davies:** I am pleased to be able to take part in this debate this afternoon. It is essential that our children are given the best possible opportunities through the education system in Wales and that their education and training shapes an essential part of their development into mature, well-rounded adults. Our children must be given the best possible opportunities through our education system and access to first-class facilities and a supporting environment that will develop their key skills as they grow. Sadly, no-one can deny that a lot of work needs to be done in Wales to drive up education attainment. We have seen from recent GCSE and A-level data that Wales is underperforming compared with other UK nations, and this highlights the urgent need for improvements. The Estyn chief inspector, Ann Keane, has made it clear that Wales has few high achievers compared with other top-performing countries. In order to improve this, we must stretch and challenge all pupils in our schools, including the most able and talented. I appreciate that the Welsh Government has issued guidance to local education authorities concerning the role that they should play in supporting schools to improve and further develop provision for more able and talented pupils.

**Paul Davies:** Rwyf yn falch o allu cymryd rhan yn y drafodaeth y prynhawn yma. Mae’n hanfodol bod ein plant yn cael y cyfleoedd gorau posibl drwy’r system addysg yng Nghymru, a bod eu haddysg a’u hyfforddiant yn rhan hanfodol o’u datblygiad wrth ddod yn oedolion aeddfed a chyflawn. Mae’n rhaid i’n plant gael y cyfleoedd gorau posibl drwy ein system addysg, drwy fynediad at gyfleusterau o’r radd flaenaf a thrwy amgylchedd cefnogol a fydd yn datblygu eu sgiliau allweddol wrth iddynt dyfu. Yn anffodus, ni all neb wadu nad oes angen gwneud llawer o waith yng Nghymru i wella cyrhaeddiad addysgol. O ddata TGAU a Safon Uwch diweddar, rydym wedi gweld bod Cymru’n tanberfformio o gymharu â gwledydd eraill y DU, ac mae hyn yn tynnu sylw at yr angen brys am welliannau. Mae Ann Keane, prif arolygydd Estyn, wedi’i gwneud yn glir mai dim ond ychydig o ddisgyblion yng Nghymru sy’n llwyddo’n fawr o gymharu â gwledydd eraill sy’n perfformio’n dda. I wella hyn, mae’n rhaid inni ymestyn a herio pob disgybl yn ein hysgolion, gan gynnwys y rhai mwyaf galluog a dawnus. Rwyf yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau addysg lleol mewn perthynas â’r rôl y dylent ei chwarae wrth gefnogi ysgolion i wella a pharhau i ddatblygu’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog.

I will briefly touch upon the first part of our motion, which recognises that, to improve education standards and attainment across Wales, there must be a focus on supporting and stretching pupils of all abilities. Indeed, there should be a focus on ensuring that all

Byddaf yn sôn yn gryno am ran gyntaf ein cynnig, sy’n cydnabod bod yn rhaid canolbwyntio ar gefnogi ac ymestyn disgyblion o bob gallu i wella safonau addysg a chyrhaeddiad ledled Cymru. Yn wir, dylid canolbwyntio ar sicrhau bod pob plentyn yn

children have the appropriate support available to them at the earliest opportunity. Sadly, the recent Estyn report highlights how too few primary pupils in Wales achieve the expected level for their age at end-of-key-stage teacher assessments in the core subjects of English, Welsh, mathematics and science. All pupils in Wales must be challenged and engaged by the educational system. We must support and encourage those who are underachieving to raise their aspirations and we must stretch and inspire our most able and talented. I believe that the Welsh Government must encourage new ways of independent thinking among our children and promote an entrepreneurial spirit. The Minister will not be surprised to hear that one way of doing this is to introduce social enterprise in schools to help children to develop communication and management skills. We must have an education system that provides Welsh pupils with skills for life, and a system that encourages pupils to be innovative and creative.

cael y cymorth priodol cyn gynted â phosibl. Yn anffodus, mae adroddiad diweddar Estyn yn tynnu sylw at y ffaith nad oes digon o ddisgyblion cynradd yng Nghymru yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd y cyfnodau allweddol yn y pynciau craidd, sef Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Rhaid i'r system addysg herio ac ysgogi pob disgybl yng Nghymru. Rhaid inni gefnogi ac annog y rheini sy'n tangyflawni i godi eu dyheadau, a rhaid inni ymestyn ac ysbrydoli'r rheini sydd fwyaf galluog a dawnus. Rwyf yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru annog ffyrdd newydd o feddwl yn annibynnol ymhlith ein plant, a hybu ysbryd entrepreneuraidd. Ni fydd y Gweinidog yn synnu o glywed mai un ffordd o wneud hyn yw cyflwyno menter gymdeithasol mewn ysgolion i helpu plant i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a rheoli. Mae'n rhaid inni gael system addysg sy'n rhoi sgiliau bywyd i ddisgyblion Cymru, a system sy'n annog disgyblion i fod yn arloesol ac yn greadigol.

In addition, and of equal importance, there must be effective communication between parents and the school. Clearly, positive family relationships play a large part in shaping the development of the more able and talented, and the support of parents is vital to the realisation of full potential. Not surprisingly, schools that ensure that all parents understand the policy for identifying more able and talented pupils normally avoid misunderstandings and the potential conflict that may arise when there is different provision for some pupils. Ultimately, the challenge here is to create learning opportunities for more able and talented pupils that are appropriate for their ability and age, while keeping them emotionally and socially within their peer structure. For this to be done successfully, parents and teachers must work together.

Hefyd, ac yr un mor bwysig, mae'n rhaid cael cyfathrebu effeithiol rhwng y rhieni a'r ysgol. Yn amlwg, mae perthnasau teuluol cadarnhaol yn chwarae rhan fawr o ran llywio datblygiad y rheini sy'n fwy galluog a thalentog, ac mae cefnogaeth rhieni yn hanfodol er mwyn gwireddu eu holl botensial. Nid yw'n syndod bod ysgolion sy'n sicrhau bod pob rhiant yn deall y polisi ar adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog fel arfer yn osgoi camddealltwriaeth a'r gwrthdaro a all godi pan fydd darpariaeth wahanol ar gyfer rhai disgyblion. Yn y pen draw, yr her yw creu cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog sy'n briodol i'w gallu a'u hoedran, gan eu cadw o fewn yr un strwythur â'u cyfoedion yn emosiynol ac yn gymdeithasol. Er mwyn gwneud hynny'n llwyddiannus, rhaid i rieni ac athrawon weithio gyda'i gilydd.

Turning briefly to our secondary education system, it is a matter of serious concern that the number of pupils achieving the very top A-level grades in Wales has been falling—[*Interruption.*] I will come on to the statistics now, Minister, if you will allow me to develop my argument.

Gan droi'n fyr at ein system addysg uwchradd, mae'n destun pryder difrifol fod nifer y disgyblion sy'n cael y graddau Safon Uwch uchaf yng Nghymru wedi bod yn gostwng—[*Torri ar draws*.] Byddaf yn trafod yr ystadegau yn y man, Weinidog, os ganiatewch imi ddatblygu fy nadl.

The proportion of students awarded A* at A-level fell from 6.5% to 6.3%, while students gaining either A* or A fell from 24.4% to 23.9%. Results show that the percentage of entries gaining A grades is now at its lowest level in Wales since 2006. It is, therefore, essential that the Welsh Government assesses as a matter of urgency why that is happening.

Mae cyfran y myfyrwyr a gafodd gradd A* Safon Uwch wedi gostwng o 6.5% i 6.3%, wrth i gyfran y myfyrwyr a gafodd naill ai gradd A* neu A ostwng o 24.4% i 23.9%. Mae'r canlyniadau yn dangos bod canran yr ymgeiswyr a enillodd graddau A bellach ar ei lefel isaf yng Nghymru er 2006. Mae'n hanfodol, felly, fod Llywodraeth Cymru yn asesu fel mater o frys pam mae hyn yn digwydd.

Not only are top A-level grades falling, but Wales is dramatically losing pace with other UK nations. In order for Wales to start performing at a truly world-class level, it needs to start stretching and challenging the most able and talented alongside supporting other pupils. It is crucial that all schools in Wales have systems in place to recognise the ability of their more talented pupils, and to ensure that adequate support mechanisms are in place, giving them every opportunity to succeed. It is important that there is a close collaborative relationship between local education authorities, schools and parents to support and nurture children of all abilities, including talented pupils, throughout the education system. I urge Members to support our motion.

Nid yn unig y mae graddau uchaf y Safon Uwch yn gostwng, ond mae Cymru fwyfwy ar ei hôl hi o'i chymharu â chenhedloedd eraill y DU, a hynny i raddau syfrdanol. Er mwyn i Gymru ddechrau perfformio gyda'r gorau yn y byd, mae angen iddi ddechrau ymestyn a herio'r rheini sydd fwyaf galluog a thalentog ochr yn ochr â chefnogi disgyblion eraill. Mae'n hanfodol fod pob ysgol yng Nghymru yn rhoi systemau ar waith i gydnabod gallu eu disgyblion mwy talentog, a sicrhau bod systemau cymorth digonol ar waith, gan roi pob cyfle iddynt i lwyddo. Mae'n bwysig bod perthynas gydweithredol agos rhwng awdurdodau addysg lleol, ysgolion a rhieni er mwyn cefnogi a meithrin plant o bob gallu, gan gynnwys disgyblion dawnus, drwy gydol y system addysg. Rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi ein gwelliannau.

**Jenny Rathbone:** I am delighted that the Conservatives are giving us an opportunity to debate this subject, but I feel that they are looking at it down the wrong end of the telescope. It certainly does not conform with my experience, both as a governor at Llanedeyrn High School and Ysgol y Berllan Deg, and also as a former Estyn inspector. If there were no problems in the education system then we would not be investing in Estyn to tell us how we need to improve. What we are doing in the schools at which I am a governor is ensuring that a rigorous analysis of data, effective continuous professional development, and a proactive response to attendance, to ensure that children are there, drive up standards and achievement. I will be supporting all the amendments, which I think rectify the errors in the motion as tabled.

**Jenny Rathbone:** Rwyf wrth fy modd bod y Ceidwadwyr yn rhoi cyfle inni drafod y pwnc hwn, ond rwyf yn teimlo eu bod yn edrych drwy ben anghywir y telesgop. Yn sicr, nid yw'n cyd-fynd â'm profiad i, fel llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Llanedeyrn ac Ysgol y Berllan Deg, a hefyd fel cyn-arolygydd Estyn. Os nad oedd problemau yn y system addysg, ni fyddem yn buddsoddi yn Estyn er mwyn iddo ddweud wrthym ym mha fodd y dylem wella. Yr hyn rydym yn ei wneud yn yr ysgolion lle rwyf yn llywodraethwr yw sicrhau bod dadansoddiad trylwyr o ddata, datblygiad proffesiynol parhaus effeithiol ac ymateb rhagweithiol i bresenoldeb, i sicrhau bod plant yn bresennol, yn gwella safonau a chyrhaeddiad. Byddaf yn cefnogi pob gwelliant, gan fy mod yn meddwl eu bod yn cywiro'r gwallau yn y cynnig fel y'i cyflwynwyd.

I want to address one particular aspect of the gifted and talented programme, which was discussed last night at the cross-party science group. We had a useful presentation about the STEM initiative in Wales. The higher education sector is making a valuable contribution to encouraging more students to take the STEM subjects—namely, chemistry, physics, mathematics and engineering—at every level of their learning pathway. I am sure that we would all see that as crucial, not just so that we can all understand the statistical probability of winning a penalty shoot-out—I am sure that we are all delighted that Cardiff City FC is through to the League Cup final—but also to try to understand the head-of-a-pin analysis of statistics that the Conservatives have just presented. They are talking about the minutiae, and taking a glass-half-empty approach to the real achievements that are happening in our schools. It is crucial that we improve the STEM subjects across the education sector so that we can support the rebalancing of our economy to ensure that we have a high-value manufacturing industry supported by a highly skilled workforce.

Hoffwn sôn am un agwedd benodol ar y rhaglen ar gyfer disgyblion dawnus a thalentog, a gafodd ei thrafod neithiwr yn y grŵp trawsbleidiol ar wyddoniaeth. Cawsom gyflwyniad defnyddiol ar y fenter STEM yng Nghymru. Mae'r sector addysg uwch yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i annog mwy o fyfyrwyr i astudio'r pynciau STEM—sef cemeg, ffiseg, mathemateg a pheirianneg—ar bob lefel o'u llwybr dysgu. Rwyf yn siŵr y byddai pob un ohonom yn gweld bod hynny'n hanfodol, nid yn unig er mwyn deall tebygolrwydd ystadegol ennill y cam ciciau cosb—rwyf yn siŵr bod pob un ohonom yn falch iawn bod Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan y Gynghrair—ond hefyd i geisio deall y dadansoddiad dibwys o ystadegau y mae'r Ceidwadwyr newydd ei gyflwyno. Maent yn siarad am fanion, ac yn arddel ymagwedd sy'n gweld y gwydr yn hanner gwag tuag at y llwyddiannau gwirioneddol yn ein hysgolion. Mae'n hanfodol ein bod yn gwella'r pynciau STEM ar draws y sector addysg, fel y gallwn gefnogi'r broses o ailgydbwyso ein heconomi i sicrhau bod gennym ddiwydiant gweithgynhyrchu gwerth uchel sydd wedi'i gefnogi gan weithlu medrus iawn.

A couple of issues arose last night. It is great to hear that the education sector is playing a valuable role in providing inspiration to pupils through events either in the classroom or through inviting pupils to visit the relevant faculties to encourage them to learn the STEM subjects. However, this requires good co-ordination, administration and ground work, which the higher education sector alone cannot continue to provide without funding. It would be useful to hear from the Minister how we can continue this excellent work when the STEM initiative finishes in July.

Daeth rhai materion i'r amlwg neithiwr. Mae'n wych clywed bod y sector addysg yn chwarae rhan werthfawr o ran ysbrydoli disgyblion drwy ddigwyddiadau, naill ai yn yr ystafell ddosbarth neu drwy wahodd disgyblion i ymweld â'r cyfadrannau perthnasol i'w hannog i ddysgu'r pynciau STEM. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am gydlynu, gweinyddu a gwaith paratoi da, ac ni all y sector addysg uwch barhau i wneud hynny ar ei ben ei hun heb arian. Byddai'n ddefnyddiol clywed gan y Gweinidog sut y gallwn barhau â'r gwaith ardderchog hwn pan fydd y fenter STEM yn dod i ben ym mis Gorffennaf.

All of the problems regarding STEM teaching in schools cannot be magically fixed by somehow drafting in the efforts of the higher education sector. For example, the offer to have teacher fellows attached to universities was taken up by only two secondary school science teachers, only one of whom was a full-time science teacher in a school. This is because the schools said that they could not afford to release this excellent

Ni all pob un o'r problemau o ran addysgu'r pynciau STEM mewn ysgolion gael eu datrys drwy ryw ryfedd wyrth gan fanteisio ar ymdrechion y sector addysg uwch. Er enghraifft, dim ond dau athro gwyddoniaeth ysgol uwchradd a fanteisiodd ar y cynnig i gysylltu cymrodyr-athrawon â phrifysgolion, a dim ond un ohonynt oedd yn athro gwyddoniaeth llawn amser mewn ysgol. Digwyddodd hyn oherwydd bod yr ysgolion

science teacher as it would be hard to find supply cover of a standard that would not impact on the teaching and learning of their pupils. It is understandable, but the 14-19 learning partnerships really ought to be able to come up with a solution that would not disadvantage today's students while still enriching the skills and the continuous professional development of STEM subject teachers, who are a scarce resource. The higher education sector can also help in teacher training and continuous professional development, but we have to listen to teachers and ensure that the professional development being offered is both relevant and will work in the classroom setting.

yn dweud nad oeddent yn gallu rhyddhau'r athro gwyddoniaeth ardderchog hwn gan y byddai'n anodd dod o hyd i athrawon cyflenwi o safon na fyddai'n cael effaith ar addysgu a dysgu eu disgyblion. Mae hynny'n ddealladwy, ond dylai'r partneriaethau dysgu 14-19 allu dod o hyd i ateb na fyddai'n rhoi myfyrwyr heddiw o dan anfantais, gan barhau i gyfoethogi sgiliau a hybu datblygiad proffesiynol parhaus athrawon y pynciau STEM, sy'n adnodd prin. Gall y sector addysg uwch hefyd helpu o ran hyfforddi athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus, ond mae'n rhaid inni wrando ar athrawon a sicrhau bod y datblygiad proffesiynol sy'n cael ei gynnig yn berthnasol ac yn gweithio yn yr ystafell ddosbarth.

We also had some discussion about how we can enable more students to study further mathematics—as this is something that universities value among their higher achieving students—and the way in which this can be done in geographically dispersed communities. At the moment, the STEM initiative provides tuition to people in south-west Wales, but a lot more work could be done to ensure that we deliver web-based learning, particularly listening to what the Open University has done in this area to ensure that Wales becomes a leader in this field.

Rydym hefyd wedi cael peth trafodaeth ynglŷn â sut y gallwn alluogi mwy o fyfyrwyr i astudio mathemateg bellach—gan fod prifysgolion yn ystyried hyn yn bwysig ymhlith eu myfyrwyr mwyaf galluog—a'r modd y gellir gwneud hyn mewn cymunedau sy'n wasgaredig yn ddaearyddol. Ar hyn o bryd, mae'r fenter STEM yn darparu hyfforddiant i bobl yn y de-orllewin, ond gellid gwneud llawer mwy o waith i sicrhau ein bod yn cynnig cyfleoedd i ddysgu ar y we, yn enwedig gan wrando ar yr hyn y mae'r Brifysgol Agored wedi ei wneud i sicrhau bod Cymru yn arwain yn y maes hwn.

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the opportunity to contribute to this debate this afternoon. Having listened to previous contributions, there seems to be an element of consensus that more can be done to challenge our most able and talented students in the education system, whether in the primary or secondary sector. I take the point made by the Member for Cardiff Central, the bulk of whose contribution talked about STEM subjects. A seminar was held here last summer by Dodd's on industry and many of the contributions pointed out that only around 17% of people in the workplace use those subjects in their work. While I do not underestimate the importance of teaching STEM subjects, there needs to be a greater correlation between the career and workplace opportunities and the effort and energy that is put into those subjects in our teaching environments.

**Andrew R.T. Davies:** Rwyf yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl y prynhawn yma. Ar ôl gwrando ar y cyfraniadau blaenorol, mae'n ymddangos bod rhywfaint o gonsensws y gellir gwneud mwy i herio ein myfyrwyr mwyaf galluog a dawnus yn y system addysg, boed yn y sector cynradd neu uwchradd. Rwyf yn cydnabod y pwynt a wnaed gan yr Aelod dros Ganol Caerdydd, ac roedd y rhan fwyaf o'i chyfraniad yn ymdrin â'r pynciau STEM. Yr haf diwethaf, cynhaliwyd seminar yma gan Dodd's ar ddiwydiant, ac roedd llawer o'r cyfraniadau yn nodi mai dim ond tua 17% o bobl yn y gweithle sy'n defnyddio'r pynciau hynny yn eu gwaith. Er nad wyf yn tanbrisio pwysigrwydd dysgu'r pynciau STEM, mae angen mwy o gydberthynas rhwng y cyfleoedd o ran gyrfa ac yn y gweithle a'r ymdrech a'r egni a ddangosir wrth ymdrin â'r pynciau hynny yn ein hamgylcheddau dysgu.

I point Members to the Estyn report 'Supporting more able and talented pupils in primary schools', which has prompted this debate about supporting able and talented pupils. It talks about provision for more able and talented pupils in its opening remarks. The report states that

Tynnaf sylw'r Aelodau at adroddiad Estyn, 'Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion cynradd', sydd wedi ysgogi'r ddadl hon ynghylch cefnogi disgyblion galluog a thalentog. Mae'n sôn am y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog yn ei sylwadau agoriadol. Mae'r adroddiad yn nodi

'in only a few schools do more able and talented pupils achieve high enough standards'.

'Dim ond mewn nifer fach o ysgolion y mae disgyblion mwy abl a dawnus yn cyflawni safonau digon uchel'.

It is the inspectorate that has made that point. Surely, we as politicians need to question and probe the Government regarding the action that it will take to ensure that there is support for our most able and talented pupils. As our education spokesperson suggested, we are talking about 20% of the educational catchment that we could be working with in both primary and secondary environments. That is something that we should not overlook. Very often, we look to put in place minimum standards at the expense of the top end. While I applaud the effort to ensure that there is a minimum level to support people who need that support, we need to be pushing the most able and bright in the school environment.

Yr arolygiaeth sydd wedi gwneud y pwynt hwnnw. Yn sicr, mae angen i ni fel gwleidyddion holi'r Llywodraeth ynghylch y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod ein disgyblion mwyaf galluog a dawnus yn cael eu cefnogi. Fel yr awgrymodd ein llefarydd ar addysg, rydym yn sôn am 20% o'r dalgylch addysgol y gallem fod yn gweithio gydag ef mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Ni ddylem anghofio hynny. Yn aml iawn, rydym yn ceisio rhoi'r safonau lleiaf ar waith ar draul y rhai mwyaf galluog. Er fy mod yn canmol yr ymdrech i sicrhau bod lefel isaf er mwyn cefnogi pobl sydd angen y gefnogaeth honno, mae angen inni herio'r rheini sydd fwyaf galluog a disglair yn amgylchedd yr ysgol.

4.30 p.m.

There are three key things to moving this argument forward. The first is accepting that there is an issue and that we can do more; I think that there is a consensus that more can be done. The second is to identify that the transition stage from the age of eight to 13 has been a problem area, and that there is real concern among educationalists, parents and teachers about the support given and the identification of children should they need that extra support as they go through the system. As Angela Burns touched on, the level of exclusions and suspensions has tripled over the last couple of years, which must be a major concern for all of us. It blights the education of an individual pupil, but it also blights the education of others within the classroom environment because the conduct or misdemeanour affects their learning environment and puts considerable stress on the teacher in having to deal with

Bydd tri phrif beth yn symud y ddadl hon yn ei blaen. Y cyntaf yw derbyn bod problem ac y gallwn wneud mwy; credaf fod consensws y gellir gwneud mwy. Yr ail yw nodi bod y cyfnod pontio rhwng wyth a 13 oed wedi bod yn broblem, a bod addysgwyr, rhieni ac athrawon yn pryderu am y gefnogaeth a roddir a'r modd rydym yn adnabod y plant sydd angen cymorth ychwanegol wrth iddynt fynd drwy'r system. Fel y nodwyd gan Angela Burns, mae nifer yr achosion o wahardd ac atal dros dro wedi treblu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rhaid i hyn beri pryder mawr i bob un ohonom. Mae'n amharu ar addysg disgybl unigol, ond mae hefyd yn amharu ar addysg disgyblion eraill yn y dosbarth oherwydd bod yr ymddygiad neu'r camymddwyn yn effeithio ar eu hamgylchedd dysgu ac yn rhoi straen sylweddol ar yr athro sy'n gorfod delio â'r digwyddiad. Rhaid i'r ffaith bod achosion o

the incident. The tripling of the figure for temporary suspensions and exclusions must be an area of grave concern that emphasises the need to bear down on that middle phase, so that those between the ages of eight and 13 receive special support.

wahardd ac atal dros dro wedi treblu fod yn destun pryder difrifol, sy'n pwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar y cyfnod hwnnw yn y canol, fel bod y rheini rhwng wyth a 13 oed yn cael cymorth arbennig.

Above all, the Estyn report touches on the lack of support for teachers and school improvement officers across Wales, particularly with regard to working with the most able and talented pupils within the school environment. That must be a concern, because, as a parent, I have witnessed an explosion in the amount of training opportunities available to teachers—an increase in INSET days or the additional support put in place by school governing bodies to work with teachers—but reports such as this say that there is a deficit in training and in the participation of school improvement officers in schools. I hope that the Minister will give a taste of what he proposes to do to increase the support so that it is available.

Yn fwy na dim, mae adroddiad Estyn yn nodi'r diffyg cefnogaeth ar gyfer athrawon a swyddogion gwella ysgolion ledled Cymru, yn enwedig o ran gweithio gyda'r disgyblion mwyaf galluog a dawnus yn yr ysgol. Rhaid i hynny fod yn destun pryder, oherwydd, fel rhiant, rwyf wedi gweld cynnydd aruthrol yn nifer y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i athrawon—cynnydd mewn diwrnodau HMS neu gymorth ychwanegol a roddir gan gyrff llywodraethu ysgolion i weithio gydag athrawon—ond mae adroddiadau fel hyn yn dweud bod diffyg yn yr hyfforddiant ac yng nghyfranogiad swyddogion gwella ysgolion yn yr ysgolion. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn rhoi blas o'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i gynyddu'r cymorth fel ei fod ar gael.

However, we cannot overlook the fact that, sadly, Wales is falling behind other parts of the United Kingdom in terms of academic achievements. That is something we must regret and put right so that we can move up the league table. My colleague, Paul Davies, quoted figures that should be drawn to people's attention as a focal point.

Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu'r ffaith bod Cymru, yn anffodus, ar ei hôl hi o'i chymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig o ran cyflawniadau academaidd. Rhaid inni resynu ynghylch hynny a gwella'r sefyllfa fel y gallwn godi ein safle yn y tabl cynghrair. Dyfynnodd fy nghyd-Aelod, Paul Davies, ffigurau y dylid eu dwyn i sylw pobl fel canolbwynt.

So, I hope that the Minister will respond to those three areas: the way in which the Welsh Government will engage and monitor; the middle phase; and, above all, the support and training offered to teachers and anyone involved in the educational environment.

Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ymateb i'r tri maes hynny: sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ac yn monitro; y cyfnod yn y canol; ac, yn anad dim, y gefnogaeth a'r hyfforddiant a gynigir i athrawon ac unrhyw un sy'n ymwneud â'r amgylchedd addysg.

**Nick Ramsay:** I am pleased to speak in this debate. My colleague Andrew R.T. Davies said that there was a modicum of consensus across the Chamber, which I thought was a positive thing to say given the comments made by some Members. It goes to show, Jenny Rathbone, that we are not necessarily a glass-half-empty party and that we have some positive things to say as well.

**Nick Ramsay:** Rwy'n falch o siarad yn y ddadl hon. Dywedodd fy nghyd-Aelod, Andrew R.T. Davies, bod rhywfaint o gonsensws ar draws y Siambr; roeddwn yn meddwl bod hynny'n beth cadarnhaol i'w ddweud o ystyried y sylwadau a wnaed gan rhai Aelodau. Mae'n dangos, Jenny Rathbone, nad ydym o reidrwydd yn blaid sy'n dueddol o feddwl bod ei gwydraid yn hanner wag a bod gennym rai pethau cadarnhaol i'w dweud hefyd.

I only want to make a couple of points. This debate is mainly about raising educational standards. As a party, we have identified that the stretching and challenging of pupils across the education sector is the key to doing that. I would have expected more positivity from some parties about the need to do that, because there is a consensus in the Chamber on wanting to see educational standards improve, wherever you think we might be at the moment.

Dim ond ychydig o bwyntiau rwyf am eu gwneud. Mae'r ddadl hon yn ymwneud yn bennaf â chodi safonau addysgol. Fel plaid, rydym wedi nodi mai ymestyn a herio disgyblion ar draws y sector addysg yw'r allwedd i wneud hynny. Byddwn wedi disgwyl mwy o sylwadau cadarnhaol gan rai pleidiau am yr angen i wneud hynny, oherwydd bod consensws yn y Siambr o ran dymuno gweld safonau addysg yn gwella, beth y bynnag y teimlwch yw'r sefyllfa ar hyn o bryd.

On the amendments, I regret Simon Thomas's comments earlier and that Plaid Cymru has tabled those amendments. However, I took on board the comment about monitoring, and while I do not accept the point about why you are proposing amendment 2, which would delete point 2 of our motion, I understand your point about the need for more data to be available. I have had this discussion with you in the past in various fora, and we constantly come up against the problem of the lack of information across the piece in Wales. That needs to be addressed.

O ran y gwelliannau, rwy'n gresynu ynghylch sylwadau Simon Thomas yn gynharach a'r ffaith bod Plaid Cymru wedi cyflwyno'r gwelliannau hynny. Fodd bynnag, rwy'n derbyn y sylwadau ynghylch monitro, ac er nad wyf yn derbyn y pwynt ynghylch pam rydych yn cynnig gwelliant 2, a fyddai'n dileu pwynt 2 ein cynnig, rwy'n deall eich pwynt ynglŷn â'r angen i fwy o ddata fod ar gael. Rwyf wedi cael y drafodaeth honno gyda chi yn y gorffennol mewn gwahanol fforymau ac, yn gyson, rydym yn wynebu problem o ran diffyg gwybodaeth yng Nghymru yn gyffredinol. Rhaid mynd i'r afael â hynny.

Your amendment 1 proposes the inclusion of the words

Mae eich gwelliant 1 yn cynnig y dylid cynnwys y geiriau

'starting in our most deprived communities'.

'gan ddechrau yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig'.

I was watching your game of tennis across the Chamber with Angela Burns earlier—proverbial tennis, that is. My problem with your amendment is that while we all agree that we need to help our most deprived communities, I believe that if you replace our point with

Roeddwn yn gwylio eich gêm o dennis ar draws y Siambr gydag Angela Burns yn gynharach—tennis ddiarhebol, hynny yw. Fy mhroblem gyda'ch gwelliant yw, er ein bod i gyd yn cytuno bod angen inni helpu ein cymunedau mwyaf difreintiedig, credaf, os byddwch yn rhoi

'starting in our most deprived communities',

'gan ddechrau yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig'

this means that you do not want to stretch and challenge pupils outside those communities. Wherever they grow up in Wales, wherever they come from and whatever their background, pupils at all levels need to be challenged and stretched. That was the point that I was trying to make.

yn lle ein pwynt ni, bydd hyn yn golygu nad ydych am ymestyn a herio disgyblion y tu allan i'r cymunedau hynny. Lle bynnag y cânt eu magu yng Nghymru, o le bynnag y dônt a beth bynnag yw eu cefndir, mae angen i ddisgyblion ar bob lefel gael eu herio a'u hymestyn. Dyna'r pwynt yr oeddwn yn ceisio'i wneud.

**Simon Thomas:** I think that your concerns are covered by the use of the word 'starting' in the amendment.

**Simon Thomas:** Credaf fod y gair 'dechrau' yn y gwelliant yn ymdrin â'ch pryderon.

**Nick Ramsay:** Yes, I thought about the word 'starting', and I thought that if you had gone on to say 'finished in other communities', perhaps it would have made more sense. However, whether the word 'starting' is there or not, the point is that the focus should be across all communities. Therefore, while I understand what you have said, my group does not accept that amendment.

**Nick Ramsay:** Meddyliais am y gair 'dechrau'—pe byddech wedi mynd ymlaen i ddweud 'gorffen mewn cymunedau eraill', efallai y byddai wedi gwneud mwy o synnwyr. Fodd bynnag, p'un a yw'r gair 'dechrau' yno ai peidio, y pwynt yw y dylid canolbwyntio ar bob cymuned. Felly, er fy mod yn deall yr hyn yr ydych wedi'i ddweud, nid yw fy ngrŵp yn derbyn y gwelliant.

I will turn now to the Government's amendment, which

Trof yn awr at welliant y Llywodraeth, sy'n

'Welcomes the increase in the number of pupils achieving top grades in GCSEs in Wales since 1999.'

'Croesawu'r cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r graddau uchaf mewn arholiadau TGAU yng Nghymru er 1999.'

Had it been proposed for that point to be tagged onto our original point 3, I would not have had a problem with it. However, by seeking to delete the point that we were trying to make, the Government is missing the broader issue. As has been said by other speakers, there has been a problem with Wales falling behind other areas of the UK over the past 10 years. We believe that that point needs to be made, otherwise the Government is not going to take from this debate what we would hope that it takes.

Pe bai'r Llywodraeth wedi cynnig ychwanegu'r pwynt hwnnw at ein pwynt 3 gwreiddiol, nid fyddwn wedi cael problem ag ef. Fodd bynnag, drwy geisio dileu'r pwynt roeddem yn ceisio'i wneud, mae'r Llywodraeth yn colli golwg ar y mater ehangach. Fel y dywedwyd gan siaradwyr eraill, mae problem wedi bod o ran Cymru'n syrthio y tu ôl i ardaloedd eraill yn y DU dros y 10 mlynedd diwethaf. Credwn fod angen gwneud y pwynt hwnnw. Fel arall, ni fydd y Llywodraeth yn cymryd yr hyn rydym yn gobeithio y bydd yn ei gymryd o'r ddadl hon.

Many points have been made about the need for us to move education on in Wales. I know that Members from different parties have different ideas about how that can be done. However, I am pleased that this debate has been tabled today and that Angela Burns opened it in the succinct way in which she did. This is an area of education that we have not looked at before, and it is one that cuts across different communities, urban and rural. Too often, there are children, wherever they grow up, who are not being stretched to the level we think they should be and who are not being challenged. Many children go on to have very successful careers, but we should think about what could be achieved if we were to make the most of the opportunities to challenge children.

Mae nifer o bwyntiau wedi'u gwneud ynghylch yr angen inni symud addysg ymlaen yng Nghymru. Gwn fod gan Aelodau o wahanol bleidiau syniadau gwahanol am sut y gellir gwneud hynny. Fodd bynnag, rwy'n falch bod y ddadl hon wedi cael ei chyflwyno heddiw a bod Angela Burns wedi'i chyflwyno yn y modd cryno y gwnaeth hynny. Nid ydym wedi ystyried yr agwedd hon ar addysg o'r blaen, ac mae'n faes sy'n effeithio ar wahanol gymunedau, yn drefol ac yn wledig. Yn rhy aml, mae plant, ble bynnag y cânt eu magu, nad ydynt yn cael eu hymestyn i lefel lle rydym yn credu y dylent fod ac nad ydynt yn cael eu herio. Mae nifer o blant yn mynd ymlaen i gael gyrfaoedd llwyddiannus iawn, ond dylem feddwl am yr hyn y gellid ei gyflawni os ydym yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i

herio plant.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I am sure that all Members would agree with the first part of the motion, namely that we must support and stretch pupils of all abilities. We would support the first Plaid Cymru amendment, reflecting the importance of education in our disadvantaged communities. Among other measures focusing on disadvantage, we have created a pupil deprivation grant amounting to some £32 million in 2012-13. This consists of £12 million from the school effectiveness grant, supplemented with £20 million of new money.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Rwy'n siŵr bod yr holl Aelodau yn cytuno â rhan gyntaf y cynnig, sef bod yn rhaid inni gefnogi ac ymestyn disgyblion o bob lefel gallu. Rydym yn cefnogi gwelliant cyntaf Plaid Cymru, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd addysg yn ein cymunedau difreintiedig. Ymhlith mesurau eraill sy'n canolbwyntio ar anfantais, rydym wedi creu grant amddifadedd disgyblion sy'n cynnwys cyfanswm o tua £32 miliwn yn 2012-13. Mae hyn yn cynnwys £12 miliwn o'r grant effeithiolrwydd ysgolion, yn ogystal â £20 miliwn o arian newydd.

However, our focus does not stop with disadvantage. The Welsh Government has in place a coherent strategy to ensure that pupils of all backgrounds and abilities maximise their potential. I announced a 20-point action plan in February last year to secure a step change in school performance. I shall be reporting progress to Members early next month. The Welsh Government has worked with the National Association for Able Children in Education, or NACE Cymru, over a number of years. We now have an integrated set of documents that highlight provision for more able and talented learners at the levels of school, local authority, Estyn and Welsh Government. The document 'A Curriculum of Opportunity: developing potential into performance' began the process of raising awareness in schools and local authorities of the needs of more able and talented pupils and provided examples of effective practice in meeting them. The guidance puts forward the view that making provision to meet the needs of more able and talented pupils will benefit all. Following that, the Welsh Government funded 'Meeting the Challenge', which provides guidance on quality standards, self-evaluation, and the NACE challenge award. 'Meeting the Challenge' is supported by a document linking it to the Estyn framework; Estyn, in turn, recommends that schools use it when carrying out self-assessment. To implement the guidance, NACE has been funded to provide training for teachers and local authority staff. NACE estimates that it has reached some 1,400 teachers through this training.

Fodd bynnag, nid ydym yn canolbwyntio ar anfantais yn unig. Mae gan Lywodraeth Cymru strategaeth gydlynol i sicrhau bod disgyblion o bob cefndir a gallu yn gwneud y mwyaf o'u potensial. Cyhoeddais gynllun gweithredu 20 pwynt ym mis Chwefror y llynedd er mwyn sicrhau newid sylweddol mewn perfformiad ysgolion. Byddaf yn adrodd i Aelodau ar y cynnydd a wnaed yn gynnar y mis nesaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg, neu NACE Cymru, dros nifer o flynyddoedd. Erbyn hyn mae gennym gyfres integredig o ddogfennau sy'n nodi'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog ar lefel yr ysgol, yr awdurdod lleol, Estyn a Llywodraeth Cymru. Dechreuodd y ddogfen 'Cwricwlwm o Gyfle: Datblygu Potensial yn Berfformiad' y broses o godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion ac awdurdodau lleol o anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog a darparodd enghreifftiau o arfer effeithiol wrth ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'r canllawiau yn cyflwyno'r farn y bydd darparu i ddiwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog o fantais i bawb. Yn dilyn hynny, ariannodd Llywodraeth Cymru 'Cyflawni'r Her', sy'n rhoi canllawiau ar safonau ansawdd, hunanwerthuso, a gwobr her NACE. Caiff 'Cyflawni'r Her' ei ategu gan ddogfen sy'n ei gysylltu â fframwaith Estyn; ac mae Estyn, yn ei dro, yn argymell bod ysgolion yn ei defnyddio wrth gynnal hunanasesiadau. I roi'r canllawiau ar waith, mae NACE wedi cael ei ariannu i ddarparu hyfforddiant i athrawon a staff awdurdodau

lleol. Mae NACE yn amcangyfrif ei bod wedi cyrraedd tua 1,400 o athrawon drwy'r hyfforddiant hwn.

Finally, we have funded NACE to produce a pack to allow co-ordinators to carry out their own professional development for their staff. This should embed identification and provision for more able pupils in every school. I hope that we will be launching that pack jointly in April, and I would like to thank Johanna Raffan and her team at NACE for their work. To evaluate the impact of this work, we asked Estyn to undertake remit reviews of support for more able and talented pupils in primary and secondary schools. Its report on primary schools was published in June last year, and that on secondary is expected later this year.

Yn olaf, rydym wedi ariannu NACE i lunio pecyn i ganiatáu i gydlynwyr ddarparu eu cyfleoedd datblygu proffesiynol eu hunain ar gyfer eu staff. Dylai hyn ymsefydlu'r broses o nodi disgyblion mwy galluog a darparu ar eu cyfer ym mhob ysgol. Rwy'n gobeithio y byddwn yn lansio pecyn ar y cyd ym mis Ebrill, a hoffwn ddiolch i Johanna Raffan a'i thîm yn NACE am eu gwaith. Er mwyn gwerthuso effaith y gwaith hwn, gofynnwyd i Estyn gynnal adolygiadau cylch gwaith o'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Cyhoeddwyd ei adroddiad ar ysgolion cynradd ym mis Mehefin y llynedd, ac mae disgwyl i'r adroddiad ar ysgolion uwchradd gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Estyn indicated that the guidance and quality standards provide a practical way for schools to audit their provision. Nearly all the schools whose provision is good use them to support their work. However, less positively, they found that too often the more able are not identified and supported in primary schools. I have to say that I agree with the Plaid Cymru spokesperson's reading of the Estyn report, rather than that of the Welsh Conservatives. Estyn also found that more able and talented pupils gain most in schools that promote individualised learning. Our approach is based on that. Meeting the needs of the more able is about properly differentiated teaching—an approach that benefits all learners. Providing for the more able should not be viewed in isolation; it is a central part of the school improvement agenda. We shall therefore be including resources on the more able as part of the proposed Master's degree programme. We shall be raising the profile of the issue by indicating that the co-ordinator should be a member of a school's management team. The school standards unit already uses performance at the highest grades in secondary banding and will be giving a sharper focus to this area in stocktakes in the next academic year.

Nododd Estyn bod y canllawiau a'r safonau ansawdd yn rhoi ffordd ymarferol i ysgolion archwilio eu darpariaeth. Mae bron pob un o'r ysgolion sydd â darpariaeth dda yn eu defnyddio i gefnogi eu gwaith. Fodd bynnag, yn llai cadarnhaol, darganfu yn rhy aml nad yw'r rhai mwy galluog yn cael eu nodi a'u cefnogi mewn ysgolion cynradd. Rhaid imi ddweud fy mod yn cytuno gyda dehongliad llefarydd Plaid Cymru o adroddiad Estyn, yn hytrach na dehongliad y Ceidwadwyr Cymreig. Canfu Estyn hefyd bod disgyblion mwy galluog a thalentog yn cael y mwyaf o fudd mewn ysgolion sy'n hyrwyddo dysgu unigol. Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar hynny. Mae diwallu anghenion y rhai mwy galluog yn ymwneud â dysgu sydd wedi'i wahaniaethu'n briodol—dull sydd o fudd i bob dysgwr. Ni ddylid ystyried darparu ar gyfer y rhai mwy galluog ar ei ben ei hun; mae'n rhan ganolog o'r agenda gwella ysgolion. Byddwn, felly, yn cynnwys adnoddau ar gyfer y rhai mwy galluog fel rhan o raglen radd Meistr arfaethedig. Byddwn yn codi proffil y mater gan nodi y dylai'r cyd-gysylltydd fod yn aelod o dîm rheoli'r ysgol. Mae'r uned safonau ysgolion eisoes yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad ar y graddau uchaf i greu'r bandiau ar gyfer ysgolion uwchradd a bydd yn canolbwyntio mwy ar y maes hwn wrth werthuso yn y flwyddyn academaidd nesaf.

The second part of the motion regrets that more able and talented pupils are not challenged enough. We support Plaid Cymru's amendment 2, which proposes to delete that. We agree with its reading of these issues. I want to see better provision for our more able and talented learners. However, I believe that we have an integrated package of support in place and we plan to build on that.

Mae ail ran y cynnig yn gresynu nad yw disgyblion mwy galluog a thalentog yn cael eu herio digon. Rydym yn cefnogi gwelliant 2 Plaid Cymru, sy'n cynnig dileu hynny. Rydym yn cytuno gyda'i dehongliad o'r materion hyn. Rwyf am weld gwell darpariaeth ar gyfer ein dysgwyr mwy galluog a thalentog. Fodd bynnag, credaf fod gennym becyn integredig o gefnogaeth ac rydym yn bwriadu adeiladu ar hynny.

The third part of the motion, in our view, is inaccurate. Had it focused simply on A-levels specifically, it might have had more traction. I will read it out to you: it

Mae trydedd ran y cynnig, yn ein barn ni, yn anghywir. Pe bai wedi canolbwyntio ar raddau Safon Uwch yn unig, gallai fod wedi bod yn fwy cywir. Fe'i darllenaf: mae'n

'Calls on the Welsh Government to address, as a matter of urgency, the decline in the number of pupils achieving top grades in Wales.'

'galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r graddau gorau yng Nghymru fel mater o frys.'

That certainly does not accurately reflect performance at GCSE level. No-one is claiming that the current level of provision for the more able cannot be improved, but it is simply not true to say that there has been a decline in the number of pupils achieving top GCSE grades in Wales. Between 1999 and 2011, the percentage of entrants who achieved an A* or A grade at GCSE rose from 16% to 19.6%; and for A* to C the rise was from 58.2% to 67.3%. We, therefore, have tabled amendment 3 to correct the factually incorrect element of this motion.

Yn sicr, nid yw hynny'n adlewyrchu perfformiad ar lefel TGAU. Nid oes neb yn honni na ellir gwella'r lefel bresennol o ddarpariaeth ar gyfer y rhai mwy galluog, ond nid yw'n wir dweud y bu gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r graddau TGAU uchaf yng Nghymru. Rhwng 1999 a 2011, roedd canran yr ymgeiswyr a enillodd radd A* neu A ar lefel TGAU wedi codi o 16% i 19.6%; ac yn achos graddau A* i C, roedd cynnydd o 58.2% i 67.3%. Felly, rydym wedi cyflwyno gwelliant 3 i gywiro'r elfen ffeithiol anghywir yn y cynnig hwn.

The Liberal Democrats' amendment 4 asks the Welsh Government to outline monitoring arrangements for the pupil deprivation grant. The grant is being developed as we speak. Terms and conditions of grant will ensure money is spent on appropriate measures and details will be available in due course. We will support this amendment.

Mae gwelliant 4 y Democratiaid Rhyddfrydol yn gofyn i Lywodraeth Cymru amlinellu trefniadau monitro ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion. Mae'r grant yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd telerau ac amodau'r grant yn sicrhau bod arian yn cael ei wario ar fesurau priodol a bydd manylion ar gael maes o law. Byddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn.

**Nick Ramsay:** Thank you for giving way. I hear what the Minister says about why the Government has tabled amendment 3, but do you accept, Minister, that if you look at the top grades, particularly A-level grades, we are losing pace with other parts of the United Kingdom? That is the point we were trying to make. Where there is an improvement, that is to be welcomed. If we are falling behind

**Nick Ramsay:** Diolch am ildio. Rwy'n clywed yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud ynghylch pam fod y Llywodraeth wedi cyflwyno gwelliant 3, ond a ydych yn derbyn, Weinidog, ein bod ar ei hôl hi o ran y graddau uchaf, yn enwedig graddau Safon Uwch, o'i gymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig? Dyna'r pwynt roeddem yn ceisio'i wneud. Os oes gwelliant, mae hynny

other parts of the United Kingdom, then surely that cannot be right and has to be addressed?

i'w groesawu. Os ydym yn disgyn y tu ôl i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, onid ydych yn cytuno na all hynny fod yn iawn a bod angen mynd i'r afael â hynny?

**Leighton Andrews:** In previous speeches I have drawn attention to the need for us to do better in top grades at A-level, but your motion does not refer to A-levels; it refers to the decline in top grades. It does not acknowledge either the fact that we have seen a growth in pupils achieving the Welsh baccalaureate in recent years. There were record numbers last year. Of course, achieving the Welsh baccalaureate is the equivalent of getting, for university admission purposes, an A grade at A-level, although they are different qualifications. So, if you are going to look at these issues, you need to look at them in the round and you need to look at them with precision. Your motion does not do that.

**Leighton Andrews:** Mewn areithiau blaenorol, rwyf wedi tynnu sylw at yr angen inni wneud yn well yn y graddau uchaf ar lefel Safon Uwch, ond nid yw eich cynnig yn cyfeirio at raddau Safon Uwch; mae'n cyfeirio at y lleihad yn nifer y graddau uchaf. Nid yw ychwaith yn cydnabod ein bod wedi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni bagloriaeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd y nifer fwyaf erioed y llynedd. Wrth gwrs, mae ennill bagloriaeth Cymru yn cyfateb i gael gradd A Safon Uwch, at ddibenion cael mynediad i'r brifysgol, er eu bod yn gymwysterau tra gwahanol. Felly, os ydych yn mynd i edrych ar y materion hyn, mae angen ichi edrych arnynt yn eu cyfanrwydd ac mae angen ichi edrych arnynt yn fanwl. Nid yw eich cynnig yn gwneud hynny.

Finally, in terms of the Liberal Democrats' amendment 5, which calls for the continued publication of school expenditure in England and Wales, we continue to monitor expenditure and published figures last June. I have urged the chief statistician to do everything she can to make the comparison with England, as I explained in an intervention. The statistics service is, of course, constitutionally independent of Ministers under UK legislation. They, I am told, at the present time cannot do that. We want to see that information gathered and we are going to make every effort to see that it can be, in due course. So, we will, on this occasion, support the amendment. There is obviously more that we can always do, but it is regrettable at one level that there has been no acknowledgment of the work that we have already been doing with NACE Cymru. I would hope that the Welsh Conservatives, in their summing up, would at least concede that we have a programme of work in place.

Yn olaf, o ran gwelliant 5 y Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n galw am barhau i gyhoeddi manylion gwariant ysgolion yng Nghymru a Lloegr, rydym yn parhau i fonitro gwariant a chyhoeddwyd ffigurau gennym fis Mehefin diwethaf. Rwyf wedi annog y prif ystadegydd i wneud popeth o fewn ei gallu i gymharu'r ffigurau â rhai Lloegr, fel yr esboniais mewn ymyriad. Wrth gwrs mae'r gwasanaeth ystadegau yn gyfansoddiadol annibynnol ar Weinidogion Cymru o dan ddeddfwriaeth y DU. Maent wedi dweud wrthyf na allant wneud hynny ar hyn o bryd. Rydym am weld y wybodaeth honno'n cael ei chasglu a gwnawn bob ymdrech i weld a ellir gwneud hynny, maes o law. Felly, byddwn, y tro hwn, yn cefnogi'r gwelliant. Yn amlwg, gallwn wneud mwy bob amser, ond mae'n anffodus ar un lefel na fu dim cydnabyddiaeth o'r gwaith rydym eisoes wedi ei wneud gyda NACE Cymru. Byddwn yn gobeithio y bydd y Ceidwadwyr Cymreig, wrth iddynt grynhoi'r ddadl, o leiaf yn cyfaddef bod gennym raglen ar waith.

**Suzy Davies:** Thank you to everyone who contributed to this useful debate. Angela Burns opened the debate by saying that what we wanted to talk about today was enhancing people's lives and improving those lives, as

**Suzy Davies:** Diolch i bawb a gyfrannodd at y ddadl ddefnyddiol hon. Agorodd Angela Burns y drafodaeth drwy ddweud ein bod am siarad heddiw am wella bywydau pobl, yn ogystal â gwella ffyniant Cymru. Siawns y

well as the prosperity of Wales. Surely, the top 20% of children and students in Wales should be achieving their potential regardless of their background. I recognise the Plaid point that children from deprived backgrounds face greater challenges, and we know that many interventions are already taking place that should be opening up opportunities for those children when they are younger. However, all children deserve the chance to fulfil their potential, including those from deprived areas, and excluding no-one. That was a point made by both Andrew Davies and the Minister. I was pleased to hear that the Minister was happy to agree with us on that.

dylai'r 20% uchaf o blant a myfyrwyr yng Nghymru fod yn cyflawni eu potensial beth bynnag fo'u cefndir. Rwy'n cydnabod pwynt Plaid fod plant o gefndiroedd difreintiedig yn wynebu heriau mwy, ac rydym yn gwybod bod llawer o ymyriadau eisoes yn digwydd a ddylai gynnig mwy o gyfleoedd i blant pan fyddant yn iau. Fodd bynnag, mae pob plentyn yn haeddu'r cyfle i gyflawni ei botensial, gan gynnwys y plant o ardaloedd difreintiedig, a chan eithrio neb. Dyna bwynt a wnaed gan Andrew Davies a'r Gweinidog. Roeddwn yn falch o glywed bod y Gweinidog yn hapus i gytuno â ni ar hynny.

4.45 p.m.

I assure Plaid Cymru and the Liberal Democrats that there is no intention in this motion to make it more difficult for children from disadvantaged backgrounds to soar. Having heard what the Liberal Democrats said about the pupil deprivation fund, I look forward to seeing how this money will give rise to demonstrable outcomes. There has been varying concern about how schools and local authorities may be failing to assist our talented and able children. This failure could be letting down clever underachievers who may already be experiencing fetters on their ability to display their talent and who may be vulnerable to exclusion. The additional learning needs of able and talented pupils demand support, tracking and monitoring no less than the additional learning needs of other children. Paul Davies is right to refer to support at home, but, sometimes, that support is not there, and then support in school is even more important.

Gallaf sicrhau Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol nad oes unrhyw fwriad yn y cynnig hwn i'w gwneud yn anos i blant o gefndiroedd difreintiedig ffynnu. Ar ôl clywed yr hyn a ddywedodd y Democratiaid Rhyddfrydol am y gronfa amddifadedd disgyblion, edrychaf ymlaen at weld sut y bydd yr arian hwn yn arwain at ganlyniadau amlwg. Cafwyd pryderon amrywiol ynghylch sut y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn methu â helpu ein plant talentog a galluog. Gallai'r methiant hwn fod yn gwneud cam â thangyflawnwyr galluog a allai fod eisoes yn cael eu llyffetheirio o ran eu gallu i arddangos eu talent ac a allai fod yn agored i gael eu gwahardd. Mae anghenion dysgu ychwanegol disgyblion galluog a thalentog yn mynnu'r un faint o gefnogaeth, tracio a monitro ag anghenion dysgu ychwanegol plant eraill. Mae Paul Davies yn iawn i gyfeirio at gefnogaeth yn y cartref, ond, weithiau, nid yw'r gefnogaeth honno ar gael, ac yna mae cefnogaeth yn yr ysgol hyd yn oed yn fwy pwysig.

If our creative industries and the knowledge economy are part of the solution to our economic woes, children who excel in the arts, as Angela Burns said, and in science, as Jenny Rathbone said, should be given every opportunity to excel. However, they need to do that honestly, and Paul Davies and Andrew Davies highlighted the fact that, despite the achievements of some of our pupils, they are still failing to compare well with pupils over the border, particularly in A

Os yw ein diwydiannau creadigol a'r economi gwybodaeth yn rhan o'r ateb i'n problemau economaidd, dylid rhoi pob cyfle i ragori i blant sy'n rhagori yn y celfyddydau, fel y dywedodd Angela Burns, ac mewn gwyddoniaeth, fel y dywedodd Jenny Rathbone. Fodd bynnag, mae angen iddynt wneud hynny mewn ffordd onest, a thynnodd Paul Davies ac Andrew Davies sylw at y ffaith, er gwaethaf yr hyn mae rhai o'n disgyblion yn ei gyflawni, eu bod yn parhau

and A* grades, and, just as importantly, with pupils in countries with emerging economies.

i fethu â chymharu'n dda â disgyblion dros y ffin, yn enwedig o ran graddau A ac A*, ac, â disgyblion mewn gwledydd ag economïau sy'n datblygu, sydd yr un mor bwysig.

Jenny Rathbone also referred to the difficulties in meeting the training needs of our educators, and that is a point that I hope the Deputy Minister for Skills will incorporate into his skills review. This, as well as poor data, as highlighted by Simon Thomas and Nick Ramsay, and inconsistency over support, are matters that can be addressed by Government. I hope, Minister, that you will accept that the contributions made today are positive and will, I hope, help to resolve a resolvable problem.

Hefyd, cyfeiriodd Jenny Rathbone at anawsterau o ran ateb anghenion hyfforddi ein haddysgwyr, ac mae hwnnw'n bwynt rwy'n gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog Sgiliau yn ei gynnwys yn ei adolygiad o sgiliau. Mae hyn, yn ogystal â data gwael, fel y nodwyd gan Simon Thomas a Nick Ramsay, ac anghysondeb o ran cefnogaeth, yn faterion y gall y Llywodraeth fynd i'r afael â hwy. Rwy'n gobeithio, Weinidog, y byddwch yn derbyn bod y cyfraniadau a wnaed heddiw yn gadarnhaol ac y byddant, gobeithio, yn helpu i ddatrys problem ddatrysadwy.

Minister, you also listed some of the actions that the Government has taken. We welcome those. You referred in summary to best practice guidance and training. We certainly welcome the fact that 1,400 teachers are now aware of these. May we hope that this is a beginning of the end of the inconsistency in provision, regardless of how the Estyn report has been interpreted? One thing that I hope we all agree on—and something that the Minister said—is that the provision for able and talented children should be central to a much wider programme of all-round improvement in school. I hope that everyone who has contributed to this debate today will have had something to offer the Minister in how he will take us forward.

Weinidog, gwnaethoch hefyd restru rhai o'r camau y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd. Rydym yn croesawu hynny. Bu i chi gyfeirio, yn gryno, at ganllawiau a hyfforddiant ar arfer gorau. Rydym yn sicr yn croesawu'r ffaith bod 1,400 o athrawon bellach yn ymwybodol o'r rhain. A allwn obeithio mai hwn fydd dechrau'r diwedd o ran y ddarpariaeth anghyson, waeth sut y dehonglwyd adroddiad Estyn? Un peth rwy'n gobeithio y byddwn i gyd yn cytuno arno—ac mae'n rhywbeth a ddywedodd y Gweinidog—yw y dylai'r ddarpariaeth ar gyfer plant galluog a thalentog fod yn ganolog i raglen lawer ehangach o welliant cyffredinol mewn ysgolion. Rwy'n gobeithio y bydd gan bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon heddiw rywbeth i'w gynnig i'r Gweinidog o ran sut y bydd yn symud ymlaen mewn perthynas â hyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Are there any objections? I see that there is objection. I therefore defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Dadl Plaid Cymru
## Plaid Cymru Debate

### Datblygu Cynaliadwy
### Sustainable Development

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Peter Black a gwelliannau 2 a 3 yn enw William Graham.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Peter Black and amendments 2 and 3 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM4900 Jocelyn Davies*

*Motion NDM4900 Jocelyn Davies*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn*

*To propose that the National Assembly:*

*1. Croesawu'r penderfyniadau adeiladol ar Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd yn Durban, De Affrica, 28 Tachwedd i 9 Rhagfyr 2011;*

*1. Welcomes the constructive decisions of the United Framework Convention on Climate Change in Durban, South Africa, 28 November – 9 December 2011;*

*2. Croesawu cyfraniad Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy at ganlyniad y gynhadledd ac yn llongyfarch Llywodraeth Cymru gan fod Cynllun Prosiect Partneriaeth Plannu Coed Mbale-Cymru wedi cael ei ddewis yn un o 9 prosiect enghreifftiol y Cynllun Momentwm i Newid; a*

*2. Welcomes the contribution of the Network of Regional Governments for Sustainable Development to the outcome of the conference and congratulates the Welsh Government on the selection of the Mbale-Wales Tree Planting Project Partnership as one of 9 flagship projects of the Momentum for Change Initiative; and*

*3. Galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi achrediad Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy ar gyfer cyfrannu at Gynhadledd Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn Rio de Janeiro, 20-22 Mehefin 2012.*

*3. Calls on the Welsh Government to support the accreditation of the Network of Regional Governments for Sustainable Development to contribute to the United Nations Conference on Sustainable Development in Rio de Janeiro, June 20-22 2012.*

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Cynigiaf y cynnig.

**Lord Elis-Thomas:** I move the motion.

Mae'n bleser agor dadl sydd yn llongyfarch Llywodraeth Cymru ar hyd y cyfnod o ddatganoli ar ei chyfraniad i ddatblygiad cynaliadwy, yn enwedig ar y lefel ryngwladol. Mae datblygiad cynaliadwy yn bolisi ac yn anghenraid sydd yn gorfod cael ei ddelio ag ef ar wahanol lefelau o lywodraethiant. Wedi'r cyfan, mae'r rhan fwyaf o bolisïau ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn cael eu datblygu ar lefelau cydwladol o fewn y fforymau amlochrog yn y Cenhedloedd Unedig, yr Undeb Ewropeaidd ac yn y Sefydliad ar gyfer

It is a pleasure to open a debate that congratulates the Welsh Government on its contribution to sustainable development throughout the period of devolution, particularly on the international level. Sustainable development is a policy and a necessity that has to be dealt with at various levels of governance. After all, most of the policies relating to sustainable development are developed on an international level within the multilateral fora in the United Nations, the European Union and in the Organisation for Economic Co-operation and

Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Fodd bynnag, mae'r gweithrediad o'r polisïau yma i gyd yn digwydd ar lefelau is, fel petai, er mai mater o hwylustod yw'r trosiadau hyn mewn gwirionedd.

Development. However, the implementation of all of these policies happens at the lower levels, as it were, although these metaphors are a matter of convenience in reality.

Dyna'r lefel a elwir fel arfer yn y llenyddiaeth ar y materion hyn yn lefel is-genedlaethol. Dyna'r tro olaf y byddaf yn defnyddio'r ymadrodd 'is-genedlaethol' yn y ddadl hon, oherwydd nid yw'n gwneud synnwyr i sôn am is-genedlaethol pan fydd rhywun yn siarad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, oherwydd, i bwrpas Cymru, mae'r lefel o lywodraethiant a elwir yn rhanbarthol yn Ewrop, neu'n is-genedlaethol yn y Deyrnas Unedig, wrth gwrs, yn lefel genedlaethol. Felly, byddaf yn sôn am lefel o lywodraeth ranbarthol neu is-aelod wladwriaeth. Gwn fod hynny'n gymhleth; rwyf yn ddiolchgar i'r cyfieithwyr am ymdopi â'r materion hyn. Fodd bynnag, rydym yn byw, frodyr a chwiorydd—edrychaf at fy nghyfeillion yma—mewn byd o lywodraethiant cymhleth.

That is the level usually described in the literature on these issues as the sub-national level. That is the last time I will use the term 'sub-national' in this debate, because it does not make sense to talk of sub-national when one is speaking in the National Assembly for Wales, because, in terms of Wales, the level of governance that is described as regional in Europe, or sub-national in the United Kingdom, of course, is a national level. Therefore, I will be referring to a regional level of government or sub-member state. I know that that is complex; I am grateful to the interpreters for coping with these matters. However, we live, brothers and sisters—I am looking at my colleagues here—in a world of complex governance.

Beth yw'r uned y cyfeiriaf ati? Yr uned ranbarthol o fewn aelod wladwriaeth yw'r endid tiriogaethol sydd rhwng llywodraeth yr hen genedl wladwriaeth a'r lefel leol. Ar y lefel hon mae polisïau gofodol, ecosystemau ac adnoddau yn cael eu gweithredu, a dyma'r lefelau, wrth gwrs, sydd yn uniongyrchol gyfrifol am weithredu'r polisïau cyffredinol.

What is the unit that I refer to? The regional unit within a member state is the geographical entity between the government of the old national member state and the local level. It is at this level that spatial, ecosystem and resource policies are implemented, and those are the levels, of course, that are directly responsible for implementing the general policies.

O fewn yr Undeb Ewropeaidd, mae gennym ddyletswydd yn y lle hwn nid yn unig i ddilyn cyfraith yr Undeb Ewropeaidd, fel cyfraith y Deyrnas Unedig fel y mae'n effeithio arnom, ond hefyd i weithredu'r polisïau hynny. Rydym hefyd, yn naturiol, yng Nghymru, yn asiantaethau ar gyfer cyllid cydgyfeiriant ac ati. Ar y lefel hon mae agosatrwydd tuag at y dinesydd, sy'n hollbwysig o safbwynt datblygiad cynaliadwy.

Within the European Union, we have a duty in this place not only to adhere to European Union law, in the same way as UK law as it affects us, but also to implement those policies. Naturally, we in Wales are also agents for convergence funding and so on. At this level we are close to the citizen, which is crucial in terms of sustainable development.

Felly, o'r dechrau, mae'r lefel hon o lywodraeth a llywodraethiant yng Nghymru ac yn y cenhedloedd llai a'r rhanbarthau eraill wedi chwilio am ffordd o gael eu cynrychioli wyneb yn wyneb â'r cyrff amlochrog lle gwneir penderfyniadau. Lle mae diffyg cynrychiolaeth, rydym wedi

Therefore, from the outset, this level of government and governance in Wales and in the other smaller nations and regions has searched for a means of being represented face to face with the multilateral bodies in which decisions are taken. Where there is an absence of representation, we have searched

chwilio am ffordd o sicrhau hynny. Allan o hynny y tyfodd y sefydliad yr wyf yn ei ddathlu yn y cynnig, sef Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy, neu NRG4SD yn y Saesneg. Nid wyf wedi canfod acronym Cymraeg addas ar ei gyfer, ond agoraf gystadleuaeth i wneud hynny'r prynhawn yma os hoffai rhywun anfon neges ataf ar Twitter o fewn yr awr nesaf.

for a means of securing it. Out of that grew the institution that I celebrate in the motion, namely the Network of Regional Governments for Sustainable Development, or NRG4SD as it is known in English. I have not come across a suitable Welsh acronym for it, but I open a competition to find one this afternoon if someone would like to send me a message on Twitter within the next hour.

Yr hyn sy'n bwysig i'w sylweddoli am y corff hwn, cyn belled ag yr ydym yn y cwestiwn yng Nghymru, yw ein bod ni yno o'r dechrau. Yn yr uwchgynhadledd ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn Johannesburg yn 2002, daeth pobl ynghyd ar draws y byd. Er bod y canlyniad yn besimistaidd ar y pryd, roedd cyfle o'r newydd i ranbarthau dysgu cydweithio, oherwydd, o gwmpas ymylon yr uwchgynhadledd, crëwyd y corff yr wyf newydd gyfeirio ato. Yn wir, ger fy mron yma heddiw, mae tyst o'r digwyddiadau hyn, oherwydd roedd Simon Thomas, a oedd yn ein cynrychioli mewn senedd arall ar y pryd, yno pan arwyddwyd datganiad Gauteng, sef y datganiad a sefydlodd y cydweithrediad rhwng y rhanbarthau o blaid datblygiad cynaliadwy.

What it is important to realise about this body, as far as we in Wales are concerned, is that we were there from the outset. In the sustainable development summit in Johannesburg in 2002, people came together from across the world. Although the outcome was pessimistic at the time, there was a new opportunity for regions to learn to collaborate, because, at the margins of the summit, the organisation that I have just referred to was created. Indeed, before me today, there is a witness to those events, because Simon Thomas, who represented us in another parliament at the time, was there when the Gauteng statement was signed, namely the statement that established the co-operation between the regions for sustainable development.

Ar ôl hynny, rhaid talu teyrnged i gyfraniad Gwlad y Basg o 2003 ymlaen i ddatblygiad y sefydliad. Bellach, mae'r rhwydwaith hwn yn bartner byw ac effro yn yr holl drafodaethau cydwladol ar gyfer datblygiad cynaliadwy.

Following that, tribute must be paid to the contribution of the Basque Country from 2003 onwards to the development of the institution. This network is now a viable and active partner in all of the multinational discussions on sustainable development.

Yng nghomisiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer datblygiad cynaliadwy ac yn y confensiwn fframwaith ar gyfer newid yn yr hinsawdd, mae Cymru, drwy'r corff cydwladol hwn, yn chwarae ei rhan. Yr hyn y galwaf amdano yn y cynnig hwn yw ceisio sicrhau ein bod yn gallu chwarae ein rhan yn llawnach drwy gael achrediad i alluogi presenoldeb yn yr uwchgynhadledd yn Rio de Janeiro y flwyddyn nesaf.

In the United Nations commission on sustainable development and in the framework convention on climate change, Wales, through this multinational body, plays its part. What I am calling for in this motion is to endeavour to ensure that we can play a fuller part by gaining accreditation to enable its presence in the summit in Rio de Janeiro next year.

Bydd yn gyfle i'r rhwydwaith gwrdd o fewn fframwaith y gynhadledd ar gyfer datblygiad cynaliadwy, Rio+20. Bydd y cyfle hwnnw yn golygu bydd llais clir i Gymru. Nid oes rhaid i mi ddweud fy mod yn gwrthod y gwelliannau, oherwydd eu bod yn ceisio ein harwain yn ôl i gyfnod lle nad oedd gan

It will be an opportunity for the network to meet within the framework of the conference on sustainable development, Rio+20. That opportunity will mean a clear voice for Wales. I do not need to say that I reject the amendments, because they attempt to take us back to a time when regions did not have a

ranbarthau lais o gwbl yn gydwladol. Rwyf yn condemnio—bellach mae gennyf yr hawl i ddweud hynny yn y lle hwn; er pan oeddwn yn Llywydd yr oeddwn yn arfer condemnio'r dywediad hynny, fe'i ddywedaf o fan hyn—yr awgrym ei bod hi'n ddyletswydd i weithio yn agos gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, fel y nodwyd yng ngwelliant 3 yn enw William Graham. Mae hynny'n methu'r pwynt yn gyfan gwbl. Holl bwynt awydd y rhwydweithiau rhanbarthol i weithredu yn awtonomaidd yw er mwyn gallu dylanwadu. Os ydym yn dibynnu ar y Deyrnas Unedig i fod yn wyrdd drosom, mae hi wedi darfod arnom.

voice internationally. I condemn—I now have the right to say that in this place; although when I was Presiding Officer I used to condemn that expression, I will say it sitting here—the suggestion that it is a duty to work closely with the UK Government, as noted in amendment 3 in the name of William Graham. It completely misses the point. The whole point of the desire of the regional networks to work autonomously is in order to be able to bring influence to bear. If we are dependent upon the UK to be green on our behalf, it is all over for us.

*Gwelliant 1 Peter Black*

*Amendment 1 Peter Black*

*Mewnosod ar ddiwedd pwynt 1:*

*Insert at end of point 1:*

*'ac yn cydnabod y swyddogaeth ganolog sy'n cael ei chwarae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd i drafod telerau'r cytundeb hwn'.*

*'and acknowledges the central role played by the Secretary of State for Energy and Climate Change in negotiating this agreement'.*

**William Powell:** I move amendment 1 in the name of Peter Black.

**William Powell:** Cynigiaf welliant 1 yn enw Peter Black.

I am grateful to be taking part in this debate today and appreciate Plaid Cymru's having brought it forward. Amendment 1, in my view, adds to point 1 of the motion, in acknowledging the central role played by the Secretary of State for Energy and Climate Change in negotiating the United Nations framework convention on climate change in Durban last December. I hope that the point will be taken. Members should be aware that over recent months my colleagues and I have, on occasion, had points of difference with the Secretary of State for Energy and Climate Change. This morning's news on feed-in tariffs was not necessarily of any great surprise to any of us; I say that before any Member thinks that they should intervene on that point. However, that is a different issue and we should, with the same vigour that we bring to criticising where criticism is due, endorse the positive work that is being done in this vital area.

Rwy'n ddiolchgar fy mod yn cymryd rhan yn y ddadl hon heddiw ac yn gwerthfawrogi'r ffaith bod Plaid Cymru wedi'i chyflwyno. Mae gwelliant 1, yn fy marn i, yn ychwanegu at bwynt 1 y cynnig, drwy gydnabod y rôl ganolog a chwaraewyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd wrth drafod telerau confensiwn fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar newid yn yr hinsawdd yn Durban fis Rhagfyr diwethaf. Rwy'n gobeithio y bydd y pwynt yn cael ei dderbyn. Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol bod fy nghydweithwyr a minnau, dros y misoedd diwethaf, ar adegau, wedi anghytuno â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd ar rai pwyntiau. Nid oedd y newyddion y bore yma ynghylch tariffau cyflenwi trydan o anghenraid o unrhyw syndod mawr i unrhyw un ohonom; dywedaf hynny cyn i unrhyw Aelod gredu y dylent ymyrryd ar y pwynt hwnnw. Fodd bynnag, mater gwahanol yw hwnnw a dylem gymeradwyo'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud yn y maes hollbwysig hwn, a gwneud hynny gyda'r un egni ag y byddwn yn ei ddefnyddio i feirniadu pan fo'r feirniadaeth yn ddyledus.

We need to bear in mind the central role that the UK played at that conference. If we look at the photograph of the 'huddle' that was published in the newspapers the following day, the EU climate commissioner can be seen sat next to the Indian Minister for the environment, and, alongside them, our chief UK negotiator, Pete Betts, in deep discussion with Chris Huhne and the UK legal advisor, Kaveh Guilanpour. Outside the circle and peering over their shoulders trying to see what is going on is the head of the US delegation, Todd Stern, surrounded by a horde of people trying to take pictures on their mobile phones. The *Financial Times* was right to call it 'the huddle that made history'. For the first time in the history of climate negotiations, going back over 20 years to the earth summit in Rio—as we have heard, our colleague Simon Thomas was present for one of the critical developments—the international community agreed to adopt a legally binding global deal that is applicable to all countries, rich and poor alike. Without British intervention at that crucial stage, it is highly unlikely that such a deal would have been snatched from the jaws of defeat. That should be recognised.

Mae angen inni gadw mewn cof y rôl ganolog a chwaraeodd y DU yn y gynhadledd honno. Os edrychwn ar lun y criw o bobl a gafodd ei gyhoeddi yn y papurau newydd y diwrnod canlynol, gallwn weld comisiynydd hinsawdd yr UE yn eistedd ar bwys Gweinidog India dros yr amgylchedd, ac, ochr yn ochr â hwy, gwelwn Pete Betts, prif negodydd y DU, yn cael trafodaeth ddwys â Chris Huhne a Kaveh Guilanpour, ymgynghorydd cyfreithiol y DU. Y tu allan i'r cylch ac yn edrych dros eu hysgwyddau i geisio gweld beth sy'n mynd ymlaen mae Todd Stern, pennaeth dirprwyaeth yr Unol Daleithiau, sydd wedi ei amgylchynu gan griw o bobl yn ceisio tynnu lluniau ar eu ffonau symudol. Roedd y *Financial Times* yn iawn i'w alw yn 'y criw a greodd hanes'. Am y tro cyntaf yn hanes trafodaethau am newid yn yr hinsawdd, yn mynd yn ôl dros 20 mlynedd i'r uwch-gynhadledd yn Rio—fel y clywsom, roedd ein cyd-Aelod, Simon Thomas, yn bresennol ar gyfer un o'r datblygiadau allweddol—cytunodd y gymuned ryngwladol i fabwysiadu cytundeb byd-eang wedi'i rwymo mewn cyfraith sy'n berthnasol i'r holl wledydd, yn rhai cyfoethog a thlawd fel ei gilydd. Heb ymyrraeth Brydeinig ar yr adeg hanfodol honno, mae'n annhebygol iawn y byddai cytundeb o'r fath wedi cael ei achub ar y funud olaf. Dylid cydnabod hynny.

The success of Durban represents a significant step forward. It re-established that the principle for climate change should be tackled through international law and not merely through voluntary national commitments. It provided the major emerging economies with the endorsement, for the first time, that their emission commitments will have to be bound in law. It has encouraged all countries, also for the first time, to admit that their current climate policies must be strengthened further. It has established the green climate fund to support the poorest countries in tackling and responding to the urgent needs associated with climate change and it has preserved the invaluable legal framework of the Kyoto protocol. At the same time, it has opened the path to a new, more comprehensive and ambitious global agreement.

Mae llwyddiant Durban yn gam sylweddol ymlaen. Ailsefydlodd yr egwyddor y dylid mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy gyfraith ryngwladol ac nid drwy ymrwymiadau cenedlaethol gwirfoddol yn unig. Roedd yn cynnig cadarnhad i'r prif economïau sy'n datblygu, am y tro cyntaf, y bydd yn rhaid i'w hymrwymiadau ynghylch allyriadau gael eu rhwymo mewn cyfraith. Mae wedi annog yr holl wledydd, hefyd am y tro cyntaf, i gyfaddef bod yn rhaid i'w polisïau hinsawdd presennol gael eu cryfhau ymhellach. Mae wedi sefydlu'r gronfa hinsawdd wyrdd i gefnogi'r gwledydd tlotaf i fynd i'r afael â'r anghenion brys sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ac i ymateb iddynt ac mae wedi cadw fframwaith cyfreithiol amhrisiadwy protocol Kyoto. Ar yr un pryd, mae wedi agor y drws i gytundeb byd-eang newydd, sy'n fwy cynhwysfawr ac uchelgeisiol.

5.00 p.m.

Durban showed us the way in which we can and must engage with our European Union partners in a positive light. By working together with those partners, we were able to deliver far more than ever could have been achieved otherwise, for the UK interest and for the interests of everyone in Wales. There is still a huge amount to do. Durban alone will not limit global warming to 2 degrees C above pre-industrial levels, but, without doubt, it has taken us a huge step forward.

Dangosodd Durban sut y gallwn ymgysylltu, a sut mae'n rhaid inni ymgysylltu, â'n partneriaid yn yr Undeb Ewropeaidd mewn modd cadarnhaol. Drwy gydweithio â'r partneriaid hynny, roeddem yn gallu cyflawni llawer mwy nag y byddai wedi bod yn bosibl fel arall, er budd y DU ac er budd pawb yng Nghymru. Mae llawer iawn i'w wneud o hyd. Ni fydd Durban ar ei ben ei hun yn cyfyngu ar gynhesu byd-eang i 2 gradd C yn uwch na lefelau cyn-ddiwydiannol, ond, heb amheuaeth, mae wedi mynd â ni gam mawr ymlaen.

It is for this reason that we cannot support amendment 2 tabled by the Conservatives in the name of William Graham. For any climate deal to be workable and a success, it needs nations and states to work together, regardless of size and influence. Dafydd Elis-Thomas earlier, in his tour de force, took us through the reasons why that is the case. While the Network of Regional Governments for Sustainable Development may not represent nation states in the traditional Westphalian sense, regional governments have a crucial role to play. Any contribution that they make should be welcomed, not merely noted. The party opposite's second amendment, amendment 3, also needs to be rejected so that we are consistent with that important principle.

Am y rheswm hwn, ni allwn gefnogi gwelliant 2 a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr yn enw William Graham. Er mwyn i unrhyw gytundeb ar yr hinsawdd fod yn ymarferol a llwyddiannus, mae angen i genhedloedd a gwladwriaethau weithio gyda'i gilydd, beth bynnag eu maint a'u dylanwad. Yn gynharach, siaradodd Dafydd Elis-Thomas yn huawdl iawn wrth fynd â ni drwy'r rhesymau pam mae hynny'n wir. Er nad yw Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy o bosibl yn cynrychioli gwladwriaethau cenedlaethol yn yr ystyr Westffaliaidd draddodiadol, mae gan lywodraethau rhanbarthol rôl hanfodol i'w chwarae. Dylid croesawu unrhyw gyfraniad y maent yn ei wneud, yn hytrach na'i nodi yn unig. Dylid hefyd gwrthod ail welliant y blaid gyferbyn, gwelliant 3, er mwyn inni fod yn gyson o ran yr egwyddor bwysig honno.

*Gwelliant 2 William Graham*

*Amendment 2 William Graham*

*Ym mhwynt 2, dileu 'Croesawu' a rhoi 'Nodi' yn ei le.*

*In Point 2 delete 'Welcomes' and replace with 'Notes'.*

*Gwelliant 3 William Graham*

*Amendment 3 William Graham*

*Ym mhwynt 3 dileu 'i gefnogi achrediad Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy ar gyfer cyfrannu at' a rhoi yn ei le 'i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau ei bod yn manteisio ar bob cyfle i gael y setliad byd-eang gorau o'r'.*

*In point 3 delete 'to support the accreditation of the Network of Regional Governments for Sustainable Development to contribute to the' and replace with 'to work closely with the UK Government to ensure it maximises all opportunities to get the best global settlement out of the'.*

**Russell George:** I move amendments 2 and 3in the name of William Graham.

**Russell George:** Cynigiaf welliannau 2 a 3 yn enw William Graham.

The Welsh Conservatives agree that there was constructive dialogue at the Durban conference. In particular, we welcome the important steps forward taken in the agreement for a second commitment period for the Kyoto protocol and the strong progress made on the green climate fund. Good progress was also made on other issues, including institution-building for adaptation and technology.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cytuno bod deialog adeiladol wedi'i chynnal yng nghynhadledd Durban. Yn benodol, rydym yn croesawu'r camau pwysig a gymerwyd yn y cytundeb ar ail gyfnod o ymrwymiad i brotocol Kyoto a'r cynnydd cryf a wnaed ar y gronfa hinsawdd werdd. Gwelwyd cynnydd da ar faterion eraill hefyd, gan gynnwys adeiladu sefydliadau ar gyfer addasiadau a thechnoleg.

However, there are still areas of real concern that must be urgently addressed; specifically, the level of pledges made so far by countries seems to put us on course for an average global temperature increase of 3 to 4 degrees C above pre-industrial times. We know that the 2 degrees C tipping point is critical and that we need to limit greenhouse gas emissions globally if the temperature increase is to be kept to 2 degrees C or less—even that level will give rise to severe risks of drought and a greater decline in global crops.

Fodd bynnag, mae yna feysydd sy'n destun pryder o hyd a rhaid mynd i'r afael â'r rhain ar frys; yn benodol, mae'n ymddangos bod lefel yr addewidion a wnaed gan wledydd hyd yn hyn yn mynd i olygu cynnydd yn y tymheredd byd-eang sydd ar gyfartaledd 3 i 4 gradd C yn uwch na'r cyfnod cyn-ddiwydiannol. Rydym yn gwybod bod y trobwynt 2 gradd C yn hollbwysig a bod angen inni gyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr yn fyd-eang os bydd y cynnydd yn y tymheredd yn cael ei gyfyngu at 2 gradd C neu lai—bydd hyd yn oed y lefel honno yn arwain at risgiau difrifol o sychder a mwy o ddirywiad mewn cnydau byd-eang.

We can no longer signal the need for deep emission cuts; we need countries to take responsibility for delivering these cuts, and the largest polluters, such as America and China, must be persuaded to act. The UK Government, as part of the EU bloc, can apply the necessary pressure through negotiation, but also by demonstrating tangible action by delivering on our side of the carbon reductions. That means all EU countries and sub-nations achieving their stated targets.

Ni allwn bellach dim ond nodi'r angen am doriadau allyriadau dwfn; mae angen i wledydd fod yn gyfrifol am gyflawni'r toriadau hyn, a rhaid i'r llygrwyr mwyaf, fel America a Tsieina, gael eu darbwyllo i weithredu. Gall Llywodraeth y DU, fel rhan o floc yr UE, roi'r pwysau angenrheidiol trwy drafod, ond hefyd trwy ddangos bod camau pendant yn cael eu cymryd trwy gyflawni ein cyfran ni o'r gostyngiadau carbon. Mae hyn yn golygu holl wledydd ac is-genhedloedd yr UE yn cyflawni'r targedau a nodwyd ganddynt.

In relation to the Mbale project in Uganda, multiple-sector carbon sequestration projects of this kind can have multiple benefits in developing areas of the world where local environmental conditions have been affected by the climate change process. Projects like this can bring money into the local economy, raising local incomes and aiding the regeneration of natural resources. As many of these biodiversity conservation projects in Africa tend to be focused in east Africa, there are concerns about concentration as well as the potential effects of projects such

O ran prosiect Mbale yn Uganda, gall prosiectau dal a storio carbon amlsector o'r math hwn arwain at nifer o fanteision yn ardaloedd datblygol y byd lle yr effeithiwyd ar amgylchiadau amgylcheddol gan newid yn yr hinsawdd. Gall prosiectau fel hyn ddod ag arian i'r economi leol, gan godi incwm lleol a helpu i adfywio adnoddau naturiol. Gan fod llawer o'r prosiectau gwarchod bioamrywiaeth yn Affrica yn tueddi i ganolbwyntio ar ddwyrain Affrica, mae pryderon ynghylch crynodiad yn ogystal ag effeithiau posibl prosiectau fel hyn ar

as this on local ecosystems. Not all projects of this nature improve local ecosystems. Any project of this nature has to be sustainable. If countries like Uganda want to move into commercial forestry, which it partly aims to do, we must be sure that this can be developed and sustainably managed without the long-term need for international aid. Therefore, issues such as transaction costs and improving national governance and engagements need to be addressed.

ecosystemau lleol. Nid yw pob prosiect o'r fath yn gwella ecosystemau lleol. Mae'n rhaid i unrhyw brosiect fod yn gynaliadwy. Os yw gwledydd fel Uganda yn dymuno datblygu coedwigaeth fasnachol, fel y mae Uganda yn rhannol yn anelu at wneud, mae'n rhaid inni fod yn siŵr y gall gael ei datblygu a'i rheoli mewn modd cynaliadwy heb fod angen cymorth rhyngwladol yn yr hirdymor. Felly, mae angen mynd i'r afael â materion fel costau trafodion a gwella llywodraethu ac ymrwymiadau cenedlaethol.

I am not simply being negative; I want to be realistic on this. I hope that the Mbale project will be successful in helping to protect the valuable coffee crop, improve soil quality and overall land productivity. I hope that the benefits will be there for all to see in many decades to come.

Nid wyf yn bod yn negyddol; rwyf am fod yn realistig. Rwy'n gobeithio y bydd y prosiect yn Mbale yn llwyddiannus wrth helpu i ddiogelu'r cnwd coffi gwerthfawr, gwella ansawdd y pridd a gwella cynhyrchiant cyffredinol y tir. Rwy'n gobeithio y bydd y manteision ar gael i bawb eu gweld yn y degawdau i ddod.

Turning to our last amendment, I appreciate the useful role that the network of regional Governments plays in allowing regional Governments to learn from each other's experiences and explore ways to contribute towards sustainable development. The only way that we are going to achieve the best possible global outcome at Rio is for the Welsh Government to work as closely as it can with the UK Government, to send the strongest delegation that we can to effect positive, legally binding agreements. We should not be looking to dilute our strength. I believe that the other devolved administrations in the UK understand that, because Wales is the only devolved nation affiliated to this network. I think that our Minister for environment could be part of the UK delegation to Rio—I hope that the Secretary of State will invite him, as has previously happened.

Gan droi at ein gwelliant olaf, rwy'n gwerthfawrogi'r rôl ddefnyddiol y mae rhwydwaith y Llywodraethau rhanbarthol yn ei chwarae wrth ganiatáu i'r Llywodraethau rhanbarthol ddysgu o brofiadau ei gilydd ac archwilio ffyrdd o gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Yr unig ffordd rydym yn mynd i gyflawni'r canlyniad byd-eang gorau posibl yn Rio yw i Lywodraeth Cymru weithio mor agos ag y gall â Llywodraeth y DU, i anfon y ddirprwyaeth gryfaf posibl i sicrhau cytundebau sydd wedi'u rhwymo mewn cyfraith ac sy'n effeithiol a chadarnhaol. Ni ddylem fod yn edrych i lastwreiddio ein cryfder. Credaf fod gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU yn deall hynny, oherwydd Cymru yw'r unig genedl ddatganoledig sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith hwn. Credaf y gallai'n Gweinidog dros yr amgylchedd fod yn rhan o ddirprwyaeth y DU i Rio—rwy'n gobeithio y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei wahodd, fel sydd wedi digwydd o'r blaen.

As I have said, we do not wish to be portrayed as being negative towards this motion, as we agree with the broad thrust of it. However, I hope that, having set out our position, Members will be able to support our amendments, which we believe can only enhance the motion.

Fel y dywedais, nid ydym yn dymuno cael ein portreadu fel rhai sy'n teimlo'n negyddol tuag at y cynnig, gan ein bod yn cytuno â'i brif bwyslais. Fodd bynnag, ar ôl nodi ein safbwynt, rwy'n gobeithio y bydd Aelodau'n gallu cefnogi ein gwelliannau, y gallant ond wella'r cynnig.

**Leanne Wood:** I will start by paying tribute

**Leanne Wood:** Byddaf yn dechrau drwy dalu

to Dafydd Elis-Thomas, Plaid Cymru's sustainability spokesperson and a fellow candidate for the leadership— [*Laughter.*]

teyrnged i Dafydd Elis-Thomas, llefarydd Plaid Cymru ar gynaliadwyedd a chyd-ymgeisydd ar gyfer yr arweinyddiaeth— [*Chwerthin.*]

**Simon Thomas:** Name us all.

**Simon Thomas:** Enwch ni oll.

**Leanne Wood:** I am afraid that I cannot name you all. Oh, go on then, Simon Thomas and Elin Jones. [*Laughter.*]

**Leanne Wood:** Rwy'n ofni na allaf eich enwi chi oll. Wel, pam lai? Simon Thomas ac Elin Jones. [*Chwerthin.*]

There is a danger that climate change is increasingly becoming unfashionable. That is why it is vital to ensure that it stays on the political agenda. It is very encouraging that there is cross-party agreement in the Senedd on many aspects of climate change. That is good; but that support is not matched, unfortunately, by efforts. We may well be making some good contributions on the international stage, but how fast are we moving to a low carbon economy? I will focus in my contribution on looking at the practicalities of this country tackling climate change.

Mae perygl bod newid yn yr hinsawdd yn dod yn fwyfwy anffasiynol. Dyna pam mae'n hanfodol sicrhau ei fod yn aros ar yr agenda wleidyddol. Mae'n galonogol iawn bod cytundeb trawsbleidiol yn y Senedd ar sawl agwedd ar newid yn yr hinsawdd. Mae hynny'n beth da, ond nid yw'r ymdrechion yn cyd-fynd â'r gefnogaeth honno. Efallai ein bod yn gwneud cyfraniadau da ar y llwyfan rhyngwladol, ond pa mor gyflym rydym ni'n symud tuag at economi carbon isel? Bydd fy nghyfraniad yn canolbwyntio ar yr agweddau ymarferol ar ymdrechion y wlad hon i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Time and again, we are told by the experts that retrofitting homes to maximise energy efficiency would be one of the easiest ways of reducing greenhouse gas emissions. Tackling emissions from housing is one of the least painful cuts to make. Now, the Arbed scheme is good and has made a good start, but we need to be much more ambitious if we are to have the impact that we need.

Dro ar ôl tro, rydym yn clywed gan yr arbenigwyr mai ôl-ffitio cartrefi i sicrhau'r effeithlonrwydd ynni gorau fyddai un o'r ffyrdd hawsaf o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mynd i'r afael ag allyriadau o dai yw un o'r toriadau lleiaf poenus i'w gwneud. Mae'r cynllun Arbed yn un da, ac mae wedi dechrau'n dda, ond mae angen inni fod llawer mwy uchelgeisiol os ydym am gael yr effaith sydd ei hangen.

In addition to climate change, I have pressed the case on many occasions in the Senedd for serious consideration and planning to counteract the predictions on peak oil. With austerity measures inevitably driving the further centralisation of public services, people will in future be forced to travel further to access services, with the price of transport at the same time being pushed up. This could have grave consequences, particularly for those on the lowest incomes or living in rural areas. A plan to power our economy by alternative means is vital, not just because of climate change, but because of impending peak oil. So, a comprehensive retrofitting scheme to upgrade every home by making loans available to people, which could be paid back through savings in energy

Yn ogystal â newid yn yr hinsawdd, rwyf wedi pwysleisio'r angen ar sawl achlysur yn y Senedd i ystyried yn ddifrifol a chynllunio i wrthweithio rhagfynegiadau ar olew brig. Gyda mesurau llymder yn anochel yn golygu bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu canoli ymhellach, bydd pobl yn cael eu gorfodi i deithio ymhellach i gael mynediad at wasanaethau, gyda phris .yn cael ei wthio i fyny ar yr un pryd. Gallai hyn arwain at ganlyniadau difrifol, yn enwedig i'r rhai sydd ar yr incwm isaf neu sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae cynllun i roi hwb i'n heconomi trwy ddulliau amgen yn hanfodol, nid yn unig oherwydd newid yn yr hinsawdd, ond oherwydd y cyfnod olew brig sydd ar ddod. Felly, byddai cynllun ôl-ffitio cynhwysfawr i uwchraddio pob cartref drwy

bills—as proposed in 'A Greenprint for the Valleys', which I published last year—would take us a long way down the road that we need to travel. An added bonus would come from the jobs that would be created and from the skills that people would gain along the way. If people could be supported to form construction co-operatives to carry out that work, we could overcome another injustice, namely the lack of rights—or poor rights—for workers in the construction industry. I am sure that you are all aware of that. I have not even mentioned fuel poverty as a reason for carrying out a green New-Deal-style plan, but it, too, is a matter for consideration. So, there is a wide range of reasons to go for a plan such as this.

sicrhau bod benthyciadau ar gael i bobl, y gellid eu talu yn ôl drwy arbedion mewn biliau ynni—fel yr awgrymwyd yn 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd', a gyhoeddwyd gennyf y llynedd—yn ein harwain cryn dipyn o'r ffordd ar hyd y llwybr sydd angen inni fynd arni. Byddai bonws ychwanegol yn dod o'r swyddi a fyddai'n cael eu creu a'r sgiliau y byddai pobl yn eu hennill ar hyd y ffordd. Pe byddai pobl yn gallu cael cymorth i ffurfio cwmnïau adeiladu cydweithredol i wneud y gwaith, gallwn oresgyn anghyfiawnder arall, sef y diffyg hawliau—neu'r hawliau diffygiol—sydd ar gael i weithwyr yn y diwydiant adeiladu. Rwy'n siŵr eich bod i gyd yn ymwybodol o hynny. Nid wyf hyd yn oed wedi cael cyfle i grybwyll tlodi tanwydd fel rheswm dros gynnal cynllun gwyrdd yn ôl model Y Fargen Newydd, ond mae hynny hefyd yn fater i'w ystyried. Felly, mae ystod eang o resymau o blaid cynllun fel hwn.

So, thank you, diolch yn fawr, Dafydd, for keeping the issue of climate change on the agenda in Wales.

Felly, diolch yn fawr i chi, Dafydd, am gadw newid yn yr hinsawdd ar yr agenda yng Nghymru.

**Antoinette Sandbach:** Along with my colleagues in the Welsh Conservatives, I welcome the progress made during the UN climate change summit in Durban last year, as well as Wales's ongoing commitment to carbon reduction and mitigating the effects of climate change here. However, as with last year's meeting in Durban, the upcoming summit in Rio is a conference that could easily be followed online. Wales has every opportunity to make representations through official channels, in any case. Plaid Cymru must recognise that duplicating the work of the UK Government would be a costly waste of taxpayers' money, when every pound needs to be spent wisely.

**Antoinette Sandbach:** Ynghyd â'm cyd-Aelodau ymhlith y Ceidwadwyr Cymreig, rwy'n croesawu'r cynnydd a wnaed yn ystod uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar newid yn yr hinsawdd  a gynhaliwyd yn Durban y llynedd, yn ogystal ag ymrwymiad parhaus Cymru i leihau allyriadau carbon a lliniaru ar effeithiau newid yn yr hinsawdd yma. Fodd bynnag, fel y cyfarfod yn Durban y llynedd, gellir dilyn uwchgynhadledd Rio yn hawdd ar-lein. Mae gan Gymru bob cyfle i gyflwyno sylwadau trwy sianeli swyddogol. Rhaid i Plaid Cymru gydnabod bod dyblygu gwaith Llywodraeth y DU yn wastraff costus o arian trethdalwyr, pan fo angen gwario pob punt yn ddoeth.

On the wider issues surrounding the pace of emission reduction in Wales, I believe that the Welsh Labour Government would do well to take on board the interim report of the Hills fuel poverty review, which highlighted the number of low-income households being pushed into fuel poverty as a result of the carbon emissions reduction target and the community energy savings programme. That report highlights three general issues for those whose concern is with carbon reduction. It is important to

O ran y materion ehangach sy'n ymwneud â pha mor gyflym rydym yn lleihau allyriadau carbon yng Nghymru, rwy'n credu y byddai'n beth da pe byddai Llywodraeth Lafur Cymru yn ystyried adroddiad interim adolygiad tlodi tanwydd Hills, a oedd yn tynnu sylw at nifer y teuluoedd ar incwm isel sy'n cael eu gwthio i mewn i dlodi tanwydd o ganlyniad i'r targed i leihau allyriadau carbon a'r rhaglen arbedion ynni cymunedol. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at dri mater cyffredinol ar gyfer y rhai sy'n pryderu ynghylch lleihau allyriadau

understand the distributional consequences of carbon mitigation policies—exacerbating fuel poverty could be one of those, unless it is offset in other ways. If this is not done, the adverse effects on those with low incomes could be a barrier to implementation of policies that have overall benefits. Improving domestic energy efficiency will be an important part of the overall carbon reduction; I know that Leanne Wood addressed that in her contribution today. However, those on low incomes are unlikely to be able to afford or achieve this without assistance. All this suggests that a corollary of climate change mitigation policies must focus on those with low incomes with high fuel spending and those living in energy inefficient homes. We need to keep sight of those observations in particular when considering how far and how fast we set carbon reduction targets here in Wales.

carbon. Mae’n bwysig deall canlyniadau dosbarthiadol polisïau lliniaru carbon—gallai gwaethygu tlodi tanwydd fod yn un ohonynt, oni bai ei fod yn cael ei wrthbwyso mewn ffyrdd eraill. Os na wneir hynny, gallai’r effeithiau andwyol ar y rhai sydd ag incwm isel fod yn rhwystr i weithredu polisïau sy’n arwain at fuddion cyffredinol. Bydd gwella effeithlonrwydd ynni yn y cartref yn rhan bwysig o’r gwaith cyffredinol o leihau allyriadau carbon; rwy’n gwybod y gwnaeth Leanne Wood ymdrin â hynny yn ei chyfraniad heddiw. Fodd bynnag, mae’n annhebygol y bydd pobl ar incwm isel yn gallu fforddio neu gyflawni hyn heb gymorth. Mae hyn oll yn awgrymu bod yn rhaid i ganlyneb o bolisïau i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ganolbwyntio ar bobl ag incwm isel sy’n gwario llawer ar ynni a phobl sy’n byw mewn cartrefi sy’n aneffeithlon o ran ynni. Mae angen inni gadw golwg ar y sylwadau hynny yn enwedig wrth ystyried pa mor bell a pha mor gyflym rydym yn gosod targedau lleihau allyriadau carbon yma yng Nghymru.

In terms of tree planting, the Plaid Cymru motion highlights the Wales-Mbale tree planting project—that is a commendable project for the Welsh Government to support. It will protect the long-term sustainability of private coffee growers, by supporting tree planting that provides shade and soil stabilisation. Environmental sustainability will go hand in hand with support for private enterprise, but in Wales, the Welsh Labour Government has taken a very different approach over tree planting. Rather than supporting the long-term future of the commercial forestry sector, support for new planting is focused only on biodiversity. By offering landowners generous grants up front for mixed, non-commercially viable planting, forestry will inevitably be taken out of commercial production. Of course, I am not advocating monoculture of Sitka spruce, but there are plenty of opportunities to increase diversity of species without completely undermining the timber sector, which can play an enormously important role in carbon capture and storage.

O ran plannu coed, mae cynnig Plaid Cymru yn tynnu sylw at brosiect plannu coed Cymru-Mbale—sy’n brosiect clodwiw i Lywodraeth Cymru ei gefnogi. Bydd yn diogelu cynaliadwyedd hirdymor tyfwyr coffi preifat, drwy gefnogi’r gwaith o blannu coed sy’n darparu cysgod a sefydlogrwydd pridd. Bydd cynaliadwyedd amgylcheddol yn mynd law yn llaw â chefnogaeth ar gyfer mentrau preifat, ond yng Nghymru, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi mabwysiadu dull gwahanol iawn ar gyfer plannu coed. Yn hytrach na chefnogi dyfodol hirdymor y sector coedwigaeth masnachol, mae cymorth ar gyfer plannu o’r newydd yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth yn unig. Drwy gynnig grantiau hael o flaen llaw i dirfeddianwyr ar gyfer plannu cymysg, nad yw’n fasnachol hyfyw, mae’n anochel y bydd coedwigaeth yn cael ei chymryd allan o gynhyrchu masnachol. Wrth gwrs, nid wyf yn argymell ffermio’r pyrwydden Sitca yn unig, ond mae yna ddigon o gyfleoedd i gynyddu’r amrywiaeth o gnydau heb danseilio’r sector coed yn gyfan gwbl, sy’n gallu chwarae rôl hynod o bwysig o ran dal a storio carbon.

**David Rees:** In my constituency, we have a serious problem with Phytophthora

**David Rees:** Yn fy etholaeth, mae gennym broblem ddifrifol gyda Phytophthora

ramorum, which has affected the larch and is damaging large areas of forestry in that area. Therefore, monoculture is a problem if you are not careful, because one disease can damage and wipe out a whole area. We need to look at widespread usage.

ramorum, sydd wedi effeithio ar larwydd ac sy'n niweidio ardaloedd mawr o goedwigaeth yn yr ardal honno. Felly, mae plannu ungnwd yn broblem os nad ydych yn ofalus, oherwydd gall un clefyd ddifrodi a dileu ardal gyfan. Mae angen inni edrych ar ddefnydd eang.

**Antoinette Sandbach:** The problem is that, in effect, the commercial aspect of planting is not being addressed in the new schemes that are being brought forward. I accept that large plantations inevitably suffer from diseases. Many of those larches will have been planted as firebreaks, because larch is traditionally planted among Sitka spruce for that purpose—that is why you see large areas of it.

**Antoinette Sandbach:** Y broblem yw, nid yw'r agwedd fasnachol ar blannu yn cael sylw yn y cynlluniau newydd sy'n cael eu dwyn ymlaen, mewn gwirionedd. Rwy'n derbyn ei bod yn anochel y bydd planhigfeydd mawr yn dioddef o glefydau. Bydd llawer o'r llarwydd hynny wedi cael eu plannu fel rhwystrau tân, gan fod llarwydd yn draddodiadol wedi'u plannu ymhlith pyrwydd Sitca at y diben hwnnw—dyna pam y byddwch yn gweld ardaloedd helaeth ohono.

I would ask the Minister to look at this again, and perhaps to turn his focus homeward for support of the Welsh forestry sector, which is a successful and innovative industry, recognising that, if Wales is to have any sort of success in tackling climate change and building a genuinely sustainable economy, it needs to work in partnership with all sectors of society. I note in particular the recent report that was issued on the effectiveness of the review of the sustainable development scheme, where it is clear that there is still a lack of clarity around the interpretation of sustainable development and how this is translated into a central organising principle. Clearly, that needs to be focused on sustainable development, and there needs to be far greater understanding of what that means to this Government.

Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog edrych ar hyn eto, ac efallai canolbwyntio'n nes at adref i gael cefnogaeth ar gyfer sector coedwigaeth Cymru, sy'n ddiwydiant llwyddiannus ac arloesol, gan gydnabod, os yw Cymru am gael unrhyw fath o lwyddiant wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac adeiladu economi wirioneddol gynaliadwy, bod angen gweithio mewn partneriaeth â phob sector o'r gymdeithas. Nodaf yn arbennig yr adroddiad diweddar a gyhoeddwyd ar effeithiolrwydd yr adolygiad o'r cynllun datblygu cynaliadwy, lle mae'n amlwg bod yna ddiffyg eglurder o ran y dehongliad o ddatblygu cynaliadwy a sut y caiff hwn ei drosi yn egwyddor drefnu ganolog. Yn amlwg, mae angen i hynny ganolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy, ac mae angen llawer mwy o ddealltwriaeth o'r hyn y mae hynny'n ei olygu i'r Llywodraeth hon.

5.15 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** Credaf y byddai pawb yn y Siambr yn cytuno mai newid yn yr hinsawdd yw'r cwestiwn mawr sy'n wynebu gwleidyddion ledled y byd, a sefydliadau gwleidyddol fel yr un hwn yng Nghymru. Rwy'n falch iawn bod y cynnig hwn gan Blaid Cymru, a sylwadau agoriadol Dafydd Elis-Thomas, yn nodi'r pwysigrwydd i wledydd bach a rhanbarthau fod yn flaengar yn y mater hwn, a manteisio ar bob cyfle i wneud cyfraniad. Rhyw bryd neu gilydd, bydd ein hwyrion a'n gor-wyrion-os ydym yn

**Rhodri Glyn Thomas:** I believe that everyone in the Chamber would agree that climate change is the big question that faces politicians across the world, and political institutions like this one in Wales. I am very pleased that this motion from Plaid Cymru, and the opening comments by Dafydd Elis-Thomas, notes how important it is for smaller countries and regions to be in the vanguard on this subject, and to take advantage of every opportunity to contribute. At some point, our grandchildren and great-

ddigon ffodus i'w gweld-yn gofyn inni: pan oeddech yn wleidydd ym mae Caerdydd ac yn rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, beth wnaethoch chi yn wyneb cwestiwn mawr newid yn yr hinsawdd? A wnaethoch chi unrhyw beth? Os mai'r cyfan y gallwn ei ddweud, fel mae rhai pobl wedi'i awgrymu y prynhawn yma, yw nad oedd modd inni wneud mwy nag oedd y Deyrnas Unedig yn caniatáu inni ei wneud, nid wyf yn meddwl y bydd ein hwyrion a'n gor-wyrion yn barod i faddau inni.

grandchildren—if are fortunate enough to live to see them—will ask: when you were a politician in Cardiff bay as part of the National Assembly for Wales, what did you do in the face of this great question of climate change? Did you do anything about it? If all that we can say, as some have suggested this afternoon, is that we could not do anything more than the United Kingdom allowed, I do not think that our grandchildren or great-grandchildren will forgive us.

Mae cyfle yma. Talaf deyrnged i'r Gweinidog am ei barodrwydd i fod yn flaengar yn y maes hwn, yn yr un modd â'i ragflaenwyr. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru stori dda iawn i'w dweud am yr ymdrechion hyn yng Nghymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Wrth gwrs, mae materion dadleuol yn codi, ac mae pobl yn eu hetholaethau yn gorfod wynebu'r materion dadleuol hynny, ond gobeithiaf ein bod yn unedig yn ein hymdrech i fynd i'r afael â'r broblem hon.

There is an opportunity here. I pay tribute to the Minister for his willingness to innovate in this area, like the Ministers who preceded him. The National Assembly for Wales and the Welsh Government have a good story to tell about these efforts in Wales to get to grips with climate change. Of course, controversial matter arise, and people have to face up to those issues in their constituencies, but I hope that we speak with one voice in our efforts to get to grips with this problem.

Ar ran y Cynulliad, rwy'n eistedd ar Bwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel, ac un o fy nyletswyddau yno yw bod yn aelod o'r comisiwn ar adnoddau naturiol. Byddaf ym Mrwsel ddydd Mawrth nesaf ar y comisiwn hwnnw. Un o'r pethau a ddaw yn glir ym Mhwyllgor y Rhanbarthau yw bod llawer o ranbarthau a gwledydd bach ar draws Ewrop yn barod iawn i fod yn flaengar yn y mater hwn, a'u bod, yn aml iawn, yn cael eu dal yn ôl gan yr aelod wladwriaethau. Mae'r rhanbarthau a'r gwledydd bach yn awyddus i gydweithio o fewn yr Undeb Ewropeaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud eu rhan yn y mater hwn.

On behalf of the Assembly I sit on the Committee of the Regions in Brussels, and one of my duties is to be a member of the commission on natural resources. I will be in Brussels next Tuesday for that commission. One thing that becomes clear to me through the Committee of the Regions is that a great many regions and small countries across Europe are very willing to innovate in this field, but are often held back by the member states. The regions and small nations want to co-operate within the European Union to ensure that they can play their part in this matter.

Cyfeiriaf at un fenter sy'n eithriadol o bwysig, sef cyfamod y meiri, lle mae meiri trefi a chymunedau ar draws Ewrop wedi arwyddo cyfamod yn dweud eu bod yn mynd ymhellach nag y mae'r aelod wladwriaeth yn barod i fynd o ran wynebu sialens newid yn yr hinsawdd-ymhellach hyd yn oed nag y mae'r Undeb Ewropeaidd yn barod i fynd. Maent yn teimlo mai dyna eu cyfrifoldeb fel pobl etholedig sy'n cynrychioli eu hetholwyr. Rwy'n mawr obeithio y bydd y Cynulliad hwn yn uno i wneud hynny. Mae gennym

I will refer to one extremely important initiative, which involves the mayors of towns and communities across Europe; they have signed a covenant to say that they will go further than the member states are willing to go in facing this challenge of climate change—further even than the European Union is prepared to go. They feel that that is their responsibility as elected officials who represent their constituents. I greatly hope that this Assembly will pledge to do just that. We have an opportunity in Wales: we have

gyfle yng Nghymru i wneud hynny-mae gennym yr adnoddau naturiol, y tirlun a'r tywydd, yn anffodus, i fod yn flaengar yn y mater hwn.

the natural resources, the landscape and the weather, unfortunately, to innovate on this matter.

Yn y gorffennol, rydym wedi bod yn flaengar wrth rannu ein hadnoddau naturiol gyda rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Roeddem yn cael ein gorfodi yn y gorffennol i rannu ein hadnoddau naturiol am ddim gyda rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mae cyfle yma i ni nid yn unig gyfrannu'n arloesol at y gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chreu ynni adnewyddadwy, ond i fagu diwydiant ac arbenigedd yn y gwaith hwn. Mawr obeithiaf y bydd y Cynulliad y prynhawn yma yn gallu cefnogi'r cynnig heb ei wella, oherwydd er bod y rhai sydd wedi cynnig y gwelliannau wedi ceisio dadlau bod eu gwelliannau yn ychwanegu at y cynnig, maent yn dirymu neges ganolog wreiddiol y cynnig hwn. Felly, cefnogwch y cynnig ond nid y gwelliannau.

In the past, we have been innovative in sharing our natural resources with other parts of the UK. We were, in the past, forced to share them with other parts of the UK for free. We now have an opportunity not only to contribute to the work of tackling climate change and generating renewable energy, but to develop an industry and expertise in this work. I sincerely hope that the Assembly will support the motion, unamended, because although those who have moved the amendments have tried to argue that their amendments add to the motion, what they really do is dilute the motion's original core message. Therefore, support the motion but not the amendments.

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I am very pleased to have this opportunity to participate in this important debate and to be able to thank Dafydd Elis-Thomas and Plaid Cymru for bringing these matters to the Assembly, highlighting climate change issues and Wales's contribution in this field. This is very constructive indeed and it is evident that there is a strong element of consensus across the parties, notwithstanding one or two differences.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Rwy'n falch iawn o gael y cyfle hwn i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon. Rwy'n falch o allu diolch i Dafydd Elis-Thomas ac i Blaid Cymru am ddod â'r materion hyn i'r Cynulliad, gan dynnu sylw at faterion yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd a chyfraniad Cymru yn y maes hwn. Mae hyn yn adeiladol iawn yn wir ac mae'n amlwg bod elfen gref o gonsensws ar draws y pleidiau, er gwaethaf un neu ddau o wahaniaethau.

I was disappointed not to be able to attend the conference in Durban myself, but we were very pleased to send an official, Jon Townley, to represent the Welsh Government. It was very good to see recognition of the work of Wales for Africa and the benefits of our link with Mbale in eastern Uganda. I am very pleased that this motion recognises that.

Roeddwn yn siomedig nad oeddwn yn gallu mynd i'r gynhadledd yn Durban, ond roeddem yn falch iawn o anfon swyddog, Jon Townley, i gynrychioli Llywodraeth Cymru. Roedd yn dda iawn gweld gwaith Cymru o Blaid Affrica yn cael ei gydnabod a manteision ein cyswllt ag Mbale yn nwyrain Uganda. Rwy'n falch iawn bod y cynnig hwn yn cydnabod hynny.

The Wales-Mbale million tree project was showcased at the Momentum for Change launch in Durban in front of Ban Ki-moon and President Zuma of South Africa. That project, funded by Size of Wales, and devised and managed by our Wales for Africa programme, is an excellent example of the impact that Wales can have when we work

Cafodd prosiect Cymru-Mbale i blannu miliwn o goed ei arddangos yn lansiad Momentwm i Newid yn Durban o flaen Ban Ki-moon ac Arlywydd Zuma o Dde Affrica. Ariannwyd y prosiect hwnnw gan Maint Cymru, cafodd ei ddyfeisio a'i reoli gan Cymru o Blaid Affrica, ac mae'n enghraifft wych o'r effaith y gall Cymru ei chael pan

together with partners from the private and voluntary sectors.

fyddwn yn cydweithio â phartneriaid o'r sectorau preifat a gwirfoddol.

I was very lucky to visit Mbale in Uganda in 2010 and stayed overnight with a coffee-farming family who were benefiting from the tree-planting project. I was able to hear directly from the family of the positive impact of that assistance and membership of the Fairtrade scheme for them. There were transformative benefits in terms of education and life chances for the children of that family. I am thrilled at the strength and depth of the Wales-Mbale partnership and the fact that it was recognised by the United Nations in this way. When I was in Mbale, it was clear that the depth and breadth of Wales's engagement there was hugely encouraging. I pay tribute to the volunteers from PONT—the Partnerships Overseas Networking Trust—which is a Wales-Africa community link based in Pontypridd. It has now grown to include the Welsh Government, the UK and Danish Governments, the UN development programme alongside Welsh universities, hospitals, private businesses, South Wales Police, the Wales Ambulance Services NHS Trust, the Co-op and many others. It was hugely encouraging to see how that engagement and involvement has grown and the benefits that it is delivering, both to Mbale and to Wales.

Roeddwn yn lwcus iawn i gael ymweld ag Mbale yn Uganda yn 2010 ac i aros dros nos gyda theulu a oedd yn ffermio coffi ac a oedd yn elwa o'r prosiect plannu coed. Clywais yn uniongyrchol gan y teulu am yr effaith gadarnhaol y mae'r cymorth hwnnw a'u h aelodaeth o'r cynllun Masnach Deg wedi'i chael arnynt. Roedd manteision trawsnewidiol o ran addysg a chyfleoedd bywyd ar gyfer plant y teulu hwnnw. Rwyf wrth fy modd gyda chryfder a dyfnder partneriaeth Cymru-Mbale a'r ffaith y cafodd ei gydnabod gan y Cenhedloedd Unedig yn y modd hwn. Pan oeddwn yn Mbale, roedd yn amlwg bod hyd a lled ymgysylltiad Cymru yno yn galonogol iawn. Rwy'n talu teyrnged i'r gwirfoddolwyr o PONT—Ymddiriedolaeth Rhwydweithio Tramor rhwng Partneriaethau—sef cyswllt cymunedol rhwng Cymru ac Affrica sydd wedi'i leoli ym Mhontypridd. Mae bellach wedi tyfu i gynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraethau'r DU a Denmarc, rhaglen ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig, yn ogystal â phrifysgolion Cymru, ysbytai, busnesau preifat, Heddlu De Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y Co-op a nifer o rai eraill. Roedd yn galonogol iawn gweld sut y mae'r ymgysylltiad a'r cyfranogiad hwnnw wedi tyfu a'r manteision y mae'n eu cynnig i Mbale ac i Gymru.

Wales's presence at the United Nations framework convention on the climate change negotiating process presents us with very important opportunities to engage with key international partners to help to promote the vital work that we are doing in Wales and overseas on climate change and to share good practice. We play a crucial role in sharing how regional—or sub-national, or whatever term we use—Governments can input to this agenda. Thanks to the Momentum for Change launch and our continued membership of the Network of Regional Governments for Sustainable Development, we now have a much higher profile than our size alone would suggest. Dafydd Elis-Thomas was absolutely right to point to the fact that regional Governments are key deliverers when it comes to addressing climate change. Therefore, we have a very

Mae presenoldeb Cymru yng nghonfensiwn fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y broses o drafod y newid yn yr hinsawdd yn cyflwyno cyfleoedd pwysig inni ymgysylltu â'r prif bartneriaid rhyngwladol i helpu i hyrwyddo'r gwaith hanfodol rydym yn ei wneud yng Nghymru a thramor ar y newid yn yr hinsawdd ac i rannu arfer da. Rydym yn chwarae rhan hanfodol wrth rannu sut y gall Llywodraethau rhanbarthol—neu is-genedlaethol, neu pa derm bynnag a ddefnyddiwn—lywio'r agenda hon. Diolch i lansiad Momentwm i Newid a'n haelodaeth barhaus o Rwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy, mae gennym bellach broffil llawer uwch nag y byddai ein maint yn awgrymu. Roedd Dafydd Elis-Thomas yn llygad ei le wrth gyfeirio at y ffaith bod Llywodraethau rhanbarthol yn allweddol o ran mynd i'r afael

important role to play in terms of learning from each other, sharing good practice and making sure that we work with others.

â'r newid yn yr hinsawdd. Felly, mae gennym rôl bwysig iawn o ran dysgu oddi wrth ei gilydd, rhannu arfer da a gwneud yn siŵr ein bod yn gweithio gydag eraill.

I join other Members here in welcoming the outcomes from Durban as a significant step forward in securing a global deal to curb emissions and welcome the way that the European Union has worked with other key international partners to secure a roadmap for this. I very much welcome the comments made by William Powell in recognising that big step forward at Durban and the role of the European Union.

Rwy'n ymuno ag Aelodau eraill yma wrth groesawu'r canlyniadau o Durban fel cam sylweddol ymlaen o ran sicrhau cytundeb byd-eang i leihau allyriadau ac rwy'n croesawu'r ffordd y mae'r Undeb Ewropeaidd wedi gweithio gyda'r prif bartneriaid rhyngwladol eraill er mwyn sicrhau ffordd ymlaen. Rwy'n croesawu'n fawr y sylwadau a wnaed gan William Powell wrth gydnabod y cam mawr ymlaen hwnnw yn Durban a rôl yr Undeb Ewropeaidd.

While I am upbeat and encouraged by the outcomes of Durban, many details remain to be resolved. The form of a future deal has yet to be determined, as does the extent of its legal force and the timing of its implementation. The focus must now be on a speedy negotiation of a new legal agreement, and all countries must now take the necessary action to avoid dangerous climate change.

Er fy mod yn obeithiol ac wedi fy nghalonogi gan ganlyniadau Durban, mae llawer o fanylion i'w penderfynu o hyd. Mae ffurf unrhyw gytundeb yn y dyfodol eto i'w benderfynu, yn ogystal â maint ei rym cyfreithiol a phryd y caiff ei weithredu. Nawr rhaid inni ganolbwyntio ar negodi cytundeb cyfreithiol newydd yn gyflym, a rhaid i bob gwlad gymryd y camau angenrheidiol i osgoi newid peryglus yn yr hinsawdd.

In Wales, we have committed in our climate change strategy and programme for government to lead by example, by continuing to focus on delivering our commitments to reduce emissions and adapt to climate change impacts. I agree with Leanne Wood, although she is not present at the moment, that some of the work that we are doing around energy efficiency with schemes such as Arbed and Nest is significant and makes a meaningful contribution.

Yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo yn ein strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd a'n rhaglen lywodraethu i arwain drwy esiampl, gan barhau i ganolbwyntio ar gyflawni ein hymrwymiadau i leihau allyriadau ac i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Rwy'n cytuno â Leanne Wood, er nad yw hi'n bresennol ar hyn o bryd, bod rhywfaint o'r gwaith rydym yn ei wneud ynghylch effeithlonrwydd ynni drwy gynlluniau fel Arbed a Nyth yn arwyddocaol a'i fod yn gwneud cyfraniad ystyrlon.

I am especially keen to use the opportunity presented by the UN conference on sustainable development, Rio+20, to promote Wales to a global audience. We have four key objectives for the summit: to promote our international sustainable development programme, Wales for Africa; to promote our domestic climate change actions; to promote our draft sustainable development Bill; and to promote Welsh businesses to the global sustainable development market, and to the Brazilian economy in particular.

Rwy'n arbennig o awyddus i fanteisio ar y cyfle a gynigir gan gynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar ddatblygu cynaliadwy, Rio+20, i hyrwyddo Cymru i gynulleidfa fyd-eang. Mae gennym bedwar prif amcan ar gyfer yr uwchgynhadledd: hyrwyddo ein rhaglen datblygu rhyngwladol cynaliadwy, Cymru o Blaid Affrica; hyrwyddo'r camau rydym yn eu cymryd yma yng Nghymru i ddelio â'r newid yn yr hinsawdd; hyrwyddo ein Bil datblygu cynaliadwy drafft; a hybu busnesau Cymru i'r farchnad datblygu cynaliadwy byd-eang,

ac i economi Brasil yn arbennig.

One of the two themes of Rio+20 is sustainable development governance, so I intend to take full advantage of the opportunity to promote our innovative sustainable development Bill, and to learn from others to make that Bill as effective as it possibly can be.

Un o ddwy thema Rio+20 yw llywodraethu datblygu cynaliadwy, felly rwy'n bwriadu manteisio'n llawn ar y cyfle i hyrwyddo ein Bil datblygu cynaliadwy arloesol, ac i ddysgu oddi wrth eraill i wneud y Bil mor effeithiol ag y gall fod.

We will work closely with our partners in NRG4SD and in the climate group. We will promote the role of regional, sub-national and sub-member-state Governments in the global negotiations, and secure outcomes that enable us to maximise participation and benefit for mutual and international advantage.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn NRG4SD ac yn y grŵp hinsawdd. Byddwn yn hyrwyddo rôl Llywodraethau rhanbarthol ac is-genedlaethol a Llywodraethau'r is-aelod-wladwriaethau yn y trafodaethau byd-eang, ac yn sicrhau canlyniadau a fydd yn ein galluogi i sicrhau'r cyfranogiad a'r budd mwyaf posibl er ein lles ni ein hunain a lles gwledydd eraill.

We will also work closely with the UK Government to play our part in ensuring the best possible outcome. I am happy to recognise the achievements of the UK Government and Chris Huhne in Durban. In fact, had the Conservative amendment proposed that, rather than substituting working with the UK Government for working with NRG4SD, I would have been happy to accept it. However, that is not the case.

Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i chwarae ein rhan wrth sicrhau'r canlyniad gorau posibl. Rwy'n hapus i gydnabod llwyddiannau Llywodraeth y DU a Chris Huhne yn Durban. Yn wir, pe bai gwelliant y Ceidwadwyr wedi cynnig hynny, yn hytrach na rhoi 'gweithio gyda Llywodraeth y DU' yn lle 'gweithio gydag NRG4SD', byddwn wedi bod yn hapus i'w dderbyn. Fodd bynnag, nid felly y bu.

In conclusion, I thank all Members for their contribution to this debate. I am pleased to have had the opportunity to lay out the Welsh Government's plans for a successful Welsh engagement in the crucial Rio+20 summit.

I gloi, hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniad at y ddadl hon. Rwy'n falch fy mod wedi cael y cyfle i amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru yn cyfrannu'n llwyddiannus at uwchgynhadledd hollbwysig Rio+20.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Rwy'n diolch i'r Gweinidog am ei sylwadau. Rwy'n falch o gael cadarnhad y bydd yn bresennol yn Rio+20, ac y bydd yno yn cyflwyno safbwynt Cymru. Mae hynny'n allweddol bwysig i ni fel Cynulliad—dof at hynny yn y munud, pan fyddaf yn gwneud rhai sylwadau pellach am welliant y Ceidwadwyr ar ôl clywed eu dadleuon gwantan o'i blaid.

**Lord Elis-Thomas:** I thank the Minister for his comments. I am pleased to have confirmation that we will attend Rio+20, and that he will be there putting forward the views of Wales. That is crucially important for us as an Assembly—I will return to that in a moment, when I make some further comments on the Conservatives' amendment, having heard their weak arguments in favour of it.

Yn y lle cyntaf, diolch i William Powell am y modd y cyflwynodd ei welliant. Nid oeddwn yn datgan nad oeddwn yn barod i dderbyn y gwelliant o safbwynt y ffordd y bydd fy

First of all, I thank William Powell for the way in which he moved his amendment. I was not saying that I was not willing to accept the amendment in terms of how we

ngrŵp yn pleidleisio oherwydd beirniadaeth o'r Democratiaid Rhyddfrydol na'r Gweinidog. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod cyfraniad yr Undeb Ewropeaidd yn ogystal â'r Deyrnas Unedig i'r trafodaethau hyn. Roeddwn am ganolbwyntio'n benodol yn fy nghynnig ar gyfraniad Llywodraeth Cymru. Mae'n mynd dipyn bach yn groes i'r graen i weld cynigion yn y Cynulliad Cenedlaethol sy'n canmol Gweinidog San Steffan—rwy'n dweud hynny wrth basio.

would vote as a group because of any criticism of the Liberal Democrats or of the Minister. However, it is important to recognise the contribution of the European Union as well as the United Kingdom to these discussions. In my motion, I wanted to focus specifically on the contribution of the Welsh Government. It goes against the grain somewhat to see motions in National Assembly that praise Westminster Ministers—I say that in passing.

Rwyf hefyd yn diolch i William am ei bwyslais ar bwysigrwydd deddf ryngwladol ac nid cynigion gwirfoddol na rhyw fath o farchnad drefnedig—er fy mod yn parchu pwysigrwydd hynny mewn dadleuon cyffredinol am gynaliadwyedd. Cyflwyno deddf ryngwladol sydd yn ymdrin â newid yn yr hinsawdd oedd cyfraniad mawr Durban. Mae hynny'n arbennig o bwysig, yn ogystal â'r gronfa hinsawdd werdd.

I also thank William for his emphasis on the importance of international law rather than some voluntary system or a managed market—although I respect the importance of that in general debates about sustainability. The important contribution made by Durban was the introduction of international law on climate change. That is extremely important, as is the green climate fund.

5.30 p.m.

Mae hynny'n fy arwain at gyfraniad y Ceidwadwyr. Mae ambell ddiwrnod yn fy mywyd yn f'atgoffa pam na fûm erioed, a pham na fyddaf i byth, yn aelod o unrhyw blaid geidwadol. Yr wyf wedi cael llawer o gyfeillion a oedd yn ddemocratiaid Cristnogol ledled Ewrop yn ystod fy mywyd cymhleth. Serch hynny, pan fyddaf yn wynebu ceidwadaeth unoliaethol Brydeinig ar ei gorau, cofiaf fy mod yn eistedd neu'n sefyll lle yr ydwyf. Nid mater o ddysgu oddi wrth ein gilydd yw'r broses o gydweithio rhwng y rhanbarthau a'r llywodraethau rhanbarthol yn y byd; mae lefel arall o lywodraethiant sy'n weithredol yn y maes polisi hwn sy'n gallu gwneud a dweud pethau nad yw'r lefel wladwriaethol yn gallu eu gwneud a'u dweud. Pa bryd, felly, fydd y bobl hyn yn derbyn bod Cymru ochr yn ochr â Chatalonia, Fflandrys, Wallonie, Bwrgwyn, yr Azores—peidiwch ag anghofio am yr Azores—Aragon yn Sbaen a Gwlad y Basg? Yn bwysicach na hynny, o ran cynhadledd y rhanbarthau ymylol morol, mae Cymru ochr yn ochr â rhanbarth Sofala ym Mozambique, y rhanbarthau yn Ne Affrica y cyfeiriais atynt eisoes, cymdeithas Brasil o sefydliadau yr amgylchedd, a sefydliadau llywodraethau rhyng-gyfryngol America Ladin. Yr ydym yn sôn am gyrff rhyngwladol sy'n fawr yn eu

This brings me to the contribution made by the Conservatives. There are some days in life when I reminded why I have never been, and never will be, a member of any conservative party. During my complicated life, I have had many friends throughout Europe who were Christian democrats. However, when I face unionist British conservatism at its very best, I remember why I sit or stand where I do. Collaboration between regions and regional governments around the globe is not a matter of learning from one another; there is another level of governance at work in this policy area that can do and say things that the member-state level cannot. When, therefore, will these people accept that Wales stands side by side with Catalonia, Flanders, Wallonie, Burgundy, the Azores—do not forget about the Azores—Aragon in Spain and the Basque Country? More importantly, in terms of the conference of peripheral maritime regions, Wales stands side by side with the Sofala region of Mozambique, the regions of South Africa to which I have already referred, the association of environmental agencies in Brazil, and the institutions of intermediary governments in Latin America. We are talking about major international organisations in their own right that represent

hawl eu hunain ac sy'n cynrychioli rhannau o'r byd sydd, mae'n ddrwg gennyf ddweud, yn fwy na'r Deyrnas Unedig. Efallai ei bod yn anodd i'r Ceidwadwyr ddychmygu byd heb y Deyrnas Unedig, neu fyd sy'n fwy na'r Deyrnas Unedig.

parts of the world that, I am sorry to say, are bigger than the United Kingdom. It may be difficult for the Conservatives to imagine a world without the United Kingdom, or a world that is bigger than the UK.

Do you wish to intervene, William? I will give way to you.

A ydych yn dymuno ymyrryd, William? Gwnaf ildio i chi.

**William Graham:** The United Kingdom economy remains the sixth or seventh largest in the world and has an enormous influence on the environment and a proud record.

**William Graham:** Mae economi'r Deyrnas Unedig yn parhau i fod y chweched neu'r seithfed economi mwyaf yn y byd ac mae'n cael dylanwad aruthrol ar yr amgylchedd ac mae ganddi record i fod yn falch ohoni.

**Lord Elis-Thomas:** I was talking about representative organisations, which is what the NRG4SD is all about. I am not arguing that the United Kingdom and its capital should not be represented, as long as it exists. However, it surely should not be seen as the only avenue through which this organisation participates. I will now move on to Leanne Wood. [*Laughter.*]

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Roeddwn yn siarad am sefydliadau cynrychioliadol, sef diben NRG4SD. Nid wyf yn dadlau na ddylai'r Deyrnas Unedig a'i chyfalaf gael eu cynrychioli, cyn belled ag y mae'n bodoli. Fodd bynnag, ni ddylai, o bosibl, gael ei gweld fel yr unig ffordd y mae'r sefydliad hwn yn cymryd rhan. Byddaf yn awr yn symud ymlaen at Leanne Wood. [*Chwerthin.*]

Diolchaf yn fawr i Leanne Wood am ei geiriau caredig. Hoffwn ddiolch yn arbennig iddi am ei chyfeiriadau at lwyddiant y cynllun Arbed ac am wneud y cysylltiad pwysig hwn—cysylltiad sy'n thema inni ar yr ochr yma i'r Siambr, beth bynnag—rhwng rôl y diwydiant adeiladu o ran creu swyddi a'r angen i ddelio â thlodi tanwydd.

I thank Leanne Wood for her kind words. I thank her in particular for her references to the success of the Arbed scheme and for making the important link—which is a theme for us on this side of the Chamber at least—between the role of the construction industry in creating jobs and the need to deal with fuel poverty.

Trof yn awr at fy nghydweithwraig ar y pwyllgor, Antoinette Sandbach, a fu'n dadlau unwaith eto yn y dull unoliaethol, fel rhan o'r corws unoliaethol rydym wedi'i gael gan y Ceidwadwyr yn y ddadl hon. Yn ôl Antoinette Sandbach, roedd Cymru'n dyblygu cyfraniadau'r Deyrnas Unedig. Yr wyf yn siŵr bod y Ceidwadwyr yn dweud yr un peth am yr Undeb Ewropeaidd—os nad yw'r cyfraniad yn dod oddi wrth y Deyrnas Unedig, nid yw'r cyfraniad hwnnw'n werthfawr. Y gwir amdani yw bod y rhanbarthau'n cyfrannu'n uniongyrchol oherwydd eu rôl arbennig yn y maes hwn.

I now turn to my committee colleague, Antoinette Sandbach, who argued once again in that unionist manner, as part of the unionist chorus that we have heard throughout this debate from the Conservatives. Wales was duplicating the contributions of the United Kingdom according to Antoinette Sandbach. I am sure that they say the same thing about the European Union—if the contribution is not made by the United Kingdom, then it is without value. The fact of the matter is that the regions contribute directly because of their particular role in this area.

Hoffwn ddiolch i Rhodri Glyn Thomas am adrodd ei hanes ar Bwyllgor y Rhanbarthau ac am sôn am bwysigrwydd hyn yn y cyd-destun Ewropeaidd a'r cyfraniad sy'n cael ei wneud yn amgen i gyfraniad yr aelod

I would like to thank Rhodri Glyn Thomas for recounting his experience on the Committee of the Regions and for highlighting its importance in the European context and the distinct contribution it makes

wladwriaethau. Wrth gloi, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog. Yr oeddwn wedi ystyried cynnwys enw Jon Townley yn y cynnig, ond roeddwn o'r farn y gallwn fod yn mynd yn groes i ryw arfer o beidio ag enwi swyddogion drwy wneud hynny. Serch hynny, hoffwn ganmol Jon yn gyhoeddus am ei gyfraniad, a chanmol yr elusen arbennig Size of Wales. [*Torri ar draws*.]

as opposed to that of member states. I would like to thank the Minister in concluding. I had considered naming Jon Townley in the motion, but I then thought that doing that would perhaps be in breach of some convention whereby officials are not named. However, I would like to publicly praise Jon for his contribution, and recognise the excellent charity Size of Wales. [*Interruption*.]

You are not suggesting that Jon Townley is the 'size of Wales', are you? Is that what you are saying? [*Interruption*.]

Nid ydych yn awgrymu bod Jon Townley yr un maint â Chymru, ydych chi? Ai dyna rydych yn ei ddweud? [*Torri ar draws*.]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. When people respond to those who have made comments from sedentary positions, it is very difficult to follow the debate. [*Interruption.*] Order. I am making a ruling. That is as the honourable gentleman many times used to rule, when he sat in this chair.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Pan fydd pobl yn ymateb i'r rheini sydd wedi gwneud sylwadau o'u seddi, mae'n anodd iawn dilyn y drafodaeth. [*Torri ar draws.*] Trefn. Rwy'n gwneud dyfarniad. Dyna sut wnaeth y gŵr bonheddig ddyfarnu nifer o weithiau, pan fu'n eistedd yn y gadair hon.

**Lord Elis-Thomas:** You have got me now. I think that I had better move on. [*Laughter*.]

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Nid oes gennyf ateb i hynny. Rwy'n credu y byddai'n well imi symud ymlaen. [*Chwerthin.*]

Yn olaf, pwysleisaf yr hyn sydd i ddod: fframwaith newydd yn Rio+20. Rwyf yn falch, fel y dywedais, bod y Gweinidog yn mynd i fod yno. Bydd yn chwilio, fel NRG4SD, am gyfraniad lefel newydd o lywodraethiant i gael ei gydnabod, yn ogystal â rôl cyfranddeiliaid o bob math, gan gynnwys cymdeithas sifil, oherwydd mae'r byd wedi newid am byth. Mae her newid yn yr hinsawdd yn golygu bod yn rhaid i ni sy'n wynebu'r her yn ymarferol ar y ddaear, yn ein rhanbarthau drwy'r byd, y de a'r gogledd, allu cydweithio gyda'n gilydd. Rwyf yn hyderus y bydd y Gweinidog yn llais cryf i Gymru a rhanbarthau'r byd yn Rio+20.

Finally, I emphasise what it is come: a new framework in Rio+20. I am pleased, as I said, that the Minister will be present. He will be searching, like NRG4SD, for the contribution of a new level of governance to be recognised, along with the role of stakeholders of all kinds, including civic society, because the world has changed for ever. The challenge of climate change means that we who face that challenge on a practical level on the ground, in our regions throughout the world, north and south, must be able to work together. I am confident that the Minister will be a strong voice for Wales and the regions of the world in Rio+20.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bob pleidlais ar y eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Is there any objection? I see that there is, therefore I will defer all voting on this item until voting time.

Are there three Members who wish the bell to be rung? I see that there are not, so we will proceed to the votes.

A oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes, felly symudwn ymlaen at y pleidleisiau.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

# Cyfnod Pleidleisio
# Voting Time

*Cynnig NDM4899: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 39.*
*Motion NDM4899: For 13, Abstain 0, Against 39.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Sargeant, Carl
Gregory, Janice
Hutt, Jane
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Griffiths, Lesley
Griffiths, John
Black, Peter
Williams, Kirsty
Davies, Jocelyn
Jones, Elin
Jones, Alun Ffred
Thomas, Gwenda
Davies, Alun
Cuthbert, Jeff
Hedges, Mike
Chapman, Christine
Davies, Keith
James, Julie
Roberts, Aled
Parrott, Eluned
Powell, William
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Whittle, Lindsay
Rees, David
Morgan, Julie
Skates, Kenneth
Antoniw, Mick
Gething, Vaughan
Watson, Joyce
Evans, Rebecca
Neagle, Lynne
Rathbone, Jenny
Drakeford, Mark
Price, Gwyn R.

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4899: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 18.*
*Amendment 1 to NDM4899: For 34, Abstain 0, Against 18.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron

Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay

Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4899: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 18.*
*Amendment 2 to NDM4899: For 34, Abstain 0, Against 18.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4899: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 18.*
*Amendment 3 to NDM4899: For 34, Abstain 0, Against 18.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4899: O blaid 31, Ymatal 8, Yn erbyn 13.*
*Amendment 4 to NDM4899: For 31, Abstain 8, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.

Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM4899: O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 5 to NDM4899: For 52, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark

Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM4899 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn cydnabod ei bod yn rhaid canolbwyntio ar gefnogi ac ymestyn disgyblion o bob gallu er mwyn gwella cyrhaeddiad a safonau addysgol ar draws Cymru, gan ddechrau yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.*

*2. Yn croesawu'r cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r graddau uchaf mewn arholiadau TGAU yng Nghymru er 1999.*

*3. Yn croesawu'r £20 miliwn ychwanegol o fuddsoddiad ar gyfer y Gronfa Amddifadedd Disgyblion y cytunwyd arno yng nghyllideb derfynol mis Rhagfyr ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut y bydd yn*

Motion NDM4899 as amended:

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Recognises that to improve educational standards and attainment across Wales, there must be a focus on supporting and stretching pupils of all abilities, starting in our most deprived communities.*

*2. Welcomes the increase in the number of pupils achieving top grades in GCSEs in Wales since 1999.*

*3. Welcomes the additional £20 million investment for the Pupil Deprivation Fund agreed in December's final budget and calls on the Welsh Government to identify how it will monitor the fund to ensure that it is used*

*monitro'r gronfa i sicrhau y bydd yn cael ei defnyddio i wella safonau addysgol.*

*to improve educational standards.*

*4. Yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod data am 'Wariant a Gyllidebwyd gan Awdurdodau Lleol ar gyfer Ysgolion: Cymhariaeth Cymru/Lloegr' yn parhau i fod ar gael er mwyn sicrhau bod modd monitro gwariant i wella safonau addysgol.*

*4. Calls on the government to ensure that data on 'Local Authority Budgeted Expenditure on Schools: Wales/England Comparison' continue to be made available in order to ensure that spending can be monitored to improve educational standards.*

*Cynnig NDM4899 fel y'i diwygiwyd: O blaid 39, Ymatal 0, Yn erbyn 13.*
*Motion NDM4899 as amended: For 39, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y cynnig NDM4899 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4899 as amended agreed.*

*Cynnig NDM4900: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 18.*
*Motion NDM4900: For 34, Abstain 0, Against 18.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:

The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay

The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** That concludes today’s business. Thank you**.**

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.39 p.m.*
*The meeting ended at 5.39 p.m.*

**Aelodau a’u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Dixon, John (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)

Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Demcratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)